Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 26 TACHWEDD 2024 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 26 NOVEMBER 2024 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**4** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**6** **CERDYN SGÔR CORFFORAETHOL - CHWARTER 2, 2024/25** (Tudalennau 17 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2, 2024/25** (Tudalennau 33 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2024/25** (Tudalennau 59 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 2, 2024/25** (Tudalennau 75 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**10** **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2025/26** (Tudalennau 87 - 92)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran

151.

**11** **LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023/24** (Tudalennau 93 - 110)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**12** **CYNLLUN STRATEGOL MODERNEIDDIO'R GWASANAETH OEDOLION 2024-2029** (Tudalennau 111 - 148)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**13** **CYNLLUN STRATEGOL MÔN ACTIF 2024/29** (Tudalennau 149 - 170)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**14** **ASESIAD Y FARCHNAD DAI LEOL** (Tudalennau 171 - 292)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Gary Pritchard (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (THJ) (ar gyfer eitem 11 yn unig),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Trefor Ll Hughes MBE, Robert Ll Jones, Derek Owen. |

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd.

**2 DATGAN BUDDIANT**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.**MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim i'w hadrodd.

**4 COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Medi 2024 eu cyflwyno i'w cadarnhau.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2024 fel cofnod cywir.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2024 i Fehefin 2025, i'w gadarnhau.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar yr eitemau newydd ar y Blaen Raglen Waith.

Dywedodd y Cadeirydd bod angen diwygio'r eitem ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol o dan y rhestr o eitemau sydd wedi'u rhaglennu ar gyfer mis Tachwedd 2024 gan mai'r Cynghorydd Robin Williams yw'r Aelod Portffolio erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2024 i Fehefin 2025 gyda'r newidiadau ychwanegol a nodwyd yn y cyfarfod.**

## 6 ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a oedd y cynnwys yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2023/2024, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai. Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad rheoli'r trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Cod) a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu ar yr adroddiad yn i gyfarfod ar 19 Medi 2024. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn unwaith y bydd wedi cael ei dderbyn gan y Pwyllgor hwn. Mae'r adroddiad yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys a buddsoddiadau a benthyciadau.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2023/2024 yn parhau, ond nad oes disgwyl i unrhyw faterion effeithio ar yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol. Nododd mai'r strategaeth ariannol ers nifer o flynyddoedd yw cyfyngu benthyciadau a defnyddio balansau arian parod y Cyngor i ariannu gwariant cyfalaf. Mae hyn yn golygu ei fod yn osgoi costau benthyca ychwanegol pa fo cyfraddau llog yn uchel. Caiff unrhyw arian dros ben ei fuddsoddi yn y sector bancio neu ei fenthyca i awdurdodau lleol eraill (sy'n arfer cyffredin rhwng awdurdodau lleol). Mae balansau arian parod y Cyngor wedi gostwng yn ystod y flwyddyn gan fod y Cyngor ac ysgolion wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllidebau refeniw a defnyddio balansau arian parod i ariannu gwariant cyfalaf yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol. Rhagwelir y bydd angen benthyca cyn diwedd y flwyddyn ariannol a hyderwn y bydd cyfraddau llog wedi gostwng erbyn hynny gan leihau costau benthyca.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau dros dro tan y bydd Archwiliad o Ddatganiad y Cyfrifon 2022/23 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiad sylweddol i'r ffigyrau yn yr adroddiad yn cael ei adrodd fel bo'n briodol;**
- **Nodi dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2022/23 yn yr adroddiad;**
- **Trosglwyddo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn gydag unrhyw sylwadau.**

## 7 CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI RISG LLIFOGYDD LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol Risg Llifogydd drafft, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod y Cynllun Risg Llifogydd yn darparu crynodeb o'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Nododd bod y ddwy ddogfen yn nodi cynlluniau'r Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn Ynys Môn am gyfnod o chwe blynedd ac y byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae datblygiad y Cynllun Strategol Rheoli Llifogydd wedi'i ariannu drwy gyllidebau refeniw presennol a dyraniad rheoli perygl llifogydd blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau da o waith a gwblhawyd i liniaru llifogydd yn ardal Biwmares, y Fali, Dwyran a Phentraeth.

Adroddodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i ddelio â llifogydd a pherygl llifogydd. Bydd newid hinsawdd yn achosi mwy o law a stormydd. Mae gwaith yn cael ei gwblhau â sefydliadau partner a chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd, fodd bynnag bydd gallu'r Cyngor i gyflawni amcanion y Cynllun yn ddibynnol ar adnoddau ariannol ynghyd â chyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud bod y gwaith ymgysylltu pellach a chodi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd yn hollbwysig, ond y bydd cyflawni'r amcanion hynny'n ddibynnol ar adnoddau staffio.

Dywedodd y Cadeirydd bod erydu arfordirol hefyd yn ffactor, a nododd ei bod hi'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth i liniaru llifogydd. Cyfeiriodd ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Wardeiniaid Llifogydd mewn cymunedau lleol, a bod y gwaith hwnnw'n ddibynnol ar gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth y Cadeirydd ddiolch i'r staff am eu gwaith.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at y llifogydd yn ei ward ef ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll yn 2017. Fodd bynnag ni ddaethpwyd o hyd i ddatrysiad i liniaru'r risg o lifogydd pellach. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod dau ddigwyddiad yn 2017, un yn ardal Penlon, Porthaethwy a'r llall yn Llanfairpwll. Dywedodd bod adroddiad Rhan 19 yn cael ei gynhyrchu wedi i eiddo ddioddef llifogydd sy'n canolbwyntio ar yr effaith ar drigolion. Wedyn, cynhelir trafodaethau â Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid grant i baratoi achos busnes, sy'n broses hirfaith. Dywedodd y bydd yn heriol lliniaru llifogydd yn yr ardal hon gan fod sawl eiddo ar strydoedd cul ynghyd â busnesau, sy'n ei gwneud hi'n anodd symud y problemau draenio i'r cwrs dŵr. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei gwblhau yn yr ardal ac mae gwaith yn dal i fynd rhagddo. Ond, mae heriau yn gysylltiedig â'r

cynlluniau lliniaru i sicrhau na fydd llifogydd pellach. Mae problemau hefyd yn gysylltiedig â gosod pibellau mawr drwy erddi pobl a ger waliau terfyn gan fod hyn yn peri pryder i drigolion yr ardal. Mae blaenoriaethu a rhaglennu'r cynlluniau yn heriol yn sgil costau uchel y gwaith sydd angen ei gwblhau. Mae Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo 85% o'r holl gostau ond mae'n ofynnol i'r Cyngor ariannu'r 15% sy'n weddill, sy'n swm sylweddol o arian.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts bod y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn cyfeirio at sefydlu cofrestr draeniau a chyrsiau dŵr. Roedd yn dymuno cael gwybod a oes ffigwr pendant ar gyfer draeniau a gwybodaeth ynglŷn â'u cyflwr. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod rhwydwaith eang o bibellau dŵr tanddaearol hanesyddol ac ar dir amaethyddol. Bydd y gwaith o archwilio pibellau dŵr a draeniau yn ddibynnol ar adnoddau ariannol a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Strategol Rheoli Llifogydd drafft a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (LFRMS) ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol.**

## 8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni.**

## 9 DIWEDDARIAD AR GYNNYDD RHAGLEN 'CYSYLLTU GOFAL' - CAFFAEL A CHYLLID

Cyflwynwyd Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys Diweddariad ar Gynnydd y Rhaglen Cysylltu Gofal – Caffael a Chyllid, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod y Rhaglen Cysylltu Gofal wedi esblygu o'r angen i gynnig darpariaeth yn lle System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), yn dilyn adolygiad strategol ddaeth i'r casgliad nad oedd yr WCCIS bellach yn addas i'r diben. Mae'r Rhaglen Cysylltu Gofal yn cydnabod yr angen i gefnogi sefydliadau i ymgorffori a chynnal systemau gwybodaeth cleientiaid er mwyn cefnogi gofynion gweithredol a strategol yn ogystal â chynnal ymrwymiad i gyflawni targed gofal cenedlaethol ar gyfer dinasyddion Cymru. Ar hyn o bryd, mae 19 partner (16 Awdurdod Lleol a 3 Bwrdd Iechyd) yn gweithio gyda'r Rhaglen Cysylltu Gofal. Mae'r Cyngor hwn wedi bod yn gweithio ag Awdurdodau yng Ngogledd Cymru i gaffael system newydd er mwyn gwneud arbedion sylweddol a chael cefnogaeth a chyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer system genedlaethol newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ariannol er mwyn darparu system newydd ond nid yw wedi nodi faint o gyllid fydd ar gael, a sut fydd yn cael ei ddyrannu. Roedd cost bresennol contract WCCIS Ynys Môn wedi'i amlinellu yn yr adroddiad. Mae angen cadarnhad ynghylch y cyllid cenedlaethol er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r system a chostau parhaus. Mae disgwyl i

Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid cenedlaethol ar gyfer y system Cysylltu Gofal, fodd bynnag nid yw hyn wedi'i gadarnhau ac mae oedi wedi bob wrth benderfynu a fyddant yn ariannu'r cynllun yn llawn neu'n rhannol. Gan na fydd hynny'n cael ei gadarnhau cyn gwerthuso a dyfarnu'r tendr, ac o gofio nad oes gan Ynys Môn ddewis ond disodli ei system WCCIS, roedd yr adroddiad yn amlygu bod angen sicrhau cyllideb fel y gall swyddogion fwrw 'mlaen â'r cynllun.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion bod yr oedi o ran ymateb y Llywodraeth i'r Rhaglen Cysylltu Gofal hwn yn rhwystredig iawn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r dull a ffafrir, fel y disgrifir yn yr Adroddiad hwn, ac yn unol â pharagraff 3.5.1.6 i awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (neu ei enwebai) i gymryd rhan llaw yn nyfarniad y contract a'r gwaith o ffurfioli'r contract.**
- **Petai Llywodraeth Cymru yn methu â darparu'r cyllid disgwyliedig, neu os yw'r cyllid yn annigonol, bydd y 4 Gyllideb arfaethedig i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2025/2026 yn cynnwys:-**
  - **Swm untro o rhwng £276,000 a £313,000 ar gyfer y gost gweithredu contract;**
  - **Swm refeniw bob blwyddyn o rhwng £108,000 a £153,000 (ar gyfer trwyddedau a chostau lletya):**
  - **Swm untro o £58,000 er mwyn ariannu swydd Graddfa 5 i gefnogi gweithrediad, hyfforddiant a chefnogaeth i'r system bresennol o Ebrill 2025 am gyfnod o flwyddyn.**
  - **Yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor, o ganlyniad i'r amserlen dynn a ddisgrifir yn yr Adroddiad, mae'r Pwyllgor Gwaith yn eithrio'r penderfyniad rhag gallu cael ei alw i mewn gan Sgriwtini gan y byddai'r amserlen angenrheidiol ar gyfer y broses alw i mewn yn niweidiol i fudd gorau'r Cyngor a'r cyhoedd.**

## 10 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni.**

## 11 PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN - CYNNYDD PARATOADAU'R ACHOS BUSNES LLAWN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, a oedd yn nodi hynt y gwaith o baratoi'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd bod yr Achos Busnes Llawn yn cael ei ddatblygu yn unol â'r canllawiau terfynol ar gyfer Porthladdoedd Rhydd. Mae'r Cyngor a'i ymgynghorwyr yn gweithio ar y cyd â

Stena a’u hymgynghorwyr i gyflwyno’r Achos Busnes Llawn erbyn diwedd mis Hydref.

Dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd ei fod yn rhagweld y bydd oedi o hyd at 2 i 3 wythnos yn yr amserlen ar gyfer cwblhau’r Achos Busnes Llawn.

**PENDERFYNWYD dirprwyo awdurdod i’r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â’r Arweinydd a’r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Cyfarwyddwyr Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro ac Adnoddau/Adran 151, i gymeradwyo a chyflwyno’r Achos Busnes Llawn drafft i’r Llywodraeth i’w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

**CYNGHORYDD GARY PRITCHARD**
**CADEIRYDD**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 26 Tachwedd 2024 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd.  Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2024 – Gorffennaf 2025;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2024 – Gorffennaf 2025 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Cyfnod: Rhagfyr 2024 – Gorffennaf 2025

Mae’r flaen raglen waith hon yn rhestru’r holl benderfyniadau y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny’n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae’n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o’r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.



Mae’r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu’n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw’r ffaith nad yw penderfyniad wedi’i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 12 Tachwedd 2024

## Rhagfyr 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 10 Rhagfyr 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cynllun Strategol Caffael a Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - 19 Tachwedd 2024 |
| | Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2025/26 | Cyng Robin Williams | |

## Ionawr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 21 Ionawr 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cyllideb Refeniw 2025/26 – cynigion cychwynnol | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 9 Ionawr 2025<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 15 Ionawr 2025 |
| | Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol 2025/26 | Cyng Alun Roberts | |
| | Gwasanaethau gofal cymdeithasol di-breswyl yn y gymuned – Ffioedd a thaliadau 2025/26 | Cyng Alun Roberts | |

Chwefror 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 18 Chwefror 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 12 Chwefror 2025 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 12 Chwefror 2025 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 12 Chwefror 2025 |
| | Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26 | Cyng Robin Williams | |
| | Ffioedd a Thaliadau 2025.26 | Cyng Robin Williams | |
| | Cartrefi'r awdurdod lleol i bobl hŷn – pennu ffi safonol 2025/26 | Cyng Alun Roberts | |
| | Polisi Iaith Gymraeg | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Chwefror 2025<br>Cyngor Llawn – 6 Mawrth 2025 |
| Cyfarfod 27 Chwefror 2025 | Strategaeth Gyfalaf | Cyng Robin Williams | Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025 |
| | Cyllideb Gyfalaf 2025/26 | Cyng Robin Williams | Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025 |
| | Cyllideb Refeniw 2025/26 – cynigion terfynol | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 19 Chwefror 2025<br>Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025 |

## Mawrth 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 25 Mawrth 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - 11 Mawrth 2025 |
| | Cynllun Ynni Ardal Lleol | Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Mawrth 2025 |
| | Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd Lleol | Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - 11 Mawrth 2025 |
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023/24 | Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Mawrth 2025 |



## Ebrill 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 29 Ebrill 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mai 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod mis Mai 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mehefin 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod mis Mehefin 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - |
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25 | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – |

## Gorffennaf 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod mis Gorffennaf 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 26 Tachwedd 2024 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2024/25) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

**1.2.1** Mae 31 o fusnesau lleol wedi derbyn cefnogaeth gan y rhaglen ARFOR.
**1.2.2** Mae holl ddangosyddion Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn Wyrdd yn erbyn targedau.
**1.2.3** Mae presenoldeb ar gyfer Cynradd (93.13%) ac Uwchradd (89.23%) wedi gwella yn ystod yr hanner tymor cyntaf (24/25) i gymharu â chanlyniadau diwedd blwyddyn academaidd 23/24 (91.98% Cynradd ac 87.10% Uwchradd).
**1.2.4** Mae 34 eiddo wedi cael ail ddod i ddefnydd trwy ymyriadau Cartrefi Gwag.
**1.2.5** Mae 97.4% o'r holl geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu o fewn amser
**1.2.6** Bellach mae gan Fflyd y Cyngor 34 o gerbydau trydan ar gael i staff, sef 17% o'r fflyd gyfan.

**1.3** **Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.**

**1.4** Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

**1.4.1** Addysg – 07) Môn Actif – Nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn
**1.4.2** Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)
**1.4.3** Tai - 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol

| | |
|---|---|
| **1.4.4** | Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd |
| **1.4.5** | Newid Hinsawdd - 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio |
| **1.4.6** | Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai dangosyddion perfformiad o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| | byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 19/11. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 2 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Cynllun y Cyngor 2023-2028<br>• Adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 1 |

# Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2024/25

## Adroddiad Chwarter 2



**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn nodi'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.



**Yr Iaith Gymraeg**



**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**



**Addysg**



**Tai**



**Economi**



**Newid Hinsawdd**

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer 24/25 wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy'n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.

1.3 Mae nifer o DPA yn newydd, nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan ddiwedd y flwyddyn. Mae tueddiadau'n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2024/25 gyda'r nod o osod targedau yn 2025/26.

1.4 Mae'n darparu'r dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.

1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio i gyd yn gronnol ac felly mae colofn tuedd ar gael o Ch2 i hysbysu'r tueddiadau perfformiad o un chwarter i'r llall chwarter.

1.6 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (85%) y dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae chwe dangosydd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn targedau, sef:

2.2.1 Addysg - 07) Môn Actif - Nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn - AMBR - 1,807 yn erbyn targed o - 1,900

Mae 1,765 o blant Ynys Môn ar y rhaglen Nofio Môn yn bresennol. Oherwydd anhawster recriwtio staff cymwys dros yr haf bu'n rhaid cwtogi ar y rhaglen nofio ac arweiniodd at ostyngiad yn y nifer o ddysgwyr i gymharu â pherfformiad Ch1.

Mae staff bellach wedi'u recriwtio ac mae'r gwasanaeth yn obeithiol y bydd cyfartaledd presenoldeb yn cynyddu yn ystod y chwarter nesaf o ganlyniad.

2.2.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – COCH – 49 diwrnod, Targed – 35 diwrnod

Mae rheolau Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS 2023[1]) wedi cael effaith ar eiddo gwag lle mae gofynion cydymffurfio wedi cynyddu mewn llawer o achosion. Pan fydd eiddo'n dod yn wag, mae'r gwasanaeth yn manteisio ar y cyfle i uwchraddio'r eiddo gyda gosodiad synwyryddion mwg newydd, PIVs (dyfais i leihau anwedd), a lloriau newydd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn manteisio ar y cyfle i addurno'r eiddo ar yr adeg hon. Fodd bynnag, oherwydd diffyg contractwyr ar gael ac yn benodol peintwyr, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y dyddiau nad yw eiddo ar gael i'w osod.

I geisio lliniaru'r sefyllfa, mae cyflwr pob eiddo yn cael ei arolygu i weld beth sydd angen ei wneud i'r eiddo cyn ei fod ar gael i'w osod. Mewn rhai amgylchiadau, gall tenantiaid gytuno i gymryd yr eiddo yn gynharach os ydynt yn fodlon addurno eu hunain. Gall gweithredu ar y cyd â Môn CF wella'r sefyllfa, yn enwedig o ran y materion addurno, a bydd digwyddiad "cyfarfod y prynwr" yn cael ei gynnal os oes angen gweithrediad pellach.

[1] Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 | LLYW.CYMRU

2.2.3 Tai - 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol – COCH – 3.55%, Targed - 3.10%

Mae'r ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu yn ystod Ch2 yn bennaf oherwydd cynnydd yn y nifer o geisiadau am Gredyd Cynhwysol (UC) gan denantiaid a chapasiti'r tîm oherwydd absenoldeb staff. Mae'r 'Ymfudo a Reolir' (managed migration) i UC, lle bydd pobl sy'n derbyn budd-daliadau treftadaeth yn cael eu hawliadau wedi'u trosglwyddo i UC, hefyd yn cynyddu'r ôl-ddyledion dros dro oherwydd y ffordd y darperir UC i hawlwyr. Dylai'r ôl-ddyledion wella unwaith y bydd yr hawliadau wedi'u cwblhau a'r dull ar gyfer casglu rhent wedi'i weithredu ar gyfer yr holl ymgeiswyr UC.

2.2.4 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd – AMBR – 83%, Targed – 90%

Cwblhawyd 44 o'r 49 archwiliad oedd i'w cynnal yn ystod Ch2, sy'n welliant o'i gymharu â pherfformiad o 71% ar gyfer Ch1. Mae hyn yn arwain at gyfanswm o 66 o'r 80 archwiliad (83%) wedi'u cwblhau rhwng Ebrill a Medi.

Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bydd y targed yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn drwy fonitro argaeledd staff i gynnal yr arolygiadau ac adleoli gwaith arall os oes angen. Wrth ddal i fyny â'r archwiliadau, bydd y gwasanaeth yn blaenoriaethu'r busnesau sydd â'r risg uchaf i'r cyhoedd yn y lle cyntaf.

2.2.5 Newid Hinsawdd - 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio - COCH – 67.2%, Targed 72%

Yn dilyn cyfnod cau blynyddol Parc Adfer am ychydig wythnosau yn ystod yr haf, nid oedd yn bosibl casglu data cyflawn tan rwan. Mae'r data yn dangos bod 67.2% o'r gwastraff wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio rhwng Ebrill a Mehefin, ac 67.2% oedd y canlyniad hefyd rhwng Gorffennaf a Medi. Mae'r canlyniadau hyn yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ac yn seiliedig ar ddata tueddiadau blaenorol, yn dangos na fydd yn bosibl cyrraedd y targed statudol o 70% erbyn diwedd 24/25.

Er mwyn lliniaru ac i geisio gwella'r gyfradd, mae'r cyngor wedi sefydlu Tîm Ymyrraeth Gwastraff yn ddiweddar, gyda'r nod o leihau gwastraff cyffredinol a chynyddu ailgylchu trwy weithio gyda'r cymunedau lleol i addysgu trigolion. Mae'r cyngor hefyd

wedi sefydlu bwrdd rhaglen i drafod pa gamau lliniaru pellach y gellir eu rhoi ar waith. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol a nodir gan y bwrdd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud.

2.2.6 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – AMBR – 82%, Targed – 90%

Cafwyd 156 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn ystod Ch2 gyda 125 ohonynt wedi'u hateb o fewn yr amserlen (80%). Mae hyn yn dod â'r cyfanswm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fedi i 330 o geisiadau FOI wedi'u hateb o fewn yr amserlen allan o'r 403 o geisiadau FOI (82%).

Mae'r perfformiad o 82% yn well na'r 80% a gyflawnwyd yn 2023/24 a'r 72% a gyflawnwyd yn 2022/23. Mae Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), a gafodd ei drafod yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi, yn darparu mwy o ddadansoddiad ar y prif faterion llywodraethu gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynyddu'r gyfradd ymateb ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth, ond oherwydd yr angen i wneud arbedion, mae rhywfaint o leihad mewn capasiti i ymdrin â thasgau o fewn y gwasanaethau yn golygu bod y targed o 90% yn parhau i fod yn un anodd.



2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cynnwys:

2.3.1 Mae 31 o fusnesau lleol wedi derbyn cefnogaeth gan y rhaglen ARFOR.
2.3.2 Mae holl ddangosyddion Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn Wyrdd yn erbyn targedau.
2.3.3 Mae presenoldeb ar gyfer Cynradd (93.13%) ac Uwchradd (89.23%) wedi gwella yn ystod yr hanner tymor cyntaf (24/25) i gymharu â chanlyniadau diwedd blwyddyn academaidd 23/24 (91.98% Cynradd ac 87.10% Uwchradd).
2.3.4 Mae 34 eiddo wedi cael ail ddod i ddefnydd trwy ymyriadau Cartrefi Gwag.
2.3.5 Mae 97.4% o'r holl geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu o fewn amser
2.3.6 Bellach mae gan Fflyd y Cyngor 34 o gerbydau trydan ar gael i staff, sef 17% o'r fflyd gyfan.

## 3. Yr Iaith Gymraeg

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2023/24 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran o swyddi hysbysebir gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 4 neu 5 | | 32% | | | | | 61 o'r 189 swydd hysbysebir |
| 02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg | 43 | 62 | | | ↑ | | |
| 03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg | 2 | 4 | | | → | | 2 gŵyn ychwanegol rhwng Gorffennaf a Medi |
| 04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg | 0 | 0 | | | → | | |
| 05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg | 8% | 7% | | | ↓ | | |
| 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg | 15% | 10% | | | ↓ | | |
| 07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor | 23% | 23% | | | → | | |
| 08) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth fel rhan o raglen ARFOR | 15 | 31 | | | ↑ | | |
| 09) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] | 68.46% | | | | | 70.4% | Data ar gael yn Ch3 |

## 4. Gofal Cymdeithasol a Llesiant

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2023/24 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol | 212 | 226 | 224 | G | ↑ | | |
| 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol | 89.36% | 90% | 90% | G | ↑ | 96% | |
| 03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol | 94.95% | 92.96% | 85% | G | ↓ | 62% | |
| 04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal | 289 | 320 | 352 | G | ↓ | | |
| 05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | 94.30% | 95.20% | 93% | G | ↑ | 96% | |
| 06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter | 142 | 128 | 270 | G | ↑ | | |
| 07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr | 0% | 0% | 15% | G | → | | |
| 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 7.50% | 10.09% | 15% | G | ↓ | 15% | |
| 09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 94.12% | 92.13% | 90% | G | ↓ | | |
| 10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni | 100% | 100% | 85% | G | → | | |
| 11) Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden | 130704 | 252090 | 251000 | G | ↓ | 223k | |
| 12) Canran y cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | | | | | | 62% | Data ar gael yn Ch4 |

## 5. Addysg

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2023/24 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) | 91.98% | 93.13% | 95% | M | ↑ | 92% | Data Ch1 ar gyfer blwyddyn academaidd 23/24. Data Ch2 ar gyfer blwyddyn academaidd 24/25 |
| 02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) | 87.10% | 89.23% | 90% | M | ↑ | 87% | |
| 03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 04) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 05) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn | 1 | 0 | | | ↑ | | |
| 06) Nifer yr ysgolion â statws Eco-ysgol | 29 | 29 | | | → | | |
| 07) Môn Actif – Nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn | 1847 | 1806 | 1900 | A | ↓ | | Oherwydd anawsterau wrth recriwtio hyfforddwyr nofio cymwys, bu'n rhaid i'r rhaglen leihau nifer y gwersi yn ystod Ch2 |
| 08) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol | 14 | 4 | | | | | Gwaharddwyd 4 disgybl yn barhaol o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd hon 24/25 |
| 09) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol | 6 | 6 | | | → | | |

## 6. Tai

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2023/24 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol | | 18 | 18 | G | | 18 | |
| 02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol | 88% | 88% | 85% | G | → | | |
| 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | 26 | 49 | 35 | C | ↓ | | Mae argaeledd contractwyr, yn enwedig peintwyr, wedi arwain at gynnydd yn yr amser i weddnewid eiddo yn ystod Ch2. |
| 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau bach a chanolig (<£36k) | 185 | 184 | 185 | G | ↑ | | |
| 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau mawr (>£36k) | - | 222 | 211 | M | ↓ | | |
| 06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor | 22 | 36 | 22 | G | ↑ | | |
| 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol | 3.02% | 3.55% | 3.10% | C | ↓ | | Mae'r perfformiad yn draddodiadol yn gwella yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae nifer y tenantiaid ar Gredyd Cynhwysol wedi cynyddu yn ystod Ch2 a effeithiodd ar ffigurau ôl-ddyledion. |
| 08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag | 16 | 34 | 25 | G | ↑ | 40 | |
| 09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref | 83% | 90% | 85% | G | ↑ | 95% | |
| 10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) | 185 | 294 | | | | | |
| 11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd | 85 | 101 | | | | | |

## 7. Economi

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2023/24 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd | 38% | 41% | | | | | |
| 02) Canran yr unedau busnes a osodwyd gan y Cyngor | 86% | 90% | 70% | G | ↑ | | |
| 03) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol | 179 | 201 | 205 | M | ↓ | | |
| 04) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | 96.5% | 97.4% | 90% | G | ↑ | 95% | |
| 05) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | 96.9% | 91.7% | 80% | G | ↓ | 90% | |
| 06) Apeliadau cynllunio a ganiateir fel canran o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd | 1% | 0.86% | | | | | Caniatawyd 3 apêl |
| 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | 71% | 83% | 90% | A | ↑ | | Cwblhawyd 90% o'r arolygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod Gorffennaf i Fedi. Mae hyn yn welliant ar y 71% ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fehefin. |
| 08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd | 98% | 98% | 95% | G | → | 98% | |

## 8. Newid Hinsawdd

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2023/24 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy’n dod o adeiladu’r cyngor (tC02e) | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 67.2% | 67.2% | 72% | C | → | 67.77% | Ar hyn o bryd, mae'n annhebygol y bydd y targed statudol blynyddol o 70% yn cael ei gyrraedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad |
| 03) Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu’r Cyngor | 48% | 48% | | | → | | |
| 04) Canran y strydoedd sy’n lân | 96.6% | 97.5% | 96% | G | ↑ | 95% | |
| 05) Nifer y dyddiad a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 0.04 | 0.04 | 1 | G | | 30% | |
| 06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | | 3% | Data ar gael yn Ch3 |
| 07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | | 2% | Data ar gael yn Ch3 |
| 08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | | 8% | Data ar gael yn Ch3 |
| 09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tC02e) | 162 | 320 | | | ↑ | | Defnyddiwyd 158.28 t$CO_2$e gan gynnwys WTT (Well to Tank) rhwng Gorffennaf a Medi |
| 10) Cyfran y cerbydau carbon isel (trydan) yn fflyd y Cyngor | 12% | 17% | | | ↑ | | |
| 11) Nifer y gwefrwyr cerbydau trydan y mae’r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 49 | 49 | | | → | | |

## 9. Iechyd Cyngor Cyfan

| | CAMG | Tuedd | Cyllideb | Canlyniad | Amrywiant (%) | Rhagolygon o'r Gwariant | Amrywiant a Ragwellir (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) | Y | ↓ | £179,739,000 | | | £180,910,000 | 0.65% |
| 02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) | | ↓ | £42,904,000 | | | £36,384,000 | -15.20% |
| 03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) | G | ↑ | -£7,335,574 | | | -£8,489,853 | 15.74% |
| 04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn | | ↓ | | | | -£10,620,000 | |
| 05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer | G | → | 2.62% | | | 2.62% | 0% |
| 06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb | | ↓ | | | | 2 | |
| 07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | Y | ↑ | | 97.90% | | | |
| 08) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | Y | ↑ | | 93.80% | | | |

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 09) Cyfanswm y cwynion a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol | 7 | 9 | 24 | G | ↑ | 8 Corfforaethol 1 Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 10) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | 83% | 83% | 80% | G | → | 10 o'r 12 cwyn wedi ymateb o fewn 20 diwrnod |
| 11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | 100% | 100% | 80% | G | → | |
| 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser | 83% | 82% | 90% | A | ↓ | Roedd 156 o FOI yn Ch2. Mae'r perfformiad hwn yn dda i gymharu ag awdurdodau lleol a sefydliadau sector cyhoeddus |
| 13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) | 50% | 51% | | | ↑ | |
| 14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2406 | 2397 | | | ↓ | |
| 15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 2.09 | 3.93 | 4.08 | G | ↑ | |
| 16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 0.93 | 1.63 | | | ↑ | |
| 17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 1.16 | 2.3 | | | ↓ | |
| 18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith | | 75% | | | | Cafodd 65 o'r 87 o swyddi gwag a hysbysebwyd gyntaf o Ionawr 2024 eu llenwi y tro cyntaf |

## 10. Casgliad ac Argymhellion

10.1 Mae'r perfformiad o 85% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.

10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.

10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**

- 10.3.1 Addysg – 07) Môn Actif – Nifer y plant ar gyfartaledd sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn
- 10.3.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)
- 10.3.3 Tai - 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol
- 10.3.4 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd
- 10.3.5 Newid Hinsawdd - 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio
- 10.3.6 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 TACHWEDD 2024** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2024/25** |
| **Deilydd Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD ADEILYDD PORFFOLIO - CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN H OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>**01248 752663**<br>**BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhellion**

**(i)** Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25;

**(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH;

**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD;

**(iv)** Cytuno i weithredu'r Ffioedd a Thaliadau newydd ar gyfer 2024/25, a'r ffioedd a addaswyd, fel y manylir yn Atodiad E.

**Rheswm**

Y sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar gyfer y gyllideb refeniw ar ddiwedd yr ail chwarter yw gorwariant o £504k (0.28%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 30 Medi 2024. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhoi hefyd. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 2 yn anodd, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae rhai meysydd allweddol sy'n anodd eu rhagdybio a'u rhagweld mor gynnar â hyn yn y flwyddyn, a'r meysydd allweddol hynny yw:-

1. Newid yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, ac yn bennaf lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg allsirol.
2. Cyllid grant ychwanegol, nad yw'n hysbys, a dderbynnir yn ystod y flwyddyn.
3. Gwariant unwaith ac am byth nad oedd wedi cael ei rhagweld.
4. Anawsterau recriwtio a chadw staff sy'n arwain at fwy o swyddi gweigion nag a ragwelwyd.
5. Dyfarniadau cyflog a chyllido costau cyfraniadau pensiwn uwch.

O ganlyniad i'r sefyllfa a ragwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £10.577m (5.88% o gyllideb refeniw net 2024/25) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hyn £1.59m yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell i'r Cyngor.

Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn rhagweld gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.

## B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.

## C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

| | | |
|---|---|---|
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi. | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi, ond mae unrhyw newid o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael ei nodi yn yr adroddiad. | | |
| **Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2024/25 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae unrhyw sylwadau gan y Prif Weithredwr wedi cael eu hystyried ac addaswyd yr adroddiad drafft ble'r oedd hynny'n addas. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro wedi derbyn diweddariad ar y sefyllfa ariannol ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Sgriwtini** | Adolygodd y Panel Sgriwtini Cyllid y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 2 yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2024. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2024/25
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2024/25
- Atodiad C - Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir fesul Gwasanaeth a'r Rheswm
- Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2024/25
- Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2024/25
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro ymgynghorwyr 2024/25
- Atodiad E - Ffioedd a Thaliadau - Addasiadau i Lyfryn 2024/25

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2024/25 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 7 Mawrth 2024).

## ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2 2024/25

### 1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWYD AR GYFER 2024/25

**1.1** Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2024/25**

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwariant Refeniw wedi ei Gymeradwyo | 184,164 | |
| Diwygiadau i'r Gyllideb ers Cymeradwyaeth | | |
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor | (4,425) | |
| Cyllideb Gymeradwy gyfredol ar gyfer 2024/25 (Net o Gronfeydd wrth Gefn) | | 179,739 |
| **Cyllidir gan** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun | | |
| Debyd y Dreth Gyngor Safonol a Godwyd | 127,586 | |
| Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag | 48,387 | |
| | 3,766 | |
| **Cyfanswm Cyllid 2024/25** | | **179,739** |

### 2. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER Y GYLLIDEB AR DDIWEDD CHWARTER 2 2024/25

**2.2** Mae amcangyfrif o'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd chwarter 2 wedi'i gynnwys yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar ddiwedd Chwarter 2**

| | 2024/25 Cyllideb | Ch2 Rhagolygon (o dan) / Drosodd | % Amrywiant | Ch1 Rhagolwg | Symudiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | % | (O dan) / Drosodd £'000 | £'000 |
| Cyllidebau Gwasanaeth | 165,733 | 2,369 | 1 | 1,333 | 1,036 |
| Cyllidebau Corfforaethol | 9,581 | (1,156) | (8.25) | (652) | (504) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | (4,425) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwariant Refeniw Net** | **179,739** | **1,213** | **1** | **681** | **532** |
| Cyllid Allanol Cyfun | -127,586 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor Safonol | -48,387 | (157) | 0 | (68) | (89) |
| Premiwm y Dreth Gyngor | -3,766 | (552) | 15 | (523) | (29) |
| **Cyllid** | **-179,739** | **(709)** | **0** | **(591)** | **(118)** |
| **Rhagolwg Net (o dan) / Drosodd** | **0** | **504** | **0.26** | **90** | **414** |

**2.2** Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025**

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £'m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | (15,606) | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol heb ei archwilio ar 31 Mawrth 2024 |
| Defnyddiwyd ar gyfer Cyllideb 2024/25 | 4,425 | |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredniol y Cyngor** | **(11,181)** | |

**2.3** Rhyddhawyd swm o £100k o'r Balansau Cyffredinol yn ystod 2024/25 i gwrdd â chost delio gyda phroblem iechyd anifeiliaid sydd wedi codi, ac mae'r swm hwn yn ddigon i gyllido'r costau a gafwyd hyd yma. Mae cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) am gyllid ychwanegol i gwrdd â'r cyfan neu ran o'r costau sy'n gysylltiedig â'r mater hwn. Os derbynnir cyllid ychwanegol, bydd yn cael ei ychwanegu at falansau'r Cyngor ond, ar ddiwedd chwarter 2 2024/25, cyfanswm y cyllid oedd ar gael oedd £11.081m.

**2.4** Gallai'r Cyngor dderbyn cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon mewn perthynas â chyfraniadau'r cyflogwr tuag at bensiynau athrawon, a byddai hyn yn ychwanegu at lefelau'r balansau cyffredinol. Trafodir hyn ymhellach ym mharagraff 8.2 (iii) isod.

## 3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

**3.1** Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod gorwariant o £2,369k yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r dadansoddiad fesul gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Nhabl 4, isod:-

**Tabl 4**
**Dadansoddiad o'r Sefyllfa sy'n cael ei Ragweld ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth**

| | (Tan) / Gorwariant £'000 | % |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 1,025 | 2.66 |
| Gwasanaethau Plant | 2,051 | 14.21 |
| Busnes y Cyngor | 109 | 5.13 |
| Datblygu Economaidd | (504) | -16.41 |
| TGCh | (457) | -9.71 |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau a Darpariaeth Dyledion Drwg) | 500 | |
| Gwasanaethau Arall (Amrywiant gwerth llai na £100k) | (355) | 5.54 |
| **Cyfanswm Amrywiant Gwasanaeth** | **2,369** | **1.42** |

**3.2** Mae'r prif resymau am y gwahaniaethau'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5 isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Is-wasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

**Tabl 5**
**Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Rheswm**

| | **Amrywiant a Ragwelir £'000** |
|---|---|
| Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau | 4,422 |
| Amrywiant mewn costau staffio sy'n codi o swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth | (1,077) |
| Newidiadau mewn prisiau contractau na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb a gymeradwywyd | 189 |
| Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd | (16) |
| Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm | (1,304) |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau | (198) |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol | 71 |
| Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol | (204) |
| Camgymeriadau yn y broses gosod cyllideb y gellir eu hadnabod yn rhwydd | 4 |
| Rhesymau amrywiol | 482 |
| **CYFANSWM YR AMRYWIANT A RAGWELIR** | **2,369** |

**3.3** Mae'r tabl uchod yn amlygu mai cynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n parhau i greu'r prif bwysau ar gyllideb y Cyngor, ac mae'n gyfrifol am werth £4,422m o bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Gwasanaethau Plant yw'r prif faes sy'n peri pryder, a gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n gorfod cael eu lleoli gyda darparwyr all sirol a chynnydd yng nghost y lleoliadau.

**3.4** Mae'r sefyllfa yn y Gwasanaethau Oedolion wedi newid yn sylweddol, ac nid yw'r gyllideb yn ddigonol i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd. Adolygwyd y gyllideb yn ystod y chwarter cyntaf, pan nodwyd nad oedd bellach angen £700k. Tynnwyd yr arian hwn o gyllideb y gwasanaeth a'i roi mewn cyllideb wrth gefn. Mae disgwyl y bydd angen dychwelyd yr arian hwn i gyllideb y gwasanaeth gan fod nifer yr achosion wedi cynyddu ac mae costau o fewn y sector yn cynyddu hefyd. Cynnydd mewn niferoedd cleientiaid, costau lleoliadau'n cynyddu a methu â chyfrifo'r ymrwymiad ariannol posib mewn perthynas â chleientiaid yn gywir sydd i gyfrif am y newid yn y rhagolwg o gymharu â'r chwarter diwethaf. Adolygwyd y fethodoleg a phrosesau ar gyfer creu'r rhagolwg er mwyn sicrhau bod y rhagolwg yn gywir o hyn ymlaen.

**3.5** Mae'r galw am gludiant ysgol wedi gostwng hefyd, ond gall newid yn ystod chwarter 3 wrth i'r flwyddyn ysgol newydd gychwyn ac wrth i anghenion disgyblion unigol gael eu hadolygu.

**3.6** Mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella oherwydd swyddi gweigion, a rhagwelir tanwariant o £1.051k ar gyflogau, heb gynnwys unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o gyflogi staff dros dro a staff asiantaeth. Er hynny, mae problemau recriwtio yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor ac o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol yn golygu bod costau staff asiantaeth yn uwch na'r gyllideb staffio yn y gwasanaethau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am gostau asiantaeth wedi'i gynnwys ym mharagraff 7 ac Atodiad D. Mae problemau recriwtio yn yr adain TGCh hefyd, gan olygu bod tanwariant o £457k yn cael ei ragweld ar staffio ar ddiwedd chwarter 2.

**3.7** Mae cytundeb cyfleustodau newydd wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ac mae'r buddion i'w gweld ym mhob gwasanaeth, ond mae'r arbedion mwyaf amlwg yn y Gwasanaethau Hamdden, sef y gwasanaeth sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni o fewn y Cyngor. Mae hyn, ynghyd â lefelau incwm sy'n gwella, yn golygu bod y tanwariant a ragwelir ar gyfer y Gwasanaethau Hamdden wedi cynyddu i £416k yn ystod chwarter 2.

**3.8** Mae bob amser yn anodd rhagweld incwm a gynhyrchir trwy ffioedd a thaliadau, ond mae'r arwyddion yn awgrymu y bydd cyfanswm yr incwm £1.366m yn uwch na'r gyllideb, ac mae incwm yn y gwasanaethau Hamdden a Phriffyrdd yn sylweddol uwch na'r targed incwm.

## 4. PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

**4.1** Dangosir y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2024/25**

| | 2024/25 Cyllideb £'000 | Ch2 Rhagolwg (Tan) / Gorwariant £'000 | % Amrywiant % | Rheswm am yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Ardollau | 4,931 | 0 | 0 | - |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 105 | 23 | 21.93 | - |
| Cyllido Cyfalaf | 5,753 | (328) | (5.70) | Llai o fenthyca a dychweliadau uwch ar fuddsoddiadau |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 7,392 | (544) | (7.36) | Llwyth achosion llai na'r disgwyl |
| Cyfraniad gwasanaethau Cefnogaeth gan CRT | (800) | 0 | 0 | - |
| Arbedion cyllideb i'w cyflawni | (694) | 422 | 0 | Gwaith yn parhau i gyflawni'r arbedion. |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac eraill | 1,744 | (728) | (41.75) | |
| Defnydd o'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | (4,425) | 0 | 0 | |
| **CYFANSWM** | **14,006** | **(1,156)** | **(8.25)** | |

## 5. CASGLU'R DRETH GYNGOR

**5.1** Mae cyllideb cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2023. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd a fu, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Yn hanesyddol, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a disgowntiau sy'n ddyledus iddynt. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £157k yn uwch na'r gyllideb.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Mae'r newid yn y rheolau cymhwystra yn gysylltiedig â threthi busnes ar gyfer llety hunanarlwyo yn golygu bod nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor, gan olygu fod mwy o eiddo yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi, ac mae hyn wedi gwrthbwyso'r gostyngiad yn nifer yr eiddo yn sgil codi'r premiwm o 75% i 100%. O ganlyniad, rhagwelir gwarged o £552k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. ARBEDION CYLLIDEBOL 2024/25

**6.1** Fel rhan o'r gyllideb, gosodwyd targed o arbed £1m ar gostau staff. Byddai'r arbedion yn cael eu creu trwy asesu'r angen am swyddi wrth iddynt ddod yn wag. Nodwyd gwerth £590k o arbedion hyd yma yn 2024/25, ac mae £349k o arbedion pellach wedi eu nodi yn 2025/26. Bydd angen nodi £61k o arbedion pellach ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r arbedion hyn ac unrhyw arbedion pellach wrth i swyddi ddod yn wag.

**6.2** Roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys pecyn o arbedion gwerth cyfanswm o £1.165m yn y gyllideb, a oedd yn cynnwys dileu cyllidebau nad oeddent yn cael eu defnyddio, cynhyrchu incwm ychwanegol, lleihau grantiau i gyrff allanol a chwtogi rhai gwasanaethau. Nid yw'r gwaith monitro cyllideb wedi nodi unrhyw broblemau o ran gwireddu'r cynigion arbedion a wnaethpwyd.

## 7. COSTAU ASIANTAETH AC YMGYNGHORWYR

**7.1** Gwariwyd £619k ar staff Asiantaeth yn ystod y flwyddyn hyd yma. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £405k yn ymwneud â gweithwyr llanw ar gyfer swyddi gweigion. Mae'r Gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £184k ar weithwyr mewn canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £655k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2024, a chyllidwyd £299k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad DD yn cynnwys crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth, ynghyd â manylion ychwanegol am y gwariant.

## 8. FFIOEDD A THALIADAU

**8.1** Derbyniodd Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Roedd Rhan 4 o'r Ddeddf yn nodi'r gofynion ar gyfer cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr sy'n rhoi 'triniaethau arbennig' yng Nghymru. Bwriad y cynllun trwyddedu yw gwella a chynnal safonau atal a rheoli heintiau yn y diwydiant triniaethau arbennig a sicrhau iechyd a diogelwch cleientiaid ac ymarferwyr fel ei gilydd. Mae pedwar triniaeth arbennig yn cael eu nodi, sef:-

- aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych);
- tyllu'r corff;
- electrolysis;
- tatwio (gan gynnwys colur lled-barhaol).

**8.2** Mae Adran 76 o Ran 4 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn caniatáu i awdurdodau lleol sydd wedi rhoi Trwydded Triniaethau Arbennig neu Dystysgrif Safle Cymeradwy godi ffi. Wrth benderfynu ar y ffi a godir, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y costau a gafwyd ganddo, neu'r costau y mae disgwyl eu cael. Cymeradwywyd y ffioedd cenedlaethol ar gyfer ceisiadau newydd a ffioedd adnewyddu gan Diogelu'r Cyhoedd Cymru ym mis Tachwedd 2023 ac maent yn seiliedig ar egwyddorion cyfraith achos Hemmings; cymeradwywyd yr amrywiad a'r ffioedd eraill gan Diogelu'r Cyhoedd Cymru ym mis Awst 2024. Yn unol â gofynion y rheoliadau, bydd y ffioedd hyn yn cael eu hadolygu ar y cyd ar ôl iddynt fod yn weithredol am flwyddyn, ac ar ddiwedd pob cyfnod o dair blynedd wedi hynny.

Mae cyfanswm y ffioedd ar gyfer ymarferwyr a safleoedd yn cael eu rhannu'n ffi cais a ffi cydymffurfio sy'n daladwy ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo. Mae'r ffi cais yn talu am brosesu'r cais, cynnal archwiliad a chyhoeddi dogfennaeth. Mae'r ffi cydymffurfio'n gyfraniad rhesymol tuag at redeg y cynllun trwyddedu, cynghori deiliaid trwyddedau, ymateb i gwynion, cynnal archwiliadau ychwanegol a darparu cymorth parhaus.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gymeradwyo ffioedd, ac maent i'w gweld yn Atodiad E. Gan fod Diogelu'r Cyhoedd Cymru wedi cymeradwyo'r ffioedd ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ffioedd a thaliadau ar gyfer 2024/25, mae angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith yn awr ynglŷn ag addasu'r ffioedd a rhestrir yn Atodiad E.

## 9. CASGLIADAU

**9.1** Ar ddiwedd yr ail chwarter, rhagwelir gorwariant o £0.504m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae llunio rhagolwg cywir o'r sefyllfa ariannol bob amser yn anodd, ac mae'r sefyllfa'n debygol o newid wrth i wasanaethau ddelio â materion a'r galw am wasanaethau yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o faterion nad ydynt wedi cael eu datrys eto fydd hefyd yn effeithio ar y sefyllfa ariannol derfynol.

**9.2** Mae'r prif feysydd sydd heb eu datrys eto yn ymwneud â:-

**i.** Cytunwyd ar y dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon (o Ebrill 2024) ym mis Hydref 2024, sef £1,290 i bob pwynt ar y raddfa gyflog hyd at bwynt 43. Bydd pob pwynt cyflog o bwynt 44 ymlaen yn derbyn cynnydd o 2.5%. Oherwydd amseru'r adroddiad a dyddiad pan hysbysu'r Awdurdod fod y Cynnig Tâl wedi cael ei dderbyn, nid oedd yn bosib adlewyrchu'r cynnydd yn y ffigyrau. Mae disgwyl cynnydd o thua £350k mewn cyflogau, o gymharu â'r gyllideb. Gwnaed darpariaeth wrth osod y gyllideb rhag ofn na fyddai'r gyllideb yn ddigonol i gwrdd â chynnig tâl y cyflogwr. Er mwyn pontio'r bwlch, byddai'r Cyngor yn defnyddio cronfa wrth gefn a glustnodwyd, gwerth £1.7m, i gwrdd â phwysau oherwydd chwyddiant. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn adroddiad chwarter 3.

ii. LlC sy'n gosod cyflog athrawon. Yn ddiweddar cyhoeddwyd y byddai athrawon yn Lloegr yn derbyn codiad cyflog o 5.5%, ac efallai bod LlC yn ystyried codiad tebyg yng Nghymru. Roedd hyn yn uwch na'r 2% a ganiatawyd yn y gyllideb ar gyfer 2024/25. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost ychwanegol y dyfarniad cyflog ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025 yn £700k. Yn y gorffennol, mae LlC wedi cyllido unrhyw ddyfarniadau cyflog i athrawon oedd yn uwch na'r hyn a ganiatawyd yn y setliad llywodraeth leol. Mae LlC wedi cadarnhau eu bod wedi caniatáu 3.7% yn y setliad a byddant yn cwrdd â chost y dyfarniad cyflog o 5.5%, yn hytrach na'r 3.7% gwreiddiol. O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn derbyn tua £350k i £400k o gyllid ychwanegol clustnodedig ac, unwaith eto, bydd y gweddill yn cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd.

iii. Mae cyfraniad y cyflogwr tuag at gostau pensiynau athrawon wedi codi o 23.68% i 28.68%. Roedd y gost ychwanegol o £1.3m wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddatganoledig ysgolion, ond nid oedd y setliad llywodraeth leol yn cynnwys unrhyw gyllid ychwanegol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng LlC a Thrysorlys Ei Fawrhydi, ond mae LlC debygol o dderbyn cyllid ychwanegol a dylai hyn gael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol. Ni chyhoeddwyd yr union ffigwr, ond dylai gwrdd â'r gost yn llawn. Bydd y cyllid ychwanegol, pan fydd y Cyngor yn ei dderbyn, yn arian annisgwyl, a gellir ei ddefnyddio i wrthbwyso unrhyw gostau tâl ychwanegol nad ydynt wedi cael eu cyllido a / neu ei ychwanegu at falansau cyffredinol y Cyngor.

**9.3** Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn creu pryder arbennig, a rhagwelir gorwariant o £2.051m yn y Gwasanaethau Plant a £1,025m yn y Gwasanaethau Oedolion. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar lefel bresennol y galw, ond mae'r galw'n **amrywio** yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol, e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth uchel sydd ag anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n golygu bod y sefyllfa'n gwaethygu.

Wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effeithiau'r uchod yn cael eu hystyried yn yr adroddiadau monitro wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

**9.4** Bydd y sefyllfa ariannol yn 2024/25 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2025/26 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu cynnydd mewn costau a welir yn 2024/25 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor, gan gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2025/26. Bydd rheolwyr yn monitro'r sefyllfa ariannol yn ofalus yn ystod gweddill y flwyddyn ac efallai y bydd rhaid rhoi mesurau ar waith i arbed costau yn 2024/25, er mwyn cynnal lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol.

**ATODIAD B**

## ALLDRO REFENIW A RAGWELIR AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH 2025 – CHWARTER 2

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2024/25 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date** | **2024/25 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend** | **2024/25 Ch2 Amrywiad Q2 Variance** | **2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** | **2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** ***Education, Skills and Young People*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 61,111 | 31,733 | 31,732 | 0 | 0.00% | 61,111 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 5,373 | (4,066) | (4,086) | (20) | 0.50% | 5,325 | (48) | -0.89% | (9) |
| Diwylliant *Culture* | 1,556 | 723 | 528 | (195) | -27.02% | 1,536 | (20) | -1.29% | (4) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 38,483 | 17,588 | 17,599 | 11 | 0.06% | 39,508 | 1,025 | 2.667% | (391) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 14,433 | 8,654 | 9,811 | 1,157 | 13.36% | 16,484 | 2,051 | 14.21% | 1,775 |
| | | | | | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 1,660 | 1,385 | 1,211 | (174) | -12.54% | 1,648 | (12) | -0.72% | (45) |
| | | | | | | | | | |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2024/25 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date** | **2024/25 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend** | **2024/25 Ch2 Amrywiad Q2 Variance** | **2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** | **2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff** ***Highways, Property & Waste*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd *Highways* | 8,242 | 4,677 | 4,613 | (64) | -1.37% | 8,,151 | (91) | -1.10% | (139) |
| Eiddo *Property* | 1,993 | 501 | 551 | 49 | 9.87% | 1,960 | (33) | -1.66% | (17) |
| Gwastraff *Waste* | 10,108 | 4,524 | 4,346 | (177) | -3.92% | 10,028 | (80) | -0.79% | (95) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** ***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd *Economic Development* | 3,071 | 1,698 | 1,389 | (309) | -18.19% | 2,567 | (504) | -16.41% | (135) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd *Planning and Public Protection* | 2,916 | 1,857 | 1,723 | (134) | -7.21% | 2,950 | 34 | 1.17% | (6) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** ***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol *Human Resources* | 1,721 | 954 | 938 | (16) | -1.70% | 1,727 | 6 | 0.35% | 11 |
| TGCh *ICT* | 4,705 | 2,777 | 2,579 | (198) | -7.13% | 4,248 | (457) | -9.71% | (51) |
| Trawsnewid Corfforaethol *Corporate Transformation* | 1,245 | 543 | 495 | (47) | -8.74% | 1,212 | (33) | -2.65% | (33) |
| **Adnoddau** ***Resources*** | 4,050 | 2,209 | 2,146 | (63) | -2.86.% | 3,979 | (71) | -1.75% | (105) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2024/25 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2024/25 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2024/25 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under) | 2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes y Cyngor** ***Council Business*** | 2,125 | 1,055 | 1,263 | 207 | 19.64% | 2,234 | 109 | 5.13% | 70 |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** ***Corporate & Democratic costs*** | 2,129 | 1,391 | 1,397 | 6 | 0.42% | 2,103 | (26) | -1.22% | (17) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol** ***Corporate Management*** | 815 | 414 | 414 | 0 | -0.02% | 834 | 19 | 2.33% | 24 |
| | | | | | | | | | |
| Costau heb gyllideb, ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau *Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income* | | | | | | 500 | 500 | 0.00% | 500 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau Total Service Budgets** | 165,733 | 78,618 | 78,649 | 32 | 0.04% | 168,102 | 2,369 | 1.43% | 1,333 |
| | | | | | | | | | |
| Ardollau *Levies* | 4,931 | 4,589 | 4,931 | 341 | 7.44% | 4,931 | 0 | 0.00% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief* | 105 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 128 | 23 | 21.93% | 26 |
| Cyllido Cyfalaf *Capital Financing* | 5,753 | 1,037 | 1,356 | 319 | 0.00% | 5,425 | (328) | (5.70%) | (604) |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2024/25 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date** | **2024/25 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend** | **2024/25 Ch2 Amrywiad Q2 Variance** | **2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** | **2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies* | 1,744 | 1,744 | 1,695 | (49) | (2.81%) | 1,016 | (728) | (41.75%) | (28) |
| Arbedion Cyllideb i'w Gyflawni Budget Savings to be Achieved | (694) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (273) | 422 | 0.00% | 452 |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor Council's General *Reserves* | (4,425) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (4,425) | 0 | 0.00% | 0 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA* | (800) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (800) | 0 | 0.00% | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted* | 7,392 | 723 | 5,958 | 5,235 | 723.93% | 6,894 | (544) | (7.36%) | (498) |
| Na ellir ei reoli *Uncontrollable* | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** ***Total Corporate Finance*** | 14,006 | 8,094 | 13,941 | 5,846 | 72.22% | 12,850 | (1,156) | (8.25%) | (652) |
| **Cyfanswm 2024/25** ***Total 2024/25*** | **179,739** | **86,712** | **92,590** | **5,846** | **6.78%** | **180,952** | **1,213** | **0.65%** | **681** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllido** ***Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig *NDR* | (25,341) | (12,289) | (13,645) | (1,356) | 11.03% | (25,341) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor *Council Tax* | (48,387) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (48,544) | (157) | 0.32% | (68) |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2024/25 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date** | **2024/25 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend** | **2024/25 Ch2 Amrywiad Q2 Variance** | **2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** | **2024/25 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Premiwm y Dreth Gyngor *Council Tax Premium* | (3,766) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (4,318) | (552) | 14.66% | (523) |
| Grant Cynnal Refeniw *Revenue Support Grant* | (102,245) | (55,001) | (55,055) | (54) | 0.10% | (102,245) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2024/25** ***Total Funding 2024/25*** | **(179,739)** | **(67,290)** | **(68,700)** | **0** | **0** | **(180,448)** | **(709)** | **0.39%** | **(591)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido** ***Total outturn, including impact of funding*** | **0** | **19,422** | **23,890** | **4,468** | **23.00%** | **504** | **504** | **0.27%** | **90** |

**ATODIAD C**

## DADANSODDIAD O'R AMRYWIANT A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A'R RHESWM

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| **Addysg Ganolog** | Trafnidiaeth Ysgol | (213) | (154) | | 33 | | | | | | | (92) |
| | Prydau Ysgol | 53 | | 39 | 14 | | | | | | | |
| | Strategaeth ADY | 44 | | 56 | | | (12) | | | | | |
| | Eithriadau i'r ysgol | (24) | | | | | | (24) | | | | |
| | Canolfan Iaith | 85 | | | | 85 | | | | | | |
| | Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar | (44) | (40) | (4) | | | | | | | | |
| | Clwb Gofal Plant | 55 | | | | | 55 | | | | | |
| | Addysg Bellach | (3) | | | | | | | | | | (3) |
| | Addysg Canolog | (21) | | | | (21) | | | | | | |
| | Lleoliadau All-Sirol | (11) | (11) | | | | | | | | | |
| | Millbank | 14 | | | | | | 14 | | | | |
| | Arall | 17 | | | | | | | | | | 17 |
| | **CYFANSWM** | **(48)** | **(205)** | **91** | **47** | **64** | **43** | **(10)** | **-** | **-** | **-** | **(78)** |
| **Diwylliant** | Amgueddfeydd ac Orielau | 25 | | (70) | | | 25 | 30 | | | | 40 |
| | Llyfrgelloedd | (70) | | (70) | | (15) | 15 | | | | | |
| | Archifau | 25 | | 16 | | | | 9 | | | | |
| | **CYFANSWM** | **(20)** | **-** | **(124)** | **-** | **(15)** | **40** | **39** | **-** | **-** | **-** | **40** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | Henoed - Preswyl | 103 | 415 | | | | (312) | | | | | |
| | Henoed - Nyrsio | 569 | 908 | | | | (339) | | | | | |
| | Henoed – Gofal Cartref | 138 | 121 | | | | 17 | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Henoed – Arall | (33) | 9 | (42) | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol – Preswyl | 286 | 386 | | | | (100) | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Nyrsio | | | | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol – Gofal Cartref | 75 | 75 | | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Arall | (53) | (9) | (44) | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Preswyl | (51) | (115) | | | | 64 | | | | | |
| | Anabledd Dysgu – Gofal Cartref | 53 | 53 | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Gofal Dydd | 18 | 18 | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Llety â Chymorth | 82 | 82 | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu – Arall | 32 | 24 | 8 | | | | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Preswyl | 107 | 80 | | | | 27 | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Gofal Cartref | (21) | (21) | | | | | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Llety â Chymorth | 147 | 147 | | | | | | | | | |
| | Iechyd Meddwl - Arall | (167) | (59) | (108) | | | | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Preswyl | 351 | (20) | 564 | | | (193) | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Uned Ddarpau – Gofal Cartref | (200) | (29) | (96) | | | (75) | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Gofal Dydd | (97) | (17) | (101) | | | 21 | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Llety â Chymorth | (136) | (25) | (111) | | | | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Arall | (45) | (24) | (76) | | | 55 | | | | | |
| | Gwasanaethau Cymorth Rheolaeth | (133) | (48) | (85) | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **1,025** | **1,951** | **(91)** | **-** | **-** | **(835)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Gwasanaethau Plant** | Plant sy'n Derbyn Gofal – Lleoliadau All Sirol | 2,035 | 2,035 | | | | | | | | | |
| | Gofal Maeth | 56 | 56 | | | | | | | | | |
| | Cartrefi Clyd | 4 | 9 | (5) | | | | | | | | |
| | Plant sy'n Derbyn Gofal - Arall | 148 | 148 | | | | | | | | | |
| | Cymorth i Deuluoedd | (35) | (35) | | | | | | | | | |
| | Plant hefo Anableddau | 40 | 94 | (54) | | | | | | | | |
| | Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol | (107) | | (107) | | | | | | | | |
| | Gwasanaethau Ieuenctid | | | | | | | | | | | |
| | Arall | (90) | 19 | (109) | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **2,051** | **2,326** | **(275)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Newid yn y galw am Wasanaeth | Amrywiant Staff / Asiantaethau | Newidiadau i Gontractau / Pris | Newid i Gyllid Grant | Amrywiant Incwm | Costau Adeiladu | Ymgynghori | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth | Amrywiol |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Tai** | Gwasanaethau Tai | (7) | | (4) | | | (6) | | | | | 3 |
| | Digartrefedd | (3) | 315 | | | | (159) | | | (159) | | |
| | Canolfan J.E.O'Toole | (2) | | (3) | | | | | | | | 1 |
| | **CYFANSWM** | **(12)** | **315** | **(7)** | **-** | **-** | **(165)** | **-** | **-** | **(159)** | **-** | **4** |
| **Priffyrdd** | Cefnogaeth a Rheolaeth Priffyrdd | (10) | | (10) | | | | | | | | |
| | Cludiant Cymunedol Môn | (40) | | (40) | | | | | | | | |
| | Meysydd Parcio a Rheolaeth Parcio | (85) | | | (80) | | (5) | | | | | |
| | Rheoli Datblygu | (50) | | | | | (50) | | | | | |
| | Gwaith Stryd Preifat | (50) | | | | | (50) | | | | | |
| | Cyllideb Gwaith | 200 | | | 200 | | | 70 | | | | |
| | Cynnal a Chadw a Rheoli | 49 | | | | | | | | | | 49 |
| | Dylunio Cynnal a Chadw | (30) | | | | | (30) | | | | | |
| | Cludiant Cyhoeddus | (50) | | | | | (50) | | | | | |
| | Fflyd | | | | | | | | | | | |
| | Fflyd Arall | (25) | | (12) | | | | | | | | (13) |
| | **CYFANSWM** | **(91)** | **-** | **(62)** | **120** | **-** | **(185)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **36** |
| **Eiddo** | Rheolaeth a Staffio | (33) | | (33) | | | | | | | | |
| | Glanhau | | | | | | | | | | | |
| | Eiddo Masnachol | | | | | | | | | | | |
| | Eiddo'r Cyngor | | | | | | | | | | | |
| | Dylunio Pensaernïol ac Ymgynghoriaeth | | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **(33)** | **-** | **(33)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| **Gwastraff** | | (5) | 35 | | | | | | | | | (40) |
| | Cynhyrchu Trydan | (80) | | | | | (80) | | | | | |
| | Ail-gylchu | 55 | | | | | 55 | | | | | |
| | Safleoedd Gwastraff | | | | | | | | | | | |
| | Gweinyddu a Rheoli | (30) | | | | | (30) | | | | | |
| | Arall | (20) | (20) | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **(95)** | **15** | **-** | **-** | **-** | **(55)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(40)** |
| **Datblygu Economaidd** | Datblygu Economaidd | (5) | 37 | (60) | | | 26 | | | | | (8) |
| | Cyrchfan | (83) | | (87) | | (27) | 10 | 42 | | | | (21) |
| | Hamdden | (416) | | 48 | | | (225) | (269) | | | | 30 |
| | **CYFANSWM** | **(504)** | **37** | **(99)** | **-** | **(27)** | **(189)** | **(227)** | **-** | **-** | **-** | **1** |
| **Cynllunio** | Gweinyddu Cynllunio | | | | | | | | | | | |
| | Rheoli Cynllunio | 30 | | 10 | | | | | 20 | | | |
| | Rheoli Adeiladu | 60 | | | | | 60 | | | | | |
| | Polisi Cynllunio | | | | | | | | | | | |
| | Cadwraeth | (35) | | (35) | | | | | | | | |
| | Cofrestru Tir | | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **55** | **-** | **(25)** | **-** | **-** | **60** | **-** | **20** | **-** | **-** | **-** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | Iechyd yr Amgylchedd | | | | | | | | | | | |
| | Rheoli Cŵn / Pla | 8 | | | | | 4 | | | | | 4 |
| | Iechyd Anifeiliaid | | | | | | | | | | | |
| | Safonau Masnach | | | | | | | | | | | |
| | Trwyddedu | | | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Cofrestrwyr | (11) | | (11) | | | | | | | | |
| | Marchnadoedd | 5 | | | | | 5 | | | | | |
| | Iechyd a Diogelwch | (23) | | (22) | | | | | | | | (1) |
| | **CYFANSWM** | **(21)** | | **(33)** | **-** | **-** | **9** | **-** | **-** | **-** | **-** | **3** |
| **Trawsnewid** | Adnoddau Dynol | 14 | | 25 | | | | | | | | (11) |
| | Hyfforddiant | (8) | | (8) | | | | | | | | |
| | TG | (457) | | (359) | | | | | | | | (98) |
| | Trawsnewid Corfforaethol | (13) | | (1) | | | | | | | | (12) |
| | Cyswllt Môn | (37) | | (37) | | | | | | | | |
| | Cyfathrebu | | | | | | | | | | | |
| | Partneriaeth Ynys Môn / Gwynedd | 17 | | | | | | | | | | 17 |
| | **CYFANSWM** | **(484)** | **-** | **(380)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(104)** |
| **Adnoddau** | Archwilio a Risg | (57) | | (108) | | | | | 51 | | | |
| | Budd-daliadau a Refeniw | 51 | | 61 | | (38) | (20) | | | | | 48 |
| | Gwasanaethau Ariannol | (19) | | (23) | | | | | | | | 4 |
| | Caffael | (14) | | (37) | | | | | | | | 23 |
| | Rheolaeth | (32) | | (50) | | | (12) | | | (45) | | 75 |
| | **CYFANSWM** | **(71)** | **-** | **(157)** | **-** | **(38)** | **(32)** | **-** | **51** | **(45)** | **-** | **150** |
| **Busnes y Cyngor** | Gwasanaethau Etholiadol | 3 | | 3 | | | | | | | | |
| | Cynllunio Argyfwng | (3) | | | | | | | | | | (3) |
| | Gwasanaethau Pwyllgor | (28) | | (28) | | | | | | | | |
| | Cyfieithu | 4 | | 4 | | | | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor / (Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Gwasanaethau Cyfreithiol | 133 | | 124 | | | 5 | | | | 4 | |
| | **CYFANSWM** | **109** | **-** | **103** | **-** | **-** | **5** | **-** | **-** | **-** | **4** | **(3)** |
| **Rheolaeth Corfforaethol** | Rheolaeth Corfforaethol | 19 | | 19 | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **24** | **-** | **24** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Corfforaethol a Democrataidd** | Risg ac Yswiriant | (10) | | | | | | | | | | (10) |
| | Cyfraniadau Pensiwn | (11) | | (11) | | | | | | | | |
| | Ffioedd Archwilio | 22 | | | 22 | | | | | | | |
| | Crwner | (20) | (17) | | | | | | | | | (3) |
| | Ardoll Prentisiaeth | 7 | | 7 | | | | | | | | |
| | Treuliau a Chymorth Aelodau | (14) | | | | | | | | | | (14) |
| | Gwariant Dinesig | 5 | | | | | | | | | | 5 |
| | Corfforaethol Arall | (5) | | | | | | | | | | (5) |
| | **CYFANSWM** | **(26)** | **(17)** | **(4)** | **22** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(27)** |
| **Arall** | Darpariaeth Costau heb ei Gyllidebu | 500 | | | | | | | | | | 500 |
| | **CYFANSWM** | **500** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **500** |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM GWASANAETH** | **2,369** | **4,422** | **(1,077)** | **189** | **(16)** | **(1,304)** | **(198)** | **71** | **(204)** | 4 | 482 |

**ATODIAD CH**

## CRYNODEB O SEFYLLFA CYLLIDEBAU WRTH GEFN – CHWARTER 2

| | Cyllideb<br><br>£ | Trosglwyddiadau i Wasanaethau<br><br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br><br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br><br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br><br>£ | Cyllideb Rhagweledig<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 382,282 | (25,588) | 356,694 | 38,360 | 318,334 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 300,000 | (105,130) | 194,870 | 110,968 | 184,263 | - |
| Arall Clustnodedig | 150,000 | 700,000 | 850,000 | - | 850,000 | (700,000) |
| Chwyddiant cyflog | 49,209 | - | 49,209 | - | 49,209 | - |
| Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economaidd | 86,250 | (57,880) | 28,370 | - | 28,370 | (28,370) |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | (124,718) | 215,282 | - | 215,282 | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | - | 50,000 | - | 50,000 | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,357,741** | **386,684** | **1,744,425** | **110,968** | **1,695,458** | **(728,370)** |

**ATODIAD D**

## COSTAU ASIANTAETH EBRILL – MEDI 2024

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Economaidd | 30,865 | Cyllideb Staffio heb ei defnyddio | Dros Dro | Proses recriwtio aflwyddiannus |
| | **30,865** | | | |
| Ysgolion | 54,559 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn maes arbenigol |
| | **54,559** | | | |
| Gwastraff | 139,617 | Cyllideb Craidd Benodol | Dros Dro | Tasgau penodol ar y safle |
| | 44,402 | Cyllideb Graidd Benodol / Cyfraniad Allanol | Dros Dro | Tasgau penodol ar y safle |
| | **184,018** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 48,072 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **48,072** | | | |
| Gwasanaethu Oedolion | 271,489 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **271,489** | | | |
| Adnoddau | **29,304** | Cyllideb Staffio heb ei defnyddio | Dros Dro | Gwaith cymhorthdal |
| | **1,110** | Cyllideb Staffio heb ei defnyddio | Dros Dro | Cyfrol y gwaith |
| | **30,414** | | | |
| **Cyfanswm** | **619,418** | | | |

**ATODIAD DD**

## CRYNODEB O WARIANT AR YMGYNGHORWYR HYD AT DDIWEDD CHWARTER 2 2024/25

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Chwarter 1 £** | **Chwarter 2 £** | **Cyfanswm 2024/25 £** |
| Addysg Canolog | **7,097** | **6,684** | **13,781** |
| Diwylliant | **13,613** | **11,000** | **24,613** |
| Economaidd ac Adfywio | **119,484** | **213,469** | **332,953** |
| Eiddo | | | |
| Priffyrdd | **53,753** | **18,597** | **72,350** |
| Ysgolion | | **473** | **473** |
| Gwastraff | **19,093** | **13,868** | **32,961** |
| CRT | | **3,490** | **3,490** |
| Tai | | | |
| Corfforaethol a Democrataidd | | | |
| Gwasanaeth Oedolion | | | |
| Gwasanaethau Plant | **3,209** | **21,378** | **24,586** |
| Corfforaethol | | | |
| Trawsnewid | **3,713** | **2,919** | **6,632** |
| Busnes y Cyngor | **18,168** | **63,100** | **81,267** |
| Adnoddau | **9,970** | **51,844** | **61,814** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **248,097** | **406,822** | **654,919** |
| Cyllidwyd gan: | | | |
| Cyllideb Craidd | **72,552** | **210,618** | **283,170** |
| Grant | **129,111** | **135,036** | **264,147** |
| Cyfraniad Allanol | **29,411** | **5,816** | **35,227** |
| Cronfeydd Wrth Gefn / Darpariaethau | **17,023** | **55,352** | **72,375** |
| **Cyfanswm** | **248,097** | **406,822** | **654,919** |

**ATODIAD E**

## FFIOEDD A THALIADAU – YCHWANEGIADAU AC ADDASIADAU I LYFRYN 2024/25

| **Ffioedd newydd i'w cynnwys yn Llyfryn 2024/25** | | |
|---|---|---|
| **Math o drwydded** | **Newydd** | **Adnewyddu** |
| **Trwydded Triniaethau Arbennig (trwydded 3 blynedd)** | £203 | £189 |
| | (£159 Application £44 Compliance) | (£148 Application £41 Compliance) |
| **Tystysgrif Safle Cymeradwy (trwydded 3 blynedd)** | £385 | £345 |
| | (£244 Application £141 Compliance) | (£204 Application £141 Compliance) |
| **Trwydded Triniaethau Arbennig – Amrywiad (Ychwanegu Triniaeth)** | | £131 |
| **Trwydded Triniaethau Arbennig – Amrywiad (Newid Manylion)** | | £26 |
| **Amnewid Trwydded** | | £13 |
| **Trwydded Triniaethau Arbennig Dros Dro** | | £92 |
| **Safle Cymeradwy ar gyfer Triniaethau Arbennig – Amrywiad (Ychwanegu Triniaeth)** | | £189 |
| **Safle Cymeradwy – Amrywiad (Newid Strwythurol)** | | £189 |
| **Safle Cymeradwy – Amrywiad (Newid Manylion)** | | £26 |
| **Amnewid Trwydded** | | £13 |
| **Safle Cymereadwy – Cymeradwyaeth Dros Dro (Digwyddiad Ategol)** | | £385 |
| **Safle Cymereadwy – Cymeradwyaeth Dros Dro (Confensiwn / Prif Bwrpas)** | | £680 |
| **Ffioedd cyfredol i'w diwygio o fewn LLyfryn 2024/25** | | |
| **Fee** | **Newydd** | **Adnewyddu** |
| **Sgôr ail-sgorio (sefydliad Bwyta)** | £180 | £255 |
| | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 TACHWEDD 2024** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2 2024/25** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**<br>**(EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:-

- nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2024/25 yn ystod chwarter 2.
- cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol, gwerth £3.116m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf yn ystod chwarter 2, a newidiadau yn y cyllid, yn unol ag Atodiad C, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £72.477m ar gyfer 2024/25.
- Cymeradwyo dwyn ymlaen unrhyw danwariant posib, fel y nodir yn adran 4.2.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

**DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r TA wedi adolygu'r adroddiad ac mae'r sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n rhan o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | Trafodwyd y prosiectau cyfalaf sy'n cael eu rheoli gan y Tîm Eiddo a chytunwyd ar y gwariant hyd yma a'r rhagolygon gwariant. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Mae prosiectau cyfalaf a reolir gan y Tîm TGCh wedi cael eu trafod a chytunwyd ar y gwariant hyd yma a'r rhagolygon gwariant. |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Mae crynodeb o sefyllfa'r gyllideb gyfalaf yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, a drafodwyd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Tachwedd 2024. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **E - Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol** | | |
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu'r Cyngor gwrdd â'r amcanion hir dymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| 3 | **A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllid ar gyfer y prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru (LlC) yn benodol. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2024/25 wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| 5 | **Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. mynediad i ysgolion i'r anabl, grantiau cyfleusterau i'r anabl. Nid oes unrhyw effaith ar agenda'r iaith Gymraeg. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2 2024/25
Atodiad B - Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf, a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn
Atodiad C - Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2024/25, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024.
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024.
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 23 Gorffennaf 2024.
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1 2024/25, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 24 Medi 2024.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £13.836m ar gyfer 2024/25, a rhaglen gyfalaf o £30.002m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £15.499m gael ei ddwyn ymlaen o 2023/24, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £28.419m, a £30.918m ar gyfer y CRT. Ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen ar ôl gosod y gyllideb, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, ac addaswyd rhywfaint o'r cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £14.485m. Bu gostyngiad o £1.345m yng nghyllideb y CRT hefyd. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 i £72.477m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| Cyllidir gan: | Cyllideb wreiddiol 2024/25 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad a gymeradwywyd yn yr alldro Ch4 2023/24 £'000 | Gostyngiad yn y gyllideb CRT £'000 | Cynlluniau ychwanegol / addasiadau yn dilyn gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 20,075 | 10,039 | (1,173) | 14,230 | **43,171** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,634 | 3,233 | (162) | 162 | **5,867** |
| Benthyca digefnogaeth | 3,636 | 0 | 2,169 | 0 | **5,805** |
| Cyfraniad Refeniw | 17,315 | 754 | (2,688) | 0 | **15,381** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 178 | 345 | 509 | 0 | **1,032** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | 1,112 | 0 | 93 | **1,205** |
| Benthyciad | 0 | 16 | 0 | 0 | **16** |
| **CYFANSWM** | **43,838** | **15,499** | **(1,345)** | **14,485** | **72,477** |

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2024/25

**2.1** Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o wariant cyfalaf hyd at 30 Medi 2024, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Medi 2024 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai - Cronfa Gyffredinol | 1,049 | 546 | 336 | 882 | 84 |
| Tai - CRT | 29,573 | 12,701 | 0 | 12,701 | 43 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,020 | 4,130 | 614 | 4,744 | 53 |
| Economaidd ac Adfywio | 12,438 | 1,411 | 731 | 2,142 | 17 |
| Priffyrdd | 7,105 | 3,139 | 1,107 | 4,246 | 60 |
| Rheoli Gwastraff | 264 | 239 | 0 | 239 | 91 |
| Eiddo | 11,303 | 482 | 1 | 483 | 4 |
| Trawsnewid | 500 | 71 | 6 | 76 | 15 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,225 | 62 | 9 | 71 | 6 |
| **Cyfanswm** | **72,477** | **22,781** | **2,804** | **25,585** | **35** |
| **Cyllidir gan:** | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 43,171 | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,032 | | | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 5,867 | | | | |
| Benthyca Digefnogaeth | 5,805 | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 15,381 | | | | |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,205 | | | | |
| Benthyciad | 16 | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **72,477** | | | | |

**2.2** Gwariwyd 30% o gyllideb flynyddol y Gronfa Gyffredinol hyd yma. Gwnaethpwyd cynnydd cyson, ac mae'r rhan fwyaf o gynlluniau cyfalaf yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond disgwylir i'w cyllidebau gael eu gwario yn ystod y chwarter nesaf neu tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol, megis Bloc Technoleg Bwyd David Hughes, Isadeiledd Morwrol, cyllideb Cerbydau Graeanu a'r grantiau Gwres Carbon Isel. Gellir gweld yr holl gynlluniau cyfalaf a'u gwariant yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2024/25 ac mae Adran 3.1 yn yr adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad arnynt.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 43% o'r gyllideb flynyddol. Am ragor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, gweler adroddiad monitro cyllideb chwarter 2 y CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 26 Tachwedd 2024.

## 3. <u>CYLLIDO</u>

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy -** Mae plant a staff bellach yn gwneud defnydd llawn o'r adeilad newydd, Graig Fach, ers mis Medi. Agorwyd yr Uned Gofal Plant newydd yn yr ysgol hefyd. Cwblhawyd gwaith ailfodelu mewnol yn Graig Fawr a'i drosglwyddo i'r ysgol ar 20 Medi 2024. Mae angen cwblhau gwaith plannu coed, gwrychoedd a hau hadau gwair ar safle Graig Fach.

- **Unedau Gofal Plant (Y Fali, Llanfechell a Llangoed) -** Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar yr uned newydd yn Ysgol Gynradd Fali wedi'i gwblhau bellach, gyda'r caban newydd a'r gwaith daear wedi'u cwblhau. Mae disgwyl i waith ddechrau ar safleoedd Llanfechell a Llangoed yn ystod chwarter 3. Cyflwynwyd Achos Busnes i LlC ar gyfer gostwng y grant a ddyfarnwyd i Lanfechell (£0.865m ar hyn o bryd) a chynyddu grant Llangoed (£0.450m ar hyn o bryd). Y rhagolwg y bydd niferoedd gofal plant yn gostwng yn Llanfechell sydd bennaf i gyfrif am hyn, tra bod y galw am ofal plant yn cynyddu yn Llangoed. Mae disgwyl i waith gychwyn ar y ddau safle yn ystod chwarter 3, gyda'r bwriad o gwblhau erbyn diwedd Mawrth.

- **Caergybi: Trawsnewid yn Seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth (Cyllid Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Fenter Treftadaeth Treflun (THI) Cam II)** - Dechreuodd gwaith ar safle Eglwys Cybi Sant ar 28 Mai 2024 a'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yw Mehefin 2025. Mae'r gwaith yn datblygu'n dda ac mae'r gwaith archeolegol bellach wedi'i gwblhau. Mae'r prosiect yn cael ei reoli'n allanol gan reolwr prosiect allanol ar hyn o bryd, yn hytrach na chan Swyddogion Esgobaeth Bangor. Mae gwaith wedi'i wneud ar y cais cynllunio ar gyfer y paneli solar a'r pwmp gwres o'r aer, gyda'r bwriad o gyflwyno'r cais yn ystod chwarter 3. Mae angen cynnal trafodaethau brys gyda'r Eglwys yng Nghymru mewn perthynas â'r gorwariant a ragwelir ar y prosiect.

    - Ehangu Canolfan Ucheldre - Mae'r prosiect yn datblygu'n dda iawn ar y safle, ac mae'r ffrâm bren strwythurol ar gyfer y Stiwdio Ddawns wedi'i chwblhau a dechreuwyd gosod y ffrâm ar gyfer y Stiwdio Gelf. Mae disgwyl i'r gwaith ar yr Oriel gael ei gwblhau erbyn canol Tachwedd. Mae gwireddu'r cynllun o fewn y gyllideb yn parhau i fod yn her allweddol. Mae Ucheldre'n chwilio am ffynonellau cyllido ychwanegol er mwyn gosod Paneli Solar PV, gosod lifft, gwaith tirlunio ychwanegol a gosod y gegin.

- Canolfan Chwarae a Blaen y Traeth - Cwblhawyd gwaith ar Gabannau Traeth Newry yn ystod chwarter 2. Mae’r busnesau newydd sy’n defnyddio’r Cabannau wedi agor eu busnesau ac maent yn boblogaidd ymysg y cyhoedd. Dechreuodd gwaith ar adeiladau’r Empire ganol mis Gorffennaf, ac mae’r estyniad newydd ar y Ganolfan Chwarae’n datblygu’n dda. Mae disgwyl i waith ar yr Empire gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2025. Mae’r Sinema wedi cau a’r seddi i gyd wedi cael eu tynnu. Ar ôl cwblhau gwaith ar y Sinema, bydd y Ganolfan Chwarae yn cau a’r gwaith mewnol yn cychwyn. Bydd hyn yn caniatáu i Gyngor Tref barhau i weithredu heb orfod cau’r adeilad yn gyfan gwbl.

- Rhaglen Eiddo Gwag - Penodwyd contractwyr i wneud gwaith ar hen adeilad yr HSBC a’r Adeiladau Canolog. Bydd gwaith yn cychwyn ar y safle ym mis Hydref. Mae disgwyl bellach i’r gwaith ar 9 Stryd Stanley gael ei gwblhau ym mis Tachwedd, oherwydd oedi o ran gosod cyfleustodau. Mae gwaith ar 14a/b Stryd Stanley wedi’i ohirio yn dilyn cwblhau asesiad strwythurol ar Churchill House. Paratowyd cais am gyllid Trawsnewid Trefi yn ystod chwarter 2 i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y prosiect, er mwyn lliniaru pwysau ar y gyllideb.

- THI Cam II - Derbyniwyd y tendr ar gyfer yr hen adeilad Booze Busters ac mae contractwr addas wedi’i adnabod. Derbyniwyd y tendr ar gyfer hen dafarn Caernarfon Castle, ond roedd yn llawer uwch na’r gyllideb ac, felly, bydd y gwaith yn cael ei ail-dendro yn chwarter 3. Rhyddhawyd y tendrau ar gyfer eiddo Stryd Boston a byddant yn cael eu dychwelyd yn ystod chwarter 3.

Mae hawliad chwarter 2 i’r Weinidogaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cael ei ohirio tan fis Tachwedd oherwydd y Gyllideb. Gwerth yr hawliad fydd £1.293m, gan ddod â’r cyfanswm a hawliwyd hyd yma i £7.724m. Mae’r rhaglen wedi’i chynllunio i ddod i ben ym mis Medi 2025 ar hyn o bryd, ond efallai y gofynnir am estyniad pellach ar gyfer y rhaglen.

- **Arfor** - Mae’r rhaglen yn gweithio ledled Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, er mwyn cefnogi cymunedau sy’n gadarnleoedd i’r Gymraeg i ffynnu trwy gyfrwng ymyraethau economaidd fydd hefyd yn helpu i greu mwy o gyfleoedd i weld a defnyddio’r Gymraeg. Mae’r Gronfa Cymunedau Mentrus yn rhan o’r rhaglen ac mae’n rhoi grantiau i fusnesau ar Ynys Môn er mwyn cefnogi datblygu economaidd a’r Gymraeg. Gwariwyd cyllid cyfalaf yn ystod chwarter 2 er mwyn darparu grantiau i 12 busnes ar gyfer prynu offer mawr a gwella eu hadeiladau busnes.

- **Llyfrgell Llangefni** - Sicrhawyd £0.095m o arian y Gronfa Ffyniant ar y Cyd er mwyn adnewyddu cyfleusterau storio presennol yn Llyfrgell Llangefni a chreu man croesawgar i’w defnyddio gan y gymuned a sefydliadau, yn ogystal â’r gwasanaeth llyfrgell a’i bartneriaid mewnol ac allanol. Dechreuodd contractwyr weithio ar y safle ym mis Gorffennaf, wythnos yn hwyrach na’r disgwyl, ac mae disgwyl i’r gwaith gael ei gwblhau yn ystod chwarter 3.

- **Grantiau Gwaith Graddfa Fach** - Cymeradwywyd 5 cynllun ar gyfer 2024/25 (tri chynllun adeiladu a dau gynllun dylunio). Dechreuodd gwaith adeiladu ar un cynllun yn ystod chwarter 2, ac mae disgwyl i waith adeiladu ar y ddau gynllun arall ddechrau yn ystod chwarter 3. Mae cynlluniau dylunio’n datblygu’n dda. Rhagwelir y bydd y gyllideb lawn yn cael ei gwario.

- **Llanfairpwll, Porthaethwy (Achos Busnes Llawn)** – Mae Achos Busnes Llawn Porthaethwy’n datblygu’n dda, ond mae cynnydd wedi arafu oherwydd natur y cynnig. Mae gwaith ar achos busnes Llanfairpwll yn datblygu’n dda erbyn hyn.

- **Teithio Llesol** – Sicrhawyd grant o £1.527m gan LlC i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a llesiant, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- £0.500m ar gyfer gwaith craidd ar nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, ac mae'n cynnwys gwaith datblygu ymlaen llaw, gwaith graddfa fach a gweithgareddau monitro ac arfarnu.
- £0.589m mewn perthynas â Cham 2 Caergybi – Trearddur (Gwaith ar Gyffordd 2 a Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw).
- £0.438m mewn perthynas â Cham 1 Pont Marquis – Malltraeth.

Mae gwaith ar Gam 1 Metro Gogledd Cymru yng Nghaergybi - Trearddur bellach wedi'i gwblhau. Mae gwaith paratoi dyluniadau a dogfennau Adran 278 yn parhau ar gyfer Cam 2 y cynllun uchod, dros Gyffordd 2 yr A55, ar y cyd ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a LlC, ac mae'r gwaith bron â'i gwblhau yn dilyn newidiadau pellach.

Penodwyd y prif gontractwr ar gyfer cynllun cyfalaf Malltraeth - Pont Marquis (opsiwn tymor byr) ac mae'r gwaith wedi'i raglennu i ddechrau ym mis Ionawr 2025, a'i orffen cyn diwedd Mawrth 2025. Penodwyd ymgynghorydd i gynnal gweithgareddau WelTAG Cam 3E ar gyfer y rhan o'r llwybr rhwng Malltraeth a Niwbwrch (ac mae Arolygon Coed ac ymchwiliadau daear yn cael eu trefnu). Mae Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw yn mynd rhagddynt yn Llanfairpwll, Amlwch, Benllech, Gaerwen, Malltraeth / Niwbwrch a'r Fali ac mae dyluniadau'n cael eu paratoi ar hyn o bryd ar y llwybrau methiant critigol.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV)(2023/24) –** Caniataodd LlC estyniad amser, tan ddiwedd Awst 2024, ar gyfer adeiladu'r Hwb Cerbydau Trydan ym Mhlas Arthur. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i gwblhau ar y maes parcio ei hun, yn barod ar gyfer yr offer Cerbydau Trydan.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2024/25) –** Dyfarnwyd £0.503m i hyrwyddo prosiectau isadeiledd gwefru cerbydau trydan, yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan LlC. Ar ôl cynnal asesiadau safle, dim ond pedwar o'r naw safle sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer gwaith galluogi a pharatoi (mae'r gwaith wedi'i ohirio ar 5 safle oherwydd rhesymau technegol amrywiol). Derbyniwyd dyfynbrisiau gan y Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) ar gyfer y pedwar safle, ac mae gwaith dylunio'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar waith sifil a gwaith galluogi ar gyfer y pedwar safle. Ym mis Medi lansiodd LlC Gytundeb Fframwaith Cerbydau Trydan ac mae gweithgareddau wedi bod yn mynd rhagddynt i asesu dogfennau er mwyn paratoi Manyleb, Gwahoddiad i Dendro a Chontract er mwyn penodi Darparwr Pwynt Gwefru Cerbydau Trydan trwy'r cytundeb fframwaith a lansiwyd yn ddiweddar. Gan fod llai o safleoedd yn cael eu datblygu a chan nad oes digon o gapasiti ar gael i wireddu safleoedd amgen, rhagwelir y bydd llai o wariant ar y rhaglen ULEV yn 2024/25. Mae amcangyfrif o'r tanwariant wedi'i ddarparu at ddibenion yr adroddiad hwn, a bydd cadarnhad pellach o'r amcangyfrif hwn yn cael ei ddarparu yn ystod chwarter 3. Cyflwynir cais i amrywio'r cyllid yn dilyn trafodaethau gyda Thrafnidiaeth Cymru a LlC.

- **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau –** Dyfarnwyd £0.072m i gefnogi cynlluniau cyfalaf sy'n cyfrannu at amcanion LlC i wella mynediad a diogelwch ac annog cerdded a beicio mewn cymunedau. Mae pwyslais penodol ar wella llwybrau i ac o ysgolion. Y nod yw newid sut mae pobl yn teithio, gan arwain at wella cynhwysiant cymdeithasol a gwella diogelwch cymunedol. Cwblhawyd gwaith adeiladu er mwyn sefydlu llwybr newydd a phwynt mynediad i Ysgol Llanfairpwll o'r A5 a Lôn Maes Hyfryd. Mae trafodaethau'n parhau â'r ysgol ynglŷn â mân ymyraethau posib eraill y gellir eu hystyried er mwyn gwneud gwelliannau pellach (oddi ar y safle / ar y Briffordd).

- **Diogelwch Ffyrdd -** Sicrhawyd £0.162m o gyllid gan LlC i gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at amcan LlC i leihau nifer yr anafiadau ar ffyrdd Cymru. Yn ystod chwarter 2, cwblhawyd gwaith trin wyneb a gwella priffyrdd ar rannau o'r B5109 a'r B5111. Yn ogystal, mae gwaith i gwblhau mesurau diogelwch ffyrdd wedi'i ryddhau i'r contractwr a disgwylir i'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod chwarter 3. Drafftiwyd mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer yr Ysgol Corn Hir newydd yn ystod chwarter 2, er mwyn dechrau gwaith ar y safle yn ystod chwarter 3.

- **Gwaith Adfer RAAC -** Yn ystod chwarter olaf 2023/24, dyfarnwyd £1.695m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cyfalaf yn gysylltiedig â RAAC. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar waith RAAC hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, a dygwyd ymlaen £1.014m i flwyddyn ariannol 2024/25 er mwyn cwblhau gweithgareddau RAAC.

    - Yn Ysgol David Hughes (YDH), cwblhawyd gwaith adfer ar y Bloc Ffreutur, yn ogystal ag ail-orchuddio'r to, yn ystod chwarter 2 2024/25, felly mae'r gwaith adfer wedi'i gwblhau yn YDH.

    - Yn Ysgol Uwchradd Caergybi (YUC), cwblhawyd gwaith adfer yn Ardal y Llwyfan, ynghyd â chywiro mân ddiffygion mewn rhai ardaloedd a gwaith ail-orchuddio rhan o'r to yn ystod chwarter 2 2024/25. Yn sgil cwblhau'r gwaith hwn mae'r gwaith Adfer RAAC a nodwyd hyd yma wedi cael ei gwblhau yn YUC. Mae cynllun rheoli wedi'i lunio ar gyfer y RAAC yn YUC a rhagwelir efallai y bydd rhaid gwneud rhagor o waith yn y dyfodol, mewn ardaloedd penodol, mewn ymateb i unrhyw ddirywiad a nodir yn y cyflwr.

- **Gwaith Toi yn Ysgol Santes Fair –** Sicrhawyd £0.153m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect ail-doi gwerth £0.219m yn Ysgol Gynradd Santes Fair. Mae'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer gweddill y gyllideb. Cwblhawyd y gwaith yn ystod chwarter 2 2024/25.

- **Ysgol David Hughes – Bloc Technoleg Bwyd** – Sicrhawyd £0.115m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect gwerth £0.163m yn yr ysgol, a bydd yr ysgol a'r Cyngor yn cyfrannu gweddill y gyllideb. Mae'r gwaith yn cynnwys tynnu rhywfaint o asbestos, gosod llawr newydd, gorffeniadau'r waliau a'r nenfwd, gosod unedau, byrddau gwaith a chyfarpar newydd a gwaith mecanyddol a thrydanol cysylltiedig. Cwblhawyd y gwaith yn ystod chwarter 2 2024/25.

- **Plas Arthur** – Sicrhawyd £0.995m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect gwerth £1.084m ym Mhlas Arthur, a bydd y Cyngor yn cyfrannu gyllid o gyllidebau cyfalaf presennol ar gyfer gweddill y gyllideb. Bydd y gwaith yn cael ei wneud ar du allan yr adeilad, gan gynnwys: ail-orchuddio'r to, adnewyddu clymau wal, insiwleiddio waliau ceudod, adnewyddu ffenestri a drysau a gosod cladin ar y tu allan. Dylid nodi mai hwn yw'r gwaith cyntaf mewn cyfres o gamau arfaethedig, yn amodol ar dderbyn cyllid ac, felly, ni fydd gwaith yn cael ei wneud ar yr adeilad cyfan. Dechreuodd y gwaith ym mis Mai 2024, a'r dyddiad cwblhau diwygiedig yw diwedd chwarter 3 2024/25.

- **Grant Gwres Carbon Isel (Swyddfeydd y Cyngor)** – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Tachwedd 2023 a chynhaliwyd arolygon daear yn dilyn hynny. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y safle, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu a pheirianyddol wedi'i gwblhau, mae'r pympiau gwres a chyfarpar hanfodol arall wedi'u gosod a'u cysylltu'n llwyddiannus â'r adeilad gan ddefnyddio pibellau tan-ddaear. Mae disgwyl i'r system gael ei chomisiynu yn ystod chwarter 3, a bydd yn dibynnu ar gyflenwad trydan o eneradur symudol. Bydd angen i SPEN wneud gwaith angenrheidiol er mwyn uwchraddio'r capasiti cyflenwi trydan i swyddfeydd y Cyngor cyn y gellir trosglwyddo o'r boeleri nwy presennol i'r Pwmp Gwres o'r Aer. Rydym yn disgwyl am gadarnhad o'r gofynion ac amserlen.

- **Grant Gwres Carbon Isel (4 grant)** – Dyfarnwyd cyllid gwerth £15.7m ar draws pedwar grant ar wahân. Mae'n rhaid cwblhau un o'r dyfarniadau grant erbyn diwedd 2024/25, a'r tri arall erbyn diwedd 2025/26. Mae Gwasanaeth Ynni LlC'n darparu cyllid grant tuag at 90% o'r costau, ac mae'r Cyngor yn darparu arian cyfatebol ar gyfer y 10% sy'n weddill o gyllidebau cyfalaf. Cwblhawyd gwaith allanol yn llwyddiannus mewn nifer o safleoedd ar yr un pryd, gan gynnwys gosod sylfeini a llociau gyda giatiau arnynt, a ddyluniwyd i amgylchynu pympiau gwres ac offer a chyfarpar arall. Roedd y systemau gwresogi pympiau gwres newydd yn weithredol ar dri safle yn ystod chwarter 2, ac mae cynlluniau i gomisiynu sawl un arall yn ystod chwarter 3, yn ddibynnol ar gwblhau gwaith uwchraddio trydanol.

- **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf Ychwanegol** - Dyfarnwyd £0.574m gan LlC ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion, a bydd yn cael ei ddefnyddio'n llawn yn ystod 2024/25.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2024/25)** – Dyfarnwyd £0.477m o gyllid grant gan LLC yn 2024/25 i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Nod y grant yw gwneud y gorau o amgylcheddau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn gwella hygyrchedd, hyrwyddo arfer cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Bydd hyn yn cefnogi amcanion diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ac ADY, er mwyn creu system ddwyieithog unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc o 0 i 25 sydd ag ADY, a darparu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion. Mae disgwyl i'r gyllideb gael ei gwario'n llawn ar y prosiectau presennol sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen i'w cyflawni o dan y grant hwn.

- **Grant Ysgolion Bro (2024/25)** - Dyfarnwyd £0.790m yn 2024/25 i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol, er mwyn caniatáu i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae'r swm a ddyfarnwyd yn gysylltiedig â thair ysgol benodol. Mae gwaith ar ddwy o'r ysgolion yn dirwyn i ben, ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn y drydedd ysgol. Disgwylir i'r gyllideb gael ei gwario'n llawn.

- Dyfarnwyd cyllid gofal cymdeithasol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o nifer o ffrydiau cyllido gwahanol, fel a ganlyn:-

  - **Y Gronfa Gofal Integredig** – hawliwyd £0.162m drwy'r Gronfa Gofal Integredig mewn blynyddoedd blaenorol ac o gyllid a ddadleolwyd gan grantiau er mwyn cwblhau prosiectau sydd wedi llithro i 2024/25. Mae'r arian sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y ddau brosiect isod:

    - Cartrefi clyd arbenigol;
    - Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys.

  Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a chaiff ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at y cynlluniau gwario uchod sydd wedi eu cynnwys yng nghyllideb y CRT.

  - **Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso (IRCF)** – Dyfarnwyd £0.839m o gyllid cyfalaf drwy'r IRCF i gyllido:-

    - Gors Felen (£0.062m) – Defnyddir y buddsoddiad hwn i greu amgylchedd synhwyraidd diogel ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu yng Nghanolfan Gors Felen yn Llangefni. Bydd yr amgylchedd pwrpasol hwn yn caniatáu i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a hybu eu hannibyniaeth.

- Canolfan Glanhwfa (£0.777m, ynghyd â grant ychwanegol o £0.210m) - Defnyddir y cyllid i drawsnewid capel / adeilad hanesyddol nid nepell o ganol tref Llangefni, ychwanegu at y ddewislen bresennol o weithgareddau ar gyfer pobl sydd â dementia a chreu'r Ganolfan Dementia gyntaf ar Ynys Môn. Bydd y Ganolfan yn cael ei rhedeg trwy gydol yr wythnos gan Ganolfan Glanhwfa, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Asesu'r Cof Gogledd Cymru a darparwyr arall, a bydd unigolion a gofalwyr yn elwa ar y ddarpariaeth yn ystod eu taith dementia. Bydd yr unigolion hyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau, derbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, cymryd rhan mewn sesiynau cefnogi gofalwyr ac ymuno â chlwb prydau fydd yn cael ei redeg ddwywaith yr wythnos gan Bwyd Da Môn ac Age Well Cymru. Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer y prosiect hwn wedi cychwyn a bydd yn cymryd 12 mis, felly, bydd y cyllid yn cael ei rannu dros ddwy flwyddyn ariannol - bydd y mwyafrif o'r cyllid yn cael ei wario yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

**3.2 Derbyniadau Cyfalaf**

**3.2.1** Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf a gynlluniwyd:-

| | Cyllideb<br>2024/25<br>£'000 | Derbyniwyd hyd at<br>30 Medi 2024<br>£'000 | Rhagolwg hyd at<br>31 Mawrth 2025<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 0 | 53 | 53 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 372 | 81 | 81 |
| **CRT** | 247 | 127 | 251 |
| **Cyfanswm** | **619** | **261** | **385** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £0.385m, ac roedd £0.261m wedi'i dderbyn hyd at 30 Medi 2024 (68%).

**3.2.3** Er bod y derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn £0.385m, mae £3.285m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf gan fod derbyniadau cyfalaf gwerth £2.900m wedi eu dwyn ymlaen o 2023/24 yn y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y cyfan o'r swm hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gfn clustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau hamdden, derbyniadau cyfalaf y CRT, yn ogystal â chyllid a glustnodwyd ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o'r flwyddyn ddiwethaf.

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR 2024/25

**4.1** Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragwelir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragwelir £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,049 | 1,050 | 1 | 0 |
| CRT Tai | 29,573 | 30,596 | 1,023 | 3 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,020 | 8,510 | (510) | (6) |
| Economaidd ac Adfywio | 12,438 | 7,270 | (5,168) | (42) |
| Priffyrdd | 7,105 | 6,879 | (226) | (3) |
| Rheoli Gwastraff | 264 | 264 | 0 | 0 |
| Eiddo | 11,303 | 10,973 | (330) | (3) |
| Trawsnewid | 500 | 500 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,225 | 938 | (287) | (23) |
| **Cyfanswm** | **£72,477** | **66,980** | **(5,497)** | **(8)** |
| **Cyllidir Gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 43,171 | 36,638 | (4,533) | (11) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,032 | 931 | (101) | (10) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 5,867 | 5,925 | 58 | 1 |
| Benthyca Digefnogaeth | 5,805 | 5,451 | (354) | (6) |
| Cyfraniad Refeniw | 15,381 | 15,017 | (364) | (2) |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,205 | 1,002 | (203) | (17) |
| Benthyciad | 16 | 16 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **72,477** | **66,980** | **(5,497)** | **(8)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yw £5.497m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2025/26. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2025/26 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

**Dysgu Gydol Oes**

Mae disgwyl i'r gyllideb Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl danwario yn erbyn y gyllideb lawn eleni. Mae Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) LIC'n cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith er mwyn caniatáu Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl yn ystod 2024/25. Disgwylir i'r pwysau ar y pennawd cyllideb hwn gynyddu yn y dyfodol gan y bydd canlyniadau archwiliadau mynediad yn darparu darlun llawnach o'r gwaith sydd angen ei wneud. Ar hyn o bryd, gofynnir am gael dwyn unrhyw danwariant ymlaen i gyllido gwaith yn 2025/26 a thu hwnt. Mae disgwyl hefyd i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer Adeiladau Addysg danwario (tua £0.375m). Mae hyn yn deillio o gynnydd o £0.572m o'r Dyfarniad Grant Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf 2024/25, a ddyfarnwyd yn hwyr ym mis Gorffennaf 2024 (wythnos cyn gwyliau'r haf), a'r penderfyniad bwriadol i beidio â brysio'r gwariant ond, yn hytrach, ei roi yn erbyn gwariant sydd wedi'i ymrwymo a'i ddwyn ymlaen i raglen fesuredig yn 2025/26. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ddarparu 10% o gyllid cyfatebol ar gyfer y Grant Gwres Carbon Isel o gyllidebau cyfalaf presennol, a bydd angen £0.319m fel cyllid cyfatebol ar gyfer Adeiladau Addysg yn 2025/26. Gofynnir, felly, am gael dwyn ymlaen unrhyw danwariant i gyllido cyllid cyfatebol a gwaith yn 2025/26.

**Economaidd ac Adfywio**

Mae disgwyl tanwariant sylweddol ar brosiectau Trawsnewid yn Seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth Caergybi yn erbyn y gyllideb bresennol, gan fod y rhaglen gyffredinol yn wynebu oedi sylweddol o ran ei chyflawni. Er hynny, fel y nodir yn 3.1 uchod, caniatawyd estyniad tan fis Medi 2025 (ac mae'n debygol y gellir sicrhau estyniad pellach), felly, ni chaiff unrhyw gyllid ei golli.

**Priffyrdd**

Rhagwelir tanwariant o thua £0.038m yn y gyllideb ar gyfer cerbydau a cherbydau graeanu. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau a wnaethpwyd yn barod ac archebion pellach a gynlluniwyd. Rhaid nodi, er hynny, y gallai LlC ddarparu cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol hon tuag at gerbydau trydan. Os digwydd hynny, rhagwelir y gallai'r tanwariant gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r cyllid grant i brynu rhagor o gerbydau. Fel y nodwyd yn 3.1 uchod, mae disgwyl i gyllideb gyfalaf ULEV danwario. Mae disgwyl i gynlluniau Lliniaru Llifogydd danwario hefyd yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Er bod y gwaith yn mynd rhagddo, bydd yn llithro i'r flwyddyn nesaf, ynghyd â'r cyllid grant, ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

**Eiddo**

Ni fydd y gyllideb ar gyfer Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn; ychydig iawn o wariant sy'n cael ei ragweld o'r gyllideb hon yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf defnyddiwyd y gyllideb hon i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer rhaglen grant LlC, Y Pethau Pwysig, sy'n cyllido 80% o gostau cymwys.

Nid oes rhaglen Y Pethau Pwysig yn 2024/25, ond mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y rhaglen yn rhedeg yn 2025/26 ac y bydd y tanwariant yn y gyllideb ar gael i gefnogi ceisiadau grant. Ni chredir y byddai'n synhwyrol ymrwymo'r gyllideb hon ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyllido'n llwyr gan y Cyngor eleni, tra bod posibilrwydd o ddefnyddio'r cyllid i wireddu prosiectau yn y dyfodol, pan fydd 80% o'r costau'n cael eu cyllido gan grantiau. Mae'r cynllun gwella toiledau cyhoeddus arfaethedig, fydd yn meintioli'r gofynion cyfalaf a blaenoriaethu asedau i fuddsoddi ynddynt, wedi'i ohirio gan fod y swyddog arweiniol wedi symud i swydd arall yn y Swyddogaeth Eiddo. Mae swyddog arweiniol newydd wedi'i benodi ac mae cynllun gwella toiledau cyhoeddus newydd yn cael ei ddatblygu. Mae risg hefyd o danwariant yn gysylltiedig â'r Grant Gwres Carbon Isel, o ran comisiynu gwaith lle mae'n ofynnol i SPEN gyflawni gwaith yn brydlon.

**Gwasanaethau Oedolion**

Mae disgwyl i gynllun Canolfan Glanhwfa danwario yn erbyn cyfanswm y gyllideb eleni, fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.1 uchod.

**4.3** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £156.457m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol yn £121.362m ar hyn o bryd, gan olygu, yn ei hanfod, fod angen i'r Awdurdod fenthyg £35.095m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff yr arian hwn ei fenthyca'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthyca a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2024/25 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan LlC) ac amcangyfrif o werth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir. Disgwylir i raglen gyfalaf 2025/26 ddilyn yr un egwyddorion, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau presennol a dyraniad blynyddol i gwrdd â chost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu harfarnu fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y cânt eu nodi yng Nghynllun y Cyngor 2022-2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw neu gynhyrchu incwm ychwanegol yn y dyfodol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Dengys y canlyniadau ar ddiwedd chwarter 2, a’r gwariant cysylltiedig a ragwelir, fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i’w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai prosiectau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi fod y cyllidebau wedi cael eu hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir i’r cynlluniau hyn lithro i 2024/25 er mwyn eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae’r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £0.385m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2024/25, fydd yn cyfrannu tuag at gyllido’r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a Rhagolwg o Wariant ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tan / Gor Wariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai - Cronfa Gyffredinol** | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 878,910 | 543,029 | 336,340 | 879,369 | 100 | 879,369 | 459 | 0 |
| Grant Galluogi | 139,786 | 3,369 | 0 | 3,369 | 2 | 139,786 | 0 | 0 |
| Tai Fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,049,346** | **546,399** | **336,340** | **882,738** | **84** | **1,049,805** | **459** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Tai - CRT** | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 1,600,000 | 591,916 | 0 | 591,916 | 37 | 1,300,000 | (300,000) | (19) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 6,216,006 | 2,586,619 | 0 | 2,586,619 | 42 | 5,216,006 | (1,000,000) | (16) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,700,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,700,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 74,253 | 0 | 74,253 | 15 | 300,000 | (200,000) | (40) |
| Prynu Eiddo a Datblygu Eiddo Newydd | 15,657,000 | 8,567,660 | 0 | 8,567,660 | 55 | 18,180,078 | 2,523,078 | 16 |
| Addasiadau'r Sector Cyhoeddus | 500,000 | 183,216 | 0 | 183,216 | 37 | 500,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 400,000 | 5,831 | 0 | 5,831 | 1 | 400,000 | 0 | 0 |
| Fflyd | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300,000 | 0 | 0 |
| SATC | 2,700,000 | 691,452 | 0 | 691,452 | 26 | 2,700,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **29,573,006** | **12,700,949** | **0** | **12,700,949** | **43** | **30,596,084** | **1,023,078** | **3** |
| | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | |
| Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl | 134,763 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (134,763) | (100) |
| Adnewyddu Adeiladau Addysg | 1,125,860 | 438,946 | 0 | 438,946 | 39 | 750,860 | (375,000) | (33) |
| Diogelwch Ysgolion | 68,901 | 5,607 | 0 | 5,607 | 8 | 68,901 | 0 | 0 |
| Canopïau Allanol | 3,077 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,077 | 0 | 0 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 108,385 | 106,541 | 0 | 106,541 | 98 | 108,385 | 0 | 0 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol 2024/25 | 476,761 | 139,126 | 0 | 139,126 | 29 | 476,761 | 0 | 0 |
| Ysgolion Bro | 789,680 | 43,522 | 24,801 | 68,323 | 9 | 789,680 | 0 | 0 |
| Gwaith Adfer RAAC | 1,013,521 | 712,452 | 7,062 | 719,514 | 71 | 1,013,521 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant Y Fali | 281,166 | 195,627 | 15,121 | 210,748 | 75 | 281,166 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant Ysgol Henblas | 38,569 | 26,269 | 12,300 | 38,569 | 100 | 38,569 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant Ysgol Llangoed | 442,543 | 709 | 29,489 | 30,197 | 7 | 442,543 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant Ysgol Llanfechell | 842,309 | 8,810 | 482,583 | 491,392 | 58 | 842,309 | 0 | 0 |
| Cynllun Grantiau Cyfalaf Gofal Plant | 435,044 | 70,739 | 1,324 | 72,064 | 17 | 435,044 | 0 | 0 |
| Ysgol Santes Fair - To | 218,607 | 188,520 | 0 | 188,520 | 86 | 218,607 | 0 | 0 |
| Ysgol David Hughes - Bloc Tech. Bwyd | 162,950 | 0 | 0 | 0 | 0 | 162,950 | 0 | 0 |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 2,878,000 | 2,192,638 | 41,402 | 2,234,040 | 78 | 2,878,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **9,020,137** | **4,129,506** | **614,082** | **4,743,588** | **53** | **8,510,374** | **(509,763)** | **(6)** |

## ATODIAD B

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tan / Gor Wariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | |
| Canolfan Hamdden Amlwch - Llawr | 50,527 | 47,524 | 2,381 | 49,905 | 99 | 49,905 | (622) | (1) |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 1,282,000 | 267,698 | 601,974 | 869,672 | 68 | 1,282,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Llesiant Amgylcheddol | 122,543 | 0 | 0 | 0 | 0 | 122,543 | 0 | 0 |
| Llithrfa Porth y Wrach - Camerau Gorfodaeth | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Gymuned Newry | 51,287 | 0 | 10,000 | 10,000 | 19 | 51,287 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Morwrol | 177,514 | 0 | 0 | 0 | 0 | 137,514 | (40,000) | (23) |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 193,953 | 5,772 | 116,871 | 122,643 | 63 | 193,953 | 0 | 0 |
| Arfor | 585,000 | 199,592 | 0 | 199,592 | 34 | 585,000 | 0 | 0 |
| Llyfrgell Llangefni | 95,430 | 30,527 | 0 | 30,527 | 32 | 95,430 | 0 | 0 |
| Caergybi: Trawsnewid yn Seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth | 9,800,000 | 859,950 | 0 | 859,950 | 9 | 4,671,943 | (5,128,057) | (52) |
| **CYFANSWM** | **12,438,254** | **1,411,064** | **731,226** | **2,142,290** | **17** | **7,269,576** | **(5,168,678)** | **(42)** |
| **Priffyrdd** | | | | | | | | |
| Cerbydau | 520,789 | 279,823 | 231,823 | 511,646 | 98 | 511,646 | (9,143) | (2) |
| Cerbydau Graeanu | 456,000 | 0 | 426,772 | 426,772 | 94 | 427,000 | (29,000) | (6) |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,116,975 | 1,610,994 | 0 | 1,610,994 | 76 | 2,116,975 | 0 | 0 |
| Cynllun Llifogydd Llanfair | 454,334 | 134,197 | 0 | 134,197 | 30 | 354,334 | (100,000) | (22) |
| ABLl Cynllun Llifogydd Porthaethwy | 69,518 | 32,787 | 0 | 32,787 | 47 | 59,518 | (10,000) | (14) |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 346,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | 346,800 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Gwaith Grant Graddfa Fach | 529,641 | 234,640 | 33,720 | 268,360 | 51 | 529,641 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 1,527,338 | 450,265 | 196,212 | 646,477 | 42 | 1,527,338 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Mannau Gwefru Cerbydau Trydan 2023/24 | 163,521 | 162,218 | 0 | 162,218 | 99 | 163,521 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd | 161,500 | 56,853 | 0 | 56,853 | 35 | 161,500 | 0 | 0 |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | 71,750 | 59,456 | 3,280 | 62,736 | 87 | 71,750 | 0 | 0 |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn 2024/25 | 502,500 | 88,035 | 215,348 | 303,383 | 60 | 425,000 | (77,500) | (15) |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 178,705 | 30,227 | 0 | 30,227 | 17 | 178,705 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **7,104,439** | **3,139,494** | **1,107,155** | **4,246,649** | **60** | **6,878,796** | **(225,643)** | **(3)** |

ATODIAD B

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Tan / Gorwariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | |
| Gwaith Compostio Caeedig | 7,791 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,791 | 0 | 0 |
| Offer Ailgylchu | 255,857 | 238,524 | 0 | 238,524 | 93 | 255,857 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **263,648** | **238,524** | **0** | **238,524** | **90** | **263,648** | **0** | **0** |
| **Eiddo** | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Presennol | 900,505 | 69,674 | 1,385 | 71,059 | 8 | 900,505 | 0 | 0 |
| Plas Arthur | 1,083,753 | 412,631 | 0 | 412,631 | 38 | 1,083,753 | 0 | 0 |
| Eiddo Buddsoddi i Arbed | 15,596 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15,596 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - Swyddfeydd y Cyngor | 23,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23,900 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 231 | 2,002,567 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,952,567 | (50,000) | (2) |
| Grant Gwres Carbon Isel - 249 | 1,539,374 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,539,374 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 250 | 3,899,555 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,899,555 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 251 | 1,557,982 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,557,982 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 279,574 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (279,574) | (100) |
| **CYFANSWM** | **11,302,806** | **482,305** | **1,385** | **483,690** | **4** | **10,973,232** | **(329,574)** | **(3)** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | |
| TGCH | 411,513 | 7,190 | 4,726 | 11,916 | 3 | 411,513 | 0 | 0 |
| System Ffôn | 88,500 | 63,666 | 689 | 64,355 | 73 | 88,500 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **500,013** | **70,857** | **5,414** | **76,271** | **15** | **5** | **0** | **0** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | |
| Gardd Synhwyraidd Gors Felen | 62,353 | 35,053 | 0 | 35,053 | 56 | 62,353 | 0 | 0 |
| Canolfan Glanhwfa | 987,041 | 0 | 0 | 0 | 0 | 700,000 | (287,041) | (29) |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 162,362 | 26,569 | 8,697 | 35,266 | 22 | 162,362 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 13,520 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,520 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,225,276** | **61,622** | **8,697** | **70,319** | **6** | **938,235** | **(287,041)** | **(23)** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **72,476,925** | **22,780,719** | **2,804,300** | **25,585,019** | **35** | **66,979,763** | **(5,497,162)** | **(8)** |

## Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ar ôl gosod y gyllideb

| Cynllun | Cyllideb £ | CYLLID: Grant £ | Cyfraniad Refeniw £ | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £ | Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf £ | Benthyca â Chefnogaeth £ | Benthyca Digefnogaeth £ | Cronfa Wrth Gefn Arall £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Galluogi | 139,786 | 139,786 | | | | | | |
| Teithio Llesol | 1,527,338 | 1,527,338 | | | | | | |
| ADY 2024/25 | 476,761 | 476,761 | | | | | | |
| Cynlluniau Llifogydd Graddfa Fach | 529,641 | 464,369 | | | 65,272 | | | |
| Gardd Synhwyraidd Gors Felen | 62,353 | 62,353 | | | | | | |
| Canolfan Glanhwfa | 987,041 | 987,041 | | | | | | |
| Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd | 161,500 | 161,500 | | | | | | |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | 71,750 | 71,750 | | | | | | |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | 502,500 | 502,500 | | | | | | |
| Ysgol DH - Bloc Tech. Bwyd | 162,950 | 115,000 | | | 27,950 | 20,000 | | |
| Cyfalaf Adeiladau Addysg | (490,752) | | | | | (490,752) | | |
| Cyfalaf Adeiladau'r Cyngor | (202,790) | | | | | (202,790) | | |
| To Santes Fair | 218,607 | 153,000 | | | | 65,607 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 231 | 1,059,524 | 953,571 | | | | 105,953 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 249 | 941,700 | 847,530 | | | | 94,170 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 250 | 2,285,610 | 2,057,049 | | | | 228,561 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 251 | 907,935 | 817,142 | | | | 90,793 | | |
| Plas Arthur | 1,083,753 | 995,295 | | | | 88,458 | | |
| Ysgolion Bro 2024/25 | 789,680 | 789,680 | | | | | | |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 162,362 | | | | | 162,362 | | |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | (8,023) | (8,023) | | | | | | |
| Cyfalaf Adeiladau Addysg | 572,114 | 572,114 | | | | | | |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 105,000 | 105,000 | | | | | | |
| Arfor | 585,000 | 585,000 | | | | | | |
| Cynlluniau Grantiau Cyfalaf Gofal Plant | 435,044 | 435,044 | | | | | | |
| Uned Gofal Plant Ysgol Llanfechell | 842,309 | 842,309 | | | | | | |
| Uned Gofal Plant Ysgol Llangoed | 442,543 | 442,543 | | | | | | |
| Uned Gofal Plant Ysgol Henblas | 95,430 | 95,430 | | | | | | |
| Llyfrgell Llangefni | 38,569 | 38,569 | | | | | | |
| CRT* | (1,345,000) | (1,172,661) | (2,688,074) | 509,441 | | (162,362) | 2,168,656 | |
| **CYFANSWM** | **13,140,235** | **13,056,990** | **(2,688,074)** | **509,441** | **93,222** | **0** | **2,168,656** | **0** |

*Roedd cyllideb y CRT ar gyfer 2024/25 yn cynnwys amcangyfrif rhy uchel ar gyfer cyllid grant, ac, yn ogystal â gostwng y gyllideb yn ôl y gofyn, mae'r cyllid wedi cael ei ddiwygio erbyn hyn.

| **Cynlluniau Ychwanegol a Ychwanegwyd yn ystod Chwarter 2 - Mae angen i'r Pwyllgor Gwaith eu Cymeradwyo** | | |
|---|---|---|
| **Cynllun** | **£'m** | **Cyllidir Gan** |
| Cyfalaf Adeiladau Addysg | 0.572 | Grant Allanol |
| Uned Gofal Plant Ysgol Henblas | 0.039 | Grant Allanol |
| Uned Gofal Plant Ysgol Llangoed | 0.443 | Grant Allanol |
| Uned Gofal Plant Ysgol Llanfechell | 0.842 | Grant Allanol |
| Cynlluniau Grant Cyfalaf Gofal Plant | 0.435 | Grant Allanol |
| Arfor | 0.585 | Grant Allanol |
| Llyfrgell Llangefni | 0.095 | Grant Allanol |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 0.105 | Grant Allanol |
| **Cyfanswm Cynlluniau Ychwanegol a Ychwanegwyd yn ystod Chwarter 2** | **3.116** | |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **26 TACHWEDD 2024** |
| Pwnc: | **CYFRIF REFENIW TAI - MONITRO'R GYLLIDEB, CHWARTER 2 2024/25** |
| Deilydd Portffolio: | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (est. 2601)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CARWYN EDWARDS**<br>**01248 752699**<br>**CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 2 2024/25.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £8,369k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2024/25 yw £29,573k. Mae cyllideb cyllid grant gwerth £10,578k a chronfa wrth gefn clustnodedig o £509k yn gostwng y gyllideb net i £18,485k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £10,116k. Bydd £7,011k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £3,104k yn cael ei gyllido gan fenthyca allanol.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa gwarged refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 2 yn dangos tanwariant o £604k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir tanwariant o £424k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn Adrannau 5 i 8 isod ac yn Atodiad A.

**4.2** Rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf £1,023k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr esbonnir yn Adran 9 isod ac yn Atodiadau B a C. Mae disgwyl y bydd incwm grant £1,612k yn uwch na'r gyllideb ac rydym hefyd yn disgwyl derbyn £128k o dderbyniadau cyfalaf ychwanegol.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (trwy gyfuno'r cyllidebau refeniw a chyfalaf) bellach yn £9,823k, £293k yn llai na'r gyllideb.

## 5. Incwm

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 2, roedd incwm £219k yn is na’r gyllideb a broffiliwyd. Mae’r diffyg o £123k yn yr incwm rhenti yn bennaf oherwydd bod nifer yr eiddo gwag yn uwch na’r disgwyl, o gymharu â’r gyllideb, ac mae gwahaniaeth o ran amseru trosglwyddo eiddo newydd i’r stoc sydd ar gael i’w rentu’n rhannol gyfrifol am y diffyg hefyd. Y rheswm pennaf am y diffyg o £96k sy’n weddill yw gwahaniaeth amseru o ran derbyn y derbyniadau gwirioneddol incwm arall o gymharu â’r gyllideb. Rydym yn rhagweld y bydd incwm £162k yn llai na’r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

## 6. Gwariant nad yw’n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**6.1** Ar ddiwedd chwarter 2, roedd gwariant nad yw’n ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £56k yn fwy na’r gyllideb a broffiliwyd. Y prif resymau am y canlyniad hwn yw tanwariant o £24k ar gostau staffio yn y tîm rheoli stadau (secondiadau tu allan i’r CRT, nid yw dyfarniad cyflog 2024 wedi cael ei dalu eto), a gorwariant o £82k, yn bennaf oherwydd nad yw gwariant gwirioneddol ar systemau TG y CRT wedi digwydd yn unol â’r amserlen pan osodwyd y gyllideb. Rydym yn rhagweld gorwariant posib o hyd at £193k ar ddiwedd y flwyddyn. Os caiff y gorwariant hwn ei wireddu, y prif reswm fydd gwariant ychwanegol o hyd at £140k mewn perthynas â throsglwyddo i gontract newydd ar gyfer system TG tai. Mae dau reswm am y cynnydd sylweddol yn y pris: yn gyntaf, roedd prisiau ein contract presennol wedi eu gosod tua 10 mlynedd yn ôl, a bydd y contract newydd wedi’i addasu ar gyfer prisiau heddiw; yn ail, mae’r gwneuthurwr yn symud oddi godi pris untro am y cynnyrch + cynnal a chadw, gan ddefnyddio model yn seiliedig ar danysgrifiad yn hytrach na hynny. Ar hyn o bryd, mae’r tîm systemau’n gwerthuso’r opsiwn gorau ar gyfer trosglwyddo.

## 7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**7.1** Roedd tanwariant o £879k ar waith trwsio a chynnal a chadw ar ddiwedd chwarter 2. Mae’r rhan fwyaf o’r tanwariant yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT), lle mae gwariant £790k yn is na’r gyllideb. Mae hyn yn gyfuniad o sawl ffactor:-

**(i)** y rheswm pennaf yw bod ein gweithredwr storfeydd yn trosglwyddo i system gyllid newydd, gan olygu bod oedi difrifol o ran derbyn anfonebau. Mae oedi hefyd wrth dderbyn anfonebau gan isgontractwyr eraill, ac amcangyfrifir bod yr oedi yn gyfrifol am danwariant o thua £700k.

**(ii)** tanwariant ychwanegol ar drafnidiaeth (cerbydau i’w defnyddio gan staff gweithredol ble mae’r swyddi’n wag), yn ogystal â thanwariant ar staffio oherwydd swyddi gweigion, ac nid yw dyfarniad cyflog 2024 wedi cael ei dalu eto chwaith.

**(iii)** Yn gyffredinol, mae gwariant yr UCChT wedi cynyddu o gymharu â’r flwyddyn ddiwethaf, oherwydd cynnydd mewn prisiau ac oherwydd bod mwy o waith yn cael ei wneud, ac rydym yn rhagweld gorwariant o tua £93k ar ddiwedd y flwyddyn.

**7.2** Mae gwariant ar staff nad ydynt yn staff cynnal a chadw'r UCChT £83k yn llai na’r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2, yn rhannol oherwydd swyddi gweigion ac yn rhannol oherwydd nad yw dyfarniadau cyflog 2024 wedi’u talu eto.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter 2, rydym yn rhagweld cyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2024/25 yw £29,573k, mae'r gyllideb cyllid grant yn £10,578k, ac mae'r gyllideb cyfraniadau eraill yn £509k. Rydym yn rhagweld y bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu (gweler Atodiad B am ddadansoddiad manwl), yn ogystal á chynnydd yn incwm grantiau a derbyniad cyfalaf ychwanegol gwerth £128k i'w ddefnyddio'n llawn gyda'r swm o £509k o'r gronfa wrth gefn clustnodedig.

Mae'r cyllid grant sy'n cael ei ragweld, gwerth £12,190k, yn cael ei grynhoi yn y tabl isod:-

| Ffynhonnell | Rhagolwg Chwarter 2 £ |
|---|---|
| Y Gronfa Tai â Gofal (CTG) | 584,158 |
| CADW | 73,676 |
| Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) | 324,730 |
| Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol | 1,184,124 |
| Grant Tai Cymdeithasol | 6,094,538 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,690,000 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2024/25 | 872,899 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2024/25 - Dyraniad Ychwanegol | 366,268 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **12,190,393** |

**9.2** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb o £2,700k yn cael ei rhannu fel a ganlyn:- £1,500k i fynd i'r afael â gwaith SATC a wrthodwyd gan denantiaid ac elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo, megis gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac ail-weirio systemau wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes. Bydd y £1,200k sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i sefydlu rhaglen 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu ceginau sydd bellach dros 15 oed. Mae'r contract wedi cael ei dendro a'i werthuso yn ystod chwarter 2. Rhagwelir y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25, os dyfernir contractau i ddau gontractwr llwyddiannus yn ystod chwarter 3.

**9.3** Gwariant Risg Tân – Bwriedir gwario'r gyllideb o £400k ar sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005. Bydd y mesurau arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gosod drysau tân newydd (FD60) mewn fflatiau ac uwchraddio systemau larymau tân mewn blociau o fflatiau. Cafodd y contract gosod drysau tân newydd ei dendro a'i ddyfarnu yn ystod chwarter 2. Rhagwelir y bydd y gyllideb lawn yn cael ei defnyddio yn 2024/25.

**9.4** Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus – Mae'r gwasanaethau Tai yn disgwyl i'r galw am addasiadau canolig a mawr barhau'n uchel, a bydd y gyllideb o £500k a ddyranwyd yn cyllido gwaith megis gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau. Rhagwelir y bydd y gyllideb lawn yn cael ei defnyddio yn ystod 2024/25.

**9.5** Gwariant Perfformiad Ynni – Yn ystod chwarter 1, paratowyd dogfennau contract gyda'r bwriad o sefydlu rhaglen 5 mlynedd ar gyfer darparu mesurau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yn y tymor hwy. Cafodd y contract, sy'n ymwneud yn bennaf â gosod systemau Solar PV ar y stoc dai, ac sydd wedi cael ei gymeradwyo bellach gan SPEN (yn amodol ar gynnwys mesurau cyfyngu allforio fel rhan o'r gosodiadau), ei dendro a'i ddyfarnu yn ystod chwarter 2. Os yw'r contract yn cael ei ddyfarnu'n llwyddiannus yn ystod chwarter 3, ein nod fydd defnyddio'r gyllideb o £1,700k yn llawn yn ystod 2024/25.

**9.6** Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Dyranwyd cyllideb gwerth cyfanswm o £6,216k ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw traddodiadol a gynlluniwyd, ac mae'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gyfer cynlluniau a ddyfarnwyd a'r gwaith wedi cychwyn yn 2023/24. Mae'r ymrwymiad a ddygwyd ymlaen yn ymwneud yn bennaf â pharhau â gwaith Cam 2 ym Maes Cynfor, Bae Cemaes a Chilgant Morrison, Caergybi. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi tendro a dyfarnu Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd arall yn ystod chwarter 2, ar gyfer Cam 2 Tan y Bryn, Y Fali, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 wedi'i hymrwymo ar gyfer y contract hwnnw. Bydd contract Tan y Bryn yn golygu bod ymrwymiad yn cael ei ddwyn ymlaen i 2025/26, ac mae'r gwasanaethau Tai'n rhagweld tanwariant o £1.0m eleni ar y gyllideb gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd.

**9.7** Gwariant ar Waith Amgylcheddol – Mae cyllideb gwerth £500k wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn ystod 2024/25. Bydd cyfran o'r gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio i barhau â'r gwaith a gynlluniwyd i ddymchwel rhai garejys yn Llangefni, Moelfre ac Amlwch nad ydynt yn ymarferol eu cadw bellach. Defnyddir y gyllideb hefyd i dargedu gwelliannau ar stadau tai ac uwchraddio gwaith trin y mae'r Gwasanaethau Tai'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Mae trafodaethau'n parhau â Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag uwchraddio gwaith trin yng Ngharreglefn, ac nid yw'r cynllun yn debygol o gael ei gytuno yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac ni fydd gwaith yn cychwyn ar y safle. Rhagwelir na fydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25.

**9.8** Gwariant Contract Gwres Canolog – Yn ystod 2024/25, nod y Gwasanaethau Tai yw adnewyddu oddeutu 600 o foeleri, a dyranwyd cyllideb o £1,600k ar gyfer y prosiect. Dyfarnwyd contract ar gyfer y rhaglen adnewyddu boeleri ar gyfer eleni yn ystod chwarter 1. Yn dilyn adolygiad canol blwyddyn o niferoedd eiddo terfynol, rhagwelir tanwariant o £300k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

**9.9** Adnewyddu Fflyd – Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £300k er mwyn cychwyn rhaglen dreigl adnewyddu fflyd gerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau, yn bennaf y faniau a ddefnyddir gan weithwyr.

**9.10** Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd – Disgwylir defnyddio mwy na'r gyllideb o £15,657k yn ystod 2024/25, a bydd cyfanswm o £18,180k yn cael ei wario.

- Prosiectau a gwblhawyd neu sydd bron â'u cwblhau
  Mae Lôn Lwyd ym Mhentraeth a Pharc y Coed (Cam 2) yn Llangefni wedi'u cwblhau gan ychwanegu 10 a 6 uned rhenti canolradd at stoc dai'r CRT. Bydd 4 uned hefyd ar gael i'w gwerthu ym Mharc y Coed.

  Bydd Plas Alltran yng Nghaergybi a Lôn Garreg Lwyd yng Nghaergybi'n ychwanegu 12 uned at stoc dai rhenti cymdeithasol y CRT. Bydd gwariant ar Blas Alltran yn cynyddu yn 2024/25, gyda'r gwaith wedi'i ddwyn ymlaen oherwydd oedi yn 2023/24.

- Cydweithio â’r Gwasanaethau Cymdeithasol
  Mae’r CRT yn cydweithio ar dri phrosiect gweithredol gydag adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Mae’r gwaith o ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy yn wynebu oedi ac nid oes disgwyl i unrhyw waith sylweddol ddigwydd yn 2024/25. Prynwyd eiddo yng Ngwalchmai gyda grant o’r CTG a bydd y costau adnewyddu’n cael eu talu gan y CRT. Bydd estyniad newydd ar eiddo ym Modorgan yn cael ei ddatblygu gyda grant y CTG.

- Datblygiadau eraill
  Mae datblygiadau newydd yng Nghae Braenar yng Nghaergybi a Stad y Bryn yn Llanfaethlu yn mynd rhagddynt yn dda, a rhagwelir y bydd gwariant ar Gae Braenar yn unol â’r gyllideb, tra bydd gorwariant o tua 10% ar Stad y Bryn eleni, gan fod y gwaith yn mynd rhagddo’n gynt na’r disgwyl, ond bydd llai o wariant ar y prosiect yn 2025/26 yn sgil hyn. Ar y llaw arall, cynlluniwyd i gychwyn gwaith datblygu ar safle hen Ysgol Niwbwrch ym mis Ionawr 2024 ond, oherwydd oedi, ni chychwynnodd y gwaith tan fis Mehefin. Oherwydd hyn, bydd y gwariant yn 2024/25 tua £700k yn llai nag a gynlluniwyd a bydd yn llithro i 2025/26.

- Prosiectau newydd y mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud arnynt neu brosiectau sydd ar y gweill nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto
  Mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar nifer o brosiectau, sef datblygiadau ym Mhlas Penlan yn Llangefni, Maes Mona yn Amlwch ac Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Mae disgwyl i Blas Penlan ac Ysgol Corn Hir wario mwy gan nad oedd cost y safle wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2024/25. Mae’r prosiect datblygu ar safle Ysgol Parch Thomas Ellis wedi’i ohirio oherwydd materion cynllunio ac mae wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr o brosiectau gweithredol am y tro. Mae ei gyllideb wreiddiol o £21k wedi’i dyrannu bellach i ddatblygiad Garreg Lwyd.

  Mae prosiectau sydd ar y gweill ond nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto yn cynnwys gwaith datblygu ac ailddatblygu ym Maes William Williams yn Amlwch, Tan y Foel yn Llanerchymedd, Ysgol y Parc yng Nghaergybi a Phencraig Mansions yn Llangefni. Mae disgwyl i wariant ar y prosiectau hyn fod oddeutu £30k yn ystod 2024/25.

- Prynu eiddo yn ól ac adnewyddu eiddo
  Mae’r cynllun blynyddol yn cynnwys prynu ac adnewyddu 15 o hen dai Cyngor. Mae’r cynllun prynu tai yn mynd rhagddo’n dda, ac mae’r holl eiddo wedi cael eu hadnabod, gyda saith wedi cael eu cwblhau’n barod erbyn diwedd chwarter 2. Bu cais am grant o’r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP)yn llwyddiannus, gan olygu y bydd £795k ar gael tuag at y costau prynu.

  Mae gwaith adnewyddu’n cael ei wneud yn bennaf ar eiddo a brynwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Hyd at ddiwedd chwarter 2, roedd £665k wedi’i wario ar waith adnewyddu, gyda chyfraniad o £390k o’r grant TACP. Mae disgwyl i brosiectau presennol, yn ogystal â gwaith ar eiddo newydd a brynir, olygu bod cyfanswm o £2.1m yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Y sefyllfa gyffredinol

Mae contractau i ddatblygu eiddo newydd a phrynu ac adnewyddu hen dai Cyngor yn feysydd prysur iawn. Ar ddiwedd chwarter 2, rydym yn rhagweld gorwariant o £2,523k ar y gyllideb o £15,567k a gymeradwywyd yn chwarter 1, a chyfanswm y gwariant fydd £18,180k.

Mae gwaith adnewyddu'n perfformio ymhell uwchlaw'r gyllideb yn sgil datblygiad deinamig iawn yn y cyfleoedd sydd ar gael, ac sy'n anodd eu rhagweld yn gywir, ac mae hyn yn cyfrannu £1,300k at y gorwariant a ragwelir. Mae cost prynu dau safle, ym Mhenlan a Chorn Hir, yn oddeutu £500k a rhagwelir gwariant o £560k ar ddau brosiect newydd ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r gorwariant o £163k sy'n weddill yn gyfuniad o wariant a ddygwyd ymlaen a gwariant sydd wedi llithro o un flwyddyn ariannol i'r llall, yn ogystal â rhywfaint o or a thanwariant. Trwy fanteisio ar gyfleoedd cyllido newydd ni fydd angen benthyca rhagor o arian.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,189k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £7,011k o'r balans hwn, gan adael yr isafswm balans o £1,177k ar gyfer y gronfa wrth gefn a bennwyd gan y Swyddog Adran 151, ac mae hyn gyfystyr â 5% o'r gyllideb incwm ar gyfer 2024/25.

**11. Benthyciadau'r CRT**

**11.1** Mae'r diffyg refeniw / cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer eleni yn £10,116k. Cyllidebwyd hyn i gael ei gyllido gan £7,011k o gronfa wrth gefn y CRT a £3,105k gan fenthyca allanol. Oherwydd bod y rhagolwg ar gyfer incwm grant wedi cynyddu, rydym yn rhagweld y bydd benthyca allanol yn gostwng i £2,751k.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2024. Mae unrhyw sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried yn y cyfarfod ar 5 Tachwedd 2024. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn derbyn adroddiad ar ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT. |
| **9** | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 2 2024/25
- Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 2 2024/25
- Atodiad C - Cynlluniau cyfalaf adeiladu newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 2 2024/25

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2024-2054 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2024).

| *CYFRIF REFENIW TAI 2024/25* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2024/25** | **Cyllideb a broffilwyd hyd at mis 6** | **Gwirioneddol hyd at mis 6** | **Amrywiant hyd at mis 6** | **Rhagolwg Diwedd Blwyddyn** | **Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn** | **Amrywiant a ragwelir ym mis 3** | **Newid o Ragolwg Ch1** |
| **CYFRIF REFENIW**<br><br>**Incwm** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Anheddau | (22,764,700) | (11,821,710) | (11,698,760) | 122,950 | (22,581,750) | 182,950 | 56,971 | 125,978 |
| Modurdai | (267,820) | (139,080) | (138,747) | 333 | (267,487) | 333 | 764 | (431) |
| Taliadau Gwasanaeth | (185,730) | (91,257) | (103,730) | (12,473) | (178,203) | 7,527 | 1,417 | 6,110 |
| Arall | (233,340) | (180,756) | (72,248) | 108,508 | (262,629) | (29,289) | 7,501 | (36,790) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 341,470 | 0 | 0 | 0 | 341,470 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(23,110,120)** | **(12,232,803)** | **(12,013,485)** | **219,318** | **(22,948,599)** | **161,521** | **66,653** | **94,867** |
| **Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 252,940 | 125,998 | 119,863 | (6,135) | 262,586 | 9,646 | 5,433 | 4,214 |
| Gweinyddu Rhenti | 450,530 | 225,591 | 229,615 | 4,024 | 479,594 | 29,064 | 3,002 | 26,062 |
| Rheoli Stadau | 684,480 | 341,945 | 317,957 | (23,988) | 679,971 | (4,509) | (9,774) | 5,265 |
| Gwariant | 2,354,450 | 1,109,317 | 1,190,991 | 81,674 | 2,513,016 | 158,566 | 38,156 | 120,410 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **3,742,400** | **1,802,851** | **1,858,426** | **55,575** | **3,935,167** | **192,767** | **36,817** | **155,951** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UChChT) | 6,576,240 | 3,270,243 | 2,479,304 | (790,939) | 6,669,192 | 92,952 | (106,465) | 199,417 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UChChT) | 1,192,960 | 595,666 | 512,530 | (83,136) | 1,125,357 | (67,603) | (21,453) | (46,150) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 1,098,220 | 675,707 | 670,678 | (5,029) | 1,142,190 | 43,970 | 1,770 | 42,199 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **8,867,420** | **4,541,616** | **3,662,512** | **(879,104)** | **8,936,738** | **69,318** | **(126,148)** | **195,466** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 1,646,000 | 0 | 0 | 0 | 1,646,000 | 0 | 0 | 0 |
| Llog a Dderbynnir | (400,000) | 0 | 0 | 0 | (400,000) | 0 | 0 | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Tai | 53,870 | 0 | 0 | 0 | 53,870 | 0 | 0 | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Canolog | 831,260 | 0 | 0 | 0 | 831,260 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **2,131,130** | **0** | **0** | **0** | **2,131,130** | **0** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **14,740,950** | **6,344,467** | **5,520,938** | **(823,529)** | **15,003,035** | **262,085** | **(89,331)** | **351,417** |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(8,369,170)** | **(5,888,336)** | **(6,492,547)** | **(604,211)** | **(7,945,564)** | **423,606** | **(22,678)** | **446,284** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF GWARIANT** | | | | | | | | |
| Gwariant 2024/25 | 29,573,006 | | 12,700,947 | 12,700,947 | 30,596,084 | 1,023,078 | 0 | 1,023,078 |
| Cyllid grant | (10,578,339) | | 0 | 0 | (12,190,393) | (1,612,054) | 0 | (1,612,054) |
| Cyfraniadau eraill | (509,441) | | (128,000) | (128,000) | (637,441) | (128,000) | 0 | (128,000) |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **18,485,226** | | **12,572,947** | **12,572,947** | **17,768,250** | **(716,976)** | **0** | **(716,976)** |
| ***Cyllidir Gan*** | | | | | | | | |
| Gwarged refeniw | (8,369,170) | | | | (7,945,564) | 423,606 | | (7,945,564) |
| Arian wrth gefn CRT | (7,011,400) | | | | (7,011,400) | 0 | | (7,011,400) |
| Benthyca digefnogaeth | (3,104,656) | | | | (2,811,286) | 293,370 | | (2,811,286) |
| **Cyfanswm Cyllido Gwariant Cyfalaf** | **(18,485,226)** | | | | **(17,768,250)** | **716,976** | | **(17,768,250)** |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (8,188,500) | | | | (8,188,500) | | | (8,188,500) |
| **Gostyngiad yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 7,011,400 | | | | 7,011,400 | | | 7,011,400 |
| **Balans Cau’r CRT** | **(1,177,100)** | | | | **(1,177,100)** | | | **(1,177,100)** |

## CYFRIF REFENIW TAI – CYLLIDEB CYFALAF 2024/25

| | Cyllideb flynyddol 2024/25 £ | Gwirioneddol i mis 6 £ | Rhagolwg diwedd blwyddyn £ | Amrywiant diwedd blwyddyn £ | Amrywiant a ragwelir ym mis 3 £ | Newid o ragolwg mis 3 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contract Gwresogi Canolog | 1,600,000 | 591,916 | 1,300,000 | (300,000) | 0 | (300,000) |
| Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd | 6,216,006 | 2,586,619 | 5,216,006 | (1,000,000) | 0 | (1,000,000) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,700,000 | 0 | 1,700,000 | 0 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 74,253 | 300,000 | (200,000) | 0 | (200,000) |
| Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd | 15,657,000 | 8,567,660 | 18,180,078 | 2,523,078 | 0 | 2,523,078 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 500,000 | 183,216 | 500,000 | 0 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 400,000 | 5,831 | 400,000 | 0 | 0 | 0 |
| SATC | 1,500,000 | 691,452 | 1,500,000 | 0 | 0 | 0 |
| Rhaglen Adnewyddu Ceginau | 1,200,000 | 0 | 1,200,000 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Fflyd | 300,000 | 0 | 300,000 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **29,573,006** | **12,700,947** | **30,596,084** | **1,023,078** | **0** | **1,023,078** |

## CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2024/25

| Cynlluniau | Nifer yr unedau ychwanegol | Cyllideb 2024/25<br>£ | Gwariant hyd mis 6<br>£ | Rhagolwg gwariant mis 7 – 12<br>£ | Cyfanswm gwariant a ragwelir 2024/25<br>£ | Amrywiant a ragwelir ym mis 6<br>£ | Amrywiant ym mis 3<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lôn Lwyd, Pentraeth | 10 | 2,723,500 | 2,722,743 | 0 | 2,722,743 | (757) | 0 |
| Parc y Coed, Llangefni, Cam 2 | 10 | 294,000 | 214,804 | 25,196 | 240,000 | (54,000) | 0 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | 238,000 | 278,787 | 273,548 | 552,335 | 314,335 | 0 |
| Ffordd Garreg Lwyd, Caergybi | 8 | 886,500 | 840,867 | 124,133 | 965,000 | 78,500 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 45 | 100,000 | 143,262 | 6,738 | 150,000 | 50,000 | 0 |
| Gwalchmai | 1 | 0 | 1,919 | 413,081 | 415,000 | 415,000 | 0 |
| Bodorgan | 1 | 0 | 3,758 | 146,242 | 150,000 | 150,000 | 0 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 4,000,000 | 1,656,340 | 2,343,660 | 4,000,000 | 0 | 0 |
| Hen Safle Ysgol Niwbwrch | 14 | 2,500,000 | 287,937 | 1,512,063 | 1,800,000 | (700,000) | 0 |
| Stad y Bryn, Llanfaethlu | 9 | 2,175,000 | 941,185 | 1,483,815 | 2,425,000 | 250,000 | 0 |
| Plas Penlan, Llangefni | 12 | 50,000 | 2,325 | 347,675 | 350,000 | 300,000 | 0 |
| Maes Mona, Amlwch | 40 | 60,000 | 10,285 | 49,715 | 60,000 | 0 | 0 |
| Safle Ysgol Corn Hir | | 100,000 | 2,545 | 517,455 | 520,000 | 420,000 | 0 |
| Cynlluniau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio | 0 | 30,000 | 12,958 | 17,042 | 30,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu 15 Uned | 0 | 1,000,000 | 664,925 | 1,435,075 | 2,100,000 | 1,100,000 | 0 |
| Prynu 15 Uned yn ól | 15 | 1,500,000 | 785,565 | 914,435 | 1,700,000 | 200,000 | 0 |
| **Cyfanswm** | **192** | **15,657,000** | **8,570,205** | **9,609,873** | **18,180,078** | **2,523,078** | **0** |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 TACHWEDD 2024** |
| **Pwnc / Testun:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2025/26** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Tel:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**<br>01248 752601 rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **AMHERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

**1.** Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2025/26, sef **31,445.15** (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6).

**2.** Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2025/26 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

**3.** Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2025/26 sef **33,472.17**, ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,558.06 |
| Biwmares | 1,162.14 |
| Caergybi | 4,100.82 |
| Llangefni | 2,136.18 |
| Porthaethwy | 1,525.77 |
| Llanddaniel-fab | 382.90 |
| Llanddona | 422.03 |
| Cwm Cadnant | 1,234.98 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,336.39 |
| Llanfihangel Ysceifiog | 714.60 |
| Bodorgan | 486.31 |
| Llangoed | 702.13 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 652.47 |
| Llanidan | 427.80 |
| Rhosyr | 1,061.75 |
| Penmynydd | 250.14 |
| Pentraeth | 613.98 |
| Moelfre | 706.87 |

| | |
|---|---|
| Llaneilian | 652.66 |
| Llannerch-y-medd | 544.50 |
| Llaneugrad | 210.59 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2,036.74 |
| Cylch y Garn | 436.31 |
| Mechell | 593.58 |
| Rhos-y-bol | 491.43 |
| Aberffraw | 322.08 |
| Bodedern | 452.11 |
| Bodffordd | 430.38 |
| Trearddur | 1,519.06 |
| Tref Alaw | 274.15 |
| Llanfachraeth | 237.62 |
| Llanfaelog | 1,456.45 |
| Llanfaethlu | 289.73 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 587.89 |
| Y Fali | 1,085.57 |
| Bryngwran | 369.72 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llanbadrig | 716.15 | | Rhoscolyn | 396.18 |
| Llanddyfnan | 522.47 | | Trewalchmai | 371.48 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2025/26 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2024 a chrynhoir gan yr Awdurdod dan Ran 22B (7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2025/26.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2024. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 15 Tachwedd 2024, ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 5 Ionawr 2025.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 100% ar ail gartrefi ar gyfer 2025/26, yn seiliedig ar fwriad y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref 2021 i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi (i'w gadarnhau gan y Pwyllgor Gwaith). Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, y bydd ei gynllun lleol cyfredol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau am flynyddoedd dilynol heblaw ei fod yn cael ei newid yn sylweddol. Am 2025/26, dim ond yr uwchraddio arferol i'r budd-daliadau sy'n cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU, ond bydd costau oherwydd baich achosion ac / neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer eiddo sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw (GCR) 2025/26. Mae'r cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r GCR, yn eithrio'r addasiadau am bremiymau a'r disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio ar Ynys Môn gan na roddir disgowntiau o'r fath). Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,445.15 (i'w gymharu â 31,241.64 ar gyfer 2024/25). Mae hyn yn gynnydd o 0.65%.

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH**

Mae'r cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 33,472.17. Nodir, felly, bod y ffigyrau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2025/26 at ddiben pennu'r dreth yw 33,472.17. Mae hyn yn cymharu â 33,170.03 am 2024/25 ac yn gynnydd o 0.91%. Mae nifer o ffactorau wedi effeithio ar sylfaen y dreth, yn cynnwys nifer yr eiddo newydd a ragwelir a fydd yn cael eu hychwanegu i'r gofrestr Dreth Gyngor yn 2025/26, nifer yr eithriadau a disgowntiau a roddir a'r nifer a fydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag ac ailgartrefi a chanran y premiwm.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo gwag hirdymor am 2025/26 yn 422.35, o'i gymharu â 328.46 am 2024/25 ac mae hyn o ganlyniad i gynnydd o 113 yn nifer yr eiddo gwag sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer ail gartrefi am 2025/26 yn 2,074.39, o'i gymharu â 2,066.65 am 2024/25. Nid oes newid yn nifer y tai sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ar hyn o bryd, ond mae'r symyd yn sylfaen y dreth yn adlewyrchu'r newid yn nifer yr eiddo ym mhob band.

Mae'r newid yn sylfaen y dreth yn effeithio ar bwynt cychwynnol y Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw am 2025/26 ac fe ymdrinnir â hyn yn fanylach mewn adroddiadau dilynol ar y gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, i grynhoi, bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r Dreth Gyngor safonol yn cynhyrchu £483k mwy o refeniw (yn seiliedig ar y Dreth Gyngor a godwyd yn 2024/25), ond bydd hyn yn arwain at ostyngiad o £319k mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) gan Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 2024/25 a'r un lefel dybiedig o Dreth Gyngor Band D â 2024/25). Bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo gwag yn arwain at gynnydd o £155k yn yr incwm a gynhyrchir gan y premiwm eiddo gwag, a bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ail gartrefi yn cynhyrchu £12k mwy o incwm.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i ddosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B, ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol ers hynny. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o eiddo gwag hirdymor) a hynny am y tro cyntaf, ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn a gwrthodwyd yr opsiwn.

Bu'r Cyngor llawn, ar 27 Chwefror 2019, bennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar eiddo gwag hirdymor a phremiwm o 100% ar ail gartrefi o'r 1 Ebrill 2024. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad hynny.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn, yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith, sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau a phremiymau, ynghyd â phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r modd y cafodd sylfaen y dreth ei gyfrifo yn cymryd i ystyriaeth y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgowntiau i ddosbarthiadau penodedig A, B a C, ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.

Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yna a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, wedi pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor. Cafodd y penderfyniad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 100% o 1 Ebrill 2024 ei gadarnhau gan y Cyngor llawn ar 15 Mawrth 2024.

## D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2025/26.

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Bydd y penderfyniad yn effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor a bydd goblygiadau'r penderfyniad hwn ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hystyried wrth i broses y gyllideb refeniw fynd rhagddi. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Amherthnasol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Amherthnasol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Byddwn yn ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn ar y cynigion ar gyfer y gyllideb maes o law. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Amherthnasol. |
| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Dim sylw ychwanegol. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylw ychwanegol. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol. |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol. |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol. |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A : Cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor Leol 2025/26 | | |
| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** | | |
| Nodiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer arweiniad ar Anheddau Dreth Gyngor (CT1) 2025/26 | | |

**ATODIAD A**

# CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2025/26

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,722 | 6,627 | 6,862 | 7,172 | 5,398 | 2,695 | 1,057 | 162 | 54 | 34,749 |
| **A.2** | Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd | | 9 | 44 | 51 | 97 | 90 | 51 | 12 | 9 | 5 | 368 |
| **A.3** | **Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu (gan gymryd i ystyriaeth ostyngiadau anabledd)** | **9** | **4,757** | **6,634** | **6,908** | **7,165** | **5,359** | **2,656** | **1,054** | **158** | **49** | **34,749** |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 7 | 1,734 | 3,409 | 3,868 | 4,399 | 3,544 | 1,876 | 733 | 98 | 27 | 19,695 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 2 | 2,793 | 2,920 | 2,579 | 2,174 | 1,377 | 528 | 184 | 26 | 8 | 12,591 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 0 | 7 | 11 | 13 | 10 | 11 | 6 | 11 | 3 | 2 | 74 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ac eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | 0 | 223 | 294 | 448 | 582 | 427 | 246 | 126 | 31 | 12 | 2,389 |
| **B.4** | **Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy** | **9** | **4,757** | **6,634** | **6,908** | **7,165** | **5,359** | **2,656** | **1,054** | **158** | **49** | **34,749** |
| **B.5** | Holl ddisgowntiau newidiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.6** | Addasiad disgownt am eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.7** | Addasiad premiwm am eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi | 0 | 223 | 294 | 448 | 582 | 427 | 246 | 126 | 31 | 12 | 2,389 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan C** | **CYFRIFIAD O ANHEDDAU TRETHADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU** | | | | | | | | | | | |
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 9 | 4,278 | 6,193 | 6,705 | 7,199 | 5,436 | 2,767 | 1,129 | 181 | 58 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'u talgrynnu i ddau le degol) | 4.72 | 2,852.17 | 4,816.39 | 5,959.78 | 7,198.50 | 6,644.31 | 3,996.78 | 1,880.83 | 362 | 135.33 | 33,850.81 |
| **C.7** | Cyfanswm anheddau gostyngedig ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref | 9 | 4,055 | 5,899 | 6,257 | 6,617 | 5,009 | 2,521 | 1,003 | 150 | 46 | |
| **C.8** | Cyfwerthoedd Band D ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref | 4.72 | 2,703.50 | 4,587.72 | 5,561.56 | 6,616.50 | 6,122.42 | 3,641.44 | 1,670.83 | 300 | 107.33 | 31,316.02 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO SYLFAEN Y DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D (yn unol â C.4) | | | | | | | | | | | 33,850.81 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 33,343.04 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn) | | | | | | | | | | | 129.13 |
| **E.5** | **Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth (E.3 + E.4)** | | | | | | | | | | | **33,472.17** |
| **E.5b** | Anheddau trethadwy gostyngedig ac eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref (yn unol â C.8) | | | | | | | | | | | 31,316.02 |
| **E.6** | **100% o Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw (E.5b + E.4)** | | | | | | | | | | | **31,445.15** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith**<br>**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| Dyddiad: | **26 Tachwedd 2024**<br>**5 Rhagfyr 2024** |
| Pwnc: | **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023/2024** |
| Aelod Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| Awdur yr Adroddiad | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| Aelodau Lleol: | **Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau:** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**1. Argymhellion:**

Bod y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor yn:

- nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2023/2024.
- awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol.
- rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion, a thrwy hynny, ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.
- parhau i gefnogi'r Cyngor i ddatblygu ei system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) fel llwyfan i brosesu cwynion a darparu data "byw" ar berfformiad o ran ymdrin â chwynion, fesul gwasanaeth, i swyddogion perthnasol, penaethiaid gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth.

**2. Cefndir**

Ers 2006, mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd gan ei swyddfa yn ystod y 12 mis diwethaf.

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Yn ddiweddar, cyhoeddodd OGCC ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/2024.

Mae OGCC hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad pob cyngor; a elwir y llythyr blynyddol.

Mae Llythyr Blynyddol 2023/2024, ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), ynghlwm yn **Atodiad 1**.

**3. Llythyr Blynyddol 2023/2024 ar gyfer CSYM**

Mae'r Llythyr Blynyddol (y Llythyr) yn ymwneud yn bennaf â chwynion ynglŷn â gwasanaethau, ond mae'n cynnwys adran hefyd ar gwynion a wnaethpwyd o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

**Y Prif Ddata ar gyfer CSYM mewn perthynas â Chwynion Gwasanaeth:**

- derbyniodd OGCC 38 o gwynion am wasanaethau, yn ymwneud â CSYM, yn 2023/2024 (Atodiad A i'r Llythyr). Mae hyn yn fwy na'r 25 o gwynion a dderbyniwyd yn 2022/2023 a 28 yn 2021/2022.

- Er hynny, ni wnaeth OGCC ymchwilio i'r un o'r 38 o gwynion (Atodiad C i'r Llythyr). Ni ymchwiliwyd i unrhyw gwynion yn 2022/2023 nac yn 2021/2022 chwaith.

- Roedd nifer y cwynion gwasanaeth a dderbyniodd OGCC ynglyn â CSYM, yn ystod 2023/2024, y trydydd uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, sef 0.55 fesul 1000 o drigolion (Atodiad A i'r Llythyr). Mae hyn yn cymharu â pherfformiad canolrifol CSYM o 0.36 fesul pen o'r boblogaeth yn 2022/2023 a 0.41 fesul pen o'r boblogaeth yn 2021/2022.

- Roedd 24% o'r cwynion ynglyn â CSYM, yn 2023/2024, yn ymwneud â'r ffordd yr oedd CSYM wedi ymdrin â chwynion (9 cwyn). (Atodiad B i'r Llythyr).

  Mae hyn yn gyson â pherfformiad CSYM yn 2022/2023 pan roedd 24% o'r cwynion am CSYM hefyd yn ymwneud ag ymdrin â chwynion (6 chwyn).

  Yn 2021 roedd 10% o'r cwynion am CSYM yn ymwneud ag ymdrin â chwynion (3 chwyn).

- Cafodd 24% o gwynion a dderbyniodd OGCC am CSYM, yn 2023/2024, eu datrys trwy ymyrraeth gynnar (datrysiad) gan OGCC (10 cwyn). (Atodiad C i'r Llythyr). Dyma'r lefel uchaf o ymyraethau yng Nghymru (24%), o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 14% yn 2023/2024.

  Y perfformiad cyfatebol ar gyfer CSYM yn 2022/2023 oedd 20% (5 o gwynion). Y gyfradd ymyrraeth genedlaethol, ar gyfartaledd, oedd 13%.

  Yn 2021/22, roedd lefel ymyraethau cynnar gan OGCC yn 11% (3 o gwynion), o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 14%.

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Y Prif Ddata ar gyfer CSYM mewn perthynas â Chwynion Cod Ymddygiad**

Yn ogystal â'r cwynion y mae OGCC yn eu derbyn ynglŷn â gwasanaethau, cyfeiria'r Llythyr hefyd at gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir, Tref a Chymuned.

- Ni chyfeiriodd OGCC unrhyw gwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag aelodau'r Cyngor Sir (i'r Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru) yn ystod 2023/2024. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion yn ystod 2022/2023 nac yn 2021/2022 chwaith.

- Ni chyfeiriodd OGCC unrhyw gwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag Aelodau Cyngor Tref neu Gymuned (i'r Pwyllgor Safonau, neu Banel Dyfarnu Cymru) yn ystod 2023/2024. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion yn ystod 2022/2023 nac yn 2021/22 chwaith.

**Casgliadau**

- Bu cynnydd yn nifer y cwynion gwasanaeth a gyflwynwyd i OGCC ond, unwaith eto, ni ymchwiliodd OGCC i'r un o'r cwynion. Gwelwyd cysondeb yn hynny o beth ers tair blynedd.

- Mae perfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion wedi dirywio ac mae mwy o ddibyniaeth ar ymyrraeth gan OGCC.

- Er bod gwasanaethau'n gyfrifol am ymateb i'w cwynion eu hunain, yn ogystal â'u datrys lle bo hynny'n briodol ac yn bosib, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod materion staffio corfforaethol yn rheswm tebygol/ffactor cyfrannol sylweddol mewn perthynas â'r dirywiad hwn yn y perfformiad o ran ymdrin â chwynion.

  Mae un o ddwy swydd allweddol yn parhau i fod yn wag, er bod tri chynnig wedi'u gwneud i recriwtio i'r swydd, ac mae staff asiantaeth yn cefnogi ar hyn o bryd.

  Bydd yr ail swydd allweddol yn dod yn wag ddiwedd Tachwedd 2024. Mae'n annhebygol iawn, felly, y bydd y lefel flaenorol o gefnogaeth gorfforaethol ar gael i wasanaethau yn y dyfodol agos, er bod recriwtio i'r swyddi hyn yn parhau i fod yn amcan.

- Mae'r prosiect CRM (y cyfeirir ato yn yr argymhelliad olaf ym mharagraff 1 uchod) yn parhau i ddatblygu, diolch yn bennaf i gefnogaeth gan y gwasanaeth Trawsnewid a'r adran Dechnoleg Gwybodaeth. Mae disgwyl i'r system fynd yn "fyw" yn gynnar yn 2025 ac mae trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu hyfforddiant i swyddogion perthnasol ar y system, ynghyd â hyfforddiant diweddaru'n ymwneud ag ymdrin â chwynion yn gyffredinol. Yn hwylus iawn, mae OGCC wedi cynnig darparu'r hyfforddiant ymdrin â chwynion. Bwriedir i'r llwyfan CRM awtomeiddio prosesau a darparu mwy o ddata amser real ynglŷn â pherfformiad ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol.

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth. Er hynny, nid yw gwasanaethau'n debygol o fod â rhagor o gapasiti i ddelio â chwynion.

- Rydym yn dibynnu felly at y datrysiad canlynol:

- Llenwi'r ddwy swydd wag gorfforaethol
- Cyflwyno system CRM newydd
- Darparu hyfforddiant a datblygiad pellach i staff perthnasol
- Trosolwg gan uwch reolwyr o fewn y gwasanaeth
- Trosolwg gan y Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; yn ogystal ag Aelodau'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'u portffolios eu hunain
- Cyhoeddi data ynglŷn â chwynion ar wefan y Cyngor bob chwarter, fel sy'n cael ei rannu ag OGCC.

**Mae OGCC yn gofyn am y canlynol:-**

- "*Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn*"

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r cais uchod, ac yn ychwanegol at hynny, mae'n cael ei gyhoeddi ar gyfer yr holl Aelodau a'r cyhoedd. Mae OGCC wedi derbyn gwybodaeth am ddyddiadau'r cyfarfodydd hyn.

- *"Ystyried y data yn y llythyr hwn, ynghyd â'ch data eich hunain, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa".*

- "*Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl*".

Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**4. Gwybodaeth Ychwanegol**

Yn ogystal â'r Llythyr Blynyddol, mae gwybodaeth am bryderon, cwynion a chanmoliaeth yn cael ei gyhoeddi bob chwarter ar wefan y Cyngor o dan Ystadegau Cwynion y Cyngor (llyw.cymru)

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion. Cyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer 2023/2024 i'r Pwyllgor ar 19 Medi 2024.

| B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Nid oedd unrhyw opsiynau eraill. |

| C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gais OGCC. |

| Ch - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amherthnasol |

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol |

| Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys | Diben y Polisi Cwynion Corfforaethol yw dysgu gwersi pan fydd pethau'n mynd o chwith a gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn ôl yr angen a lle bo hynny'n bosibl. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, dywedwch gyda phwy: | Mae'r ffeithiau a gyflwynir yn cyfrannu at adeiladu gwell gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae cwynion ynglŷn â'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol ac ymdrinnir â nhw os cânt eu derbyn.<br><br>Os derbynnir cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg, byddant yn cael eu |

| Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys yn yr Adroddiad ar Safonau'r Gymraeg 2023-24. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Ystyriwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth ar 15 Hydref 2024. Holl aelodau'n gefnogol o'r Adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Ymgynghorwyd fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Mae'r gwasanaeth Trawsnewid a'r adran TGCh yn cefnogi'r prosiect CRM |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | Mae'r adroddiad hwn ar gyfer yr holl Aelodau |

| F - Atodiadau |
|---|
| Copi o Lythyr Blynyddol 2023/2024 |

| Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
☎ 01656 641150
✉ Caseinfo@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 9 Medi 2024

Cynghorydd Gary Pritchard
Cyngor Sir Ynys Môn

**Trwy ebost yn unig**
garypritchard@anglesey.gov.uk
dylanwilliams@ynysmon.gov.uk

**Llythyrau Blynyddol 2023/24**

Annwyl Cynghorydd Pritchard

**Rôl OGCC**

Fel y gwyddoch, rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus, ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr, gosod safonau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gyrff cyhoeddus a sbarduno gwelliant mewn ymdrin â chwynion a dysgu o gwynion. Rwyf hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar fy liwt fy hun.

**Diben y llythyr**

Bwriad y llythyr hwn yw rhoi diweddariad ar waith fy swyddfa, rhannu materion allweddol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a thynnu sylw at unrhyw faterion penodol ar gyfer eich sefydliad, ynghyd â chamau yr hoffwn i'ch sefydliad eu cymryd.

**Trosolwg o 2023/24**

Mae'r llythyr hwn, fel bob amser, yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "Pennod Newydd yn Datblygu" - a daw ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod o dan y chwyddwydr, ac o dan bwysau sylweddol. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynnydd o 17% mewn cysylltiadau cyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda bron i 10,000 o ymholiadau a chwynion wedi'u derbyn. Mae ein llwyth achosion wedi cynyddu yn sylweddol - gan 37% - ers 2019.



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Yn 2023/24, gwnaethom ystyried a chau mwy o ymholiadau a chwynion nag yr ydym erioed wedi'u gwneud o'r blaen, a gwnaethom leihau'r gost gyfartalog ar gyfer pob achos ac ymchwiliad. Dechreuom y flwyddyn gyda ffocws ar leihau ein hachosion sy'n heneiddio, sef y rhai dros 12 mis oed, o 50% erbyn diwedd y flwyddyn. Yr achosion hyn yn aml yw'r rhai mwyaf cymhleth a gofidus i'r bobl sy'n cwyno. Mae'n bleser mawr gennyf ddweud ein bod wedi rhagori ar y targed hwn, gan leihau ein hymchwiliadau hŷn o dros 70%. Rydym bellach ar y trywydd cywir i gyflawni ein hamcan i gwblhau ymchwiliadau i gwynion o fewn 12 mis.

**Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydymffurfiaeth ag Argymhellion**

Gwnaed cyfanswm o 1,108 o gwynion am awdurdodau lleol i ni'r llynedd - tua'r un nifer â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 14% o gwynion awdurdodau lleol - cyfran debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

Cawsom 38 o gwynion am Cyngor Sir Ynys Môn yn 2023/24 a gwnaethom gau 41 - gwnaed rhai argymhellion yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd ymyrryd Cyngor Sir Ynys Môn yn 24%. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gwynion am eich sefydliad yn yr atodiadau.

Gwnaethom 26 argymhelliad i'ch cyngor yn ystod y flwyddyn. I sicrhau bod ein hymchwiliadau a'n hadroddiadau yn sbarduno gwelliant, gwnawn waith dilynol ar gydymffurfiaeth â'r argymhellion y cytunwyd arnynt gyda'ch sefydliad. Yn 2023/24, roedd angen cydymffurfio â 24 argymhelliad a chydymffurfiwyd â 92% o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Cydymffurfiwyd â'r gweddill, ond y tu allan i'r amserlenni y cytunwyd arnynt neu maent yn parhau i fod heb eu cyflawni yn ystod 9 Ebrill 2024.

Caiff argymhellion ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio ag argymhellion bob amser eu cytuno gyda'r corff cyhoeddus dan sylw cyn eu cwblhau, ac felly rydym yn disgwyl sefydliadau i gydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

**Ein gwaith Cod Ymddygiad**

Fy rôl yw ymchwilio i honiadau bod cynghorwyr wedi torri eu Cod Ymddygiad. Pan fydd ymchwiliad yn canfod tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn ar fater sy'n ddigon difrifol fel bod angen ei gyfeirio er budd y cyhoedd, caiff yr achosion hyn eu cyfeirio naill ai at y Pwyllgor Safonau lleol neu'r Panel Dyfarnu Cymru i'w hystyried.

Yn 2023/24, cawsom 16% yn fwy o gwynion y Cod Ymddygiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Gwnaeth fy swyddfa 21 o atgyfeiriadau - at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, cynnydd o 12 y flwyddyn flaenorol.

Rwy'n ddiolchgar i'ch Swyddog Monitro am eu hymgysylltiad cadarnhaol gyda'm swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf. Eleni byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw ar faterion sy'n ymwneud â'r fframwaith safonau moesegol, gan gynnwys Gweithdrefnau Datrys Lleol.

## Adolygiad Annibynnol

Fel y gwyddoch, deuthum yn ymwybodol o sylwadau amhriodol, o natur wleidyddol, a wnaed gan aelod o'm staff ar gyfryngau cymdeithasol. Adroddwyd y sylwadau hyn yn eang yn y cyfryngau. Ataliwyd yr aelod o staff dan sylw o'i gwaith, ac wedi hynny, ymddiswyddodd. Fodd bynnag, ysgogodd y sylwadau gwestiynau am waith fy swyddfa ar achosion Cod Ymddygiad Cynghorwyr.

Oherwydd difrifoldeb y mater, comisiynais Dr Melissa McCullough i gynnal adolygiad annibynnol o'n gwaith Cod Ymddygiad, ac rwyf wedi cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl llawn ar gyfer yr adolygiad hwnnw. Rwyf i a'm staff yn ymgysylltu yn agos â'r Grŵp Swyddogion Monitro a'r Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau mewn perthynas â'r mater hwn. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad terfynol Dr McCullough ar ôl iddi gwblhau'r adolygiad a byddwn yn ei rannu â Phwyllgor Cyllid y Senedd yr Hydref hwn.

## Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus

Gwnaethom barhau â'n gwaith ar gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus y llynedd a buom yn gweithio ar ein hail ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain. Mae'r ymchwiliad yn cynnwys pedwar awdurdod lleol ac yn ystyried asesiadau o anghenion gofalwyr. Rwy'n ddiolchgar i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt am eu cydweithrediad a'u gonestrwydd drwy gydol y flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at rannu ein hadroddiad terfynol yr hydref hwn. Bydd hwn yn gwneud argymhellion i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt a bydd yn gofyn i'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru i wneud gwelliannau tebyg.

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar safonau ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac erbyn hyn mae gennym 56 o gyrff cyhoeddus yn dilyn ein polisi enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae'r cyrff cyhoeddus hyn yn cyfrif am tua 85% o'r cwynion a gawn. Rydym wedi parhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion, a gasglir gan gyrff cyhoeddus, gan gyhoeddi data ddwywaith y flwyddyn.

Gwnaethom barhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am drydedd flwyddyn, gyda data bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Mae'r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, aeth 14% o'r cwynion a wnaed i Cyngor Sir Ynys Môn ymlaen i gael eu cyfeirio at OGCC.

## Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.

- Ystyried y data yn y llythyr hwn, ynghyd â'ch data eich hunain, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Hoffwn ddiolch i chi, a'ch swyddogion, am barhau i fod yn agored, ac am ymgysylltu, gyda fy swyddfa.  Mae ein gwybodaeth yn dangos bod awdurdodau lleol yn ystyried mwy o gwynion nag erioed o'r blaen ac yn defnyddio gwybodaeth o gwynion i sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Yn gywir,

**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cc.	Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

**Taflen Ffeithiau**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| Awdurdod Lleol | Cywnion a Gafwyd | Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 15 | 0.22 |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 59 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 56 | 0.32 |
| Cyngor Caerdydd* | 149 | 0.41 |
| Cyngor Sir Gâr | 69 | 0.37 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 32 | 0.45 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 36 | 0.32 |
| Cyngor Sir Ddinbych** | 31 | 0.33 |
| Cyngor Sir y Fflint | 51 | 0.32 |
| Cyngor Gwynedd | 38 | 0.55 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 38 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 12 | 0.31 |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 29 | 0.25 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 35 | 0.33 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 52 | 0.32 |
| Cyngor Sir Penfro | 40 | 0.41 |
| Cyngor Sir Powys | 54 | 0.27 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 64 | 0.34 |
| Cyngor Abertawe | 81 | 0.34 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 14 | 0.15 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 77 | 0.58 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 76 | 0.56 |
| **Cyfanswm** | **1108** | **0.36** |

* yn cynnwys 2 Rhentu Doeth Cymru

** yn cynnwys 1 Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 0 | 0% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 3 | 8% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 6 | 16% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 1 | 3% |
| Ymdrin â Chwynion | 9 | 24% |
| Covid-19 | 0 | 0% |
| Addysg | 1 | 3% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 0 | 0% |
| Cyllid a Threthiant | 6 | 16% |
| Tai | 3 | 8% |
| Trwyddedu | 1 | 3% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 6 | 16% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 1 | 3% |
| Amrywiol Eraill | 1 | 3% |
| Cyfanswm | **38** | |

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Tu hwnt i Awdurdodaeth | 4 | 10% |
| Cynamserol | 13 | 32% |
| Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 14 | 34% |
| Datrys yn Gynnar/ setliad gwirfoddol* | 10 | 24% |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill - Heb eu Cadarnhau | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill Wedi'u Cadarnhau | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Cyhoeddus* | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Arbennig* | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **41** | |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 8 | 59 | 14% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 3 | 48 | 6% |
| Cyngor Caerdydd | 28 | 144 | 19% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 0 | 3 | 0% |
| Cyngor Sir Gâr | 8 | 60 | 13% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 7 | 32 | 22% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 37 | 0% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 2 | 32 | 6% |
| Cyngor Sir Ddinbych - Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru | 0 | 1 | 0% |
| Cyngor Sir y Fflint | 8 | 57 | 14% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 39 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 10 | 41 | 24% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3 | 14 | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 3 | 32 | 9% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 34 | 15% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 5 | 51 | 10% |
| Cyngor Sir Penfro | 7 | 38 | 18% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 53 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 11 | 63 | 17% |
| Cyngor Abertawe | 12 | 77 | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 14 | 14% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 15 | 71 | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7 | 79 | 9% |
| **Cyfanswm** | **158** | **1095** | **14%** |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

Atodiad E – Cymhariaeth o berfformiad cydymffurfio

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer yr argymhellion a wnaed yn 2023-24** | **Nifer yr argymhellion sy'n ddyledus yn 2023-24** | **% yr argymhellion, y cydymffurfiwyd â nhw ar amser** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 1 | 1 | 100% |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 18 | 20 | 35% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 9 | 9 | 11% |
| Cyngor Caerdydd | 74 | 75 | 92% |
| Cyngor Sir Gâr | 25 | 25 | 52% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 23 | 23 | 78% |
| Cyngor Abertawe | 29 | 32 | 63% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 1 | 0% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 5 | 6 | 67% |
| Cyngor Sir y Fflint | 17 | 17 | 59% |
| Cyngor Gwynedd | 12 | 19 | 74% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 26 | 24 | 92% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 11 | 9 | 56% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 4 | 4 | 25% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 14 | 14 | 29% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 10 | 7 | 43% |
| Cyngor Sir Penfro | 24 | 23 | 96% |
| Cyngor Sir Powys | 18 | 16 | 31% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 26 | 26 | 77% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 3 | 3 | 67% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 50 | 48 | 92% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 16 | 19 | 42% |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

Atodiad F - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | | Cyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|
| Ymchwiliadau | **Penderfyniad i beidio ag ymchwilio** | 3 |
| | **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 0 |
| | **Dim tystiolaeth o dorri'r cod** | 0 |
| | **Dim angen gweithredu** | 0 |
| | **Cyfeirio at y Panel Dyfarnu** | 0 |
| | **Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** | 0 |
| | **Cyfanswm** | **3** |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

# Atodiad G - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | | Ymchwiliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tynnwyd yn ôl | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Cyfanswm |
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pentraeth Community Council | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Taflen Wybodaeth**

Mae **Atodiad A** yn dangos nifer y cwynion a gafodd OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2023/24. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae **Atodiad B** yn dangos categori pob cwyn a gafwyd, a pha gyfran o'r cwynion a gafwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad C** yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad D** yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae **Atodiad E** yn dangos perfformiad o ran cydymffurfiad ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad F** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad G** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **26/11/2024** |
| Pwnc / Testun: | **Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion 2024-2029** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Alun Roberts** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Arwel Wyn Owen** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Arwel Wyn Owen**<br>**01248 752744**<br>**ArwelOwen3@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i'r holl aelodau etholedig** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu 'Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion 2024-2029'.

**Cefndir**

Mae'r Cyngor wedi, ac yn parhau i wynebu pwysau sylweddol. Er gwaethaf hyn trwy ymroddiad staff mae'r Cyngor yn llwyddo i gefnogi unigolion gan roi pwyslais ar uchafu annibyniaeth a llesiant.

Dros y pandemig bu'n ofynnol adolygu trefniadau gofal a'r modd o ddarparu gwasanaethau ac mae'n bwysig parhau i ddatblygu ac esblygu. Gan fod pwysau a gofynion yn cynyddu a phoblogaeth Ynys Môn yn heneiddio rhaid ystyried sut allwn weithredu at y dyfodol. Tra bod adnoddau ariannol yn gyfyng, argaeledd staff yn heriol, mae disgwyliadau'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru ar gyfundrefn iechyd yn ymestyn. Oherwydd hyn mae trawsnewid a moderneiddio'r dull o gynllunio a darparu gwasanaethau yn anorfod.

**Cyd-destun**

Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028, yn cadarnhau ymrwymiad i ofal cymdeithasol a llesiant, ac mae'n amserol adnabod sut allwn foderneiddio er mwyn parhau i gyflawni'n effeithiol ac effeithlon.

Bwriad y cynllun strategol yw cadarnhau cyfeiriad cadarn a chlir gan amlinellu camau pendant i ymateb i'r heriau ac i drawsffurfio a moderneiddio elfennau o'r gwasanaeth fel ei bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Pwrpas y cynllun strategol yw dangos sut byddwn yn moderneiddio gwasanaethau pobl hyn, anabledd dysgu ac iechyd meddwl er mwyn rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir, gan gydnabod bod gofynion ran darparu gwasanaethau cymdeithasol wedi newid. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

**Meysydd Blaenoriaeth Allweddol**

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

1. Cydweithio i fod yn ynys oed gyfeillgar - trwy gydlynu gweithgaredd a hwyluso gwasanaeth ataliol.

2. Trawsnewid gweithgareddau dydd – parhau gyda symudiad positif i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol .

3. Gwasanaethau tai a chefnogaeth (anableddau dysgu) - creu rhaglen i uchafu a moderneiddio stoc 'Tai gyda Chefnogaeth' i sicrhau effeithiolrwydd.

4. Gwasanaeth ysbaid (anabledd dysgu) – adnabod a datblygu adeilad newydd pwrpasol.

5. Tai gofal ychwanegol - datblygu cynllun tai gofal ychwanegol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl allu byw yn annibynnol yn eu cymunedau eu hunain yn hirach.

6. Cartrefi preswyl y Cyngor – dargyfeirio adnoddau staff a chyllid i ddarpariaethau fforddiadwy a mwy cost effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion.

7. Datblygu gwasanaeth ariannol gynaliadwy.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r 'Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion' yn gosod blaenoriaethau'r Gwasanaeth Oedolion ar gyfer y cyfnod 2024 - 2029. Mae'r saith maes blaenoriaeth allweddol yn gosod cyfeiriad strategol ac yn ymgorffori nifer o opsiynau a chynlluniau unigol.

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Nid yw cymeradwyo'r cynllun strategol hwn yn fater sydd wedi'i gadw i'r Cyngor llawn, ac nid yw'n cael ei ddirprwyo i Swyddogion ychwaith. Yn unol â hynny, yn ddiofyn, mabwysiadu'r cynllun strategol yw penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r 'Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion' yn gosod blaenoriaethau'r Gwasanaeth Oedolion ar gyfer y cyfnod 2024 - 2029 er mwyn gwireddu amcanion cynllun y Cyngor 2023 - 2028. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Gosod cyfeiriad strategol yw bwriad yr adroddiad, bydd oblygiadau cyllidol y cynlluniau sy'n cael eu datblygu yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses datblygu cynlluniau unigol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r penderfyniad yma'n gyson gyda, ac yn gam positif tuag at wireddu amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Dim yn uniongyrchol, fodd bynnag, amcan cynlluniau unigol fydd darparu cefnogaeth a gwasanaethau i bobl mewn modd effeithiol ac effeithlon. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Dim yn berthnasol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Dim ar y pwynt yma. Bydd cadarnhau cyfeiriad strategol gyda'r adroddiad yma yn arwain at ymgynghori gyda dinasyddion mewn perthynas â rhai cynlluniau pan fo hyn yn briodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 2. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gweler Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 2. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effeithiau negyddol wedi'u hadnabod.<br><br>Gweler Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 2. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae sylwadau gan y Tîm Arweinyddiaeth wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Mae sylwadau gan y Swyddog Adran 151 wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae sylwadau gan y Swyddog Monitro wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Dim effaith uniongyrchol ar staff. |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor sgriwtini. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

## F - Atodiadau:

**Atodiad 1 -** Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion 2024-2029
**Atodiad 2 -** Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Cynllun y Cyngor 2023-28 |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey



# Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion 2024-2029

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg /

This document is also available in English.

Ynys Môn Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly Anglesey

Tudalen 116

# Rhagair



Cyng. Alun Roberts

Deilydd Portffolio – Gwasanaeth Oedolion a Diogelwch Cymunedol



Arwel Wyn Owen

Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Mae'r Cyngor wedi, ac yn parhau i wynebu pwysau sylweddol gyda galw'n cynyddu ac adnoddau'n prinhau. Er gwaethaf hyn trwy ymroddiad staff mae'r Cyngor yn llwyddo i gefnogi unigolion gan roi pwyslais ar uchafu annibyniaeth a llesiant.

Mae Cynllun y Cyngor yn cadarnhau ymrwymiad i ofal cymdeithasol a llesiant, ac mae'n amserol adnabod sut allwn foderneiddio gwasanaethau er mwyn parhau i gyflawni'n dyletswyddau'n effeithiol ac effeithlon.

Bwriad y Cynllun Strategol yw cadarnhau'r llwybr i ddatblygu elfennau o'r gwasanaeth fel ei bod yn addas a fforddiadwy ar gyfer y dyfodol, tra'n parhau i esblygu i fod yn Ynys Oed Gyfeillgar.

Gan fod pwysau a gofynion yn cynyddu a phoblogaeth yr Ynys yn heneiddio rhaid ystyried sut allwn weithredu at y dyfodol. Tra bod adnoddau ariannol yn gyfyng, argaeledd staff yn heriol, mae disgwyliadau'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru ar gyfundrefn iechyd yn ymestyn. Oherwydd hyn mae moderneiddio'r dull o gynllunio a darparu gwasanaethau yn anorfod.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gydraddoldeb, ac i ddylunio cynlluniau i foderneiddio'r gwasanaeth ar y cyd gyda thrigolion a phartneriaid allweddol Ynys Môn. Mae hyn yn greiddiol i gwrdd ag amcan strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Llesiant, sef 'rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir'.

# Pwrpas y cynllun strategol?





Ein bwriad yw gwella llesiant pobl sydd angen gofal, a'i gofalwyr gan gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cadarnhau'r fframwaith cyfreithiol.

Pwrpas y cynllun strategol yw dangos sut byddwn yn moderneiddio gwasanaethau pobl hŷn, anabledd dysgu ac iechyd meddwl, gan gydnabod bod y gofynion o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol wedi newid. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

1. Rhoi pwyslais ar gefnogi pobl i barhau mor annibynnol â phosib yn y gymuned.
2. Gwrando ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau a sicrhau cyfleoedd i fynegi barn.
3. Cydweithio gyda defnyddwyr a phartneriaid gan ganolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig'.
4. Gwarchod safon gwasanaethau a theilwra ymateb yn unol â disgwyliadau.
5. Symleiddio trefniadau gweithredol er mwyn ymateb yn brydlon a chyson.
6. Sicrhau fod y gwasanaeth ar sail ariannol gynaliadwy at y dyfodol, ac yn gallu ymateb i newid yn lefel y galw am wasanaeth .

Gwyddwn y bydd twf sylweddol yn nifer y bobl fregus sydd angen cefnogaeth wrth heneiddio, ac oedolion sy'n byw gyda chyflyrau iechyd cymhleth hir dymor. Yn unol ag amcanion Cynllun y Cyngor, byddwn yn:

1. Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth ar draws pobl hŷn, anabledd dysgu ac iechyd meddwl.
2. Gwella ac ehangu'r ddarpariaeth tai a chymorth ar gyfer pobl gydag anabledd dysgu.
3. Ehangu'r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn nes at eu cymunedau lleol.

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 -Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.


Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cylch strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.






[Cynllun y Cyngor 2023 to 2028 (llyw.cymru)]

# Poblogaeth Ynys Môn




Mae poblogaeth Ynys Môn **wedi gostwng.** (68,000 – cyfrifiad 2021).






Tydi'r gostyngiad ddim yn digwydd yn hafal ar draws pob oedran oherwydd tueddiadau mewnfudiad ac allfudiad.



**Cynnydd** yn y boblogaeth hŷn, **dros 65 oed**.




**Gostyngiad** yn y boblogaeth weithiol rhwng **18-50 oed.**


# Poblogaeth Ynys Môn

Rhwng 2011 a 2021
mae pob rhan o’r ynys wedi gweld
**twf yn y boblogaeth dros 65.**





Erbyn 2043 bydd **33%** o boblogaeth Ynys Môn dros 65 oed o gymharu â **26%** yng Nghymru.



Erbyn 2043 bydd **58%** o boblogaeth Cymru rhwng 16 a 65 i Gymharu â **52%** yn Ynys Môn.

## Goblygiadau i’r Cyngor

Mwy o bobl hŷn gyda chyflyrau hir dymor a dementia angen cefnogaeth.

Gwariant ar wasanaethau yn gorfod cynyddu i ofalu am boblogaeth hŷn.


Gweithlu lleol yn crebachu, llai o bobl oed gweithio ar gael i ofalu am y boblagaeth hŷn.

# Tueddiadau Mudiad

## Ffigyrau Cyfrifiad 2011 a 2021

### Poblogaeth oed gwaith yn Gostwng

- Poblogaeth rhwng 18 a 50 yn Gostwng
- Poblogaeth rhwng 16 a 65 bellach ddim ond yn 56% (62% yng Nghymru)




2021- Gwryw
2011- Gwryw

2021- Benyw
2011- Benyw

### Poblogaeth sy'n heneiddio

- Cynyddodd yr oedran canolrif yn Ynys Môn o 45 i 48 oed o'i gymharu â 42 yng Nghymru
- Mae poblogaeth 65+ wedi cynyddu bron i bumed
- A bellach yn cyfrif am 27% o gyfanswm y boblogaeth (22% yng Nghymru)
- Amcangyfrifir bod y nifer o bobl sy'n byw gyda dementia yn 1,300

### Llai o blant dan 5

Ffynonell data – ONS.gov.uk / census 2011 & 2021

# Darpariaeth Presennol

**Lleoliadau Preswyl a Nyrsio**
- 382 lleoliad preswyl a nyrsio
- 30% yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y Cyngor
- 70% trwy gomisiynu gan y sector annibynnol

**Anabledd Dysgu**
- Cymorth yn y gymuned i tua 240 o bobl
- 25 o dai gyda chefnogaeth yn cartrefu 76 person
- Ystod o weithgareddau dydd gan y sector annibynnol a'r Cyngor
- Gweithwyr cefnogol yn y gymuned
- 2 Canolfan Ddydd
- Gwasanaethau ysbaid





**Cartrefi preswyl y Cyngor**
- 5 cartref preswyl
- 124 lleoliad preswyl
- 38 lleoliad preswyl EMI

**Iechyd meddwl**
- Cefnogaeth gymunedol ac mewn lleoliadau preswyl i bobl sy'n wynebu heriau Iechyd Meddwl

**Gofal cartref**
- 414 o becynnau gofal cartref
- 80% trwy ddarparwyr preifat a'r gweddill gan y Cyngor

# Meysydd blaenoriaeth allweddol

## Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

1. Cydweithio i fod yn ynys oed gyfeillgar – trwy weithgaredd ataliol.
2. Trawsnewid gweithgareddau dydd – parhau gyda symudiad positif i gynnal Gweithgareddau Dydd mewn lleoliadau cymunedol .
3. Gwasanaethau tai a chefnogaeth (anableddau dysgu) – rhaglen i uchafu a moderneiddio stoc 'Tai gyda Chefnogaeth' i sicrhau effeithiolrwydd.
4. Gwasanaeth ysbaid (anabledd dysgu) – adnabod a datblygu darpariaeth newydd pwrpasol.
5. Tai gofal ychwanegol - datblygu tai gofal ychwanegol er mwyn cynyddu'r cyfleon i bobl fyw yn annibynnol yn eu cymunedau yn hirach.
6. Cartrefi preswyl y cyngor – cyfeirio adnoddau staff a chyllid i ddarpariaethau fforddiadwy a mwy cost effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion.
7. Datblygu gwasanaeth ariannol gynaliadwy

# Cydweithio i fod yn ynys oed gyfeillgar

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae creu ynys oed-gyfeillgar yn hanfodol ar gyfer creu cymuned gefnogol a chynhwysol i bawb.

Gyda twf ym mhoblogaeth hŷn yr Ynys, mae'n bwysig sicrhau bod unigolion yn gallu heneiddio'n dda a pharhau mor iach ac annibynnol a phosib.

Gall arwain at ganlyniadau iechyd gwell, mwy o ymgysylltiad cymdeithasol, a gwella lles cyffredinol y boblogaeth hŷn.

Yn ogystal, mae creu amgylchedd sy'n oed-gyfeillgar yn hyrwyddo cysylltiadau sy'n pontio'r cenedlaethau ac yn sicrhau y gall pobl o bob oed gymryd rhan weithredol mewn bywyd cymunedol.

### Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Ehangu a datblygu'r Rhwydwaith Oed-Gyfeillgar ar yr Ynys.

Ymgysylltiad effeithiol sy'n galluogi mynediad hwylus at wybodaeth. Sicrhau bod llais pobl hŷn yn cael ei glywed, ac yn dylanwadu ar bolisïau lleol a chenedlaethol.

Byddwn yn uchafu'r defnydd o adnoddau cymunedol a sicrhau bod adeiladau cymunedol yn hygyrch i gefnogi heneiddio'n dda.

Cydweithio gyda phartneriaid allweddol a mudiadau cymunedol i ddatblygu cyfleon ataliol er mwyn gwella iechyd a lles unigolion.

Lleihau unigrwydd ac ar wahanrwydd trwy gynnal digwyddiadau pontio'r cenedlaethau.

### Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn?

- ✓ Gweithio gyda mentrau cymdeithasol a busnesau lleol i gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o'r gwaith oed-gyfeillgar.
- ✓ Cynnal fforymau pobl hŷn, a 4 cyfarfod cyngor pobl hŷn ar draws yr Ynys yn flynyddol.
- ✓ Datblygu Hwb Pobl Hŷn, a Chanolfan Dementia Ynys Môn o fewn Canolfan Glanhwfa, Llangefni.
- ✓ Ehangu gwasanaeth 'Nifty 60s' sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant ymwrthiant i leoliadau ar draws yr Ynys.
- ✓ Gweithgareddau pontio'r cenedlaethau o fewn hybiau a chartrefi gofal.

# Trawsnewid gweithgareddau dydd

### Pam mae hyn yn bwysig?

Yr amcan yw bod cynifer a phosib o weithgareddau'n cael eu darparu o leoliadau cymunedol (fel neuaddau, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd) gan hyrwyddo cyfleoedd i bobl gydag Anabledd Dysgu gymryd rhan mewn gweithgareddau prif lif ac integreiddio ym mywyd pob dydd eu cymunedau.

Mae darpariaeth wedi canolbwyntio ar gludo pobl i adeiladau penodol i ymgymryd â gweithgareddau ffurfiol.

Mae gweithgaredd yn dilyn patrwm hanesyddol ac wedi ei ganoli o amgylch gwasanaethau ddydd yn hytrach na gweithgareddau dydd.

### Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Adolygu'r ddarpariaeth bresennol er mwyn cyfarch gofynion cymaint a phosibl o ddefnyddwyr mewn lleoliadau cymunedol trwy addasu trefniadau gofal.

Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o hybiau cymunedol lleol.

Ystyried pwrpas adnoddau mewnol er mwyn uchafu safon a gwella darpariaeth arbenigol.



### Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn?

- ✓ Ymgynghori gyda rhanddeiliaid lleol a thrafod trefniadau amgen ar gyfer defnyddwyr.
- ✓ Cydweithio gyda phartneriaid a mudiadau 3ydd sector.
- ✓ Cefnogi'r newid positif yn ardal Caergybi o ddarparu gweithgareddau dydd o leoliadau cymunedol.
- ✓ Dysgu o brofiad defnyddwyr ac ymestyn gweithgareddau cymunedol i leoliadau eraill yn ystod 2024/25.
- ✓ Cydweithio gyda phartneriaid a mudiadau 3ydd sector i adnabod cyfleon lleol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cymunedol.

# Gwasanaethau tai a chefnogaeth (anabledd dysgu)


### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae angen stoc tai addas sy'n cwrdd ag anghenion gydol oes unigolion.

Mae'r stoc Tai gyda Chefnogaeth wedi esblygu mewn ffordd ad-hoc dros y 30 mlynedd diwethaf, gydag ychydig o ystyriaeth i ofynion hir dymor ac anghenion unigolion wrth heneiddio.

Mae'r gefnogaeth yn cael ei ddarparu o 25 eiddo gwahanol, a phrin yw'r eiddo wedi ddylunio yn bwrpasol i ymateb i anghenion tenantiaid.

Angen gwella effeithlonrwydd ynni a chynaladwyedd.



### Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Cwblhau dau ddatblygiad tai i roi cartef newydd i oddeutu 8 person:

- Safle y Mart - Y Fali
- Safle Penlan - Llangefni

Adnabod rhaglen ychwanegol o 3 eiddo addas i gwrdd a gofynion gydol oes defnyddwyr gwasanaeth.

Cyd-weithio gyda defnyddwyr a'i gofalwyr er mwyn blaen gynllunio i adnabod cyfleoedd eraill addas ac i ymgysylltu ran opsiynau posibl.

Creu mwy o gapasiti ac unedau o safon uwch.

Archwilio posibiliadau o ran ymgorffori technoleg yn is adeiladwaith eiddo er mwyn hwyluso goruchwyliaeth o bell a hybu annibyniaeth.

### Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn?

- ✓ Trwy gydweithio i adnabod cynlluniau pwrpasol o fewn datblygiadau tai newydd.
- ✓ Ymgysylltu gyda defnyddwyr ran natur y ddarpariaeth sydd ei angen ac adnabod modelau tai priodol at y dyfodol.
- ✓ Cynnal trafodaethau gyda darparwyr ran lefel y gofal ddylid ei ddarparu o wahanol leoliadau (isel, canolig, uchel).
- ✓ Trwy adolygu'r mewnbwn gofal fesul eiddo i ganfod cyfleoedd i addasu'r ddarpariaeth neu gefnogi mewn ffordd fwy cost effeithiol.
- ✓ Cymell darpariaeth fydd yn cwrdd ag ystod o anghenion gofal ar un safle ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gan gynnwys opsiynau byw yn annibynnol.
- ✓ Sicrhau bod unedau byw wedi cynllunio er mwyn uchafu'r defnydd o dechnoleg fel larymau tan, larymau codwm a larymau crwydro i fonitro ac i arolygu fel bod unigolion yn ddiogel.

# Gwasanaeth ysbaid (anabledd dysgu)

### Pam mae hyn yn bwysig?

Uchelgais i gynnig cefnogaeth ysbaid o safon uchel gydag addasiadau pwrpasol er mwyn ymateb yn hyblyg i ystod eang o anghenion gofal.

Mae'r gwasanaeth ysbaid anableddau dysgu yn cael ei ddarparu o adeilad wedi ei gofrestru (Gradd 2), sy'n cyfyngu hygyrchedd, a'r gallu i gyflwyno mesurau ynni effeithiol.

Nid yw'r eiddo'n addas i hyrwyddo a meithrin annibyniaeth ac mae'r adnodd yn cael ei dan ddefnyddio ar adegau.

### Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Adnabod adeilad addas er mwyn gallu ail-leoli'r ddarpariaeth presennol a moderneiddio'r dull o gynnig ysbaid.

Adnabod lleoliad cyfleus fydd yn cynnig cyfleon i asesu, hyrwyddo a datblygu sgiliau byw yn annibynnol.

Ymgorffori technoleg o fewn is adeiladwaith y datblygiad er mwyn uchafu annibyniaeth unigolion sy'n defnyddio'r adeilad.

### Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn?

Trwy gydweithio i ganfod adeilad mwy addas er mwyn ail-leoli'r gwasanaeth gan sicrhau:

- ✓ Ystafelloedd gwely llawr gwaelod o faint gydag addasiadau priodol i ymateb i amrediad ehangach o anghenion gofal fydd yn caniatau amrywio'r pecyn cefnogaet.
- ✓ Sicrhau uned i hyrwyddo sgiliau byw yn annibynnol i asesu gallu unigolion ac adnabod lefel y gefnogaeth fydd ei angen yn well.
- ✓ Adnabod lleoliad fydd yn cefnogi integreiddio gyda gwasanaethau eraill a darparu cyfle i unigolion symud ymlaen i fyw yn annibynnol ar ôl asesiad trylwyr.
- ✓ Defnyddio technoleg i leihau risgiau ac ymyrraethau er mwyn cefnogi'r amcan o hyrwyddo annibyniaeth.



# Tai gofal ychwanegol

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae llwyddiant y tai gofal ychwanegol yn Penucheldre yng Nghaergybi a Hafan Cefni yn Llangefni wedi gosod cynsail gadarn.

Mae'r datblygiadau yn boblogaidd a galw cyson am lety. Mae'r Adran eisiau hyrwyddo annibyniaeth a darparu cefnogaeth o ansawdd sy'n:

- cynnig gofal o safon uchel a rhoi sylw personol i ddefnyddwyr gan hyrwyddo annibyniaeth ac urddas.
- darparu amgylchedd byw cyfforddus a diogel gydag addasiadau i gwrdd â gofynion gofal fydd yn gallu dygymod gyda newid mewn amgylchiadau.
- cynnig gwasanaeth safonol ac effeithlon o gymharu gydag opsiynnau eraill.

## Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Tra bod y datblygiadau presennol yn gwasanaethu Gogledd Orllewin a chanol yr Ynys mae'r angen yn bodoli am dai gofal ychwanegol i wasanaethu rhan deheuol yr Ynys.

Cynnig cyfleoedd fydd yn lleihau dibynniaeth ar wasanaethau ac osgoi ymyrraethau mwy dwys.

Ymgorffori technoleg o fewn is adeiladwaith pob datblygiad er mwyn caniatáu i bobl fyw ei bywyd yn y ffordd maent yn ddymuno byw ac uchafu annibyniaeth.

## Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn?

- ✓ Sefydlu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthaethwy.
- ✓ Cyd leoli gwasanaeth a chefnogaeth ar un safle.
- ✓ Creu gofod fydd yn cefnogi pobl i gadw annibyniaeth mewn awyrgylch wahanol.
- ✓ Sicrhau bod unedau byw wedi cynllunio er mwyn uchafu'r defnydd o dechnoleg fel larymau tan, larymau codwm a larymau crwydro i fonitro unigolion ac i arolygu ei bod yn ddiogel.



# Cartrefi preswyl y Cyngor

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae cartrefi preswyl y Cyngor angen:

- parhau i gynnig gofal o safon uchel a rhoi sylw personol ac unigol i breswylwyr gan hyrwyddo annibyniaeth ac urddas.
- cynnal amgylchedd byw cyfforddus a diogel fydd yn gallu dygymod gyda newid mewn amgylchiadau.
- ymateb i ystod eang o anghenion gofal ac i gefnogi pobl gyda gofynion arbennigol yn arbennig dementia.
- darparu gwasanaeth safonol ac effeithlon o gymharu gydag opsiynnau eraill.
- Sicrhau llety cyfforddus, cynaliadwy ac ynni effeithlon.



## Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

Mae adolygiad cynaliadwyedd o gartrefi'r cyngor wedi adnabod cyfyngiadau hir dymor ac mae'n allweddol trafod a chytuno ar ffordd ymlaen.

Rhaid i'r Cyngor allu cwrdd gydag anghenion preswylwyr mewn ffordd sy'n parchu eu hurddas. Heb fuddsoddi i wella safon mae pryder ynglŷn â gallu i gwrdd a gofynion at y dyfodol gan fod disgwyliadau a gofynion cofrestru wedi newid.

Gweithio at ddargyfeirio adnoddau (staff a chyllid) i ddarpariaethau fwy cost effeithiol sy'n ymateb i anghenion gwasanaeth dros y 30 mlynedd nesaf.

Ystyried sut allwn ymateb i ofynion pobl a sut allwn hyfforddi staff i ddefnyddio technoleg newydd er mwyn hybu annibyniaeth ac ymateb i sefyllfaoedd o risg.

## Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn?

- ✓ Creu uned breswyl newydd fel rhan o'r datblygiad tai gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy.
- ✓ Gwella safon adnoddau presennol fel bod cyflenwad addas er mwyn cwrdd a gofynion gofal amrywiol ac i ddiogelu lles pobl at y dyfodol.
- ✓ Sicrhau darpariaeth sy'n addas ar gyfer unigolion gyda phroblemau'r cof.
- ✓ Sicrhau bod technoleg yn cael ei gynllunio a'i ymgorffori wrth adeiladu datblygiadau newydd er mwyn lleihau risgiau, hybu annibyniaeth a chaniatáu darpariaeth gofal effeithiol ac effeithlon.



# Datblygu gwasanaeth ariannol gynaliadwy

**Pam mae hyn yn bwysig?**

Oherwydd pwysau demograffeg a chynnydd mewn galw bydd pwysau ar adnoddau yn parhau. Rhaid hefyd sicrhau ein bod yn buddsoddi i gynnal ansawdd ein gwasanaethau.

Byddwn yn gweithredu i geisio sicrhau fod gwasanaethau yn gynaliadwy trwy uchafu incwm a chyfleoedd i ddenu adnoddau allanol.



**Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?**

Sicrhau fod gwasanaethau yn ddeniadol ac o ansawdd uchaf.

Gweithredu i ddenu grantiau a chymorth allanol.

Lleihau costau gan ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol a bod mor ynni effeithiol a phosib.

Uchafu incwm trwy gryfhau systemau ac uchafu incwm unigolion trwy hyrwyddo budd-daliadau lles.

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn?**

- ✓ Uchafu safon adnoddau presennol fel bod cyflenwad addas er mwyn cwrdd a gofynion gofal amrywiol ac i ddiogelu lles pobl at y dyfodol. Cynnal ac uchafu safon gwasanaethau.
- ✓ Sicrhau fod adnoddau yn cael eu canolbwyntio lle mae angen uchaf.
- ✓ Adnabod buddsoddiadau cyfalaf fydd yn help i arbed costau.
- ✓ Gwella systemau a hwyluso casglu incwm.

# Llywodraethiant: Monitro a Gwerthuso

Bydd grwpiau cyflawni yn cael eu sefydlu i arwain ar gynlluniau unigol fydd yn cwrdd yn fisol.

Bydd trefniadau llywodraethiant cadarn i adolygu cynnydd a sicrhau bod amcanion y cynllun strategol yn cael eu gwireddu.

Bydd y trefniadau'n sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydymffurfiaeth a bydd strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

Bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n chwarterol ac adroddiadau'n roi crynodeb o'r gweithgareddau, canlyniadau/ effaith ac i amlygu llwyddiannau a materion sydd angen sylw.

Bydd adroddiad blynyddol a chyfle  i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Strategol yn flynyddol.

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1 | 01/03/2024 | Drafft cyntaf |
| 2 | 28/10/2024 | Terfynol |
| | | |



| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Yr effaith ar gydraddoldeb yn deillio o feysydd blaenoriaeth allweddol y Gwasanaeth Oedolion fel y disgrifir yng Nghynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion 2024-2029. |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Mae Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion 2024-2029 yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y gwasanaeth. Mae'r blaenoriaethau yn adeiladu ar sylfaen y gwaith sydd eisoes yn mynd yn ei flaen ac yn ymateb i'r heriau a ragwelir dros y blynyddoedd nesaf. |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028, yn cadarnhau ymrwymiad i ofal cymdeithasol a llesiant, ac mae'n amserol adnabod sut allwn foderneiddio er mwyn parhau i gyflawni'n effeithiol ac effeithlon. |

| Cam 1: Y Cefndir | | |
|---|---|---|
| | Bwriad y Cynllun Strategol yw cadarnhau cyfeiriad cadarn a chlir gan amlinellu camau pendant ar gyfer ymateb i'r heriau ac i drawsffurfio a moderneiddio elfennau o'r gwasanaeth fel ei bod yn addas ar gyfer y dyfodol. | |
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Rheolwr Trawsnewid a Datblygu – Gwasanaeth Oedolion | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynllun y Cyngor 2022-2028. | |
| 8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | Ydi |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi |
| | Meithrin perthynas dda | Ydi |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | Ydi |

Tudalen 136

| Cam 1: Y Cefndir | | |
|---|---|---|
| berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir. | | |
| 9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | Ydy | |
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd cymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas (gweler atodiad 1). | • Pob person dros 18 oed (Oedolyn) sy'n trigo ar Ynys Môn sy'n derbyn cefnogaeth neu wasanaeth gan yr Adran Oedolion nawr neu yn y dyfodol.<br>• Darparwyr Allanol.<br>• Mudiadau trydydd sector.<br>• Staff Gwaith Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn. | |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ni ddylai'r cynllun strategol gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hyrwyddo dull rhagweithiol i wneud cynnig yn yr Iaith Gymraeg yn unol â fframwaith strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda |

<table>
<tr><th colspan="2">Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011</th></tr>
<tr><td></td><td>Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor wrth drefnu a darparu ein gwasanaethau cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td>12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?</td><td>Mae nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei roi i anghenion ieithyddol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfathrebu gyda ni mewn iaith o'i dewis nhw.<br><br>Mae gofyn yn barod mewn lle bod pob darparwr (mewnol ac allanol) yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn bod yn ddiwylliannol sensitif.</td></tr>
<tr><td>13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?</td><td>Mae'r gwasanaeth yn barod yn cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg ac mi fydd y Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaeth Oedolion yn cefnogi parhau i gynnig darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.</td></tr>
<tr><td>14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?</td><td>Mi fydd ystyriaeth yn cael ei roi i anghenion ieithyddol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfathrebu gyda ni mewn iaith o'i dewis nhw.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r Canllawiau Asesu Effaith corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:<br>• Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu<br>• Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;<br><br>dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg. Mae templed ar wahân ar gael ar Monitor. Mae dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .</td></tr>
</table>

| Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | Gall newid y ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu gael effaith ar hawliau unigolion. Fodd bynnag, does dim gofyn am benderfyniad ynglŷn ag unrhyw gynllun penodol ar hyn o bryd. Cynllun Strategol yw'r ddogfen dan ystyriaeth sy'n amlinellu cyfeiriad strategol y Gwasanaeth Oedolion ar gyfer moderneiddio a gwella darpariaethau. Bydd asesiad cydraddoldeb pellach yn cael ei gynnal mewn perthynas â chynlluniau unigol lle bod hyn yn berthnasol. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | |
| | Cymru gydnerth | Ydi – cefnogi cymunedau i fod yn gynhwysol. |
| | Cymru iachach | Ydi – cefnogi pobl gydag gael mynediad at weithgareddau amrywiol er bydd llesiant corfforol a meddyliol. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Mae swyddogion o'r Adran Oedolion wedi ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth / rhieni a gofalwyr (gweithgareddau dydd anabledd dysgu) yn ardal Caergybi er mwyn casglu barn pobl ynglŷn â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig, y lleoliadau presennol sy'n cynnig y gweithgareddau, a dymuniadau pobl i'r dyfodol ar gyfer datblygu gweithgareddau. |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Dim |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Na |

**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda - **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| Oed | Cadarnhaol | Mae'r Gwasanaeth ar fwriad gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i oedolion ar yr Ynys trwy foderneiddio gwasanaethau. | |
| Anabledd | Cadarnhaol | Mae'r Gwasanaeth ar fwriad gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl gydag Anabledd Dysgu ar yr Ynys trwy foderneiddio gwasanaethau. | |
| Rhyw | Dim effaith | | |
| Newid Rhyw | Dim effaith | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Dim effaith | | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | Dim effaith | | |
| Crefydd neu Gred | Dim effaith | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Dim effaith | | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Dim effaith | | |
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | Dim | | |
| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Mae'r newid yn un cadarnhaol o ran cynyddu'r gefnogaeth a'r cyfleoedd i bobl aros ac integreiddio yn eu cymunedau. | |

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | Dim | | |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| **Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | Dim effaith | | |

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

| **Cam 4 – Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/a'u yng ngham 3). | Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod. |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd. | Bydd asesiadau cydraddoldeb pellach yn cael eu cynnal lle bo hyn yn briodol mewn perthynas â chynlluniau penodol sy'n cael eu datblygu ar sail y Cynllun Strategol sydd dan ystyriaeth. |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | Mae anghenion pob person, a'r ffordd orau i gwrdd â'r anghenion hyn yn cael eu trafod a'u cytuno gyda nhw. |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Mi fydd y Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaeth Oedolion yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Bydd Tîm Rheoli'r Adran Oedolion yn goruchwylio pob cynllun sy'n deillio o'r saith maes blaenoriaeth, yn ogystal â nodi materion sydd angen eu gweithredu. |

**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

**Beth yw'r Ddyletswydd?**

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?**

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** - grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

**Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?**

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

**Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonITor.**

**Atodiad 2 – Hawliau Dynol**

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

**Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 26ain Tachwedd 2024 |
| Pwnc / Testun: | Cynllun Strategol Môn Actif 2024-29 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Cynghorydd Neville Evans, Deilydd Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Owain Jones<br>Rheolwr Hamdden<br>owainjones@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Yn berthnasol i'r  holl Aelodau Etholedig |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

Gymeradwyo Cynllun Strategol Môn Actif drafft ar gyfer 2024-29.

Mae Cynllun Strategol Môn Actif wedi ei adnabod yn flaenoriaeth, sy'n cael ei yrru gan Gynllun y Cyngor 2023-28.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Cynllun Strategol Môn Actif drafft ar gyfer 2024-2029. Mae'r Cynllun yn gosod y weledigaeth a'r meysydd blaenoriaeth allweddol er mwyn creu cymunedau iach dros y pum mlynedd nesaf. Pwrpas y Cynllun yw sicrhau bod gan y Cyngor gynllun cyraeddadwy a chynaliadwy, sy'n addas i bwrpas er mwyn darparu gwasanaethau fydd yn gwella iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr yr ynys.

Mae'r pum maes blaenoriaeth yng Nghynllun Strategol Môn Actif 2024-29 yn gysylltiedig ag egwyddorion ehangach yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Y pum blaenoriaeth ydi:

- Cyfranogi, Iechyd a Lles
- Datblygu'r Gweithlu
- Rheoli Cyfleusterau
- Yn Gynaliadwy yn Ariannol
- Cydweithio

Mae amryw o ffynonellau data wedi eu defnyddio er mwyn paratoi'r Cynllun ac wedi rhoi tystiolaeth gref ar anghenion yr ynys. Bydd Môn Actif yn cyfeirio at y data yma yn ystod y pum mlynedd fydd yn sicrhau fod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau cywir a gwybodus er mwyn chwarae rhan allweddol o wella iechyd a hybu bod yn actif yn ein cymunedau.

Cyflwynwyd sylwadau gan swyddogion mewnol, ac amrywiaeth o randdeiliaid wrth baratoi'r Cynllun Strategol hwn. Byddwn yn dibynnu ar gefnogaeth barhaus a'r cydweithio efo'n partneriaid er mwyn gwireddu'r Cynllun.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill. Roedd swyddogion o'r farn fod llunio a mabwysiadu Cynllun Strategol Môn Actif yn hanfodol er mwyn cyfrannu at wireddu Cynllun y Cyngor

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gweledigaeth y Cyngor yw creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu. Bydd cymeradwyo'r Cynllun hwn yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hon. Mae gwasanaeth Môn Actif yn cael ei werthfawrogi ac mae'n profi'n boblogaidd o fewn ein cymunedau. Mae defnydd cyfleusterau a gweithgareddau yn parhau i fod yn gyson gyda dros 500,000 yn gwneud defnydd blynyddol o'r Canolfannau Hamdden.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gefnogi a chymeradwyo'n ffurfiol y Cynllun Strategol fel y gallwn gynllunio efo sicrwydd ac eglurder ar gyfer ei ddyfodol.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi, mae'r Cynllun Strategol Môn Actif yn ddogfen gyhoeddus allweddol sy'n cyd-fynd a Chynllun y Cyngor 2023 – 2028. Mae'r blaenoriaethau drafft yn berthnasol iawn ag yn cyd-fynd ag amcanion yng nghynllun Strategol y Cyngor:

- Iaith Gymraeg: Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.
- Gofal a llesiant cymdeithasol: Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.
- Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.
- Economi: Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys.
- Newid Hinsawdd: Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sero net erbyn 2030.

## D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r Cynllun Strategol. Mae cyswllt rhwng Cynllun Strategol Môn Actif â Chynllluniau Strategol ariannol eraill e.e. Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029.

| |
|---|
| Bydd Môn Actif yn yn gwneud y mwyaf o gyllid ychwanegol er mwyn gwireddu y cynllun a parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni a datblygu cyfleusterau. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae buddion iechyd a lles a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn amhrisiadwy. Mae bod yn gorfforol egnïol yn hanfodol i bobl fyw bywydau iach a boddhaus, gan helpu i leihau'r risg o salwch. Mae'r cynllun yma yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer llywio penderfyniadau a phrosesau yn gysylltiedig efo Cynllun Strategol Môn Actif, ynghyd â phenderfyniadau i gyflawni'r amcanion tymor hir a nodir yng Nghynllun y Cyngor. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol; cynnydd mewn galw, mwy o ddisgwyliadau gan y cyhoedd a lleihad yn ei gyllideb, ac mae'r cyfan yn golygu bod y dewisiadau a wnaethir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn rhai anodd iawn.<br><br>Pwrpas y Cynllun yw sicrhau bod gan y Cyngor gynllun ariannol cynaliadwy a gwydn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Cyngor wedi gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid mewnol i baratoi'r cynllun strategol hwn, h.y. Grŵp Pwysau Iach, Tîm Rheoli Môn Actif. Nod y Cynllun yw gwella'r cydweithio presennol rhwng y Cyngor a phartneriaid allanol allweddol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Rydym wedi ymgysylltu gyda:<br>• Grŵp Pwysau Iach y Cyngor sydd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Tîm Rheolaeth Corfforaethol<br>• Mae Môn Actif yn cwblhau holiadur ar gyfer defnyddiwyr ein gwasanaeth pob blwyddyn. Mae sylwadau o'r holiadur yma |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi cael ei ddefnyddio i lunio'r Cynllun. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae Cynllun strategol Môn Actif yn cwrdd ag amcanion llesiant Cyngor cyfan a hefyd yn gwireddu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:<br>• Cymru Lewyrchus.<br>• Cymru Iachach.<br>• Cymru sy'n fwy cyfartal.<br>• Cymru o gymunedau cydlynus.<br>• Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.<br><br>Byddwn yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer unrhyw brosiect unigol fydd yn deillio o'r Cynllun. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y Cynllun Strategol Môn Actif yn helpu i wella anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd gymdeithasol, gan gynnwys:<br>• Darparu gweithgareddau fforddiadwy yng nghalon cymunedau.<br>• Sicrhau bod rhaglenni gwaith yn gwella iechyd ac ansawdd bywyd.<br>• Sicrhau ein bod yn gwrando ar bobl sydd yn derbyn gwasanaeth a sicrhau cyfle i fynegi barn.<br><br>Byddwn yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer unrhyw brosiect unigol fydd yn deillio o'r Cynllun. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith.<br>Mae'r Cynllun yn nodi bydd cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi'u hymgorffori yn y ddogfen. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Mae'r Swyddog Adran 151 yn aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae unrhyw sylwadau ganddo wedi'u hystyried ochr yn ochr â sylwadau gan aelodau'r tîm hwnnw. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae unrhyw sylwadau ganddi wedi'u hystyried ochr yn ochr â sylwadau gan aelodau'r tîm hwnnw. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Cyflwynir y Cynllun Môn Acif i'r Pwyllgor Sgriwtini 19/11/24. |
| 9 | Aelodau Lleol | Perthnasol i pob Aelod Etholedig. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cynllun Strategol Môn Actif 2024-29 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

MÔN ACTIF

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



# Cynllun Strategol Môn Actif

## 2024-2029

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /

This document is also available in English.

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair



Y Cynghorydd
Neville Evans
Aelod Portffolio
Hamdden



Fôn Roberts
Cyfarwyddwr
Gwasanaethau
Cymdeithasol a Pennaeth
Gwasanaeth Plant a
Theuluoedd



Christian Branch
Pennaeth
Gwasanaeth
Rheoleiddio a
Datblygu
Economaidd

Ni ellir tanbrisio buddion cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Mae’n hanfodol i bobl fod yn gorfforol weithgar er mwyn byw bywyd iach a bodlon ac mae’n helpu i leihau’r risg o salwch difrifol, yn ogystal â rhoi hwb i hunan barch a lleihau’r risg o straen.

Ar hyn o bryd mae’r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol ac, oherwydd hynny, bydd y dewisiadau sy’n agored i’r Cyngor a’r penderfyniadau y bydd rhaid iddo eu gwneud yn rhai anodd iawn. Y rhagdybiaeth wrth ddatblygu’r Cynllun hwn oedd y byddai’r Cyngor a’i bartneriaid yn ymrwymo i weithio ar y cyd i wella iechyd a lles ein trigolion a’n hymwelwyr.

Mae’r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau’r Cyngor yn ystod y 5 mlynedd nesaf ac, er gwaetha’r heriau, mae’n cydnabod y bydd cyflawni’r cynllun strategol hwn yn hanfodol er mwyn gwella llesiant ac atal afiechyd. Mae Môn Actif wedi ymrwymo i ddarparu gweithgareddau cynhwysol a hygyrch.

Mae’r cynllun hwn yn uchelgeisiol, yn flaengar ac mae’n allweddol er mwyn datblygu Môn Actif er mwyn cyflawni rhai o’r gwelliannau cyffroes fydd yn cynnig buddion pellgyrhaeddol, hir dymor i’n trigolion a’n hymwelwyr.

# Pwrpas y Cynllun Strategol

Mae Ynys Môn yn wynebu lefelau cynyddol o ordewdra a diabetes, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau eraill sy’n gysylltiedig â diwylliant o segurdod. Nod Cynllun Strategol Môn Actif yw creu cymunedau iachach trwy ddefnyddio dull integredig, cyngor cyfan lle mae cydweithio’n allweddol.

Er gwaetha’r heriau ariannol presennol, mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen parhau i fuddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden, er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd, eu hapêl a’u perfformiad. Bydd gwneud y gorau o gyfleoedd i ddenu cyllid allanol yn allweddol.

Mae’r Cynllun yn cefnogi gweledigaeth ac amcanion strategol y Cyngor er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth hamdden, yn y dyfodol, yn parhau i ddiwallu anghenion newidiol ein trigolion, ei fod yn parhau’n gynaliadwy yn ariannol a’i fod yn cyfrannu at dargedau sero net. Mae'r cynllun hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Rheoli Asedau'r Cyngor (2024-2029) ac yn cefnogi mentrau eraill, er enghraifft Teithio Llesol, Ysgolion Iach a Chymunedau Oed Gyfeillgar.



Tudalen 156

# Demograffeg yr Ynys (Cyfrifiad 2021)

68,900
2021

35,200 o ferched

33,700 o ddynion

**26.5%**
65 oed a throsodd

**20.1%**
rhwng 0-17 oed

45
Oed cyfartalog
**2011**


48
Oed cyfartalog
**2021**

Tudalen 157

Ffynhonnell y data – ONS.gov.uk

# Newid yn y boblogaeth

## Cyfrifiad 2011 o gymharu â chyfrifiad 2021



# Data Ynys Môn



## Plant

**11.2%** o blant 4 a 5 oed yn ordew.

**14.5%** o blant 4 a 5 oed dros eu pwysau.

**24.3%** yn byw mewn tlodi cymharol.

**40%** yn gaeth i chwaraeon (cymryd rhan 3 gwaith neu fwy yr wythnos tu allan i gwricwlwm yr ysgol).

**17.4%** (11-16 oed) yn gorfforol weithgar am o leiaf 60 munud y dydd.

## Cyfranogiad

Cyfranogiad yn y canolfannau hamdden – **514,646** (2023/24)

**34,538** o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn holl weithgareddau Môn Actif.

**12,020** o blant wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gwyliau ysgol yn 2023.

**7,500** o aelodau Môn Actif.

**1,847** yn cymryd rhan yn y rhaglen nofio Nofio Môn.

## Preswylwyr

**50.7%** yn dweud bod eu hiechyd yn dda iawn / 1.1% yn dweud bod eu hiechyd yn wael iawn.

Amcangyfrifir bod **1,300** o bobl yn byw â Dementia.

Mae gan **18%** bwysedd gwaed uchel.

**11.7%** o bobl 16+ yn ordew / **34.5%** â phwysau iach.

**39.5%** o oedolion yn cwrdd â chanllawiau gweithgarwch corfforol cenedlaethol.

**40.9%** o bobl 65+ â phwysau iach

Source: Child Measurement Programme 2022-23, Census 2021, General Medical Services QAIF September 2022, Public Health Wales Observatory, PHOF, SHRN Dashboard, National Survey for Wales (WG), School Sport Survey.

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.
Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**



'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

## Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

## Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

## Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

## Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

## Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 -Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

Tudalen 160



## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.



## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.



## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.



## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.


Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Y Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn nodi’r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a’n hamcanion.

Mae’r Cynllun Strategol Hamdden yn ddogfen allweddol sy’n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion a’r weledigaeth strategol.








[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

# Meysydd blaenoriaeth allweddol








Gallai cyfyngiadau cyllidebol effeithio ar allu'r Cyngor Sir i wireddu'r uchod.

# Cyfranogiad, Iechyd a Llesiant

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Mae cyfraniad gweithgarwch yn allweddol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol da.

Bydd galluogi ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn gwella llesiant ac yn atal afiechyd.





**Beth ydym ni am ei wneud?**

- Creu'r amodau i unigolion wella eu hiechyd a'u llesiant.
- Defnyddio cyfleusterau hygyrch.
- Cynnal y rhaglen lwyddiannus i blant (0-11 oed).
- Darparu rhaglen o weithgareddau i gynorthwyo pobl hŷn i heneiddio'n dda.
- Nodi cymunedau sydd angen cefnogaeth.
- Mynd i'r afael ag anghyfartaledd trwy gyfrwng chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Sicrhau bod y rhai hynny sy'n perthyn i grwpiau a warchodir yn cael mynediad at raglenni sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion penodol.
- Gweithio gyda theuluoedd i leihau gordewdra ymysg plant.
- Cydweithio ar wahanol fentrau, megis y rhaglen Bwyd a Hwyl a'r rhaglenni i deuluoedd yn ystod gwyliau ysgol.

**Sut ydym ni am wneud hyn?**

- Defnyddio lleoliadau cymunedol er mwyn sicrhau fod gweithgareddau'n hygyrch i bawb.
- Darparu cyfleoedd allgymorth yn y gymuned.
- Targedu gweithgareddau mewn ardaloedd lle mae cyfraddau uchel o anghydraddoldeb.
- Parhau i gynnig rhaglenni ymarfer wedi'u goruchwylio o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr anghenion.
- Darparu mentrau megis y Cynllun Atgyfeirio i Ymarfer, Dementia Actif, Datblygu Chwaraeon, sesiynau Insport a'r rhaglen Pwysau Iach Cymru Iach, PIPYN (Pwysau Iach Plant yng Nghymru)
- Cydweithio â phartneriaid o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Annog cyfleoedd am weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau.

# Datblygu'r gweithlu



**Pam fod hyn yn bwysig?**

- Bydd gweithlu cynaliadwy sydd wedi'i hyfforddi'n llawn yn caniatáu i Môn Actif ddarparu lefel uchel o ofal cwsmer.

- Bydd dull Cyngor cyfan yn rhan annatod o sicrhau bod y maes blaenoriaeth allweddol hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol.



**Beth ydym ni am ei wneud?**

- Creu cynllun gweithlu newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad staff, hyfforddiant, cadw staff, perfformiad a gwasanaeth cwsmer.
- Codi proffil, ac annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Hyrwyddo diwylliant gweithio cadarnhaol.
- Hyrwyddo cyfleoedd datblygu gyrfa.
- Gwneud y mwyaf o dechnoleg fodern.
- Gwella cyfathrebu.
- Sicrhau bod y gweithlu'n meddu ar y sgiliau cywir i wireddu'r cynllun hwn.
- Nodi staff talentog i'w datblygu ymhellach.

**Sut ydym ni am wneud hyn?**

- Darparu mwy o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Datblygu'r gweithlu a chynnig hyfforddiant a chyfleoedd priodol er mwyn datblygu sgiliau newydd.
- Cynnig ystod o swyddi lefel mynediad a rhaglenni datblygu.
- Archwilio technolegau newydd ac awtomataidd er mwyn gwella gofal cwsmer.
- Gwneud y mwyaf o gyfryngau cymdeithasol, canolbwyntio ar gyfathrebu a marchnata cadarnhaol a rhagweithiol.
- Adolygu Cynllun Marchnata Môn Actif bob blwyddyn.
- Derbyn adborth gan gwsmeriaid trwy gynnal arolygon rheolaidd ar gyfer rhanddeiliaid a chynnal cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr.
- Gweithio gyda darparwyr addysg lleol i sicrhau cyfatebiaeth â gofynion cyflogi Môn Actif.

# Rheoli Cyfleusterau

## Pam fod hyn yn bwysig?

Dylai cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden fod yn brofiad pleserus sy'n digwydd mewn amgylchedd diogel a chynhwysol. Bydd yr holl gyfleusterau hamdden yn darparu man croesawgar lle nad oes unrhyw ofid na phryderon.



Bydd rheoli cyfleusterau'n effeithiol ac yn unol â Chynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn hanfodol i sicrhau cyfraniad cadarnhaol tuag at ein targedau sero net.



## Beth ydym ni am ei wneud?

- Darparu cyfleusterau hamdden sy'n ddiogel a hygyrch.
- Sicrhau bod cyfleusterau hamdden yn adlewyrchu newidiadau  o ran anghenion a thueddiadau cyfranogi defnyddwyr.
- Gwella effeithiolrwydd, cynaliadwyedd a pherfformiad yr holl gyfleusterau hamdden.
- Targedu buddsoddiad lle mae ei angen fwyaf.
- Cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch y diwydiant Hamdden.
- Monitro a gweithredu newidiadau o fewn y Gweithdrefnau Gweithredu Arferol (GGA) a'r Cynllun Gweithredu mewn Argyfwng (CGA) ar gyfer pob cyfleuster hamdden.

## Sut ydym ni am wneud hyn?

- Arwain ar ddulliau arloesol a hyblyg er mwyn moderneiddio cyfleusterau.
- Archwilio'r holl gyfleoedd addas am gyllid.
- Gwella perfformiad amgylcheddol a lleihau ôl-troed carbon cyfleusterau hamdden, a chyfrannu at dargedau sero net y Cyngor.
- Rheoli ein cyfleusterau hamdden yn rhagweithiol ac effeithlon.
- Adolygu ein prosesau ac asesiadau risg iechyd a diogelwch yn flynyddol.

# Cynaliadwyedd Ariannol

### Pam fod hyn yn bwysig?

Oherwydd yr heriau ariannol presennol, mae darparu gwasanaethau fforddiadwy i'n defnyddwyr yn fwyfwy pwysig. Cydnabyddir hefyd bod angen parhau i fuddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden.

Byddwn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol ein gwasanaethau trwy gynyddu incwm, rheoli costau a gwneud y gorau o gyfleoedd am gyllid allanol.



### Beth ydym ni am ei wneud?

- Gwella apêl a defnyddioldeb ein lleoedd.
- Cynnal y defnydd presennol o'n cyfleusterau trwy sicrhau boddhad y cwsmer.
- Lleihau costau gweithredol trwy ddefnyddio adeiladu'n fwy effeithiol a thrwy hynny leihau allyriadau carbon.
- Sefydlu llinell sylfaen carbon ar gyfer ein hadeiladau hamdden a nodi cyfleoedd i ddatgarboneiddio ac ystyried y risg i'r hinsawdd.
- Gwneud y gorau o enillion ariannol wrth gydnabod buddion cymdeithasol a buddion llesiant.

### Sut ydym ni am wneud hyn?

- Cynnig strwythur prisiau cystadleuol a fforddiadwy i'n defnyddwyr.
- Cynnal a gwella, lle bo hynny'n bosib, safon ein cyfleusterau a chyfleoedd i gymryd rhan.
- Mabwysiadu dull hyblyg ac arloesol wrth addasu i newidiadau mewn tueddiadau cyfranogi.
- Nodi, sicrhau a gwneud y mwyaf o fuddsoddiad cyfalaf i ddatblygu cyfleusterau hamdden addas i bwrpas a buddsoddi mewn mesurau effeithiolrwydd ynni.
- Datblygu Cynllun Ariannu Cyfalaf Môn Actif i yrru'r cyfeiriad a phenderfyniadau.

# Cydweithio

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Bydd cydweithio effeithiol yn caniatáu i sgiliau a gwybodaeth gael eu rhannu fydd yn esgor ar syniadau newydd, buddiannau ar y cyd a chyfle i gael mynediad at ragor o adnoddau a gwella effeithiolrwydd.




Mae ein partneriaid yn cynnwys:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- BIPBC
- Gogledd Cymru Actif
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Clybiau Chwaraeon Cymunedol
- Grwpiau Cymunedol
- Grwpiau Sector Gwirfoddol
- Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Yr Urdd

**Beth ydym ni am ei wneud?**

- Cydweithio â phartneriaid allanol.
- Cydweithio'n well â rhanddeiliaid.
- Archwilio cyfleoedd i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn darparu cynaliadwyedd yn y tymor hir.
- Cydweithio yn rhanbarthol a chenedlaethol a mynychu digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid.
- Rhannu sgiliau a gwybodaeth.



**Sut ydym ni am wneud hyn?**

- Mabwysiadu ymateb Cyngor gyfan i'r cynllun, er mwyn sicrhau cyd-wybodaeth, cydymdrech ac adnoddau ar y cyd.
- Gweithio'n rhagweithiol â rhanddeiliaid i gynnal a gwella iechyd a llesiant, gyda phwyslais cryf ar wasanaethau ataliol.
- Mynychu digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid (lleol a chenedlaethol).
- Gweithio gyda phartneriaid ariannu allanol i ddarparu cefnogaeth hir dymor.
- Gweithio gyda gweithredwyr profiadol yn y diwydiant hamdden i nodi dulliau arloesol a moderneiddio gwasanaethau.
- Dathlu cydweithio cadarnhaol a llwyddiant.

# Risgiau o ran cyflawni'r cynllun

Tudalen 168

1. Costau cynyddol
2. Oedran a chyflwr cyfleusterau
3. Cadw staff
4. Heriau wrth gyflawni sero net
5. Cyfyngiadau cyllideb
6. Darparu gwasanaeth gwell gyda llai o adnoddau
7. Angen ymateb i amgylchiadau annisgwyl



# Llywodraethiant: Monitro ac Arfarnu

Byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn er mwyn sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei wireddu. Bydd y trefniadau'n sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydlyniant a strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

Bydd Tîm Rheoli Môn Actif a'r Is-grwp Grŵp Môn Actif yn gyfrifol am adrodd ar wahanol elfennau. Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth ac yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, neu ar gais.



Rhoddir cyfle i ddefnyddwyr ddarparu adborth yn flynyddol trwy'r Arolwg Defnyddwyr Môn Actif.

Bydd cynnydd yn cynnwys gwybodaeth am weithredoedd, canlyniadau a'r effaith, gan amlygu llwyddiannau ac unrhyw faterion.

Bydd adroddiad cynnydd blynyddol ac adolygiad o'r cynllun strategol yn cael eu cwblhau.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 26.11.2024 |
| Pwnc / Testun: | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol |
| Aelod(au) Portffolio: | Cynghorydd Robin W. Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Ned Michael |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Lisa Dundee, Swyddog Strategaeth Tai<br>Elliw Llŷr, Rheolwr Polisi, Strategaeth a Chomisiynu Tai<br>01248752137<br>LisaDundee@ynysmon.llyw.cymru<br>ElliwLlyr@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amh. |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

**A1- Cymeradwyo'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023-28**

**A2- Cymeradwyo'r broses ymgynghori.**

**A3 – Cymeradwyo dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad gyda Aelod Portffolio Tai i gytuno ar unrhyw fân newidiadau golygyddol y mae angen eu gwneud i'r Asesiad drafft o'r Farchnad Dai Leol, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

### 1. Cefndir

Mae'n ofyniad statudol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Bob pum mlynedd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ailysgrifennu eu LHMA a diweddaru eu LHMA unwaith yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwnnw (rhwng blynyddoedd dau a thri). Mae Llywodraeth Cymru wedi addasu'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer paratoi'r LHMA. Gwneir hyn nawr drwy becyn cymorth sy'n ein galluogi i fesur anghenion a gofynion tai ac sy'n sicrhau dull cyson ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r broses wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl a bu oedi oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi fersiynau gwahanol o'r adnodd LHMA. Nid oedd yr amserlen a roddwyd gan Lywodraeth Cymru o gyhoeddi'r pecyn cymorth ac ar gyfer cyflwyno'r asesiad erbyn 31 Mawrth 2024 ychwaith yn ymarferol i allu casglu data digonol gan fod angen casglu gwybodaeth gan bartneriaid allweddol yn ogystal â gwasanaethau gwahanol o fewn yr awdurdod lleol. Roedd cyfyngiadau data hefyd i'w hystyried gan fod holl ddata'r gofrestr dai yn cael ei storio gan y cyngor plwyf, felly roedd angen trosi hyn yn ddata Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), fel arall ni fyddai'n bosibl ei ddefnyddio o fewn yr adnodd LHMA. Digwyddodd yr un peth gyda gwasanaethau cynllunio a data RSL, yr oedd angen eu diwygio a'u grwpio yn y gwahanol LSOA ac a oedd yn broses llafurus.

Ymgynghorwyd ag Uned Ddata Cyngor Gwynedd cyn cynnal ymgynghoriad ar ddewis HMA. Yna roedd angen cyfres o gyfarfodydd i ateb cwestiynau data penodol a gododd cyn yr ymarferiad ymgynghori ac yn ei sgil. Roeddent yn gallu cynghori ar feysydd fel manteision ac anfanteision gormod neu rhy ychydig o HMA's a sut y gallai data gael ei effeithio mewn ardaloedd lle mae data prisiau tai ar gael.

Oherwydd cymhlethdod yr adnodd LHMA, penderfynwyd y byddai Data Cymru yn cael ei gomisiynu i helpu i fewnbynnu'r data sydd ei angen o fewn yr adnodd LHMA. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda Data Cymru a oedd yn gallu rhoi cyngor ar unrhyw ddata ddata ychwanegol neu oedd ei angen. Roedd yn dal yn ofynnol i wasanaethau tai gasglu'r data a'i gyflwyno i Data Cymru, a oedd yn gallu sicrhau bod y data cywir yn cael ei gofnodi yn y daenlen.

## 2. Pwrpas yr LHMA

Pwrpas LHMA yw darparu dadansoddiad eang o Farchnad Dai Ynys Môn, gan ystyried y gofynion hirdymor ar gyfer tai ar Ynys Môn.

Bydd y sail dystiolaeth yn yr asesiad hefyd yn cael ei defnyddio i lywio Strategaeth Dai Ynys Môn, yn ogystal â rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hefyd yn llywio blaenoriaethau tai strategol a chynllunio gwasanaethau lleol, fel addysg a thrafnidiaeth. Gellir defnyddio'r LHMA hefyd fel adnodd ar gyfer trafod darparu tai fforddiadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a dyrannu Grant Tai Cymdeithasol (SHG) i helpu i ddarparu tai fforddiadwy.

Gan fod y gwaith o gasglu data ar gyfer yr LHMA wedi dechrau yn 2023, y cyfnod pum mlynedd ar gyfer yr LHMA yw 2023 -2028.

## 3. Adnodd LHMA ac Ardaloedd o'r Farchnad Dai

Mae'r adnodd LHMA yn dadansoddi anghenion tai mewn Ardaloedd penodol o'r Farchnad Dai (HMAs) yn Ynys Môn. Mae'r HMAs hyn yn rhanbarthau lle mae pobl fel arfer yn byw ac yn symud heb newid swyddi. Mae gan Ynys Môn naw ardal o'r fath.

Cafodd naw HMA Ynys Môn eu dewis drwy ymarferiad ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd data'r gofrestr dai yn cyfyngu rhywfaint ar ddewis Ardaloedd o'r Farchnad Dai. Er enghraifft, ni ellid rhannu rhai ardaloedd fel Caergybi oherwydd sut y casglwyd data'r gofrestr dai. Roedd hefyd yn ofynnol dewis o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol neu Wardiau Etholiadol. Penderfynwyd y byddai LSOA yn cael eu defnyddio gan fod digon o ddata ar gael ar lefel LSOA. Cafodd yr HMA terfynol eu grwpio gyda'i gilydd gan gynnwys data'r gofrestr dai a data prisiau tai ar gyfer pob LSOA.

Mae'r adnodd yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion tai ar gyfer pob HMA. Mae'n defnyddio data o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, sy'n ardaloedd bach sy'n rhoi darlun clir o dueddiadau ac anghenion tai lleol.

Mae'r adnodd LHMA yn cyfrifo ffigurau'r angen am dai ar gyfer Ynys Môn yn seiliedig ar dri senario a ragwelir o ran aelwydydd: Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r rhai Uwch ac Is. Mae yna opsiwn o fewn yr adnodd i ddefnyddio gwahanol senarios. Gallai'r senarios hyn fod yn seiliedig ar amcanestyniadau cyflogaeth a thwf poblogaeth neu ynghlwm wrth amcanestyniadau'r CDLl Newydd. Gan mai data cyfyngedig sydd ar hyn o bryd o ran datblygiadau posibl Porthladd Rhydd Môn ac Wylfa Newydd a gan fod bwriad i ddiweddaru Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (CDLl), nid oes unrhyw senarios eraill wedi'u cynnwys ar hyn o bryd.

Mae'r LHMA presennol yn defnyddio Prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer ei ffigurau o ran yr angen am dai. Unwaith y bydd y CDLl Newydd wedi'i gwblhau a'i fabwysiadu, defnyddir y ffigurau i adolygu'r LHMA yn y dyfodol, a fydd yn cael eu diweddaru yn unol â hynny.

**4. Ymgynghori**

Mae ymgysylltu ac ymgynghori wedi bod yn ffactor allweddol yn ystod yr asesiad hwn ac fe'i gwnaed trwy'r dulliau canlynol:

1. **Ymgysylltu cychwynnol** – dewis Ardaloedd o'r Farchnad Dai a chasglu'r data oedd ei angen i'w fewnbynnu i'r adnodd LHMA. Ynghyd â sefydliadau partner, darparwyd data gan y gwasanaeth tai megis; stoc bresennol, trosiant stoc, cyflenwad arfaethedig, a'r holl ddata penodol arall o ran yr angen am dai. Cynhaliwyd y broses ymgysylltu a chasglu data gychwynnol rhwng Gorffennaf 2023 a Mawrth 2024.
2. **Ymgynghoriad** – Cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda rhanddeiliaid allweddol ar ganlyniadau'r angen am dai yn sgil yr adnodd LHMA. Gwnaed hyn drwy fis Gorffennaf, Awst a mis Medi 2024.

Mae adroddiad drafft bellach yn barod i gael ei gymeradwyo gyda'r bwriad o ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Pwrpas hyn yw rhoi cyfle i gael adborth neu roi sylwadau ar yr LHMA. Ni ofynnir unrhyw gwestiynau uniongyrchol gan ymatebwyr, a'r pwrpas yn syml yw rhoi adborth a sylwadau ar yr Asesiad ei hun. Gwneir hyn ar-lein, a bydd y cyfnod ymgynghori yn para am bedair wythnos.

Mae ***Atodiad 1*** yn darparu cynllun cyfathrebu manwl o'r holl weithgareddau sydd wedi digwydd, ynghyd ag amserlenni cyflawni ar gyfer camau olaf y broses ymgynghori LHMA ac mae'n cynnwys amserlen fanwl sy'n amlinellu'r prif bethau a gyflawnwyd gan yr Asesiad hyd at ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2025.

Mae'r amserlen nesaf fel a ganlyn:

| Amserlenni | Gweithgaredd |
|---|---|
| 14 Tachwedd 2024 | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| 26 Tachwedd 2024 | Pwyllgor Gwaith |

| | |
|---|---|
| 2 Rhagfyr 2024 – 6 Ionawr 2025 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Ar-lein ar yr LHMA drafft. |
| Ionawr 2025 | Cyflwyno'r LHMA Terfynol i Lywodraeth Cymru |

## 5. Anghenion Tai Penodol

Mae'r LHMA yn seiliedig ar restr gynhwysfawr o dystiolaeth ystadegol, gan gynnwys data ar incwm, prisiau tai, rhenti, amcanestyniadau aelwydydd, anghenion tai heb eu diwallu ar hyn o bryd, trosiant y stoc dai bresennol a'r cyflenwad arfaethedig. Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried anghenion tai penodol y gwahanol aelwydydd ledled Ynys Môn, gan ddefnyddio ffynonellau data ansoddol a meintiol.

Mae'r LHMA yn archwilio'r mathau canlynol o dai neu ddarpariaethau'n gysylltiedig â thai:

- Darpariaeth tai hygyrch wedi'u haddasu
- Aelwydydd gyda theulu mawr a/neu gyda sawl cenhedlaeth y mae angen eiddo mwy arnynt
- Tai nad ydynt yn barhaol e.e. llety dros dro
- Anghenion tai, gofal a chymorth e.e. llety â chymorth fel; gofal ychwanegol, tai gwarchod, byw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu a ffoaduriaid
- Anghenion o ran lleoliad - llety myfyrwyr neu eiddo sy'n agos at siopau, mannau addoli i ddiwallu'r rhai ag anghenion corfforol neu ddiwylliannol

Casglwyd data ar gyfer 'ystod benodol o anghenion tai' o amrywiaeth o ffynonellau drwy ymgynghoriad wyneb yn wyneb, ar-lein, dros y ffôn ac e-bost. Rhoddwyd cyfle i'r holl randdeiliaid a staff ddarparu adborth sydd wedi'i ystyried a'i gynnwys lle bo'n briodol o fewn yr LHMA.

## 6. Canlyniadau'r LHMA

Mae'n ddarbodus nodi bod yr LHMA yn tybio y bydd anghenion tai heb eu diwallu yn cael sylw o fewn 5 mlynedd cyntaf y cyfnod o 15 mlynedd. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried y cyflenwad o dai fforddiadwy ar ôl Blwyddyn 5 oherwydd nad oes sicrwydd y gellir cyflawni hyn.
Er enghraifft, ni allwn gadarnhau a fydd datblygiadau preifat sydd wedi cael caniatâd cynllunio, gydag unedau sy'n ddarostyngedig i adran 106 yn cael eu cwblhau o fewn y cyfnod o 5 mlynedd neu hyd yn oed o gwbl.

| | Angen Gros Blynyddol Rhent Cymdeithasol | Angen Gros Blynyddol Perchnogaeth Cartref Cost Isel | Angen Net Blynyddol Rhent Cymdeithasol | Angen Net Blynyddol Perchnogaeth Cartref Cost Isel | Angen net 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif amrywiolyn | 152 | 96 | 73 | 94 | *835* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiolyn Uchaf** | **163** | **100** | **80** | **99** | ***895*** |
| Amrywiolyn Isaf | 144 | 92 | 68 | 91 | *795* |

Mae'r tabl uchod yn amlinellu cyfanswm yr angen gros a net blynyddol ar gyfer 5 mlynedd gyntaf yr LHMA ar gyfer pob amrywiolyn. Mae trosiant y stoc bresennol a'r cyflenwad arfaethedig yn cael ei ddidynnu o'r angen gros i roi ffigur net. Tybir hefyd y bydd rhestr aros bresennol y gofrestr tai yn cael ei chlirio o fewn y cyfnod o 5 mlynedd.

Mae prif ganfyddiadau manwl sy'n rhoi dadansoddiad o'r angen net yn ôl ystafell wely ar gyfer Ynys Môn o'r adnodd LHMA wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2.

Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r ffigurau yn yr LHMA yn gosod targed ar gyfer tai fforddiadwy nac yn diffinio nifer y cartrefi newydd sydd eu hangen. Gellir darparu tai fforddiadwy hefyd drwy ddulliau fel ailddefnyddio cartrefi gwag neu gaffael eiddo presennol.

### 7. Dewis Amrywiolyn

Mae angen dewis un o'r 3 amrywiolyn a ddarperir gyda'r LHMA gan y bydd y sylfaen dystiolaeth yn yr asesiad hefyd yn cael ei defnyddio i gyfrannu at Strategaeth Dai Ynys Môn, yn ogystal â rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd. Bydd hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau tai strategol. Gellir defnyddio'r LHMA hefyd fel dull ar gyfer negodi'r tai fforddiadwy a ddarperir wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a dyrannu Grant Tai Cymdeithasol (SHG) i gefnogi'r broses o ddarparu tai fforddiadwy ond rhaid cyfiawnhau'r dewis.

Er bod adborth o'r ymgynghoriad yn ffafrio'n gryf yr amrywiolyn uchaf, mae'n bwysig gallu cyfiawnhau'r dewis hwn. Mae tystiolaeth yn dangos bod poblogaeth Ynys Môn wedi gostwng ers y cyfrifiad diwethaf ac mae'r boblogaeth hefyd yn heneiddio. Er ei bod yn anochel y byddai datblygiadau posibl fel Wylfa Newydd a Phorthladd Rhydd Môn yn cyfrannu at wyrdroi'r duedd hon, mae'n rhy gynnar rhagweld ar hyn o bryd a fydd datblygiadau o'r fath yn arwain at dwf poblogaeth ac economaidd. O ganlyniad i hyn, argymhellir ar hyn o bryd y dylid dewis y prif amrywiolyn sy'n caniatáu ar gyfer twf poblogaeth sy'n fwy unol â'r data presennol. Mae'r angen am dai ar draws y tri amrywiolyn a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn dangos gwahaniaeth bach iawn a byddai dewis yr amrywiolyn uchaf ond yn arwain at alw uwch am lety 1 ystafell wely.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae gofyniad statudol i gynhyrchu LHMA. Bydd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â dogfennau eraill megis y Strategaeth a Prosbectws Tai, felly ni fydd yn cael ei ddefnyddio ar wahân.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Dylid defnyddio'r LHMA i lywio blaenoriaethau tai strategol a chefnogi'r broses o ddarparu tai fforddiadwy.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r LHMA yn ystyried y gofynion tai tymor hir drwy ddarparu dadansoddiad eang o Farchnad Dai Ynys Môn. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Nid oes unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol yn gysylltiedig â chymeradwyo'r LHMA drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'n llywio blaenoriaethau tai strategol ac yn cefnogi'r broses o ddarparu tai fforddiadwy drwy sicrhau y creffir ar anghenion tai a'u bod yn cyd fynd â blaenoriaethau.<br><br>Gellir hefyd defnyddio'r LHMA fel adnodd ar gyfer negodi'r tai fforddiadwy a ddarperir wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a dyrannu Grant Tai Cymdeithasol (SHG). |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae gwasanaethau mewnol a phartneriaid allanol wedi cael cyfle i gyfrannu at y LHMA drwy ymgynghori a sesiynau diweddaru. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Bydd yr adroddiad llawn ar yr LHMA ar-lein am gyfnod o 5 wythnos fel y gall dinasyddion Ynys Môn roi eu barn ar yr adroddiad. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler yr asesiad effaith sy'n dangos y bydd yn cael effaith gadarnhaol. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r | Gweler yr asesiad effaith sy'n ystyried unigolion bregus. |

| | | |
|---|---|---|
| | penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni ddaeth yr asesiad effaith a'r asesiad o'r iaith Gymraeg o hyd i unrhyw effeithiau negyddol. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cefnogi'r argymhelliad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Cefnogi'r argymhelliad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Cefnogi'r argymhelliad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amh. |
| 5 | Eiddo | Amh. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amh. |
| 7 | Caffael | Amh. |
| 8 | Sgriwtini | Yn ystod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19.11.24 *argymhellwyd* y dylai'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023 -2028<br><br>Atodiad 1-Cynllun Cyfathrebu<br>Atodiad 2-Data Amrywiolion<br>Atodiad 3-Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>Atodiad 4-Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) Ynys Môn

# 2023 -2028



ynysmon.llyw.cymru

1.2 Yr amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai ychwanegol **Error! Bookmark not defined.**

1.3 Y Farchnad Dai a Thueddiadau Economaidd-gymdeithasol a Demograffig **Error! Bookmark not defined.**

1.4 Gofynion o ran Anghenion Tai Penodol **Error! Bookmark not defined.**

2. Dadansoddi newid **Error! Bookmark not defined.**

2.1 Mewnbynnau data a thybiaethau allweddol **Error! Bookmark not defined.**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 2, 3, 4 |
| 1. Cyflwyniad | |
| 1.1 Cefndir Polisi Cenedlaethol | 6,7 |
| 1.2 Cefndir Polisi Lleol | 8, 9, 10, 11 |
| 1.3 Llywodraethu ac Ymgynghori | 12, 13, 14 |
| 2. Trosolwg o'r Asesiad a'r Fethodoleg | |
| 2.1 Methodoleg, mewnbynnau a thybiaethau | 15 |
| 2.2 Ardaloedd o'r Farchnad Dai | 16,17,18 |
| 3. Trosolwg o'r Farchnad Dai a Thueddiadau Economaidd-gymdeithasol a Demograffig | |
| 3.1 Dadansoddiad o'r Farchnad Dai | 19 |
| 3.2 Tueddiadau Economaidd-gymdeithasol a Demograffig | 28 |
| 4. Amrywiaeth y Gofynion o ran yr Angen am Dai Ychwanegol | 50 |
| 4.1 Amcanestyniadau Prif Amrywiolion | 50, 51, 52, 53, 54 |
| 4.2 Amcanestyniadau Amrywiolion Uwch | 55, 56, 57, 58 |
| 4.3 Amrywiolion Is | 59, 60, 61, 62 |
| 5. Yr Amcangyfrifon o'r Angen am Dai Ychwanegol yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | |
| 5.1 Amcanestyniadau Aelwydydd | 63 |
| 5.2 Twf at y Dyfodol | 64 |
| 6. Datganiad Sicrwydd Ansawdd | 65,66 |
| Atodiadau | |
| Atodiad A: Tablau Materion Allweddol | 67, 68, 69, 70, 71 |
| Cyfeiriadau | 73, 74 |
| Tablau | 75 |
| Geirfa Termau a Thalfyriadau | 76 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) hwn yn archwilio'r angen am dai ar Ynys Môn ac yn cefnogi'r Strategaeth Dai, y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), a gwaith cynllunio gwasanaethau. Mae'n helpu i negodi darpariaeth tai fforddiadwy a dyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol (GTC).

Mae adnodd LHMA Llywodraeth Cymru'n asesu anghenion tai, gan eu rhannu rhwng tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored. Mae'n defnyddio data ar renti, prisiau tai, incwm, a'r cyflenwad o dai i amcangyfrif y galw at y dyfodol, gan arwain strategaethau tai lleol.

Fel rhan o'r asesiad, rhennir Ynys Môn yn 9 Ardal o'r Farchnad Dai (HMAs), a ddiffinnir ar sail lle mae pobl yn byw ar hyn o bryd a lle maent yn debygol o symud iddo. Yr HMAs yw Canol Ynys Môn, De Ynys Gybi, Gogledd Ynys Gybi, Dwyrain Canol Ynys Môn, Gorllewin Canol Ynys Môn, Amlwch a'r Gogledd Gwledig, Dwyrain Ynys Môn, Gogledd Orllewin Ynys Môn a De Orllewin Ynys Môn. Nid yw'r ardaloedd hyn yn cael eu cyfyngu gan ffiniau gweinyddol ond yn adlewyrchu ardaloedd gweithredol a ddylanwadir gan batrymau cymudo a dewisiadau lleol. Caiff yr HMAs eu diffinio'n ystadegol gan ddefnyddio clystyrau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs), ac mae'r rhaniad hwn yn helpu i roi dealltwriaeth gywirach o'r galw am dai yn yr ardal leol. Mae gan bob HMA ei nodweddion gwahanol ei hun, fel fforddiadwyedd tai, mynediad i drafnidiaeth, a thueddiadau o ran y galw am dai, sy'n llywio strategaethau tai ar gyfer yr ynys.



Mae anghenion amryw grwpiau o ran tai yn hanfodol ar gyfer yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), gan fod gan aelwydydd yn aml ofynion sy'n gorgyffwrdd. Er nad yw rhai agweddau'n cael eu hystyried yn fater o frys ar gyfer yr ynys, mae eraill—yn enwedig yr angen am lety dros dro—eisoes yn destun pryder dybryd, a rhagwelir y byddant yn cynyddu.

Mae Adran 3.3 o'r adroddiad yn darparu trosolwg ansoddol o anghenion yng nghyswllt tai ar Ynys Môn. Y nod yma yw nid pennu union nifer yr eiddo sydd eu hangen, ond amlygu'r pwysau cyfredol o ran tai, ac arwain gwaith cynllunio strategol ar lefel leol mewn meysydd fel:

a) **Darpariaeth tai hygyrch ac sydd wedi'u haddasu**
b) **Eiddo mwy ar gyfer teuluoedd aml-genhedlaeth a/neu fwy**
c) **Llety nad yw'n barhaol**
d) **Anghenion tai, gofal a chymorth**
e) **Anghenion lleoliadol o ran unigolion sydd â gofynion corfforol a diwylliannol**

Mae'r tablau hyn hefyd yn pwysleisio polisïau, strategaethau a mewnwelediadau gan wasanaethau tai ac adrannau eraill, yn hytrach na dibynnu ar ddata rhifyddol yn unig.

Mae fforddiadwyedd tai yn ystyriaeth allweddol yn yr LHMA wrth i gymarebau incwm a thai weithredu fel metrig allweddol. Mae prisiau tai ar Ynys Môn wedi cynyddu o ganlyniad i boblogrwydd yr ardal ond mae graddfeydd morgeisi uwch bellach yn arafu'r farchnad, a allai hefyd arafu'r cynnydd mewn prisiau. Ar yr un pryd, mae cyfartaledd incwm yn parhau'n is mewn ardaloedd gwledig o Gymru neu'r DU gan ddwysau heriau fforddiadwyedd.

Mae'r **gymhareb prisiau incwm/tŷ** yn cymharu **canolrif incwm cartrefi** â **chanolrif prisiau** ac, yn arferol, mae cymhareb uwch na **4** yn cael ei ystyried yn anfforddiadwy. Yn Ynys Môn, y cyfartaledd cymhareb yw **7.2**, sy'n sylweddol uwch nag **gogledd Cymru (5.8)** a **Chymru gyfan (6.1).** Mae hyn yn dynodi fod tai yn llai fforddiadwy yn Ynys Môn na mewn rhannau eraill o Gymru. Ar yr Ynys, mae amrywiadau sylweddol ar draws gwahanol ardaloedd:

- **Gogledd Ynys Cybi** yw'r mwyaf fforddiadwy gyda chymhareb o 4.7.
- **De Orllewin Môn** sy'n dangos y straen fforddiadwyedd mwyaf, gyda chymhareb o **8.1** gan ddynodi fod tai yn sylweddol allan o gyrraedd nifer o drigolion lleol
- Hyd yn oed yn rhan isaf y farchnad mae fforddiadwyedd yn parhau yn bryder mewn nifer o ardaloedd. Er enghraifft, mae **chwartel isaf cymhareb prisiau i incwm** ar Ynys Môn mor uchel â **10.7** yn Ne Orllewin Môn.

Mae'r gwiriadau fforddiadwyedd yn enwedig o galed ar gyfer cartrefi incwm is a phrynwyr tro cyntaf. Mae'r diffyg tai fforddiadwy mewn ardaloedd penodol yn awgrymu bod nifer o drigolion yn cael eu prisio allan o'r farchnad gan arwain at gynnydd mewn galw ar gyfer eiddo rhent ac allfudo posibl.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn darparu amcanestyniadau manwl o anghenion tai ar gyfer Ynys Môn, ar sail prif amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru dros gyfnod o 15 mlynedd. Am y pum mlynedd gyntaf, mae'r LHMA yn amcangyfrif **angen blynyddol gros o 248 o unedau tai fforddiadwy**, sy'n cynnwys 236 uned sy'n mynd i'r afael â galw cyfredol nas diwallwyd ynghyd â 12 uned ar gyfer anghenion newydd. Ar ôl cyfrif am y cyflenwad arfaethedig a throsiant y stoc dai gyfredol, **cyfrifir bod yr angen net yn 167 uned y flwyddyn**. Rhennir hyn yn 73 uned rhent cymdeithasol, 31 uned rhent canolradd, a 63 eiddo perchentyaeth cost isel, gyda'r galw mwyaf am **unedau rhent cymdeithasol un ystafell wely, y mae angen 65 ohonynt y flwyddyn**.

Mae'r LHMA yn mynd ati wedyn i archwilio'r anghenion tai y tu hwnt i'r cyfnod pum mlynedd cychwynnol. **Ar gyfer y 10 mlynedd sy'n weddill**, mae gwaith asesu'r galw am dai ychwanegol yn parhau, ac yn rhagweld y caiff unrhyw angen nas diwallwyd o'r cyfnod cyntaf ei ddatrys. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd o ran y rhagfynegiadau ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i flwyddyn pump, o ystyried y potensial am newidiadau mewn amodau economaidd a demograffig. Mae cyfanswm yr angen net am dai fforddiadwy dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA yn cyfuno data o'r pum mlynedd gyntaf a'r 10 mlynedd ddilynol, sy'n darparu rhagolwg cynhwysfawr o'r galw am dai ar yr ynys.

Tra bo'r amcanestyniadau'n adlewyrchu ymdrech i gwrdd â'r galw cyfredol am dai, a'r galw at y dyfodol, **mae'n annhebygol y byddir yn mynd i'r afael â'r holl anghenion nas diwallwyd o fewn y pum mlynedd gyntaf**. Bydd y LHMA diwygiedig yn ymgorffori opsiynau amgen o ran twf, gan ystyried y cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i ddatblygiadau mawr posibl fel prosiectau'r Porthladd Rhydd a Wylfa Newydd.

Er y cafwyd gostyngiad ym mhoblogaeth Ynys Môn rhwng 2011 a 2021, y **prif amcanestyniad yw'r model mwyaf priodol o hyd** oherwydd ei dybiaethau ar gyfer twf cyson. Ystyriwyd amrywiolyn uwch o ran twf yn ystod yr ymgynghoriad, ond mae'r prif amcanestyniad yn cydweddu'n well â thueddiadau diweddar o ran y boblogaeth. Bydd diweddariadau o'r LHMA yn y dyfodol yn ailasesu senarios o ran twf y boblogaeth a'r economi wrth i amodau esblygu.

**Mae'r galw am dai fforddiadwy, yn enwedig unedau rhent cymdeithasol ag un ystafell wely, yn dal i fod yn eithriadol o uchel**. Gallai'r duedd hon gael ei dylanwadu gan ffactorau fel digartrefedd yn dilyn COVID, pwysau o ran costau byw, a chyfraddau Lwfans Tai Lleol anghymesur. Er y galw hwn, ychydig iawn o eiddo ag un ystafell wely sy'n cael eu datblygu, sy'n awgrymu bod angen ystyried datrysiadau tai mwy hyblyg.

Mae'r LHMA yn gweithredu fel adnodd strategol ar gyfer gwaith cynllunio a datblygu, gan sicrhau bod y cyflenwad o dai yn mynd i'r afael ag anghenion brys a hirdymor. Bydd yn arwain penderfyniadau at y dyfodol o ran y mathau o dai—fel cymysgedd cytbwys o dai, fflatiau a byngalos—a deiliadaethau, gan helpu'r Cyngor i feithrin cymunedau cryf a chynaliadwy.

Tra bo adeiladu tai newydd yn un strategaeth i gwrdd â'r galw am dai, mae dulliau eraill fel addasu tai gwag at ddibenion gwahanol, prynu eiddo presennol, a phartneru gyda

landlordiaid preifat yn hanfodol hefyd. **Nid targed caeth ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yw'r LHMA, ond fframwaith ar gyfer cyflenwi amrywiaeth o ddatrysiadau tai**.

Gan edrych at y dyfodol, bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd yn chwarae rôl ganolog o ran rheoli twf yn effeithiol. Gyda phrosiectau seilwaith mawr fel y Porthladd Rhydd a Wylfa Newydd ar fin denu preswylwyr newydd, bydd y CDLl yn canolbwyntio ar sicrhau bod datblygiadau preswyl, yn enwedig tai fforddiadwy a datblygiadau tai dwysedd uchel ger hybiau cyflogaeth fel Caergybi, yn cydweddu â nodau lleol a chenedlaethol o ran cynllunio. Bydd yr LHMA yn dal i fod yn adnodd allweddol i gyfeirio ato ar gyfer cydbwyso'r cyflenwad o dai gyda thwf economaidd a'r boblogaeth, gan gefnogi datblygiad cynaliadwy ledled Ynys Môn.

# Rhagymadrodd

Mae'n ofyniad statudol i awdurdodau lleol ymgymryd ag Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Bob pum mlynedd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ailysgrifennu eu LHMA a diweddaru eu LHMA unwaith yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwnnw (rhwng blynyddoedd dau a thri).

Gall awdurdodau lleol ddiweddaru eu Hasesiadau'n amlach os oes angen, ond ni fyddai'r rhain yn cael eu hadolygu na'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd Fersiwn 3.2 o adnodd LHMA Llywodraeth Cymru i gwblhau'r LHMA hwn.

Tra bydd yr amcangyfrif yn y LHMA hwn yn llywio'r cynllun datblygu, mae'n annhebygol o gyfateb yn uniongyrchol i ofyniad am dai neu'r targed tai fforddiadwy mewn cynllun datblygu. Yn hytrach na hynny, bydd yn darparu cipolwg o raddfa'r tai fforddiadwy y mae'n debygol y bydd eu hangen ym Môn. Fel y cyfryw, dylai cymysgedd deiliadaeth y tai fforddiadwy a fynnir o fewn cynllun penodol adlewyrchu canfyddiadau'r LHMA diweddaraf, onid yw ymgeisydd am ganiatâd cynllunio yn gallu bodloni'r Awdurdod Lleol bod ei gymysgedd arfaethedig yn bodloni angen a nodwyd yn well.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) hwn yn darparu dadansoddiad eang o Farchnad Dai Ynys Môn, sy'n ystyried gofynion hirdymor Ynys Môn o ran tai. Defnyddir y sylfaen dystiolaeth o fewn yr asesiad hefyd i lywio Strategaeth Dai Ynys Môn, yn ogystal â rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae o hefyd yn llywio blaenoriaethau tai strategol a gwaith cynllunio gwasanaethau lleol, fel ym maes addysg a thrafnidiaeth. Gellir defnyddio'r LHMA hefyd fel adnodd ar gyfer negodi darpariaeth tai fforddiadwy wrth benderfynu ceisiadau cynllunio a dyrannu Grant Tai Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi tai fforddiadwy.

## 1.1 Cefndir Polisi Cenedlaethol

- **Adran 8 o Ddeddf Tai 1985**[1] - Mae Adran 8 o Ddeddf Tai 1985 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu lefel yr angen am dai yn eu hardal yn rheolaidd. Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u marchnad dai leol/marchnadoedd tai lleol a'u bod yn darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer gwasanaethau cynllunio a thai strategol effeithiol. Mae llunio Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn rhan o'r ddyletswydd hon, gan adeiladu ar y gofyniad i adolygu anghenion tai drwy gynnal adolygiad mwy cyfannol o'r farchnad dai gyfan. Disgwylir i awdurdodau lleol ailysgrifennu eu hasesiadau bob pum mlynedd a'u diwygio unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw o bum mlynedd (rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn) gan ddefnyddio adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003[2].
- **Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy**[3] - Tynnwyd sylw at bwysigrwydd Adroddiadau o'r Farchnad Dai Leol, a defnyddio'r data gorau posibl ar yr angen a'r galw am dai i lywio polisi tai a phenderfyniadau ynghylch y cyflenwad o dai fforddiadwy, yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy yn 2019. Rhoddodd yr Adolygiad gryn bwyslais ar ddeall faint yn union o gartrefi sydd eu hangen, ym mha ardaloedd daearyddol ac ym mha ddeiliadaethau. Asesiad cadarn o'r farchnad dai leol yw'r brif ffordd o nodi'r dystiolaeth hon ar lefel leol.
- **Polisi Cynllunio Cymru** – Mae Polisi Cynllunio Cymru (12fed argraffiad)[4] hefyd yn pwysleisio bod Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn rhan hanfodol o'r sail dystiolaeth ar gyfer cynlluniau datblygu. Wrth eu hystyried ar y cyd â thystiolaeth allweddol arall yng nghyswllt materion fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy ac ystyriaethau o ran y Gymraeg, mae LHMAs yn adnodd defnyddiol i helpu i ganfod strategaeth briodol ar gyfer cyflenwi tai yn ardal y cynllun. Mae LHMAs yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ddeall natur a lefel y galw a'r angen am dai'r farchnad a thai fforddiadwy o fewn ardal y Cynllun. Rhaid i gynlluniau datblygu gynnwys targed ar gyfer tai fforddiadwy y dylai'r LHMA fod yn sail iddo.

[1] Deddf Tai 1985 (legislation.gov.uk)
[2] Deddf Llywodraeth Leol 2003 (legislation.gov.uk)
[3] Adolygiad-Annibynnol-o'r-Cyflenwad-o-Dai-Fforddiadwy_0.pdf (llyw.cymru)
[4] Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)

- **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 – Mae Polisi 7**[5] o Cymru'r Dyfodol ar Ddarparu Cartrefi Cynaliadwy yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar asesiadau lleol.
- **Deddf Tai (Cymru) 2014**[6] - Mae'r LHMA yn chwarae rhan hollbwysig wrth lunio'r strategaeth hon, y mae'n rhaid iddi gynnwys adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i'r awdurdod lleol a chyrff eraill sy'n gysylltiedig â chefnogi pobl sy'n ddigartref neu a all ddod yn ddigartref.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**[7] - Mae'n hanfodol hefyd fod awdurdodau lleol yn ystyried eu dyletswyddau cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.
- **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 2040 -** yw'r cynllun datblygu cenedlaethol sy'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol. Mae **Polisi 7** yn canolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy ac yn gofyn i Awdurdodau Lleol sefydlu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi datblygiad tai fforddiadwy.
- **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (2016)**[8] – A honno wedi'i rhoi ar waith o 1 Rhagfyr 2022, roedd hon yn newid y modd y mae'r holl landlordiaid yng Nghymru'n rhentu eu heiddo, sy'n effeithio'r holl denantiaid cymdeithasol a phreifat. Mae hi wedi'i wneud yn symlach i rentu cartref a diogelu hawliau tenantiaid trwy ddisodli amryw ddarnau cymhleth o ddeddfwriaeth bresennol gydag un fframwaith cyfreithiol a 'chontractau meddiannaeth' newydd.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**[9] - Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth wneud eu penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith. Rhaid i Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus gynnal asesiad o lesiant lleol hefyd.

[5] gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/working-draft-national-development-framework-document-september-2020.pdf
[6] Deddf Tai (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)
[7] Deddf Cydraddoldeb 2010 (legislation.gov.uk)
[8] Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk)
[9] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## 1.2 Cefndir Polisi Lleol

Gall y LHMA ein helpu i ddeall yr amcangyfrif o'r angen am dai yn y dyfodol ar Ynys Môn, a gellir ei ddefnyddio fel sail dystiolaeth i lywio cynlluniau a strategaethau cyfredol a rhai at y dyfodol sy'n berthnasol i'r LHMA. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cynllun y Cyngor 2023 – 28[10] Cyngor Sir Ynys Môn**

***Tai – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.***

Mae amcan strategol rhif 4 o fewn y cynllun yn pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i weithio mewn partneriaeth i ddarparu cartrefi o ansawdd, sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch. Mae'r cynllun yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i sicrhau cynnydd o ran y dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys, gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf, ynghyd â defnyddio'r LHMA i helpu i gyflawni hyn erbyn 2028.

- **Prosbectws Grant Tai Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn 2023/24**

Mae'r prosbectws yn darparu crynodeb o anghenion tai ac yn cynorthwyo i lywio blaenoriaethau tai strategol. Mae'n manylu ynghylch y math o dai y mae'r Cyngor yn anelu at eu cyflenwi, yn defnyddio Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, gan sicrhau y datblygir y math iawn o dai fforddiadwy yn y lleoliadau iawn.

- **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLl ar y Cyd)[11]**

Mae'r paragraff cyflwyniadol i'r bennod ynghylch y Cyflenwad o Dai ac Ansawdd Tai yn nodi:

" Disgwylir i'r Cynllun gyflawni un o amcanion tai allweddol y Llywodraeth, sy'n anelu at sicrhau bod mwy o dai o'r math cywir yn cael eu darparu, ac y dylid darparu mwy o ddewis. Mae creu marchnad dai iach a chytbwys hefyd yn amcan allweddol i'r ddau Gyngor, ac ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill y mae'r Cynghorau a sefydliadau eraill yn eu gweithredu, dylai'r Cynllun sicrhau bod defnydd tir yn hybu cymunedau cynaliadwy, a fydd yn ei dro yn cynorthwyo i gynnal neu gryfhau lles yr iaith Gymraeg. Bydd methu gwneud hyn yn tanseilio strategaethau economaidd y Cynghorau ac yn cyfyngu ar ein gallu trwy'r system gynllunio i gael tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion dwys nifer o gymunedau."

Cynhwysir hyn ym Mholisi Strategol PS 16 (Darpariaeth Tai) sy'n nodi:

➢ **POLISI STRATEGOL PS 16: DARPARIAETH TAI[12]**

Yn seiliedig ar lefel y tai y disgwylir y bydd ei hangen, a gan roi ystyriaeth i'r gallu i'w darparu, cyfyngiadau amgylcheddol a thirwedd, rhagolygon economaidd a demograffig, a phroffil demograffig posib, bydd y Cynghorau yn darparu ar gyfer y galw am 7,184 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Caiff y galw yma ei gyflawni trwy adnabod cyfleoedd ar gyfer 7,902 o unedau tai i hwyluso lwfans llithriad o 10%.

[10] Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)
[11] Datganiad-Ysgrifenedig-Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd-Ynys-Môn-a-Gwynedd.pdf (llyw.cymru)
[12] Microsoft Word - 11 Pennod 6.4 Polisïau Strategol a Manwl - Tai_Newidiadau (ynysmon.gov.uk)

Cynhelir isafswm cyson o werth 5 mlynedd o dir i gyflenwi tai trwy ddynodi tir a hwyluso datblygiad ar safleoedd ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol.

Mae'r lefel dwf hon yn cael ei dosbarthu yn unol â Pholisi Strategol PS 17 a pholisïau TAI 1 i TAI 6 ac fe gaiff ei monitro'n flynyddol trwy'r Astudiaethau Tir ar gyfer Tai a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol.

Bydd y CDLl ar y Cyd yn terfynu yn 2026, ac mae'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer Ynys Môn yn ei ddyddiau cynnar ar hyn o bryd.

- **Strategaeth Dai Ynys Môn 2022 - 27**[13]

Nod cyffredinol y strategaeth yw sicrhau bod gan bobl Ynys Môn le y gallent alw'n gartref, a'u bod wedi eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu tuag at eu cymuned leol.

Bydd y 6 thema allweddol a ganlyn yn helpu i gyflawni'r nod hwn:-

- Thema 1 – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol
- Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol a gwella cartrefi a chymunedau
- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth o ran tai
- Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

- **Cynllun Trawsnewid Ailgartrefu Cyflym 2022-2027**[14]

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd yw sicrhau ei fod yn rhywbeth 'prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto'. Nod Cyngor Ynys Môn yw cydweddu â'r weledigaeth hon, ac mae wedi mabwysiadu dull Ailgartrefu Cyflym tuag at ddigartrefedd. Mae'r dull hwn yn pwysleisio'r angen i atal digartrefedd, a phan nad yw'n bosibl ei atal, darperir tai a chymorth priodol a sefydlog trwy gyfrwng amryw fodelau. Y nod yw lleihau dibyniaeth ar ddatrysiadau tai brys.
Ymhlith cydrannau allweddol Cynllun Ailgartrefu Cyflym Ynys Môn y mae:

1. **Ymdrechion Ataliol**: Canfod gwraidd problemau digartrefedd a mynd i'r afael â hwy cyn i unigolion a theuluoedd golli eu tai.
2. **Ailgartrefu Cyflym**: Symud unigolion a theuluoedd sy'n profi digartrefedd i dai parhaol, gan osgoi gorfod aros mewn llety dros dro am gyfnod hir.
3. **Gwasanaethau Cymorth**: Cynnig gwasanaethau cymorth cynhwysfawr sydd wedi'u teilwra i anghenion unigolion a theuluoedd i'w helpu i gadw eu tai ac osgoi digartrefedd yn y dyfodol. Darparu cymorth sy'n ystyriol o drawma i'r rheiny sydd ag anghenion cymhleth.
4. **Modelau Tai Amrywiol**: Defnyddio amrywiaeth o fodelau tai i ddiwallu amryw anghenion y boblogaeth ddigartref, gan sicrhau tai sefydlog a phriodol.

[13] Strategaeth Dai Ynys Môn 2022 i 2027 (llyw.cymru)
[14] Cynllun Ailgartrefu Cyflym (llyw.cymru)

5. **Cydweithredu**: Gweithio'n agos â sefydliadau lleol, darparwyr tai, a gwasanaethau cymorth i greu system gydlynus ac effeithiol i fynd i'r afael â digartrefedd. Cyflenwi gwasanaethau cydgysylltiedig trwy hwb amlasiantaethol.

Mae'r dull hwn yn ceisio creu amgylchedd cynaliadwy a chefnogol sy'n atal digartrefedd pryd bynnag y bo modd, ac yn sicrhau, pan fydd yn digwydd, ei fod yn brofiad byr ac nad yw'n digwydd eto.

Mae'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn cydweddu â nodau ehangach Strategaeth Dai 2022-27 a Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26. Trwy ganolbwyntio ar y meysydd strategol hyn, nod CSYM yw lleihau effaith digartrefedd.

***"Sicrhau bod gan bobl Ynys Môn le y gallent ei alw'n gartref, wedi eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu tuag at eu cymuned leol".***

- **Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai (GCT) 2022-2026**[15]

Mae GCT yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, i sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu i helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae'r Strategaeth yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai ar Ynys Môn.

Roedd rhai o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad canol cyfnod llai manwl o'r Asesiad Anghenion yn cynnwys:

- Mae Data Cyfrifiad 2021 yn cadarnhau y cafwyd cynnydd o 4.1% yn y boblogaeth o breswylwyr sydd dros 65 oed ers 2011. Mae hyn yn dal i gyd-fynd â'r disgwyliad y bydd gwasanaethau i bobl hŷn yn parhau i gynyddu. Dengys y gwahaniaeth rhwng y Cyfrifiad a gynhaliwyd yn 2011 a 2021 bod yr oedran cyfartalog ym Môn wedi codi o 45 i 48.
- Mae lleoliadau llety dros dro yn debygol o aros yn gymharol sefydlog yng Nghymru.
- Mae data lleol yn awgrymu bod gwasanaethau yng nghyswllt cam-drin domestig yn cynyddu. Rhwng Ebrill 2019 – Mawrth 23, ymhlith 4200 o atgyfeiriadau, roedd Cam-drin Domestig yn cyfrif am 7.45% ohonynt.
- Yn Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Ddrafft 2024-2034 amlygir yr angen am dai sy'n fforddiadwy, yn ddiogel ac o ansawdd da i gefnogi iechyd meddwl. Yn gysylltiedig â hyn y mae data SPOA sy'n nodi, yn ystod y cyfnod Ebrill 2022- Mawrth 2023, bod 535 o 1002 o bobl wedi nodi bod ganddynt angen o safbwynt iechyd meddwl, ac mae rhagfynegiadau'n awgrymu hefyd y bydd problemau Iechyd Meddwl yn cynyddu erbyn 2040. Hefyd, mae'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (RHSCG) yn cydnabod bod cysylltiadau yn cryfhau gyda'r gwasanaethau Iechyd Meddwl.
- Mae cymhlethdodau unigolion yn cynyddu.
- Disgwylir y bydd poblogaeth carchardai Cymru yn cynyddu rhwng 2025 a 2027, a fydd yn cyfrannu at gynnydd o ran llwythi achosion ar gyfer Opsiynau Tai a gwasanaethau yng nghyswllt tai.

[15] Strategaeth-Rhaglen-Cymorth-Tai -2022-i-2026.pdf (llyw.cymru)

- Mae data atgyfeiriadau SPOA yn dal i amlygu problemau o ran camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol. Mae'r data'n dangos gostyngiad bach yn y ddau gategori mewn cymhariaeth â 2021-22.
- O Ionawr 2022 i Fedi 2023 – cynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sengl heb blant / unigolion sengl â phlant / cyplau â phlant a oedd yn cael mynediad i'r Gwasanaeth Cymorth Tai.
- Mae fforddiadwyedd a'r cyflenwad o dai yn dal i fod yn broblem.
- Mae nifer yr ymgeiswyr sydd wedi cofrestru gyda Tai Teg wedi mwy na dyblu, o 311 i 685, mewn cymhariaeth â'r data a gasglwyd ar gyfer Asesiad Anghenion 2022, ac mae ar y mwyafrif ohonynt angen eiddo rhent canolradd â 2 a 3 ystafell wely ynghyd ag eiddo fforddiadwy i'w prynu.
- Ar gyfartaledd, mae prisiau eiddo'n dal i gynyddu ym Môn – os bydd prisiau ym Môn yn dal i godi ar gyfradd o 5.0% y flwyddyn, bydd y pris cyfartalog ar gyfer eiddo yn £295,548 yn 2025.
- Cafodd 161 o aelwydydd eu rhoi mewn llety dros dro.

- **Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28**[16]

Nodwyd bod prisiau tai a fforddiadwyedd yn achosi cryn bryder ymhlith cymunedau lleol, ac ystyriwyd bod hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd Ynys Môn. Daethpwyd i'r casgliad bod sicrhau tai i bobl leol yn flaenoriaeth allweddol o fewn y cynllun.

## 1.3 Llywodraethu ac Ymgynghori

- Mae'r Arweiniad ar gyfer Cynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) (2022) yn nodi y dylid cynhyrchu LHMA ar y cyd â rhanddeiliaid. Mabwysiadodd Cyngor Ynys Môn ddull cydweithredol, gan weithio gydag ystod eang o randdeiliaid. Arweiniwyd y gwaith o

[16] Llesiant Gwynedd a Môn | Asesiad Llesiant (llesiantgwyneddamon.org)

gynhyrchu LHMA gan Wasanaethau Tai Cyngor Ynys Môn, ac fe'i paratowyd gan Dîm y Strategaeth Dai, gyda chyfraniadau gan y tîm Polisi Cynllunio.

- Darparodd Gwasanaeth Cynllunio a Thîm Ymchwil Cyngor Gwynedd a Thîm Polisi Cynllunio Cyngor Ynys Môn gyngor cyn ac ar ôl yr ymarfer ar gyfer dewis yr Ardaloedd o'r Farchnad Dai, a chomisiynwyd Data Cymru i ddarparu cymorth gyda'r adnodd LHMA, y tybiaethau allweddol a chynhyrchu Data'r Cyfrifiad.

**Tabl 1: Ymgynghori**

| Ymgynghoriad | Dull | Rhanddeiliaid | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Dewis Ardaloedd o'r Farchnad Dai (HMAs) – Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu i ddewis yr Ardaloedd o'r Farchnad Dai. Sesiwn rhyngweithiol oedd hwn ym mhle defnyddiwyd mapiau ar gyfer LSOAs, MSOAs a Wardiau Etholiadol. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y data oedd ar gael a chynhyrchwyd rhestr o'r HMAs y dymunwyd eu hasesu ymhellach a chael cyngor yn eu cylch cyn gwneud y dewis terfynol. | Wyneb yn wyneb | Asiantiaid Eiddo Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Datblygwyr, Cadeirydd y Fforwm Landlordiaid Preifat a rhanddeiliaid eraill. | Gorffennaf 2023 |
| Dewis yr HMA Terfynol – Yn dilyn derbyn cyngor gan Uned Ddata Gwynedd cadarnhaodd Tîm y Strategaeth Dai yr Ardaloedd HMA arfaethedig. Cynhaliwyd ymgynghoriad trwy'r e-bost gyda'r aelodau gwreiddiol o'r sesiwn wyneb yn wyneb, a gwahoddwyd pobl i wneud sylwadau os nad oeddynt yn cytuno â'r | E-bost | Asiantiaid Eiddo Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Datblygwyr, Cadeirydd y Fforwm Landlordiaid Preifat | Awst 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ardaloedd HMA arfaethedig terfynol. | | | |
| Cyflwyniad ar y cynnydd cyfredol. | Ar-lein - Zoom | Aelodau Etholedig | Ebrill 2024 |
| Diweddariad ar y Cynnydd. | Ar-lein | Prif Weithredwr | Gorffennaf 22ain 2024 |
| Sesiynau Ymgynghori ynghylch y gwahanol Senarios. Cyflwynwyd data a gynhyrchwyd gan Data Cymru o'r Adnodd LHMA mewn sesiynau ymgynghori, a chynhaliwyd trafodaethau i gael barnau pobl ar yr amryw dybiaethau. Cyflwynwyd y cefndir i'r amryw opsiynau hefyd er mwyn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. | Wyneb yn wyneb<br><br>Wyneb yn wyneb<br><br>Wyneb yn wyneb<br><br>Wyneb yn wyneb<br><br>Ar-lein | Y Bwrdd Cynllunio a Phwyllgorau Polisi Cynllunio<br><br>Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Adran Dai<br><br>Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Addysg | Bore Gorffennaf 26ain 2024<br><br>Prynhawn Gorffennaf 26ain 2024<br><br>Gorffennaf 29ain 2024<br><br>Gorffennaf 29ain 2024<br><br>Awst 20fed 2024 |
| | Wyneb yn wyneb | Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Swyddogion Galluogi Tai Gwledig<br><br>Darparwyr Grant Cymorth Tai, Medrwn Môn, asiantiaid eiddo | Bore Gorffennaf 31ain<br><br>Prynhawn Gorffennaf 31ain |
| | Ar-lein | Uwch Dîm Arweinyddiaeth | Hydref 15fed 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflwyniad ynghylch yr LHMA | Ar-lein | Partneriaeth Dai Ynys Môn | Hydref 24$^{ain}$ 2024 |
| Cyflwyniad ynghylch yr LHMA | Ar-lein | Sesiwn Briffio i Aelodau | Tachwedd 7$^{fed}$ 2024 |
| LHMA Drafft | | Cyfarfod Busnes y Pwyllgor Gwaith | Tachwedd 12$^{fed}$ 2024 |
| LHMA Drafft | | Pwyllgor Craffu Corfforaethol | Tachwedd 14$^{eg}$ 2024 |
| LHMA Drafft | | Pwyllgor Gwaith | Tachwedd 26$^{ain}$ 2024 |
| LHMA Drafft | Ar-lein | Ymgynghoriad Cyhoeddus | Cyfnod o 6 Wythnos |
| LHMA Terfynol | | Cymeradwyaeth Derfynol | Ionawr 2025 |
| LHMA Terfynol | | Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Ionawr 2025 |

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, caiff yr holl adborth ei ystyried a gwneir y newidiadau a fynnir i'r ddogfen derfynol.

Rhoddir y gymeradwyaeth fewnol derfynol ar gyfer yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn dilyn ei gymeradwyo gan y Cabinet. Cyflwynir y LHMA wedyn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol.

## 2. Trosolwg o'r Asesiad a'r Fethodoleg

## 2.1 Methodoleg, mewnbynnau a thybiaethau

Caiff yr angen am dai ychwanegol ei bennu gan ddefnyddio adnodd LHMA Llywodraeth Cymru. Mae'r adnodd hwn yn defnyddio fformiwla i ddosbarthu anghenion tai ychwanegol a ffurfir gan anghenion cyfredol nas diwallwyd ac anghenion newydd (y newid yn yr amcanestyniadau aelwydydd dros gyfnod yr LHMA) o fewn gwahanol fandadau.

Caiff yr holl anghenion cyfredol nas diwallwyd eu dyrannu i dai fforddiadwy, a thybir y cânt eu diwallu yn ystod pum mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA. Caiff yr anghenion newydd eu rhannu rhwng tai'r farchnad a thai fforddiadwy.

Mae'r Adnodd LHMA yn defnyddio mewnbynnau data diofyn ar gyfer rhenti preifat, prisiau tai ac amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru i lunio'r anghenion newydd ar sail Ardaloedd o'r Farchnad Dai (HMA). Ategir y mewnbynnau hyn gan ddata CACI Paycheck (dosbarthiadau incwm aelwydydd), anghenion newydd (y Gofrestr Tai Cyffredin), y cyflenwad arfaethedig a ymrwymwyd (cydsyniadau cynllunio a chynlluniau disgwyliedig a gyllidir gan grantiau), a throsiant y stoc gyfredol (cyfartaledd y tai cymdeithasol a osodir dros gyfnod o dair blynedd). Dim ond dros bum mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA yr ystyrir y ddau fewnbwn data olaf, a chânt eu dyrannu'n gyfan gwbl i dai fforddiadwy oherwydd ei bod yn anoddach rhagfynegi'r cyflenwad yn gywir ar ôl y cyfnod hwn.

Defnyddir y data mewnbwn a nifer o dybiaethau allweddol yn unol ag Arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae'r broses hon yn pennu lefel incwm yr ystyrir bod aelwydydd ag incwm uwchlaw'r lefel honno yn gallu diwallu eu hanghenion yn y farchnad, ynghyd â lefel incwm is yr ystyrir bod angen llety rhent cymdeithasol ar aelwydydd ag incwm islaw'r lefel honno. Yn ogystal â hyn, darperir ar gyfer aelwydydd sydd angen deiliadaethau canolradd, y cyfeirir atynt yn aml fel y dosbarth canol sydd dan bwysau ariannol ('the squeezed middle') nad ydynt yn gymwys am dai'r farchnad neu lety rhent cymdeithasol. Mae'r Adnodd LHMA hefyd yn rhagfynegi'r modd y gall y mewnbynnau data hyn esblygu dros bum mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA.

Mae'r tablau allbynnau o'r Adnodd LHMA yn chwarae rôl hanfodol mewn sawl agwedd ar waith cynllunio tai lleol a'r strategaeth ar gyfer Ynys Môn. Maent yn darparu amcangyfrifon ar gyfer anghenion tai ychwanegol sy'n hanfodol ar gyfer pennu'r gofynion tai lleol. Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhan hanfodol o'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu Cynlluniau Datblygu a gweithredu polisïau'r CDLlRh (Cynllun Datblygu Lleol Rhanbarthol). Maent yn cyfrannu'n sylweddol hefyd at lywio strategaethau tai lleol a chefnogi Prosbectws Twf Tai Strategol yr awdurdod lleol.

Rhaid pwysleisio'r pwyntiau allweddol a ganlyn hefyd:

1. **Nid yw'n Darged Cyflenwi:** Ni ddylid camddehongli'r angen a nodwyd am dai fel targed cyflenwi. Mae'n cynrychioli graddfa'r angen am dai o fewn Ynys Môn, sy'n dangos graddau'r galw y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael ag ef trwy amryw ymyriadau.
2. **Mynd i'r afael â Phroblemau o ran Fforddiadwyedd:** Nid yw'r angen am dai a nodwyd yn datrys problemau o ran fforddiadwyedd yn uniongyrchol o fewn yr ardal leol. Er ei fod yn amlygu'r galw am dai, mae mynd i'r afael â fforddiadwyedd yn gofyn am strategaethau ychwanegol y tu hwnt i ddiwallu'r angen am dai ar sail niferoedd yn unig.

3. **Amrywiadau ar Draws Ardaloedd HMA:** Mewn rhai achosion, gall prif lefel yr angen o ran tai a ddarperir gan yr Adnodd LHMA guddio gwahaniaethau rhwng yr amryw Ardaloedd o'r Farchnad Dai (HMAs) ar draws Ynys Môn. Efallai y bydd gan bob ardal wahanol heriau a gofynion y mae angen eu hystyried ar wahân.
4. **Camgymharu Unedau Fforddiadwy Cyfredol:** Ceir camgymhariad yn aml rhwng lleoliadau unedau tai fforddiadwy cyfredol a'u mathau ac anghenion tai penodol aelwydydd lleol sydd angen cymorth i gael tai. Mae'r camgymhariad hwn yn tanlinellu'r angen am ymyriadau wedi'u targedu sy'n cydweddu'n agosach â'r galw lleol.

I grynhoi, tra bo allbynnau'r Adnodd LHMA yn werthfawr ar gyfer deall a meintioli anghenion tai, maent yn rhan o fframwaith ehangach o dystiolaeth a gwaith cynllunio. Y nod terfynol yw nid yn unig cyflawni targedau o ran niferoedd tai ond mynd i'r afael â heriau o ran tai mewn modd cynhwysfawr, sy'n cynnwys fforddiadwyedd ac amrywiadau lleol o ran y galw.

## 2.2 Ardaloedd o'r Farchnad Dai

Mae Ardaloedd o'r Farchnad Dai (HMAs) yn cael eu diffinio'n ddaearyddol ar sail lle mae pobl yn byw ar hyn o bryd a lle y byddent yn fodlon symud cartref heb newid swydd. Mae hyn yn cydnabod bod marchnadoedd tai yn mynd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol. Ymhlith yr ystyriaethau allweddol o ran diffinio'r ardaloedd hyn y mae fforddiadwyedd o ran tai (i asesu'r hygyrchedd i'r farchnad) ynghyd â'r prif gysylltiadau trafnidiaeth ar y ffyrdd neu reilffyrdd (er mwyn ystyried patrymau cymudo). Wrth gynllunio tai newydd, rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i ffactorau fel argaeledd tir, dichonoldeb economaidd, cyfraddau anheddau gwag a'r galw am dai.


O ran Ynys Môn, mae Ardal Teithio i'r Gwaith (TTWA) sylweddol yn dylanwadu'n fawr ar ei marchnad dai leol. Rhaid i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ar gyfer Ynys Môn fynd i'r afael ag anghenion amrywiol y gweithlu a chefnogi twf economaidd. Gyda'i sectorau cyflogaeth sy'n cynnwys amaethyddiaeth, twristiaeth, gweithgynhyrchu, ac ynni, mae'r galw am dai ar yr ynys yn amrywio. Bydd llawer o breswylwyr yn cymudo'n ôl a blaen i'r tir mawr, sy'n effeithio'r galw am dai ger hybiau trafnidiaeth fel Pont Menai a Phont Britannia. Mae gwella'r seilwaith trafnidiaeth yn hanfodol er mwyn gallu cymudo'n haws a darparu ar gyfer y galw uwch mewn ardaloedd â chysylltiadau da. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r LHMA ddenu a chadw gweithwyr medrus o'r sectorau uwch-dechnoleg ac ynni adnewyddadwy sy'n datblygu, wrth barhau i fod yn fforddiadwy ar gyfer gweithwyr o fewn y sectorau traddodiadol. Mae cydbwyso twf economaidd gyda'r angen i warchod yr amgylchedd yn hanfodol, ac yn gofyn am ddatrysiadau tai cynaliadwy. Mae mynd i'r afael â phrinder o ran y cyflenwad o dai trwy ddatblygiadau newydd, a sicrhau bod tai'n dal i fod yn fforddiadwy i weithwyr lleol, yn hanfodol. Bydd gwella cysylltiadau trafnidiaeth a buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus fel ysgolion, gofal iechyd, a chyfleusterau hamdden yn cefnogi cymunedau sy'n tyfu. Mae statws Ardaloedd teithio i'r Gwaith Ynys Môn yn cael cryn ddylanwad ar ei marchnad dai, a dylai'r LHMA sicrhau bod tai amrywiol, cynaliadwy a fforddiadwy ar gael i gefnogi twf economaidd a lles cymunedol.

Ar gyfer yr asesiad hwn, rhannwyd Ynys Môn yn 9 Ardal o'r Farchnad Dai (HMAs). Cafodd yr ardaloedd hyn eu grwpio'n ddaearyddol ar sail ardaloedd gweithredol lle mae pobl yn byw ar hyn o bryd a lle y

byddent yn fodlon symud iddo, gan gydnabod nad yw ffiniau gweinyddol yn cyfyngu ar farchnadoedd tai. Cânt eu diffinio'n ystadegol gan glystyrau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) ac, er gwybodaeth, ceir crynodeb ohonynt yn y tabl a'r map isod.

**Tabl 2: Ardaloedd HMA a Chodau LSOA**

| Ardaloedd a Gynhwysir | LSOA(s) | Ardaloedd a Gynhwysir | LSOA(s) |
|---|---|---|---|
| **Gogledd Ynys Gybi** Parc a'r Mynydd, Porthyfelin 2, Porthyfelin 1, Tref Caergybi, Ffordd Llundain, Morawelon, Kingsland a Maeshyfryd | W01000034, W01000037, W01000036, W01000016, W01000029, W01000033 W01000017, W01000030 | **Amlwch a'r Gogledd Gwledig** Porth Amlwch, Amlwch Wledig, Llanbadrig a Llaneilian | W01000003, W01000004, W01000018, W01000021 |
| **Gogledd Orllewin Ynys Môn** Llanerchymedd, Llanfaethlu a Mechell | W01000028, W0100022, W01000031 | **Dwyrain Canol Ynys Môn** Llanidan, Llanfihangel Ysgeifiog, Cadnant, Braint, Gwyngyll, Tysilio | W01000027, W01000025, W01000011, W01000008, W01000015, W01000042 |
| **Canol Ynys Môn** Cyngar, Tudur, Cefni, Bryngwran a Bodffordd | W01000014, W01000041, W01000012, W01000009, W01000006 | **De Ynys Gybi** Y Fali 1 a Trearddur 1 a Trearddur 2 | W01002007, W01000040 |
| **Gorllewin Canol Ynys Môn** Llanfair yn Neubwll 2, Y Fali 2, Llanfair yn Neubwll 1 | W01000024, W01000044, W01000023 | **Dwyrain Ynys Môn** Pentraeth, Brynteg, Llanbedrgoch, Llanddyfnan a Moelfre, Llangoed, Cwm Cadnant a Biwmares | W01000035, W01000010, W01000019, W01002005, W01000026, W01000013, W01000005 |
| **De Orllewin Ynys Môn** Aberffraw a Rhosneigr 1 a 2, Bodorgan, Rhosyr | W01002008, W01000007, W01000038 | | |




*Ffigur 1: Map o Ynys Môn wedi'i rhannu'n 9 HMA*

# 3. Trosolwg o'r Farchnad Dai a Thueddiadau Economaidd-gymdeithasol a Demograffig

## 3.1 Dadansoddiad o'r Farchnad Dai

Mae'r adran ganlynol yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r farchnad dai leol o fewn yr awdurdod lleol, sy'n amlygu ffactorau sy'n dylanwadu ar y sector tai.

Ynys Môn yw'r ynys fwyaf yng Nghymru, a'r seithfed o blith y mwyaf yn Ynysoedd Prydain. Mae'n cynnwys ardal o tua 276 milltir sgwâr (715 cilomedr sgwâr). Wedi'i lleoli oddi ar arfordir gogledd orllewinol Cymru, fe'i gwahanir o'r tir mawr gan Afon Menai, a rychwantir gan ddwy bont: Pont Menai a Phont Britannia. Nodweddir tirwedd yr ynys, y mae'r rhan fwyaf ohoni'n wledig, gan fryniau tonnog, tir amaethyddol, ac arfordir garw, gyda nifer o draethau a childraethau bach. Er ei maint cymharol fach, mae Ynys Môn yn meddu ar nodweddion hanesyddol a diwylliannol sydd o gryn bwysigrwydd yng Nghymru.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, cofnodwyd poblogaeth o 68,900 ym Môn. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad bach o gymharu â Chyfrifiad 2011, pryd y nodwyd poblogaeth o tua 69,800. Ardal wledig yw'r ynys o ran natur, ac mae gan ei thref fwyaf, Caergybi, boblogaeth o tua 11,000. Mae Ynys Môn yn adnabyddus hefyd am ei phoblogaeth sylweddol o siaradwyr Cymraeg, mae tua 57.2% o'i phreswylwyr yn gallu siarad Cymraeg, sy'n tanlinellu ei phwysigrwydd o safbwynt diwylliannol. O ran y tueddiadau yng nghyswllt dosbarthiad ei phoblogaeth, gwelir ei bod yn heneiddio, ceir cyfran uwch o breswylwyr hŷn o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

### Aelwydydd

Nododd Cyfrifiad 2021 bod 30,800 o aelwydydd ledled Ynys Môn, gyda phoblogaeth o 68,900. Dengys y ffigurau hyn ostyngiad o 1.2% ym maint y boblogaeth, o tua 69,800 yn 2011. Gwelwyd twf o 1.4% yng nghyfanswm poblogaeth Cymru, gyda chynnydd o 44,000 i 3,107,500.

Maint cyfartalog aelwydydd ym Môn oedd 2.23 o breswylwyr fesul aelwyd yn 2021, a oedd ychydig yn llai na hynny yn 2011, pryd yr oedd yn 2.29. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad bach dros y cyfnod o ddegawd. Yn 2021, roedd maint cyfartalog yr aelwydydd ym Môn yn un o'r ffigyrau lleiaf ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn ôl y dirwedd o ran deiliadaeth tai ar yr ynys, ceir dosbarthiad amrywiol o drefniadau tai, fel a ganlyn:

- **Graddfeydd Deiliadaeth**

Graddfeydd Deiliadaeth, Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021

| | +2 neu ragor | 1 | 0 | -1 neu lai |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 1,098<br>35% | 2,043<br>37% | 1,399<br>26% | 123<br>2% |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 1,078<br>50% | 715<br>33% | 318<br>15% | 50<br>2% |
| Canol Ynys Môn | 1615<br>42% | 1,342<br>35% | 779<br>20% | 86<br>2% |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 759<br>46% | 582<br>35% | 281<br>17% | 31<br>2% |
| De Orllewin Ynys Môn | 1277<br>47% | 966<br>35% | 460<br>17% | 35<br>1% |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 1,579<br>48% | 1,157<br>35% | 547<br>16% | 38<br>1% |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 2,136<br>48% | 1,546<br>35% | 730<br>16% | 59<br>1% |
| De Ynys Gybi | 821<br>55% | 449<br>30% | 191<br>13% | 23<br>2% |
| Dwyrain Ynys Môn | 2,987<br>52% | 1,852<br>32% | 805<br>14% | 59<br>1% |
| Ynys Môn | 14,161<br>46% | 10,652<br>35% | 5,507<br>18% | 502<br>2% |
| Gogledd Cymru | 108,363<br>40% | 99,406<br>37% | 57,176<br>21% | 5,607<br>2% |
| Cymru | 561,237<br>42% | 467,208<br>35% | 288,937<br>21% | 29,732<br>2% |

*Tabl 3: Graddfeydd Deiliadaeth, Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021*

*Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae'r raddfa ddeiliadaeth yn fesur a ddefnyddir i werthuso p'un a yw'r lle sydd gan aelwyd i fyw ynddo o faint priodol ar gyfer ei feddianwyr. Mae'n dangos p'un a yw aelwyd yn orlawn, yn cael ei danfeddiannu, neu'n cyflawni'r gofynion o ran llety ar sail cyfansoddiad aelwydydd. Mae'r fformiwla yn ystyried oedrannau a pherthnasau aelodau o'r aelwyd i bennu nifer yr ystafelloedd neu'r ystafelloedd gwely a fynnir.

Mae'r cyfrifiad hwn yn ymwneud â chymharu nifer yr ystafelloedd/ystafelloedd gwely a fynnir gyda'r rheiny sydd ar gael mewn gwirionedd:

- Graddiad deiliadaeth negyddol (-1 neu is): Mae gan yr aelwyd lai o ystafelloedd/ystafelloedd gwely nag a fynnir, sy'n dangos ei bod yn orlawn.
- Graddiad deiliadaeth sero (0): Mae gan yr aelwyd yr union nifer o ystafelloedd/ystafelloedd gwely a fynnir, sy'n cyflawni'r gofyniad safonol.
- Graddiad deiliadaeth cadarnhaol (+1 neu uwch): Mae gan yr aelwyd fwy o ystafelloedd/ystafelloedd gwely nag a fynnir, sy'n dangos ei bod wedi'i thanfeddiannu.

Gellir defnyddio'r mesur hwn gan awdurdodau tai i asesu digonolrwydd tai a blaenoriaethu aelwydydd y mae angen eu hailgartrefu efallai, neu eu haddasu er mwyn bodloni eu hanghenion yn well.

Mae tabl graddfeydd deiliadaeth Cyfrifiad 2021 uchod yn dangos nad yw'r mwyafrif o boblogaeth Ynys Môn yn byw mewn llety sy'n orlawn o ran maint eu haelwyd. Mae 18% o aelwydydd Ynys Môn yn byw mewn eiddo sydd o'r maint cywir ar gyfer eu haelwyd, ac ystyrir bod 81% o aelwydydd yn byw mewn aelwydydd sy'n rhy fawr ar gyfer maint eu haelwyd, ac mae 2% o aelwydydd yn byw mewn aelwydydd gorlawn, sef 502 o aelwydydd sy'n byw mewn eiddo gorlawn.

- **Cyfansoddiad aelwydydd**

| | Aelwyd un person | Aelwyd un teulu: Gyda phawb yn 66 oed a throsodd | Aelwyd un teulu: Aelwyd teulu sy'n gwpl | Aelwyd un teulu: Aelwyd rhiant unigol | Mathau eraill o aelwydydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 37%<br>2,020 | 7%<br>408 | 34%<br>1,868 | 18%<br>970 | 4%<br>210 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 28%<br>607 | 13%<br>288 | 43%<br>930 | 9%<br>202 | 6%<br>135 |
| Canol Ynys Môn | 33%<br>1,244 | 10%<br>385 | 41%<br>1,559 | 12%<br>465 | 4%<br>166 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 28%<br>466 | 12%<br>193 | 44%<br>728 | 11%<br>189 | 4%<br>74 |
| De Orllewin Ynys Môn | 32%<br>873 | 14%<br>393 | 40%<br>1,085 | 9%<br>249 | 5%<br>139 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 33%<br>1,088 | 14%<br>456 | 39%<br>1,281 | 11%<br>351 | 4%<br>144 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 34%<br>1,525 | 12%<br>518 | 40%<br>1,810 | 10%<br>437 | 4%<br>180 |
| De Ynys Gybi | 32%<br>475 | 18%<br>261 | 38%<br>560 | 9%<br>134 | 4%<br>61 |
| Dwyrain Ynys Môn | 33%<br>1,893 | 18%<br>1,004 | 37%<br>2,119 | 8%<br>468 | 4%<br>216 |
| Ynys Môn | 33%<br>10,189 | 13%<br>3,901 | 39%<br>11,938 | 11%<br>3,466 | 4%<br>1,328 |
| Gogledd Cymru | 32%<br>86,813 | 11%<br>30,092 | 40%<br>108,830 | 12%<br>31,293 | 5%<br>13,521 |
| Cymru | 32%<br>429,559 | 10%<br>138,010 | 40%<br>542,346 | 12%<br>161,836 | 6%<br>75,363 |

*Tabl 4: Cyfansoddiad Aelwydydd 2021*

*Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae'r tabl uchod yn dangos bod gan yr ynys boblogaeth fawr iawn o bobl hŷn, gyda nifer yr aelwydydd un teulu ym mhle mae pawb yn 66 oed a throsodd yn uwch fesul pen na'r ganran genedlaethol. Ar ben hynny, ceir nifer uchel hefyd o aelwydydd un person sy'n cyfrif am draean o'r holl aelwydydd, ar y cyd ag aelwydydd teulu sy'n gwpl (11,938).

- **Aelwydydd yn ôl Deiliadaeth**

Mae deiliadaeth yn dangos p'un a yw aelwyd yn berchen neu'n rhentu'r llety y mae'n byw ynddo. Defnyddiwyd data Cyfrifiad 2021 yn y tabl isod:

| | Yn berchen ar eu cartref: Yn berchen arno'n gyfan gwbl | Yn berchen ar eu cartref: Yn berchen arno gyda morgais neu fenthyciad neu â chynllun rhanberchnogaeth | Wedi'i rentu'n gymdeithasol: Drwy'r Cyngor neu'r Awdurdod Lleol | Wedi'i rentu'n gymdeithasol: Drwy gynlluniau rhentu cymdeithasol eraill | Wedi'i rentu'n breifat: Drwy landlord preifat neu asiant gosod eiddo | Wedi'i rentu'n breifat: Drwy gynlluniau rhentu preifat eraill neu'n byw heb dalu rhent |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 30%<br>1655 | 24%<br>1307 | 20%<br>1090 | 7%<br>391 | 16%<br>861 | 3%<br>162 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 49%<br>1053 | 24%<br>509 | 12%<br>252 | 2%<br>44 | 10%<br>213 | 4%<br>90 |
| Canol Ynys Môn | 38%<br>1439 | 25%<br>961 | 18%<br>681 | 6%<br>228 | 10%<br>377 | 4%<br>138 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 41%<br>680 | 28%<br>464 | 7%<br>113 | 3%<br>54 | 12%<br>201 | 9%<br>142 |
| De Orllewin Ynys Môn | 48%<br>1315 | 22%<br>611 | 11%<br>294 | 2%<br>51 | 13%<br>344 | 4%<br>123 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 47%<br>1548 | 22%<br>744 | 12%<br>391 | 3%<br>93 | 13%<br>436 | 3%<br>108 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 47%<br>2086 | 27%<br>1210 | 9%<br>412 | 2%<br>80 | 12%<br>533 | 3%<br>145 |
| De Ynys Gybi | 53%<br>794 | 23%<br>339 | 9%<br>131 | 1%<br>19 | 10%<br>153 | 3%<br>52 |
| Dwyrain Ynys Môn | 56%<br>3187 | 21%<br>1205 | 7%<br>417 | 1%<br>77 | 11%<br>619 | 3%<br>197 |
| Ynys Môn | 45%<br>13,756 | 24%<br>7,349 | 12%<br>3,783 | 3%<br>1,037 | 12%<br>3,735 | 4%<br>1,162 |
| Gogledd Cymru | 40%<br>107,693 | 28%<br>74,802 | 10%<br>25,816 | 6%<br>16,521 | 14%<br>38,315 | 3%<br>7,405 |
| Cymru | 38%<br>512,089 | 28%<br>382,110 | 9%<br>116,637 | 8%<br>105,456 | 14%<br>194,845 | 3%<br>35,977 |

*Tabl 5: Deiliadaeth Aelwydydd 2021*

*Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Yn gyffredinol, mae 45% (13,756) o aelwydydd Ynys Môn yn berchen ar eu cartref yn gyfan gwbl, sy'n 7% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, fodd bynnag, mae nifer y rheiny sy'n berchen ar eu cartref gyda morgais neu fenthyciad yn 4% yn is, sef 24% (7349) o gymharu â'r ffigur cenedlaethol a'r ffigur ar gyfer Gogledd Cymru, sef 28% (74,802). Ar ben hynny, mae gan yr ynys hefyd ganran fawr o aelwydydd sy'n rhentu gan yr awdurdod lleol, sef 12% (3783), sy'n uwch na'r ffigur ar gyfer y Gogledd a Chymru gyfan.

Yr ardal o'r farchnad dai a chanddi'r gyfran uchaf o bobl sy'n berchen ar eu cartref yn gyfan gwbl yw Dwyrain Ynys Môn, sef 56% (3187), a Gorllewin Canol Ynys Môn sydd â'r gyfran uchaf o bobl sy'n berchen ar eu cartref eu hunain gyda morgais neu drwy ddeiliadaeth aelwydydd â chynllun rhanberchnogaeth, sef 28%, sy'n cyfrif am 464 o aelwydydd. Mae'r cyfanswm sydd wedi'u rhentu'n

gymdeithasol yn uwch yng Ngogledd Ynys Gybi, sef 27% (1481), a ddilynir yn agos gan Ganol Ynys Môn, sef 24% (909). Mae'r ddeiliadaeth rhentu cymdeithasol ar ei isaf yng Ngorllewin Canol Ynys Môn, sef 10% (167), a Dwyrain Ynys Môn, sy'n 8% (494). Yr ardal o'r farchnad dai a chanddi'r gyfran uchaf o aelwydydd sy'n rhentu'n breifat yw Gogledd Ynys Gybi, ar 19% (1023), a cheir y gyfran isaf yng Nghanol Ynys Môn, De Ynys Gybi a Gogledd Orllewin Ynys Môn. Mae'r ganran yng Ngogledd Ynys Gybi 4% yn uwch nag Ynys Môn yn ei chyfanrwydd, ac yn 2% yn uwch na Gogledd Cymru a Chymru gyfan o ran rhentu yn y sector preifat.

- **Trosolwg o'r Sector Perchen-feddianwyr**

Mae'r sector perchen-feddianwyr yn cyfrif am y math mwyaf poblogaidd o ddeiliadaeth ym Môn. Mae 69% o aelwydydd naill ai'n berchen eu cartref yn gyfan gwbl, neu gyda morgais/cynllun rhanberchnogaeth. Mae ffigyrau perchnogaeth ar gyfer Cymru'n 66%, ac yn 67% ar gyfer Gogledd Cymru, felly mae'r gyfran sy'n berchen ar eu cartref ym Môn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae opsiynau perchentyaeth cost isel yn darparu ar gyfer aelwydydd nad ydynt yn gallu fforddio tai ar gyfradd y farchnad. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys Ecwiti a Rennir, Cymorth Prynu, Cytundebau Adran 106 am Gost Ostyngol, a Rhentu i Berchnogi, y darperir bob un ohonynt am gost isel ac a ddyrannir trwy'r Gofrestr Tai Fforddiadwy, a reolir gan Tai Teg.

Gweinyddir Tai Teg gan Grŵp Cynefin sy'n hwyluso mynediad i'r cynlluniau hyn ar gyfer ymgeiswyr cymwys. Rhaid i ymgeiswyr gyflawni meini prawf penodol o ran incwm a dangos cysylltiad lleol trwy breswyliad, cyflogaeth neu gysylltiadau teuluol. Yn Ionawr 2024, roedd 271 o geisiadau am berchentyaeth â chymorth.

| Ardal | Tai Sengl | Fflatiau | Tai Pâr | Tai Teras | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Canol Ynys Môn | 44 | 2 | 27 | 19 | 92 |
| De Ynys Gybi | 32 | 6 | 7 | 6 | 51 |
| Gogledd Ynys Gybi | 12 | 5 | 33 | 97 | 147 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 53 | 10 | 36 | 31 | 130 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 30 | 0 | 17 | 10 | 57 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 49 | 2 | 26 | 30 | 107 |
| Dwyrain Ynys Môn | 123 | 14 | 20 | 39 | 196 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 28 | 0 | 10 | 10 | 48 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| De Orllewin Ynys Môn | 43 | 4 | 19 | 19 | 85 |
| Cyfanswm | 414 | 43 | 195 | 261 | 913 |

*Tabl 6: Nifer y gwerthiannau a gofrestrwyd yn ôl math y llety (2022)*

*Ffynhonnell: Data'r Gofrestrfa Tir o ran y Pris a Dalwyd*

Mae'r tabl uchod yn rhoi trosolwg o'r gwerthiannau a gofrestrwyd yn ôl ardaloedd o'r farchnad dai yn ystod 2022. Mae'n bwysig nodi nad yw pob tŷ a werthir yn cael ei gofrestru â'r Gofrestrfa Tir ar unwaith, ac efallai y bydd oedi wrth gofnodi rhai trafodion. Er hyn, mae'n dal i fod y ffynhonnell fwyaf cyflawn o ddata ynghylch prisiau tai yn y DU. Dwyrain Ynys Môn a welodd y nifer uchaf o werthiannau'n cael eu cofrestru, a ddilynwyd yn agos gan Ogledd Ynys Gybi a Dwyrain Canol Ynys Môn, sy'n cyfrif am fwy na hanner y gwerthiannau a gofrestrwyd ar yr ynys.

***Prisiau tai canolrifol yn ôl math y llety (2022)***

| | Pob math o dŷ | Tai Sengl | Fflatiau | Tai Pâr | Tai Teras |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 130000 | 220000 | 170000 | 169000 | 115000 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 262500 | 352500 | - | 220000 | 131250 |
| Canol Ynys Môn | 222500 | 285000 | 83000 | 185000 | 145000 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 200000 | 264000 | - | 152000 | 112500 |
| De Orllewin Ynys Môn | 280000 | 330000 | 303000 | 207000 | 205000 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 207000 | 295000 | 85500 | 168750 | 134975 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 230500 | 345000 | 236500 | 193250 | 155000 |
| De Ynys Gybi | 375000 | 440000 | 207500 | 320000 | 347500 |
| Dwyrain Ynys Môn | 313875 | 360000 | 201250 | 204000 | 195000 |
| Ynys Môn | 231000 | 317500 | 200000 | 180000 | 135000 |

*Tabl 7: Data'r Gofrestrfa Tir o ran Prisiau Tai Canolrifol 2022*

*Ffynhonnell: Data'r Gofrestrfa Tir o ran Prisiau Canolrifol a Dalwyd*

Mae'r tabl uchod yn darparu cost gyfartalog ganolrifol eiddo ym mhob rhanbarth ar sail gwerthiannau blaenorol a diweddar. Mewn ardaloedd poblogaidd o ran perchnogaeth ail gartrefi, fel De Orllewin Ynys Môn, mae'r prisiau'n uchel iawn, gyda phrisiau fflatiau mor uchel â £300,000, tra bo cyferbyniad yn Amlwch a'r Gogledd Gwledig, ym mhle mae'r pris canolrifol ar gyfer fflatiau'n llawer is, ar £85,000.

Cyfanswm y pris canolrifol cyfartalog ar gyfer cartref ym Môn yw £231,000 sy'n £18,000 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef £213,00[17].

[17] https://www.gov.uk/government/news/uk-house-price-index-for-january-2024#:~:text=Average%20house%20prices%20in%20the,in%20Northern%20Ireland%20(1.4%25)

- **Cymhareb Incwm i Brisiau Tai**

Mae'r gymhareb incwm i brisiau tai yn fetrig pwysig ar gyfer asesu fforddiadwyedd tai mewn ardal benodol, fel Ynys Môn. Mae'r gymhareb hon yn cymharu'r incwm aelwydydd canolrifol â phrisiau tai canolrifol yn y rhanbarth, sy'n darparu mewnwelediad o ran p'un a yw tai'n fforddiadwy i breswylwyr lleol.

Tueddiadau presennol ar Ynys Môn

1. Prisiau Tai: Mae Ynys Môn wedi gweld prisiau tai amrywiol, ynghyd â chyfraddau morgeisi cynyddol sylweddol, sy'n effeithio ar allu pobl i fforddio prynu tai. Yn ogystal â hyn, mae ffactorau fel lleoliadau â golygfeydd deniadol, twristiaeth, a'r galw yn gyffredinol, wedi cael effaith ar y farchnad.
2. Lefelau Incwm: Efallai bod yr incwm cyfartalog ym Môn yn is nag mewn rhai o ardaloedd trefol Cymru neu'r DU. Gall hyn waethygu'r broblem o ran fforddiadwyedd, yn enwedig os bydd prisiau tai'n parhau i gynyddu.

Dadansoddi Fforddiadwyedd

- Cyfrifo'r Gymhareb: Cyfrifir y gymhareb incwm i brisiau tai trwy rannu'r pris tai canolrifol gyda'r incwm aelwydydd canolrifol. Ystyrir yn aml fod cymhareb uwch na 4 yn llai fforddiadwy, tra gwelir yn gyffredinol bod cymhareb is na 3 yn fwy fforddiadwy.
- Goblygiadau: Gall cymarebau uwch awgrymu bod preswylwyr lleol yn cael trafferth fforddio cartrefi, a allai hybu'r galw am eiddo rhent neu allfudo.

| • Cymhareb prisiau tai i incwm aelwydydd canolrifol (2022) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal** | **Prisiau Tai Canolrifol** | **Prisiau Tai Chwartel Isaf** | **Incwm Aelwydydd Canolrifol** | **Cymhareb Prisiau Tai Canolrifol** | **Band Incwm Aelwydydd Chwartel Isaf** | **Cymhareb Prisiau Tai Chwartel Isaf** |
| **Gogledd Ynys Gybi** | **£129,290** | **£98,883** | **£27,500** | **4.7** | **£12,500** | **7.9** |
| **Gogledd Orllewin Ynys Môn** | **£206,171** | **£145,346** | **£32,500** | **6.3** | **£17,500** | **8.3** |
| **Canol Ynys Môn** | **£185,109** | **£143,628** | **£27,500** | **6.7** | **£17,500** | **8.2** |
| **Gorllewin Canol Ynys Môn** | **£158,213** | **£114,210** | **£32,500** | **4.9** | **£17,500** | **6.5** |
| **De Orllewin Ynys Môn** | **£263,029** | **£187,878** | **£32,500** | **8.1** | **£17,500** | **10.7** |
| **Amlwch a'r Gogledd Gwledig** | **£185,406** | **£133,443** | **£32,500** | **5.7** | **£17,500** | **7.6** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dwyrain Ynys Môn** | **£222,487** | **£158,213** | **£37,500** | **5.9** | **£22,500** | **7.0** |
| **De Ynys Cybi** | **£264,572** | **£182,934** | **£37,500** | **7.1** | **£22,500** | **8.1** |
| **Dwyrain Ynys Môn** | **£271,929** | **£197,766** | **£37,500** | **7.3** | **£22,500** | **8.8** |
| | | | | | | |
| **Ynys Môn** | **£232,000** | **£150,000** | **£32,158** | **7.2** | **£18,545** | **8.1** |
| **Gogledd Cymru** | **£190,000** | **£143,000** | **£32,500** | **5.8** | **£17,500** | **8.2** |
| **Cymru** | **£190,000** | **£136,000** | **£31,348** | **6.1** | **£17,922** | **7.6** |
| | | | | | | |
| **Ffynhonnell:** | **Tabl 8: Data CACI Paycheck (2022), data'r Gofrestrfa Tir (2020-2022), Mynegai Prisiau Tai (2020-2022)** | | | | | |
| **Nodiadau:** | Cymerwyd data prisiau tai ar gyfer yr ardaloedd tai o'r adnodd LHMA oherwydd y nifer isel o dai a werthwyd. Mae'r adnodd LHMA yn defnyddio data'r Gofrestrfa Tir o'r 3 blynedd blaenorol ac yn addasu prisiau hanesyddol ar sail mynegai prisiau tai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Ynys Môn. Nid yw'r data ar gyfer Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru ond yn defnyddio prisiau tai ar gyfer 2022 yn unig.<br><br>O ran yr HMAs a Gogledd Cymru ar y cyd, defnyddir data o CACI, sy'n golygu na ellir cyfrifo canolrif yn union. Yn lle hynny, defnyddir canol y band incwm i gyfrifo cymarebau. | | | | | |

Mae'r data'n dangos amrywiad sylweddol o ran fforddiadwyedd tai ar hyd a lled Ynys Môn. Gogledd Ynys Gybi yw'r ardal fwyaf fforddiadwy, a chanddi gymhareb prisiau tai canolrifol i incwm gymharol isel o 4.7, sy'n awgrymu bod cartrefi'n fwy fforddiadwy i breswylwyr lleol. Mewn cyferbyniad â hynny, De Orllewin Ynys Môn sydd â'r gymhareb uchaf (8.1), sy'n gwneud tai'n llawer llai fforddiadwy i'w phreswylwyr.

Hyd yn oed ar ben isaf y farchnad dai, ceir heriau o ran fforddiadwyedd. Mae Gogledd Ynys Gybi'n dal i wynebu problemau o ran aelwydydd ar incymau is, a chanddi gymhareb prisiau tai chwartel isel i incwm o 7.9. Fodd bynnag, amlygir De Orllewin Ynys Môn am ei chymhareb arbennig o uchel o 10.7, sy'n awgrymu bod eiddo sy'n hyd yn oed rhatach yn yr ardal hon ymhell o gyrraedd prynwyr sydd ar incwm is.

Wrth gymharu Ynys Môn â Gogledd Cymru a Chymru yn ei chyfanrwydd, mae'n ymddangos fod y farchnad dai ar Ynys Môn yn llai fforddiadwy. Mae gan Ynys Môn gymhareb prisiau canolrifol i incwm o 7.2, sy'n uwch na'r gymhareb o 5.8 ar gyfer Gogledd Cymru, a 6.1 ar gyfer Ynys Môn, sy'n amlygu bod tai'n ddrytach o gymharu ag incymau lleol ar yr ynys.

Mae'r data'n awgrymu bod tai'n creu cryn dipyn o straen, yn enwedig ar gyfer aelwydydd ar incymau is a phrynwyr am y tro cyntaf. Mewn ardaloedd fel De Orllewin Ynys Môn, ym mhle mae prisiau tai'n uchel o gymharu ag incymau, ceir bwlch clir o ran fforddiadwyedd, sy'n ei wneud yn anoddach i breswylwyr lleol gael mynediad i'r farchnad dai.

Mae hyn yn awgrymu angen am ymyriadau wedi'u targedu, fel cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a chynnig cymorth i brynwyr am y tro cyntaf, yn enwedig mewn ardaloedd fel De Orllewin Ynys Môn, ym mhle mae'r problemau o ran fforddiadwyedd ar eu gwaethaf.

Yn y tabl isod, roedd Uned Ddata Cyngor Sir Gwynedd wedi dadansoddi gwerthiannau tai ym Môn ar gyfer 2023. Mae'r tabl uchod yn dangos y gymhareb fforddiadwyedd ar sail prisiau tai canolrifol a phrisiau tai chwartel isaf ac incwm aelwydydd ar gyfer Ynys Môn. **(Nid yw'r data ond yn seiliedig ar incwm, ac nid yw'n ystyried mesurau eraill fel y cynilion sydd ar gael i'w cyfrannu tuag at brynu cartref newydd).** Mae'r tabl hwn yn dangos y byddai 61.6% o aelwydydd ym Môn yn cael eu prisio allan o'r farchnad oherwydd nad yw eu hincwm yn cwrdd â'r lefel a fynnir o ran fforddiadwyedd.

Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd ar-lein[18], sy'n cynnwys data ar gyfer cyfnod Ionawr 2023 – 2024, yn dangos y lleolir 8 o'r 20 lle drytaf i fyw ynddynt yng Nghymru ar Ynys Môn. Ardal god post LL64, sef ward Crigyll unwaith eto, oedd y drytaf, gyda phris cyfartalog o £625,435 ar gyfer yr ardal honno.

| Enw'r Ardal | Nifer y Gwerth-iannau Tai | Pris Tŷ Canol-rifol | Incwm Aelwyd-ydd Canol-rifol | Cym-hareb Canolrifol | Pris Tŷ Chwartel Isaf | Incwm Aelwydydd Chwartel Isaf | Cymhareb Chwartel Isaf | Incwm a Fynnir i fforddio pris tŷ ar y lefel mynediad (1/3.5x LQ) | Aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad (Nifer) | Aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 636 | £220,000 | £34,180 | 6.4 | £150,750 | £19,692 | 7.7 | £43,071 | 19,097 | 61.6 |

***Tabl 9 – Ynys Môn – Canran a Nifer yr Aelwydydd sydd wedi'u Prisio Allan o'r Farchnad***

***Ffynhonnell – Uned Ymchwil Cyngor Gwynedd: 2023***

- ## Trosolwg o'r Sector Rhentu Preifat


Ers mis Tachwedd 2015, roedd y gofyniad cyfreithiol i'r holl landlordiaid ag eiddo rhent preifat yng Nghymru gofrestru â Rhentu Doeth Cymru[19] er mwyn gosod eiddo ar denantiaeth ddomestig. Mae cofrestriadau'n para am bum mlynedd, a rhaid i landlordiaid eu hadnewyddu wedyn am gyfnod pellach o bum mlynedd. Er y gall landlordiaid ddewis terfynu eu cofrestriad yn gynt, yr hyn y bydd llawer ohonynt yn ei wneud yw gadael iddo ddod i ben os ydynt yn rhoi'r gorau i osod eu heiddo.

O Ebrill 2024 ymlaen, roedd 1,990 o landlordiaid wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru ar Ynys Môn, yr oedd yn bosibl eu bod yn rheoli 3,753 o eiddo rhent. Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a yw'r holl eiddo hyn yn cael eu rhentu neu eu meddiannu ar hyn o bryd, gan y bydd rhai landlordiaid efallai wedi penderfynu defnyddio eu heiddo at ddibenion eraill yn ystod y cyfnod cofrestru pum mlynedd. Mae hyn yn ei wneud yn anodd i gadarnhau union nifer yr eiddo rhent sy'n weithredol ar unrhyw adeg.

[18] The 20 cheapest and most expensive places to live in Wales - North Wales Live (dailypost.co.uk)
[19] Croeso i Rhentu Doeth Cymru – Rhentu Doeth Cymru (llyw.cymru)

Dengys data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol mai'r rhent preifat misol cyfartalog ar gyfer Ynys Môn oedd £625 ym mis Mawrth 2024[20]. Roedd hyn yn gynnydd o £591 ym mis Mawrth 2023, sef cynnydd o 5.9%.

Ar hyd a lled Cymru, y rhent misol cyfartalog oedd £727, sydd wedi cynyddu o £667 flwyddyn ynghynt, ac ar hyd a lled Prydain Fawr, y pris rhent cyfartalog ym mis Mawrth 2024 oedd £1,246, sydd wedi cynyddu o £1,142 ym mis Mawrth 2023.




*Ffigur 2: Rhent cyfartalog ar Ynys Môn*

Ymddengys fod y ffigur o £625 yn gymharol isel o ran costau rhent yn y sector preifat, fodd bynnag, nid yw'r data'n manylu ynghylch maint neu fath yr eiddo y mae'r rhent cyfartalog yn berthnasol iddo.

- ## Trosolwg o'r Sector Rhentu Cymdeithasol

Darperir tai rhent cymdeithasol yng Nghymru gan gynghorau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig am gyfraddau fforddiadwy ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gallu rhentu neu brynu ar y farchnad agored. A hwnnw wedi'i reoleiddio gan Lywodraeth Cymru, mae'n sicrhau fforddiadwyedd, ansawdd, a rheolaeth deg. Dyrannir tai ar sail angen, gan flaenoriaethu'r brys am dai a chysylltiadau lleol.

Gwybodaeth ynghylch Stoc Tai Cymdeithasol Gyfredol Ynys Môn:

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ynghylch y stoc tai cymdeithasol gyfredol ar yr ynys, sy'n cynnwys anghenion cyffredinol, tai gofal ychwanegol, llety ar gyfer pobl hŷn a llety â chymorth.

[20] Prisiau tai ar Ynys Môn (ons.gov.uk)

| | 1 gwely | 2 wely | 3 gwely | 4 gwely | 5 gwely | 6 gwely | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 759 | 1439 | 1686 | 84 | 12 | 3 | 3983 |
| Grŵp Cynefin | 127 | 217 | 264 | 17 | 2 | 1 | 628 |
| Clwyd Alyn | 52 | 205 | 143 | 15 | 0 | 0 | 415 |
| Tai Gogledd Cymru | 48 | 96 | 66 | 11 | 0 | 0 | 221 |
| CYFANSWM | 986 | 1957 | 2159 | 127 | 14 | 4 | 5247 |
| % | 19% | 37% | 41% | 2% | 0.50% | 0.50% | 100% |

*Tabl 9: Stoc Tai Cymdeithasol Gyfredol yn ôl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig*

Yn 2021, cafodd Ynys Môn ei rancio'n 12fed o blith yr uchaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru am y ganran o dai rhent cymdeithasol. Yn 2011, cafodd ei rancio yn y 14eg safle ymhlith yr isaf. Ynys Môn a welodd y cynnydd pwynt canran mwyaf yng Nghymru am y gyfran o aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol, o 14.7% yn 2011 i 15.6% yn 2021.

Mae'r tabl isod yn dangos y rhent cyfredol a godir am dai cymdeithasol sy'n eiddo i'r Cyngor, ynghyd â'r cynnydd o ran rhenti dros y pum mlynedd diwethaf.

| | Tai a Byngalos (£) | | | | | Fflatiau (£) | | | | Fflatiau Un Ystafell (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Targed Casglu Rhent (51 Wythnos) | 1 Gwely | 2 Wely | 3 Gwely | 4 Gwely | 5+ Gwely | 1 Gwely | 2 Wely | 3 Gwely | 4+ Gwely | Fflat Un Ystafell |
| 2020-2021 | £88.18 | £97.98 | £107.78 | £117.56 | £127.36 | £79.78 | £88.65 | £97.51 | £106.37 | £70.92 |
| 2024-2025 | £101.47 | £112.74 | £124.04 | £135.28 | £146.55 | £91.80 | £102.01 | £112.21 | £122.40 | £81.60 |
| Cynnydd Mewn Rhent | £13.29 | £14.76 | £16.26 | £17.72 | £19.19 | £12.02 | £13.36 | £14.70 | £16.03 | £10.68 |
| Cynnydd ar ffurf % | 15.07% | 15.06% | 15.09% | 15.07% | 15.07% | 15.07% | 15.07% | 15.08% | 15.07% | 15.06% |

*Tabl 10: Lefelau Rhent Tai Cymdeithasol a godir gan Gyngor Ynys Môn*

**Rhent Canolradd**

Mae rhent canolradd yn ddatrysiad tai rhent canol y farchnad, ac mae o ar gael hefyd trwy Gofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg, ac yn cael ei weinyddu trwyddi. Fel yn achos perchentyaeth cost isel, rhaid i ymgeiswyr gyflawni meini prawf penodol yng nghyswllt incwm, a dangos cysylltiad lleol trwy breswyliad, cyflogaeth, neu gysylltiadau teuluol. O fis Ionawr 2024 ymlaen, cafwyd 214 o geisiadau am dai Rhent Canolradd.

## Trosolwg o Ail Gartrefi


Bu'r mater o ail gartrefi a chartrefi gwyliau yng Nghymru, ynghyd â'u heffaith ar y gymuned sy'n siarad Cymraeg, yn destun dadlau mewn blynyddoedd diweddar. Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae'r gyfradd o ran y defnydd o ail gartrefi ledled Cymru yn 5.2%. Yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried yw nad yw'r Cyfrifiad yn cofnodi bob eiddo fel "cartrefi gwyliau" neu lety gosod tymor byr - mae'n seiliedig ar eiddo'n cael ei ddefnyddio fel ail gyfeiriad am 30 diwrnod y flwyddyn neu ragor.

Dyma'r diffiniad o ail gartref neu lety gwyliau:-

- Llety gwyliau tymor byr: Tŷ annedd nad yw'n cael ei feddiannu'n barhaol ac sy'n cael ei osod at ddefnydd gwyliau ar sail fasnachol.
- Ail gartref: Tŷ annedd a ddefnyddir gan y perchennog yn achlysurol (ond nid hwn yw ei brif fan preswylio), ynghyd â gan ymwelwyr eraill at ddibenion gwyliau.

Ym mis Tachwedd 2023, roedd cyfanswm o 3715 o anheddau ar yr ynys wedi'u dosbarthu naill ai fel ail gartrefi neu lety gwyliau. Mae hyn yn cyfateb i 10.41% o gyfanswm y cartrefi ym Môn.

Mae gan ardaloedd arfordirol gyfran uwch o ail gartrefi, a leolir yn bennaf mewn cyrchfannau sy'n boblogaidd â thwristiaid.




*Ffigur 3: Map o Ynys Môn, gyda chanrannau'r ail gartrefi a'r llety gwyliau*

Nod Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae Cyngor Ynys Môn yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn. Ystyrir bod gwarchod cymunedau lleol yn allweddol i gyfrannu at yr ymdrech hon. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi codi pryderon bod nifer uchel yr ail gartrefi, yn enwedig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, yn bygwth hyfywedd yr iaith yn y cymunedau hyn. Yn ei waith ar ail gartrefi, mae Dr Simon Brookes[21], yn nodi, tra bo ail gartrefi ynddynt eu hunain yn cael effaith gymharol niwtral o safbwynt yr iaith, oherwydd eu bod yn wag ar y cyfan, gallai newid rhagor o gartrefi yn ail gartrefi niweidio'r Gymraeg a chodi pryderon o ran cyfiawnder cymdeithasol. Mae cynnydd mewn llety gwyliau ac ail gartrefi yn peryglu nid yn unig y Gymraeg ond gallu pobl leol i fyw a gweithio yn eu hardaloedd genedigol.

- **Trosolwg o Gartrefi Gwag**

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg byr o gartrefi gwag ar Ynys Môn, gan ganolbwyntio ar yr ystadegau allweddol, ynghyd â'r hyn sy'n achosi cartrefi gwag ac effeithiau eiddo sy'n wag am gyfnod hir. Fel y nodwyd ym mis Ebrill 2024, ceir tua 681 o gartrefi gwag ar hyd a lled Ynys Môn, a ddosbarthir fel eiddo a fu'n 'wag am gyfnod hir'. Hefyd, gall eiddo gwag cymwys fod wedi'u heithrio o'r Dreth Gyngor, gan gynnwys eiddo sydd dan brofiant, ym mhle mae'r perchennog yn derbyn gofal yn rhywle arall, neu lle mae perchnogion absennol mewn gofal preswyl, yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty, ac mewn galwedigaethau a waherddir gan y gyfraith. Ni chynhwysir yr eiddo hyn yn y ffigyrau datganedig. Ceir y

[21] WG42058 (llyw.cymru)

crynodiadau uchaf o eiddo a fu'n wag am gyfnod hir mewn ardaloedd trefol, sy'n cynnwys Caergybi, Amlwch a Llangefni.

Mae'r hyn sy'n achosi eiddo i aros yn wag yn ymwneud ag amrywiadau ym mherfformiad y farchnad eiddo, anghydfodau cyfreithiol dros etifeddiant, cyfnodau gwag rhwng tenantiaid yn y sector rhentu preifat, a mân waith adnewyddu neu waith adnewyddu mawr ar eiddo.

Mae effaith cartrefi gwag yn arwyddocaol, o ran eu bod yn cyfrannu at ddirywiad cymdogaethau a cholledion economaidd, ac maent yn achosi rhagor o bwysau o ran anghenion tai. Gall eiddo sy'n cael eu hesgeuluso a'u gadael heb eu trin ddifetha'r ardal o'u hamgylch, gan greu risgiau o ran iechyd a diogelwch, a denu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall y ffactorau hyn gael goblygiadau difrifol o safbwynt y gymuned leol a gallant arwain yn y diwedd at orfod cymryd camau gorfodi gan y Cyngor.

Mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi rhoi mentrau ar waith fel cymorth ariannol ar ffurf grantiau a benthyciadau di-log, ac mae ganddynt y rhyddid i orfodi cyfraddau treth gyngor uwch ar eiddo sy'n wag am gyfnod hir, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn ac annog perchnogion i beidio â gadael i eiddo fod yn wag.

Er mwyn sicrhau tryloywder o ran y gweithdrefnau a'r camau posibl a ddefnyddir gan Gyngor Sir Ynys Môn, paratowyd Strategaeth Tai Gwag 2023-2028 i ddarparu gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Gellir gweld y Strategaeth Tai Gwag ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn: Cynllun Strategol Tai Gwag 2023-2028 (llyw.cymru).

I grynhoi, mae 45% o boblogaeth Ynys Môn yn berchen eu cartref yn gyfan gwbl, sy'n 7% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n berchen eiddo a chanddynt forgais neu fenthyciad yn 4% yn is, sef 24% o'r boblogaeth o gymharu â'r ganran genedlaethol ac ar gyfer Gogledd Cymru, sef 28%. Ar ben hynny, mae gan yr ynys ganran fawr o bobl sy'n rhentu gan yr awdurdod lleol, gyda 12% yn ganran uwch na Gogledd Cymru a Chymru gyfan, ond gellir egluro hyn trwy'r nifer uchel o awdurdodau sy'n defnyddio landlordiaid cymdeithasol allanol i reoli eu stoc.

## 3.3 Tueddiadau Economaidd-gymdeithasol a Demograffig

- **Oedran**

| | 15 years and under | 16 to 24 years | 25 to 34 years | 35 to 49 years | 50 to 64 years | 65 years and over |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Holy Island North** | 22% | 10% | 12% | 18% | 19% | 19% |
| **North West Anglesey** | 17% | 9% | 9% | 15% | 25% | 25% |
| **Central Anglesey** | 20% | 9% | 11% | 17% | 20% | 22% |
| **West Central Anglesey** | 20% | 9% | 13% | 18% | 20% | 21% |
| **South West Anglesey** | 15% | 8% | 9% | 15% | 24% | 30% |
| **Amlwch & Rural North** | 15% | 8% | 10% | 14% | 25% | 28% |
| **East Central Anglesey** | 16% | 8% | 11% | 16% | 22% | 26% |
| **Holy Island South** | 13% | 8% | 7% | 14% | 24% | 33% |
| **Anglesey East** | 13% | 7% | 8% | 14% | 23% | 35% |
| **Isle of Anglesey** | 17% | 8% | 10% | 16% | 22% | 26% |
| **North Wales** | 17% | 9% | 11% | 17% | 21% | 23% |
| **Wales** | 18% | 11% | 12% | 18% | 21% | 21% |

***Tabl 11: Canran y preswylwyr arferol yn ôl grwpiau oedran ac ardaloedd, 2021***

***Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol***

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae demograffeg oedran Ynys Môn yn adlewyrchu newidiadau nodedig. Gwelwyd codiad yn yr oedran canolrifol ar Ynys Môn o 45 i 48 oed rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, sy'n dangos tuedd gyffredinol tuag at heneiddio. Mae oedran canolrifol Ynys Môn ychydig yn is na hynny ar gyfer Conwy (49 oed) ond yn uwch na chyfartaledd Cymru (42 oed).

Gwelwyd cynnydd o tua 1,200 (14.2%[22]) yn nifer y bobl sy'n 65 i 74 oed, tra bu gostyngiad o tua 2,300 (17.2%) yn y grŵp oedran 35 i 49 oed. Mae hyn yn golygu y gwelwyd twf o 1.9 pwynt canran yng nghyfran y preswylwyr sy'n 65 i 74 oed. Mae'r newid hwn yn awgrymu poblogaeth sy'n heneiddio a chanddi lai o breswylwyr canol oed, a allai effeithio'r angen am wasanaethau at y dyfodol.

[22] Sut mae bywyd wedi newid ar Ynys Môn: Cyfrifiad 2021 (ons.gov.uk)

- **Ethnigrwydd**

| | Asiaidd | Du | Cymysg | Gwyn | Grŵp ethnig arall |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 1% | 0% | 1% | 98% | 0% |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 0% | 0% | 1% | 99% | 0% |
| Canol Ynys Môn | 1% | 0% | 1% | 98% | 0% |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 0% | 0% | 1% | 98% | 0% |
| De Orllewin Ynys Môn | 0% | 0% | 1% | 99% | 0% |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 0% | 0% | 1% | 98% | 0% |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 1% | 0% | 1% | 97% | 0% |
| De Ynys Gybi | 0% | 0% | 1% | 99% | 0% |
| Dwyrain Ynys Môn | 0% | 0% | 1% | 98% | 0% |
| Ynys Môn | 1% | 0% | 1% | 98% | 0% |
| Gogledd Cymru | 1% | 0% | 1% | 97% | 0% |
| Cymru | 3% | 1% | 2% | 94% | 1% |

*Tabl 12: Grwpiau Ethnig ym Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021*

*Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae'r tabl uchod yn dangos bod gan Ynys Môn boblogaeth fawr o bobl wyn sy'n dod i gyfanswm o 98%, sy'n 4% yn uwch na'r ffigur cenedlaethol ac yn 1% yn uwch na Gogledd Cymru. Ceir poblogaethau Asiaidd bach yng Ngogledd Ynys Gybi a Dwyrain Canol Ynys Môn, y mae'r ddwy ardal yn cynrychioli 1% yr un o boblogaethau gwahanol ranbarthau. Yn bennaf, o ran amrywiaeth ethnig ym Môn, mae Ynys Môn yn cynnwys grwpiau ethnig Asiaidd, Du a Chymysg, er bod bob un o'r cymunedau hyn yn cynrychioli cyfran fach iawn o gyfanswm y boblogaeth. Yn ogystal â hyn, mae gan yr ardal hunaniaeth Gymreig gref, ac mae nifer sylweddol o breswylwyr yn adrodd eu bod yn Gymraeg o ran ethnigrwydd ac mai'r Gymraeg yw eu prif iaith, sy'n adlewyrchu ei threftadaeth ddiwylliannol ddofn.

- **Y Gymraeg**

| | Yn methu â siarad Cymraeg | | Yn gallu siarad Cymraeg | |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 6718 | 58% | 4951 | 42% |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 1905 | 38% | 3103 | 62% |
| Canol Ynys Môn | 2282 | 26% | 6343 | 74% |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 1893 | 49% | 1995 | 51% |
| De Orllewin Ynys Môn | 2471 | 41% | 3492 | 59% |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 3249 | 46% | 3764 | 54% |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 3387 | 35% | 6351 | 65% |
| De Ynys Gybi | 1771 | 55% | 1433 | 45% |
| Dwyrain Ynys Môn | 5998 | 50% | 5979 | 50% |
| Ynys Môn | 29673 | 44% | 37413 | 56% |
| Gogledd Cymru | 443934 | 74% | 156887 | 26% |
| Cymru | 2479876 | 82% | 538296 | 18% |

***Tabl 13: Y Boblogaeth a Chanran y preswylwyr arferol sy'n 3 oed a throsodd yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg***

***Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol***

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae'r Gymraeg yn dal i fod yn rhan arwyddocaol o fywyd pob dydd ar Ynys Môn. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- **Y Gyfran Gyffredinol**: Roedd tua 56% o boblogaeth Ynys Môn sy'n dair oed a throsodd yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hwn yn ffigwr nodedig o gymharu â rhannau eraill o Gymru, ac mae'n arwydd o dreftadaeth ieithyddol gref yr ynys.
- **Gostyngiad o ran Rhugldder**: Er y gyfran uchel, cafwyd gostyngiad bach o gymharu â Chyfrifiad 2011, pryd yr oedd tua 57% yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- **Defnydd a Rhugldder**: Y tu hwnt i ddim ond siarad yr iaith, mae gan nifer sylweddol o breswylwyr sgiliau o ran deall, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

Mae'r ffigyrau hyn yn amlygu Ynys Môn fel un o'r ardaloedd allweddol yng Nghymru ym mhle mae'r Gymraeg yn dal i gael ei siarad yn helaeth ac yn arwyddocaol o safbwynt diwylliannol.

- **Patrymau Cymudo**

| | Llai na 5km | 5km i lai na 10km | 10km i lai na 30km | 30km i lai na 60km | 60km a throsodd | Yn gweithio adref yn bennaf | Yn gweithio'n bennaf mewn gosodiad alltraeth, ddim mewn unrhyw le sefydlog, neu y tu allan i'r DU |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 37% | 7% | 12% | 12% | 4% | 13% | 16% |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 6% | 13% | 28% | 5% | 4% | 25% | 19% |
| Canol Ynys Môn | 24% | 9% | 29% | 3% | 3% | 18% | 14% |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 22% | 11% | 21% | 4% | 4% | 20% | 17% |
| De Orllewin Ynys Môn | 9% | 10% | 27% | 3% | 4% | 31% | 17% |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 14% | 5% | 32% | 4% | 5% | 21% | 19% |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 23% | 19% | 14% | 4% | 3% | 23% | 14% |
| De Ynys Gybi | 25% | 7% | 14% | 8% | 5% | 25% | 15% |
| Dwyrain Ynys Môn | 13% | 12% | 22% | 3% | 4% | 30% | 16% |
| Ynys Môn | 20% | 11% | 21% | 5% | 4% | 23% | 16% |
| Gogledd Cymru | 24% | 14% | 19% | 5% | 2% | 22% | 14% |
| Cymru | 24% | 13% | 18% | 4% | 2% | 26% | 14% |

***Tabl 14: Patrymau Cymudo ym Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021***

***Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol***

Nodweddir patrymau cymudo ym Môn gan y defnydd o geir yn bennaf, a ddylanwadir yn fawr gan natur ddaearyddol a seilwaith yr ynys. Mae preswylwyr fel arfer yn cymudo i drefi cyfagos fel Caergybi, Llangefni neu Fangor i weithio, gyda rhai'n teithio'n bellach ar y tir mawr i ddinasoedd yn Lloegr fel Caer neu Lerpwl. Hefyd, mae natur dymhorol twristiaeth yn effeithio ar batrymau cymudo, yn enwedig yn y sector lletygarwch. Tra bo opsiynau o ran trafnidiaeth gyhoeddus fel bysiau a threnau ar gael, maent yn chwarae rôl eilaidd o gymharu â cherbydau preifat, sy'n effeithio amseroedd cymudo a hygyrchedd ar gyfer preswylwyr ar hyd a lled yr ynys.

- **Anabledd**

| | Anabl | Ddim yn Anabl |
|---|---|---|
| Gogledd Ynys Gybi | 23% | 77% |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 20% | 80% |
| Canol Ynys Môn | 19% | 81% |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 19% | 81% |
| De Orllewin Ynys Môn | 21% | 79% |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 23% | 77% |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 19% | 81% |
| De Ynys Gybi | 21% | 79% |
| Dwyrain Ynys Môn | 21% | 79% |
| Ynys Môn | 21% | 79% |
| Gogledd Cymru | 21% | 79% |
| Cymru | 22% | 78% |

***Tabl 15: Ystadegau Anabledd ar gyfer Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021***

***Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol***

Mae Cyfrifiad 2021 ar gyfer Ynys Môn yn dangos bod tua 21% o gyfanswm y boblogaeth o tua 69,700 o breswylwyr yn adrodd eu bod yn byw gydag anabledd. O'r rhain, mae 12% yn profi cyfyngiadau sylweddol ar eu gweithgareddau dyddiol, tra bo 9% yn adrodd eu bod yn profi llai o gyfyngiadau. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru (19%) a Lloegr (17%).

Ceir cynnydd nodedig mewn cyfraddau anabledd yn ôl oedran; mae hanner y rheiny sydd dros 65 oed a throsodd yn adrodd bod ganddynt anabledd, sy'n adlewyrchu'r cysylltiad cryf rhwng heneiddio a chyflyrau iechyd. Mae'r data'n amlygu'r angen am wasanaethau iechyd teilwredig a seilwaith hygyrch ar gyfer poblogaeth Ynys Môn sy'n heneiddio ac yn anabl.

## 3.3 Amrywiaeth Penodol y Gofynion o ran Anghenion Tai

Mae anghenion tai penodol amryw grwpiau yn elfen hanfodol o'r LHMA, gan fod aelwydydd yn aml yn dod o fewn sawl categori o ran gofynion tai. Er na fydd rhai agweddau'n cael eu hystyried yn fater o frys ar gyfer yr ynys, bydd eraill, yn enwedig llety dros dro, eisoes yn destun pryder sylweddol, a disgwylir iddynt barhau i gynyddu. Y diben yn y cyswllt hwn yw nid cyfrif nifer benodol yr eiddo a fynnir, ond amlygu'r pwysau cyfredol ac arwain gwaith cynllunio strategol ar lefel leol.

Nid oes unrhyw gyfleusterau addysg uwch o fewn Ynys Môn, ac felly nid oes unrhyw neuaddau preswyl. Ystyrir felly ei bod yn annhebygol iawn y bydd unrhyw angen yn y dyfodol am lety i fyfyrwyr, felly ni chynhwyswyd yr elfen hon yn yr LHMA hwn. Caiff hyn ei adolygu yn ystod y broses LHMA nesaf.

Noder os gwelwch yn dda y cymeradwywyd yr Asesiad Llety Sipswin a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru yn 2024, felly mae unrhyw anghenion o ran tai yn cael eu diwallu trwy gynllun gwaith yr Asesiad Llety Sipswin a Theithwyr, ac nid trwy'r LHMA. Gellir dod o hyd i'r asesiad hwn ar wefan y Cyngor.

Mae'r tablau a ganlyn yn darparu trosolwg ansoddol o anghenion yng nghyswllt tai ym Môn, sy'n pwysleisio polisïau, strategaethau, a mewnwelediadau o wasanaethau tai yn hytrach na data rhifyddol.

| a) Darpariaeth tai hygyrch ac wedi'u haddasu | |
|---|---|
| **Polisïau/ strategaethau lleol** | • Polisi Gosod Tai Cyngor Ynys Môn[23]<br>• Prosbectws Tai Cyngor Ynys Môn<br>• Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl<br>• Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022- 2026<br>• Strategaeth Tai ynys Môn 2022- 2027 |
| **Anghenion o ran eiddo (adran allweddol)** | Nod Cyngor Ynys Môn yw creu cartrefi sy'n gallu diwallu anghenion newidiol meddianwyr.<br><br>Mae Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (2021) yn nodi safonau gofynnol ar gyfer tai fforddiadwy newydd ac adferedig sy'n canolbwyntio ar hyblygrwydd a'r gallu i addasu.<br><br>Mae gwybodaeth o'r gofrestr tai cymdeithasol yn dangos bod angen am lety pwrpasol wedi'u addasu sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, yn ogystal â byngalos sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, neu fflatiau llawr gwaelod.<br><br>Mae 19% o'r rheiny ar y gofrestr tai yn gofyn am lety pwrpasol wedi'i addasu sydd wedi'i ddylunio ar gyfer unigolion neu deuluoedd ag anghenion penodol. Gall yr addasiadau a fynnir amrywio o rai bach i rai mwy penodol, a chynnwys addasiadau fel ystafelloedd gwlyb, toiledau neu ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod, mynediad â ramp neu fynediad gwastad. Cyflawnir y gofynion hyn trwy ddefnyddio stoc bresennol, gwaith adnewyddu penodol ar eiddo neu trwy adeiladu |

[23] Polisi Gosod Tai Cyffredin (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| | eiddo newydd sy'n cael eu teilwra'n ofalus ar gyfer anghenion bob aelwyd.<br><br>Cafodd y diffyg o ran eiddo wedi'u haddasu ei amlygu fel blaenoriaeth yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae'n ymddangos bod llai o stoc mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Cafodd yr angen am ail ystafell wely ar gyfer gofalwyr ei amlygu fel angen hefyd o ran eiddo, fodd bynnag, mae'n dod yn fwy a mwy anodd i gyfiawnhau hyn oherwydd materion o ran hawl i fudd-daliadau a'r hawl i ystafelloedd gwely. |
| **Yn addas ar gyfer** | Mae angen i eiddo fod yn addas i bobl a chanddynt symudedd a/neu fedrusrwydd cyfyngedig neu'r rheiny sydd angen lefel uchel o ofal a defnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae hyn yn cynnwys unigolion a/neu deuluoedd sydd angen tai hygyrch wedi'u haddasu, ac nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion tai eu hunain os ydynt yn byw mewn llety ar gyfer anghenion cyffredinol.<br><br>Dylai eiddo fod yn addas i unigolion sydd ag anabledd dysgu neu unrhyw angen meddygol, gweithredol neu ymddygiadol cymhleth. Trafodir yr anghenion hyn mewn cyfarfodydd i drafod addasiadau cymhleth a gynhelir yn rheolaidd gyda'r Pennaeth Tai, y Therapydd Galwedigaethol Arweiniol a'r Prif Therapydd Galwedigaethol, y Prif Swyddog Datblygu, Rheolwr y Tîm Opsiynau Tai, y Deilydd Portffolio a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd gyda phenaethiaid gwasanaeth ynghylch cartrefi sy'n darparu ar gyfer anghenion grwpiau o bobl a darpariaeth ar gyfer anableddau dysgu ar wahân. |
| **Ffynonellau data yn cynnwys tystiolaeth (adran allweddol)** | Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 21% o boblogaeth Ynys Môn yn adrodd bod ganddynt anabledd a oedd yn effeithio eu gweithgareddau dyddiol.<br><br>Mae data Rhestr Aros Tai Cyngor Ynys Môn yn dangos bod galw am y canlynol:<br><br>Ym mis Ionawr 2024, roedd cyfanswm o 166 o'r ymgeiswyr ar y rhestr aros yn gofyn am lety wedi'i addasu. Mae hyn yn dod i gyfran o 19% o'r rhestr aros (166 o 873). |

| Ystafelloedd Gwely yn ôl Hawlogaeth | Cyfanswm |
|---|---|
| 1 gwely | 98 |
| 2 wely | 40 |
| 3 gwely | 16 |
| 4+ gwely | 12 |
| Cyfanswm | 166 |

| | |
|---|---|
| | Mae'r ceisiadau am lety wedi'i addasu yn amrywio o dai, fflatiau llawr gwaelod a byngalos.<br><br>Mae'r tabl isod yn amlinellu'r holl waith addasu a gynhaliwyd mewn eiddo preifat ac yn eiddo'r Cygnor gan y Gwasanaethau Tai yn ystod blynyddoedd 2022/23 a 2023/4: |

| Ffigyrau Addasiadau | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Gwaith a gwblhawyd gan ddefnyddio Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl y Sector Preifat | 46 | 91 |
| Atgyfeiriadau Cynlluniau Gofal am Addasiadau Tai | 90 | 141 |
| Addasiadau Canolig a Gwblhawyd (Hyd at 10k) | 34 | 83 |
| Addasiadau Mawr a Gwblhawyd (Dros 10k) | 12 | 8 |
| Nifer y lifftiau grisiau a osodwyd yn stoc y Cyngor | 11 | 9 |
| Gwaith Addasu Mawr yn stoc y Cyngor | 53 | 55 |
| Mân Waith Addasu yn stoc y Cyngor | 269 | 233 |
| Cyfanswm | 515 | 620 |

**Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol**

Ymgynghorwyd gyda:

- Digartref
- The Wallich
- Cymorth Tai
- Gwasanaethau Tai
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Sector Rhentu Preifat
- Asiantiaid Eiddo
- Datblygwyr Preifat
- Grŵp Cynefin
- Tai Gogledd Cymru
- Clwyd Alyn
- Gwarchod y Cyhoedd
- Polisi Cynllunio
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Oedolion
- Tai Gofal Ychwanegol Hafan Cefni
- Shelter Cymru
- Tai Gofal Ychwanegol Pen Ucheldre
- Medrwn Môn

Cynhelir rhagor o ymgynghori gyda'r Panel Tenantiaid maes o law.

| | |
|---|---|
| **Materion Allweddol a nodwyd** | • Mae'r data'n darparu ciplun o anghenion gweithredol ymgeiswyr ar ddyddiad penodol. Mae'n dibynnu ar ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth gywir ac yn diweddaru eu ceisiadau os yw eu hamgylchiadau'n newid.<br>• Nid ydym yn gallu rhagweld digwyddiadau fel newidiadau mewn amgylchiadau sy'n newid bywydau, sy'n arwain at angen brys am ddarpariaeth tai hygyrch a rhai wedi'u haddasu.<br>• Mae angen cydweithio'n agosach, mewn partneriaeth, er mwyn canfod achosion yn gynt, o ran pontio rhwng anghenion plant-oedolion, a lleihau heriau argyfyngau o ganlyniad i anghenion nas diwallwyd.<br>• Fel datrysiad, mae gofal preswyl yn gostus.<br>• Gall addasiadau fod yn gostus.<br>• Diffyg eiddo sy'n darparu ar gyfer anghenion grwpiau o bobl.<br>• Cyfyngiadau o ran stoc, yn enwedig eiddo a byngalos mwy.<br>• Nifer gyfyngedig o eiddo wedi'u haddasu sydd ar gael ar hyn o bryd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Mae ymgeiswyr yn dewis y mathau o anheddau sydd ar gael yn eu hardaloedd dewisedig. Er enghraifft, efallai bod gan rywun 2 ardal ddewisedig a'u bod wedi nodi fflat fel dewis mewn un ardal, a byngalo yn yr ardal arall, gan mai dyma'r unig fath o lety sydd ar gael gyda'r nifer o ystafelloedd gwely a fynnir o fewn yr ardaloedd hynny. Nodir hyn yn ddiweddarach yn dilyn asesiad gan Therapydd Galwedigaethol.<br>• Diffyg llety dros dro/brys hygyrch/wedi'i addasu sy'n gallu diwallu anghenion rhywun sy'n dod yn ddigartref.<br>• Gall fod yn anodd dod o hyd i dai sy'n addas ar gyfer anghenion newidiol ac iechyd sy'n dirywio (cartrefi am oes).<br>• Pontio – mae angen canfod modelau/llety addas mewn pryd i ddiwallu anghenion unigolion neu deuluoedd. |

| b) Teuluoedd aml-genhedlaeth a/neu fwy y mae angen eiddo mwy arnynt | |
|---|---|
| **Polisïau/strategaethau lleol** | • Cofrestr Tai Cyngor Ynys Môn<br>• Tai Teg (Cofrestr Tai Fforddiadwy)<br>• Polisi Gosod Tai Cyngor Ynys Môn<br>• Cynllun Annog Symud i Eiddo Llai<br>• Sicrhau'r Maint Cywir ('Right-sizing') |
| **Anghenion o ran eiddo (adran allweddol)** | • Mae galw am lety ar gyfer anghenion cyffredinol gyda phedair ystafell wely neu ragor.<br>• Ceir cyfran o aelwydydd digartref mewn llety dros dro sydd angen eiddo mwy, a gall eiddo sector preifat fod yn gostus.<br>• Nodwyd bod eiddo yn y sector rhentu preifat yn anaddas neu'n orlawn. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg stoc yn y |

| | |
|---|---|
| | sectorau preifat a chymdeithasol mae hyn yn golygu nad yw teuluoedd yn adrodd y broblem hon, felly mae angen cudd.<br><br>• Mae angen eiddo mwy ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion diwylliannol sy'n gysylltiedig â byw ar sail aml-genhedlaeth. |
| **Yn addas ar gyfer** | Teuluoedd mwy neu aml-genhedlaeth:<br><br>Cymunedau Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a theuluoedd digartref sydd â nifer o aelodau. O ran nifer o deuluoedd yn y grwpiau hyn, mae nifer uwch o aelodau o fewn aelwydydd yn gyffredin oherwydd ffactorau diwylliannol, cenedliadol neu economaidd-gymdeithasol, sy'n gwneud lle a chapasiti yn ystyriaethau allweddol o ran addasrwydd tai. |
| **Ffynonellau data yn cynnwys tystiolaeth (adran allweddol)** | • Mae'r gyfran o eiddo mwy (4 ystafell wely neu ragor) fel rhan o'r stoc rhentu cymdeithasol yn gyfyngedig, gyda dim ond 3% o'r stoc yn cynnwys eiddo a chanddynt 4 ystafell wely neu ragor.<br><br>• Gall cartrefi mwy sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion ddarparu buddion hanfodol fel lleihau gorlenwi, cynnal preifatrwydd a lles teuluoedd, a darparu ar gyfer trefniadau byw aml-genhedlaeth.<br><br>• Yn y 12 mis diwethaf, yn y sector preifat, mae Swyddogion Tai (Gwarchod y Cyhoedd) wedi dod o hyd i 8 teulu mawr sy'n byw yng Nghaergybi, Niwbwrch a Chaergeiliog sy'n byw mewn anheddau anaddas neu orlawn.<br><br>• Mae niferoedd yr eiddo mwy a osodwyd dros y 3 blynedd diwethaf wedi aros yn debyg, gyda 6 yn cael eu gosod yn 2021/22, 7 yn 2022/23 a 6 hyd yma yn 2023/24. Roedd pob eiddo a osodwyd yn rhai a chanddynt 4 a 5 ystafell wely. Ceir 64 o geisiadau tai gweithredol ar hyn o bryd gan bobl sydd eisiau eiddo a chanddo 4 ystafell wely neu ragor. Mae hyn yn dangos nad yw'r trosiant cyfredol yn ddigonol i letya'r rheiny sydd ar y rhestr aros. |
| **Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol** | • Digartref<br>• The Wallich<br>• Cymorth Tai<br>• Cydlynydd y Cynllun Adsefydlu Ffoaduriaid<br>• Gwasanaethau Tai<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Y Sector Rhentu Preifat<br>• Asiantiaid Eiddo<br>• Datblygwyr Preifat<br>• Grŵp Cynefin<br>• Tai Gogledd Cymru<br>• Clwyd Alyn<br>• Gwarchod y Cyhoedd<br>• Polisi Cynllunio |

| | |
|---|---|
| | • Gwasanaethau Plant<br>• Gwasanaethau Oedolion<br>• Tai Gofal Ychwanegol Hafan Cefni<br>• Shelter Cymru<br>• Tai Gofal Ychwanegol Pen Ucheldre<br>• Medrwn Môn |
| **Materion Allweddol a nodwyd** | • Cafwyd cynnydd dramatig yn yr angen am lety dros dro, sy'n cael ei ddwysáu gan ddiffyg cyflenwad.<br><br>• Nid yw unrhyw ddata a geir ond yn darparu ciplun o'r angen am eiddo mwy ar ddyddiad penodol. Mae ei gywirdeb yn gwbl ddibynnol ar ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth gywir, ac yn diweddaru eu ceisiadau os yw eu hamgylchiadau'n newid.<br><br>• Dylid ystyried cynyddu'r cynnig i annog pobl i symud i eiddo llai er mwyn sicrhau bod eiddo mwy ar gael.<br><br>• Tenantiaid yn gwrthod symud i eiddo llai oherwydd mai eu cartrefi hirdymor yw eu heiddo, neu oherwydd goblygiadau o ran y modd y byddai hyn yn tarfu arnynt, ynghyd â chostau.<br><br>• Yn y 12 mis diwethaf, yn y sector preifat, mae Swyddogion Tai (Gwarchod y Cyhoedd) wedi dod o hyd i 8 teulu mawr sy'n byw mewn anheddau anaddas neu orlawn. Tra gallai'r ffaith eu bod yn orlawn arwain at gyflwyno hysbysiadau gwahardd, ni ellir ystyried hyn gan nad oes unrhyw gartrefi i deuluoedd sy'n ddigon mawr i letya teuluoedd o'r fath oherwydd cyfyngiadau oedran ar rannu ystafelloedd ac ati. Mae hyn yn niweidiol i'w hiechyd a'u lles.<br><br>• Bydd nifer o aelwydydd na fyddwn yn ymwybodol ohonynt sy'n goddef amodau tai gwael oherwydd eu bod yn ofni i landlordiaid ddial arnynt, ynghyd â diffyg argaeledd opsiynau tai addas eraill.<br><br>• Yn aml, bydd teuluoedd digartref a chanddynt sawl aelod yn wynebu heriau sylweddol o ran dod o hyd i lety addas sy'n gallu diwallu eu hanghenion, sy'n golygu bod cael cartrefi mwy yn hanfodol i liniaru'r ansicrwydd i'r grwpiau hyn o ran tai.<br><br>• Gall fod yn anodd dod o hyd i eiddo mwy gan nad ydynt ond yn cynrychioli cyfran fechan iawn o'r holl gartrefi ym Môn.<br><br>• Problemau o ran hyfywedd yn nhermau costau datblygu/adnewyddu, yn enwedig os oes gan yr aelwyd ofynion penodol. |

<table>
<tr><th colspan="2">c) Tai nad ydynt yn barhaol</th></tr>
<tr><td>Polisïau/strategaethau lleol</td><td>

- Cynllun Trawsnewid Ailgartrefu Cyflym
- Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022- 2026
- Strategaeth Tai ynys Môn 2022- 2027
- Deddf Rhentu Cartrefi Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cynllun Gwrth-hiliaeth
- Cynllun Cydlyniant Cymunedol

</td></tr>
<tr><td>Anghenion o ran eiddo (adran allweddol)</td><td>Mae angen llety dros dro o ansawdd da i leihau'r angen am westai a llety gwely a brecwast costus ac anaddas. Llety camu ymlaen (hunangynhwysol) a llety parhaol os yn bosibl.<br><br>Ceir galw am lety ar gyfer unigolion a theuluoedd mwy.</td></tr>
<tr><td>Yn addas ar gyfer</td><td>Pob aelwyd ddigartref, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches nad oes ganddynt statws fel 'ffoaduriaid', ac sy'n disgwyl am ganlyniad eu cais am loches.<br><br>Tai parhaol yw'r dewis a ffefrir, ond ystyrir tai brys a dros dro o ansawdd dda os nad oes digon o dai parhaol ar gael i ddiwallu anghenion.</td></tr>
<tr><td>Ffynonellau data yn cynnwys tystiolaeth (adran allweddol)</td><td>Cafwyd cynnydd mawr yn niferoedd yr aelwydydd digartref. Gallai hyn fod oherwydd ffactorau fel y nifer uwch o landlordiaid sy'n gwerthu eiddo, mae cyfraddau rhentu preifat gryn dipyn yn uwch, ar gyfartaledd, na chyfraddau'r Awdurdod Tai Lleol, ac mae'r cynllun rhyddhau cynnar ar gyfer Carcharorion yn caniatáu llai o gyfle i flaengynllunio ar gyfer achosion penodol.<br><br>Llety brys a dros dro:

1. Ar 31ain Ionawr 2024, roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn lletya 90 o aelwydydd mewn llety brys a dros dro.
2. Roedd 71 o'r 90 aelwyd a oedd mewn llety brys a dros dro yn aelwydydd un person (79%) - Digartrefedd - cryn angen am ragor o dai fforddiadwy, yn enwedig llety llai ag 1 ystafell wely. Gweithredu'r Cynllun Trawsnewid Ailgartrefu Cyflym.
3. Mae'r canlynol yn darparu'r data ar gyfer ceisiadau gan bobl ddigartref a dderbyniwyd yn ystod y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf:

<table><tr><td>2020 – 2021</td><td>700</td></tr><tr><td>2021 – 2022</td><td>672</td></tr><tr><td>2022 – 2023</td><td>876</td></tr><tr><td>2023 – 2024</td><td>795</td></tr></table>

Cafwyd cynnydd o 13.57% yn nifer y ceisiadau gwirioneddol gan bobl ddigartref a dderbyniwyd rhwng blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2023-24.

4. Mae'r data isod yn dangos y galw cynyddol am lety brys/dros dro yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf:

<table><tr><th></th><th>A.73 – Yn Ddigartref Adref</th><th>A.73 + A.68 – Digartref ac Mewn Llety</th></tr></table>

</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **2020 - 2021** | 149 | 196 |
| **2021 - 2022** | 121 | 128 |
| **2022 - 2023** | 136 | 169 |
| **2023 - 2024** | 116 | 182 |

Cafwyd gostyngiad o 4.13% mewn dyraniadau A73 rhwng 2021-22 a 2023-24 (blynyddoedd ariannol). Cafwyd cynnydd o 42.19% mewn dyraniadau S73 + S68 rhwng 2021-22 a 2023-24 (blynyddoedd ariannol), sy'n dangos galw cynyddol am lety brys/dros dro.
Gellir priodoli'r cynnydd i sawl ffactor, fel Covid, Rhentu Cartrefi Cymru a Chysgu Allan fel un o'r categorïau angen sy'n flaenoriaeth ac ati.


5. Mae'r graffiau isod yn dangos nifer y bobl a oedd wedi cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn yr atgyfeiriad SPOA rhwng Ebrill 2023 – Mawrth 2024. O'r 1,021 o atgyfeiriadau SPOA a dderbyniwyd, nododd 285 o bobl eu bod yn ddigartref, ac o'r 285:


- nododd **94** o bobl eu bod wedi cael eu hatgyfeirio o'r blaen
- nododd **69** o bobl bod arnynt angen llety brys
- roedd **26 o'r 285** yn preswylio mewn llety Gwely a Brecwast
- roedd **13 o'r 285** yn y carchar
- nododd **16 o'r 285** eu bod yn cysgu allan
- nododd **25 o'r 285** eu bod yn preswylio gyda ffrindiau
- O'r **285** – nododd **133** eu bod yn dal i fod mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod

- O'r **838** a nododd nad oeddynt yn ddigartref ar adeg yr atgyfeiriad, dywedodd **388** o'r rheiny eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod.

- O'r 284 – nodwyd "arall' gan 93 ohonynt, gyda'r esboniadau a ganlyn:-

- Derbyniadau i'r ysbyty
- Aros gyda chynbartneriaid
- Cysgu allan
- 'Syrffio soffas' aelodau teulu
- Cysgu mewn car




**Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid**
Tra bo ceisiadau'n cael eu prosesu, caiff ceiswyr lloches eu lletya gan y Swyddfa Gartref. Os derbynnir canlyniad cadarnhaol o ran eu cais am loches, byddant wedyn yn derbyn 'statws ffoaduriaid' a gallent gael mynediad i dai yn y sector rhentu preifat. Rhoddir 28 diwrnod iddynt adael y llety a ddarparwyd iddynt trwy'r Swyddfa Gartref, a bydd hyn yn aml yn arwain at gyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref.

**Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol**

- Cydlynydd y Cynllun Adsefydlu Ffoaduriaid
- Digartref
- The Wallich
- Cymorth Tai
- Gwasanaethau Tai
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Sector Rhentu Preifat
- Asiantiaid Eiddo
- Grŵp Cynefin
- Tai Gogledd Cymru
- Clwyd Alyn
- Gwarchod y Cyhoedd
- Polisi Cynllunio
- Gwasanaethau Plant

| | |
|---|---|
| | • Gwasanaethau Oedolion<br>• Tai Gofal Ychwanegol Hafan Cefni<br>• Shelter Cymru<br>• Tai Gofal Ychwanegol Pen Ucheldre<br>• Medrwn Môn |
| **Materion Allweddol a nodwyd** | • Cafwyd cynnydd dramatig yn yr angen am lety dros dro, a gaiff ei ddwysáu gan ddiffyg cyflenwad o lety parhaol.<br><br>• Cafwyd mynediad i ddata hanesyddol a chyfredol i ddarparu trosolwg o'r angen cyfredol am lety nad yw'n barhaol, ac mae hyn wedi caniatáu'r gallu i amcangyfrif yr angen at y dyfodol. Er mai dull ar sail tystiolaeth yw hwn, gall anghenion ac amgylchiadau unigolion newid, a allai effeithio ar anghenion at y dyfodol.<br><br>• Gall newidiadau deddfwriaethol sydd ar y gweill effeithio'r gofynion o ran y math hwn o lety at y dyfodol.<br><br>• Ceir diffyg o ran eiddo addas ag un ystafell wely ledled yr ynys ar gyfer camu ymlaen.<br><br>• Ceir diffyg Tai Amlfeddiannaeth ac eiddo uchel iawn ar yr ynys.<br><br>• Mae angen ystyried y cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i'r posibilrwydd o ddatblygiad yn Wylfa, ynghyd â'r Porthladd Rhydd, gan y caiff hyn effaith ar argaeledd eiddo i breswylwyr lleol, gweithwyr a'u teuluoedd.<br><br>• Cynnydd o ran yr angen i reoli argyfyngau yng nghyswllt achosion o unigolion yn cael eu rhyddhau o'r carchar o dan y Cynllun Rhyddhau Cynnar.<br><br>• Ni fydd gan unigolion sydd newydd gael statws fel ffoaduriaid unrhyw hanes o ran geirdaon a chredyd, sy'n rai o'r gofynion gan y mwyafrif o landlordiaid wrth ymgeisio am denantiaeth.<br><br>• Mae unigolion sydd newydd gael statws fel ffoaduriaid yn ei chael yn anodd dod o hyd i'w llety eu hunain yn y sector rhentu preifat oherwydd y gost, diffyg argaeledd a diffyg gwybodaeth am farchnad dai'r DU.<br><br>• Yn ogystal â diffyg amser i ddod o hyd i lety oherwydd y cyfnod rhybudd 28 diwrnod, ceir cyfnod o o leiaf 6 wythnos hefyd, pryd y bydd ffoaduriaid heb incwm wrth ddisgwyl i Gredyd Cynhwysol gael ei drefnu.<br><br>• Daeth y cynllun cartrefi i Wcráin yn fyw yn 2022, pryd y cafodd nifer fawr o bobl sengl a theuluoedd eu lletya gan deuluoedd lleol. Gallai'r cysylltiadau lletya hyn chwalu ar unrhyw adeg, a gadael ffoaduriaid o'r Wcráin yn ddigartref heb fawr o rybudd. Er y bydd y tîm Adsefydlu'n gweithio i ddod o hyd i letywr arall neu lety yn y sector rhentu preifat, mewn rhai achosion, ni fydd hyn yn bosibl, a fydd yn golygu y byddant yn cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref. Gallai hyn fod o ganlyniad i sawl |

| | |
|---|---|
| | rheswm, gan gynnwys pryderon o ran diogelu, diffyg argaeledd o ran lletywyr neu eiddo fforddiadwy, neu anghenion meddygol. |

| d) Anghenion tai, gofal a chymorth | |
|---|---|
| **Polisïau/strategaethau lleol** | • Cynllun Corfforaethol Ynys Môn<br>• Strategaeth Dai Ynys Môn<br>• Polisi Gosod Tai<br>• Polisi gosod tai Tai Teg<br>• Polisi Anableddau Dysgu<br>• Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026<br>• Asesiad o Anghenion y Grant Cymorth Tai |
| **Anghenion o ran eiddo (adran allweddol)** | • Tai gwarchod cyfoes â gofal ychwanegol<br>• Byw â chymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a/neu anghenion cymhleth<br>• Tai dros dro â chymorth<br>• Tai Clwstwr<br>Gofal Ychwanegol i bobl iau, nid dim ond y rheiny sy'n 60+ |
| **Yn addas ar gyfer** | • Pobl ifanc sy'n gadael gofal.<br>• Unigolion sydd ag anabledd dysgu sy'n dysgu i fyw'n annibynnol.<br>• Pobl hŷn sydd angen gofal ychwanegol.<br>• Pobl sydd angen datblygu'r sgiliau a fynnir i allu byw'n annibynnol.<br>• Pobl sydd ag amryw anghenion o ran gofal a chymorth, sy'n cynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, unigolion â phroblemau o ran camddefnyddio sylweddau/alcohol, pobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac eraill sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol.<br>• Y rheiny sydd angen cymorth dwys yng nghyswllt tai.<br>• Y rheiny sydd ag anghenion meddygol, gweithredol neu ymddygiadol cymhleth. |
| **Ffynonellau data yn cynnwys tystiolaeth (adran allweddol)** | Cyfarfod chwarterol rheolaidd gyda'r tîm Anableddau Dysgu (y tîm anableddau cymhleth) i drafod y cyflenwad o dai sydd ar gael. Darperir y blaenoriaethau i'r timau Cynllunio Strategol a Thai yn ystod bob blwyddyn ariannol.<br><br>**<u>Gofal Ychwanegol</u>**<br>Ceir 2 gyfleuster gofal ychwanegol ar yr ynys ar hyn o bryd, ac maent yn darparu'r canlynol:<br><br>Hafan Cefni – 62 o fflatiau ac 1 cyfleuster gofal canolraddol i gefnogi trosglwyddiad unigolion o'r ysbyty i'w cartref. Mae 52 o bobl ar restr aros Hafan Cefni ar hyn o bryd.<br><br>Penucheldre – 54 Uned<br><br>*Mae cynllun gofal ychwanegol yn cael ei ddatblygu ym Mhorthaethwy ar hyn o bryd, a bydd yn darparu 45 eiddo rhent cymdeithasol. Bwriedir ei gwblhau yn 2026.*<br><br>**<u>Grant Cymorth Tai</u>**<br>Yn nhermau darpariaeth gyfredol, ceir sawl prosiect ar Ynys Môn sydd wedi comisiynu llety â chymorth y Grant Cymorth Tai. Mae'r rhain yn cynnwys: |

| | |
|---|---|
| | **Iechyd Meddwl**<br>Gwasanaeth Cymorth Cymunedol – Gwasanaethau Llety â Chymorth, 9 uned o lety â chymorth<br><br>**Camddefnyddio Sylweddau**<br>The Wallich – Llety â Chymorth, 7 uned o Lety â Chymorth<br><br>**Troseddu**<br>The Wallich – Llety â Chymorth, 6 uned o Lety â Chymorth<br><br>**Anableddau Dysgu**<br>Cartrefi Cymru - Llety â Chymorth, 14 uned o lety byw â chymorth hirdymor a rennir o fewn 7 eiddo gwahanol<br><br>**Tyddyn Môn - Llety â Chymorth**<br>22 uned o lety byw â chymorth unigol ac a rennir o fewn 7 eiddo gwahanol<br><br>**Môn Care – Llety â Chymorth**<br>5 uned o lety byw â chymorth unigol ac a rennir o fewn 3 eiddo gwahanol<br><br>**Pobl Ifanc**<br>Digartref – Llety â Chymorth – Llys Y Gwynt, 12 uned o Lety â Chymorth, 7 uned gwasgaru<br><br>**Digartref –** Llety â Chymorth Coedlys, 11 uned o Lety â Chymorth<br><br>**Lloches**<br>Llety Lloches a Gwasgaru, 4 uned o ddarpariaeth lloches, 1 uned o lety gwasgaru<br><br>**Teuluoedd sy'n Agored i Niwed**<br>Stori Cymru – Llety â Chymorth, 4 uned o Lety â Chymorth<br><br>**Mae Prosiectau Llety â Chymorth Dros Dro yn cynnwys:**<br>Digartref 25+ - 4 uned<br><br>**The Wallich - Stepping Stones** – Llety Camu i Lawr ar gyfer rhai ag anghenion Iechyd Meddwl – unedau heb unrhyw gyfyngiad oedran – 3 ar sail llety, 3 ar gyfer camu ymlaen<br><br>**Digartref –** Llety Camu i Lawr i Bobl Ifanc 16-25 sy'n ddigartref, 4 uned<br><br>• Mae Data Cyfrifiad 2021 yn cadarnhau y cafwyd cynnydd o 4.1% yn y boblogaeth o breswylwyr sydd dros 65 oed ers 2011. Mae hyn yn dal i gyd-fynd â'r disgwyliad y bydd gwasanaethau i bobl hŷn yn parhau i gynyddu. Dengys y gwahaniaeth rhwng y Cyfrifiad a gynhaliwyd yn 2011 a 2021 bod yr oedran cyfartalog ym Môn wedi codi o 45 i 48.<br>• Yn Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Ddrafft 2024-2034 amlygir yr angen am dai sy'n fforddiadwy, yn ddiogel ac o ansawdd da i gefnogi iechyd meddwl. Yn gysylltiedig â hyn y mae data SPOA sy'n nodi, yn ystod y cyfnod Ebrill 2022-Mawrth 2023, bod 535 o 1002 o bobl wedi nodi bod ganddynt angen o |

| | |
|---|---|
| | safbwynt iechyd meddwl, ac mae rhagfynegiadau'n awgrymu hefyd y bydd problemau Iechyd Meddwl yn cynyddu erbyn 2040. Hefyd, mae'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (RHSCG) yn cydnabod bod cysylltiadau yn cryfhau gyda'r gwasanaethau Iechyd Meddwl.<br>• O Ionawr 2022 i Fedi 2023 – cynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sengl heb blant / unigolion sengl â phlant / cyplau â phlant a oedd yn cael mynediad i'r Gwasanaeth Cymorth Tai. Cafodd 161 o aelwydydd eu rhoi mewn llety dros dro.<br>• Mae data lleol yn awgrymu bod gwasanaethau yng nghyswllt cam-drin domestig yn cynyddu. Rhwng Ebrill 2019 – Mawrth 23, ymhlith 4200 o atgyfeiriadau, roedd Cam-drin Domestig yn cyfrif am 7.45% ohonynt.<br>• Mae data atgyfeiriadau SPOA yn dal i amlygu problemau o ran camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol. Mae'r data'n dangos gostyngiad bach yn y ddau gategori mewn cymhariaeth â 2021-22.<br><br>• Cyfanswm nifer yr anghenion cymorth a nodwyd ar gyfer Ebrill 2023 - Mawrth 2024 oedd **2079**. Ceir manylion yr anghenion hyn yn y tabl isod: |

| | Ebrill – Mehefin | Gorff – Medi | Hyd – Rhag | Ion - Mawrth | Cyfanswm ar gyfer pedwar chwarter | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Alcohol | 18 | 17 | 23 | 19 | 77 | 3.7% |
| Salwch Cronig | 30 | 15 | 25 | 15 | 85 | 4.08% |
| Cam-drin Domestig | 46 | 65 | 39 | 31 | 181 | 8.7% |
| Cyffuriau | 30 | 13 | 21 | 21 | 85 | 4.08% |
| Anabledd Corfforol neu Synhwyraidd | 26 | 18 | 23 | 28 | 95 | 4.56% |
| Troseddu | 24 | 21 | 13 | 11 | 69 | 3.31% |
| Digartrefedd | 132 | 89 | 62 | 51 | 334 | 16.06% |
| Anawsterau Dysgu | 15 | 17 | 12 | 14 | 58 | 2.78% |
| Iechyd Meddwl | 146 | 122 | 105 | 98 | 471 | 22.6% |
| Unigolyn Ifanc sy'n Agored i Niwed | 41 | 23 | 19 | 23 | 106 | 5.09% |
| Ffoaduriaid/ Mewnfudo | 1 | 2 | 0 | 0 | 3 | 0.14% |
| Unigolyn Hŷn sy'n Agored i Niwed | 36 | 32 | 24 | 22 | 114 | 5.48% |
| Generig | 164 | 124 | 66 | 47 | 401 | 19.2% |

**Nodwch os gwelwch yn dda mai cwestiynau amlddewis yw'r rhain, felly gellir dewis mwy nag un opsiwn**

| | |
|---|---|
| **Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol** | • Cydlynydd y Rhaglenni Adsefydlu Ffoaduriaid<br>• Digartref<br>• The Wallich<br>• Cymorth Tai<br>• Gwasanaethau Tai<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

| | |
|---|---|
| | • Y Sector Rhentu Preifat<br>• Asiantiaid Eiddo<br>• Grŵp Cynefin<br>• Tai Gogledd Cymru<br>• Clwyd Alyn<br>• Gwarchod y Cyhoedd<br>• Polisi Cynllunio<br>• Gwasanaethau Plant<br>• Gwasanaethau Oedolion<br>• Tai Gofal Ychwanegol Hafan Cefni<br>• Shelter Cymru<br>• Tai Gofal Ychwanegol Pen Ucheldre<br>• Medrwn Môn<br><br>• Ymgynghoriad ar gyfer yr Adolygiad o Strategaeth y Grant Cymorth Tai.<br><br>• Ymgynghoriad ar gyfer adolygiad canol cyfnod Asesiad Anghenion y Grant Cymorth Tai, sy’n cynnwys cyfweliadau a holiaduron ar gyfer rhanddeiliaid/partneriaid mewnol ac allanol a defnyddwyr gwasanaeth. |
| **Materion Allweddol a nodwyd** | Roedd rhai o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad canol cyfnod llai manwl o’r Strategaeth Grant Cymorth Tai a’r asesiad anghenion yn nodi:<br><br>• Mae cymhlethdodau unigolion yn cynyddu.<br>• Disgwylir y bydd poblogaeth carchardai Cymru yn cynyddu rhwng 2025 a 2027, a fydd yn cyfrannu at gynnydd o ran llwythi achosion ar gyfer Opsiynau Tai a gwasanaethau yng nghyswllt tai.<br>• Mae fforddiadwyedd a’r cyflenwad o dai yn dal i fod yn broblem.<br>• Mae nifer yr ymgeiswyr sydd wedi cofrestru gyda Tai Teg wedi mwy na dyblu, o 311 i 685, mewn cymhariaeth â’r data a gasglwyd ar gyfer Asesiad Anghenion 2022, ac mae ar y mwyafrif ohonynt angen eiddo rhent canolradd â 2 a 3 ystafell wely ynghyd ag eiddo fforddiadwy i’w prynu.<br>• Ar gyfartaledd, mae prisiau eiddo’n dal i gynyddu ym Môn – os bydd prisiau ym Môn yn dal i godi ar gyfradd o 5.0% y flwyddyn, bydd y pris cyfartalog ar gyfer eiddo yn £295,548 yn 2025.<br>• Maes a nodir yw llety â chymorth i aelwydydd sydd mewn cyflogaeth. Os yw aelwydydd mewn cyflogaeth, bydd y llety â chymorth o dan y Grant Cymorth Tai yn dod yn rhy ddrud iddynt. Nid yw hyn yn annog unigolion i ddechrau gweithio, neu’n eu galluogi i gadw eu cyflogaeth.<br>• Dod o hyd i dai addas ar gyfer Byw â Chymorth, gyda digon o le i 3-4 tenant a staff – mae parcio’n broblem fawr hefyd.<br>• Mae angen archwilio tai clwstwr, sy’n debyg i’r model Gofal Ychwanegol ar gyfer oedolion ag anghenion o ran Anableddau Dysgu / Iechyd Meddwl, er mwyn gallu darparu cymorth ategol. |

| e) Anghenion lleoliadol i bobl ag anghenion corfforol neu ddiwylliannol | |
|---|---|
| **Polisïau/strategaethau lleol** | • Cofrestr Tai Ynys Môn<br>• Prosbectws Tai Cyngor Ynys Môn |

| | |
|---|---|
| | • Strategaeth Dai Ynys Môn<br>• Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
| **Anghenion o ran eiddo (adran allweddol)** | Mae Cyngor Ynys Môn yn gwerthfawrogi'r gallu i gynnig dewis eang i ymgeiswyr o gyfleoedd i gael eu hailgartrefu, gan gydnabod eu hanghenion a'u dewisiadau, wrth gefnogi camau i greu cymunedau cynaliadwy a ffyniannus.<br><br>Dylai lleoliadau ddiwallu anghenion aelwydydd trwy ddarparu mynediad i gyfleoedd crefyddol, cymdeithasol, arferion ysbrydol, gofal iechyd, perthnasau, cysylltiadau cymunedol, a chymorth emosiynol.<br><br>Gofyniad i ddiwallu anghenion ehangach o ran tai ffisegol, fel eiddo wedi'i addasu ac sy'n hygyrch mewn lleoliadau penodol/a fynnir. |
| **Yn addas ar gyfer** | **Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches:**<br>• O ran ffoaduriaid na chawsant eu lletya'n addas o dan gynllun adsefydlu, bydd angen iddynt ddod o hyd i lety cymdeithasol addas neu lety addas yn y sector rhentu. Efallai y bydd angen i'r llety hwn fod wedi'i leoli ger cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da neu ganiatáu mynediad i hynny i'w galluogi i deithio i fannau addoli lleol a pherthnasol, a chael mynediad i eitemau bwyd priodol o ran eu diwylliant, ynghyd â mynediad i ddarparwyr ESOL lleol.<br><br>• O safbwynt diwylliannol, byddai eiddo gyda mynediad i gyfleusterau i allu paratoi, storio a choginio eu prydau eu hunain yn fwy priodol.<br><br>Dylai lleoliadau ddiwallu anghenion aelwydydd trwy ddarparu mynediad i gyfleoedd crefyddol, cymdeithasol, arferion ysbrydol, gofal iechyd, perthnasau, cysylltiadau cymunedol, a chymorth emosiynol.<br><br>**Sipsiwn a Theithwyr:**<br>• Caiff yr angen hwn ei ddiwallu trwy'r Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr[24]<br><br>**Pob Aelwyd Arall:**<br>• Aelwydydd a chanddynt anghenion lleoliadol o ran yr angen i fod yn agos at aelodau teulu, sefydliadau addysgol ac amwynderau eraill. Gall anghenion godi hefyd o ran y rheiny a chanddynt anghenion lleoliadol o ganlyniad i anabledd. |
| **Ffynonellau data yn cynnwys tystiolaeth (adran allweddol)** | O ran ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gellir cael gwahaniaethau mawr o ran anghenion unigolion ac aelwydydd, sy'n ei wneud yn anodd rhagweld gofynion at y dyfodol. Bydd math a lefel y ddarpariaeth yn dibynnu ar anghenion lleoliadol penodol aelwydydd sy'n cael caniatâd amhenodol i aros. Tra bo anghenion pob unigolyn |

[24] Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd.pdf (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| | yn unigryw, yn gyffredinol, mae mynediad i gysylltiadau trafnidiaeth da yn hanfodol i gyrraedd lleoliadau addysg, cyflogaeth, mannau addoli, a gwasanaethau cymorth. |
| **Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol** | • Cydlynydd y Rhaglenni Adsefydlu Ffoaduriaid<br>• Digartref<br>• The Wallich<br>• Cymorth Tai<br>• Staff y Gwasanaethau Tai<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Y Sector Rhentu Preifat<br>• Asiantiaid Eiddo<br>• Grŵp Cynefin, Clwyd Alyn, Tai Gogledd Cymru<br>• Gwarchod y Cyhoedd<br>• Polisi Cynllunio<br>• Gwasanaethau Plant<br>• Gwasanaethau Oedolion<br>• Hafan Cefni<br>• Shelter Cymru<br>• Medrwn Môn |
| **Materion Allweddol a nodwyd** | • Mae anghenion teuluoedd/unigolion yn benodol, a gallant amrywio cryn dipyn.<br>• Nid yw'n bosibl pennu ym mhle y bydd y rheiny y caniateir iddynt aros angen llety.<br>• Ychydig iawn o ddata/gwybodaeth benodol sydd ar gael.<br>• Gall lles meddyliol ac emosiynol gwael fod yn rhwystr i adsefydlu'n llwyddiannus.<br>• Efallai mai ychydig iawn o stoc sydd ar gael yn y lleoliadau a fynnir, neu ddim o gwbl. |

# 4. Amrywiaeth y Gofynion o ran yr Angen am Dai Ychwanegol

Mae'r adran hon o'r LHMA yn cyflwyno'r tablau cryno terfynol o'r adnodd LHMA, sy'n dangos yr amcangyfrifon a gyfrifwyd o ran yr angen am dai ar gyfer Ynys Môn. Rydym wedi cynnwys tair set o amcangyfrifon yn seiliedig ar wahanol amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru: prif amcanestyniadau a'r amcanestyniadau uwch ac is. Mae'r pum tabl cryno a gynhwysir ar gyfer bob amrywiolyn yn seiliedig ar y canlynol:

- Tablau 1, 2, 3: Mae'r tablau hyn yn darparu darlun o'r angen amcangyfrifedig blynyddol gros a net cyfartalog am dai ar gyfer Ynys Môn yn ei chyfanrwydd.
- Tablau 1a,1b,1c: Angen amcangyfrifedig blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth, ar ôl ystyried y cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol, dros bum mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA.
- Tablau 2a, 2b,2c: Cyfanswm yr angen amcangyfrifedig blynyddol gros am dai ychwanegol yn ôl ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth, cyn ystyried y cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol, dros bum mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA.
- Tablau 3a,3b,3c: Cyfanswm yr angen amcangyfrifedig blynyddol am dai ychwanegol yn ôl ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth dros y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA. Ni roddwyd ystyriaeth i unrhyw gyflenwad arfaethedig na throsiant stoc gyfredol y tu hwnt i'r pumed flwyddyn gan ei bod yn anoddach rhagfynegi'n gywir wedi hynny.
- Tablau 4a,4b,4c: Angen amcangyfrifedig blynyddol a chyfanswm yr angen amcangyfrifedig am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth, dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cyfuno data o dabl un a thri.


### 4.1 Amcanestyniadau Prif Amrywiolion

Mae'r senario hwn yn cynnwys prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ac yn ymgorffori pob aelwyd ar y gofrestr dai a gynhwyswyd yn nhabl 8 y pecyn cymorth – angen cyfredol nas diwallwyd.

**Noder bod y cyfansymiau wedi'u talgrynnu ym mhob tabl **

**<u>Tabl 1, Prif Amcanestyniadau Aelwydydd LHMA</u>**

Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol cyfartalog yn defnyddio PRIF amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru ar gyfer 5 mlynedd gyntaf yr LHMA.




Mae Tabl 1 uchod yn dangos mai'r angen amcangyfrifedig o ran aelwydydd ychwanegol blynyddol cyfartalog (yr angen gros am dai fforddiadwy cyn ystyried y cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol) yw 248, y mae 236 yn angen cyfredol nas diwallwyd, ac mae 12 yn angen newydd. Yr angen net blynyddol cyfartalog amcangyfrifedig am dai fforddiadwy yw 167. Mae hyn yn cynnwys 94 o eiddo rhent canolradd a pherchentyaeth cost isel, a 73 eiddo rhent cymdeithasol.

## Tabl 1a, Prif Amcanestyniadau LHMA

Amcangyfrifon cyfanswm yr anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen net, trosiant net stoc gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig).

| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | Un ystafell wely | Dwy ystafell wely | Tair ystafell wely | Pedair+ ystafell wely | Rhent cymdeithasol (a)+(b)+(c)+(d)=(e) | Rhent canolradd | LCHO | Tai Fforddiadwy (h)=(e)+(f)+(g) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 65 | 3 | - | 5 | 73 | 31 | 63 | 167 |
| Gogledd Ynys Gybi | 15 | - | - | 2 | 18 | 9 | 21 | 47 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 3 | - | - | - | 3 | 0 | 2 | 5 |
| Canol Ynys Môn | 19 | - | - | 1 | 20 | 9 | 12 | 41 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 5 | - | - | 0 | 5 | 3 | 6 | 14 |
| De Orllewin Ynys Môn | 2 | - | - | 0 | 2 | 1 | 3 | 6 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 4 | 13 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 10 | 3 | - | 1 | 13 | 3 | 8 | 25 |
| De Ynys Gybi | - | - | - | - | - | 0 | 1 | 1 |
| Dwyrain Ynys Môn | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |

Mae Tabl 1a yn amlinellu'r anghenion ychwanegol amcangyfrifedig am dai dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA, sy'n uwch na'r cyfartaledd blynyddol cyffredinol oherwydd y galw cyfredol sylweddol nas diwallwyd y mae'r model yn tybio y byddir yn mynd i'r afael ag ef yn gynnar yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r tabl yn darparu dadansoddiad yn ôl maint eiddo a deiliadaeth, sy'n ystyried tybiaethau o ran trosiant stoc tai fforddiadwy cyfredol a'r cyflenwad arfaethedig.

Amcangyfrifir mai'r angen blynyddol net am yr holl dai fforddiadwy yw 167 uned, sy'n cynnwys 73 ar gyfer rhent cymdeithasol, 31 ar gyfer rhent canolradd, a 63 ar gyfer perchentyaeth cost isel. Mae'r galw mwyaf o fewn y categori rhent cymdeithasol am gartrefi ag 1 ystafell wely, sef 65 uned y flwyddyn.

## Tabl 2a, Prif Amcanestyniadau LHMA

Amcangyfrifon cyfanswm yr anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen gros, cyn trosiant a'r cyflenwad).

| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | Perchen feddiannydd | Sector rhent preifat | Tai'r Farchnad Agored (f)=(d) + (e) | Anghenion tai ychwanegol (g)= (c) + (f) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 152 | 96 | 248 | 8 | 13 | 21 | 269 |
| Gogledd Ynys Gybi | 44 | 30 | 74 | 4 | 5 | 8 | 82 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 4 | 3 | 8 | 0 | 0 | 0 | 8 |
| Canol Ynys Môn | 35 | 21 | 56 | 2 | 4 | 6 | 62 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 13 | 10 | 23 | 1 | 1 | 2 | 24 |
| De Orllewin Ynys Môn | 6 | 4 | 10 | 0 | 1 | 1 | 11 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 10 | 7 | 17 | 0 | 0 | 1 | 18 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 21 | 11 | 32 | 1 | 1 | 2 | 34 |
| De Ynys Gybi | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Dwyrain Ynys Môn | 18 | 9 | 27 | 0 | 0 | 0 | 27 |

Mae Tabl 2a uchod yn dangos cyfanswm yr amcangyfrifon anghenion tai blynyddol yn ôl deiliadaeth ar gyfer tai fforddiadwy a thai ar y farchnad dros 5 mlynedd gyntaf yr LHMA. Nid yw'r ffigyrau gros hyn yn cynnwys trosiant a'r cyflenwad arfaethedig, gan ragdybio y byddir yn mynd i'r afael â'r holl angen nas diwallwyd o fewn y cyfnod hwn. Mae'r tabl dilynol yn rhagweld anghenion newydd a fydd yn codi dros y 10 mlynedd sy'n dilyn, ond mewn realiti, mae'n annhebygol y bydd yr holl anghenion cyfredol yn cael eu diwallu o fewn 5 mlynedd. Caiff rhagfynegiadau o ran cyflenwad eu hepgor y tu hwnt i flwyddyn 5 oherwydd mwy o ansicrwydd.

## Tabl 3a, Prif Amcanestyniadau LHMA

Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth dros y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA.

| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | Perchen feddiannydd | Sector rhent preifat | Tai'r Farchnad Agored (f)=(d) + (e) | Anghenion tai ychwanegol (g)= (c) + (f) |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 9 | 4 | 12 | 8 | 13 | 21 | 33 |
| Gogledd Ynys Gybi | 3 | 2 | 5 | 4 | 5 | 8 | 14 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Canol Ynys Môn | 3 | 1 | 4 | 2 | 4 | 6 | 10 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 3 |
| De Orllewin Ynys Môn | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Amlwch a’r Gogledd Gwledig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 3 |
| De Ynys Gybi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dwyrain Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Mae Tabl 3a, Prif Adroddiad LHMA, uchod yn rhoi dadansoddiad manwl o’r amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol dros y 10 mlynedd sy’n weddill o gyfnod yr LHMA. Mae’r ffigyrau hyn yn rhagdybio y bydd unrhyw angen nas diwallwyd yn ystod cyfnod pum mlynedd gyntaf y LHMA yn cael ei ddiwallu.

**<u>Tabl 4a, Prif Amcanestyniadau LHMA</u>**

Yr angen amcangyfrifedig cyffredinol blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl ardal o’r farchnad dai a deiliadaeth (angen net) dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA.

| | Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog | | | Amcangyfrifon 15 mlynedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (a) | (b) | (c) | | | |
| HMA | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 30 | 34 | 64 | 454 | 508 | 962 |
| Gogledd Ynys Gybi | 8 | 11 | 19 | 124 | 166 | 290 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 1 | 1 | 2 | 14 | 14 | 28 |
| Canol Ynys Môn | 9 | 8 | 16 | 129 | 114 | 243 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 2 | 3 | 5 | 34 | 47 | 81 |
| De Orllewin Ynys Môn | 1 | 2 | 2 | 13 | 23 | 36 |
| Amlwch a’r Gogledd Gwledig | 2 | 2 | 5 | 33 | 35 | 68 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 5 | 4 | 9 | 73 | 60 | 133 |
| De Ynys Gybi | 0 | 0 | 0 | 1 | 4 | 5 |
| Dwyrain Ynys Môn | 2 | 3 | 5 | 33 | 45 | 77 |

Mae'r tabl uchod yn cyflwyno amcangyfrifon ar gyfer anghenion tai fforddiadwy ychwanegol yn ôl deiliadaeth, gan gynnwys ffigyrau blynyddol a chyfanswm yr angen a ragwelir dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA. Ceir yr amcangyfrifon hyn trwy gyfuno'r anghenion ychwanegol net o Dabl 1a a Thabl 3a.


### 4.2 Amcanestyniadau Amrywiolion Uwch

Mae'r senario hwn yn cynnwys amcanestyniadau uwch Llywodraeth Cymru ac yn ymgorffori pob aelwyd ar y gofrestr dai a gynhwyswyd yn nhabl 8 y pecyn cymorth – angen cyfredol nas diwallwyd.

**Noder bod y cyfansymiau wedi'u talgrynnu ym mhob tabl **

<u>**Tabl 2, Amcanestyniad Aelwydydd Uwch LHMA**</u>

Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol cyfartalog yn defnyddio amcanestyniadau aelwydydd UWCH Llywodraeth Cymru ar gyfer 5 mlynedd gyntaf yr LHMA.




Mae Tabl 2 uchod yn dangos mai'r angen amcangyfrifedig o ran aelwydydd ychwanegol blynyddol cyfartalog (yr angen gros am dai fforddiadwy cyn ystyried y cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol) yw 263, y mae 236 yn angen cyfredol nas diwallwyd, ac mae 28 yn angen newydd. Yr angen net blynyddol cyfartalog amcangyfrifedig am dai fforddiadwy yw 178. Mae hyn yn cynnwys 99 o eiddo rhent canolradd a pherchentyaeth cost isel, a 80 eiddo rhent cymdeithasol.

## Tabl 1b. Amcanestyniadau Uwch LHMA

Amcangyfrifon cyfanswm yr anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen net, trosiant net stoc gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig).

| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | Un ystafell wely | Dwy ystafell wely | Tair ystafell wely | Pedair+ ystafell wely | Rhent cymdeithasol (a)+(b)+(c)+(d)=(e) | Rhent canolradd | LCHO | Tai Fforddiadwy (h)=(e)+(f)+(g) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 71 | 3 | - | 6 | 80 | 33 | 66 | 178 |
| Gogledd Ynys Gybi | 18 | - | - | 3 | 20 | 9 | 22 | 52 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 3 | - | - | - | 3 | 0 | 2 | 5 |
| Canol Ynys Môn | 21 | - | - | 1 | 22 | 9 | 13 | 44 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 5 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |
| De Orllewin Ynys Môn | 2 | - | - | 0 | 2 | 1 | 3 | 6 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 4 | 13 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 10 | 3 | - | 1 | 14 | 3 | 8 | 26 |
| De Ynys Gybi | - | - | - | - | - | 0 | 1 | 1 |
| Dwyrain Ynys Môn | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |

Mae Tabl 1b yn amlinellu'r anghenion ychwanegol amcangyfrifedig am dai dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA, sy'n uwch na'r cyfartaledd blynyddol cyffredinol oherwydd y galw cyfredol sylweddol nas diwallwyd y mae'r model yn tybio y byddir yn mynd i'r afael ag ef yn gynnar yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r tabl yn darparu dadansoddiad yn ôl maint eiddo a deiliadaeth, sy'n ystyried tybiaethau o ran trosiant stoc tai fforddiadwy cyfredol a'r cyflenwad arfaethedig. Amcangyfrifir mai'r angen blynyddol net am yr holl dai fforddiadwy yw 178 uned, sy'n cynnwys 80 ar gyfer rhent cymdeithasol, 33 ar gyfer rhent canolradd, a 66 ar gyfer perchentyaeth cost isel. Mae'r galw mwyaf o fewn y categori rhent cymdeithasol am gartrefi ag 1 ystafell wely, sef 71 uned y flwyddyn.

**Tabl 2b. Adroddiad Amcanestyniadau Uwch LHMA**

Amcangyfrifon cyfanswm yr anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen gros, cyn trosiant a'r cyflenwad).

| HMA | (a) Rhent cymdeithasol | (b) Rhent canolradd a LCHO | (c) Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | (d) Perchen feddiannydd | (e) Sector rhent preifat | (f) Tai'r Farchnad Agored (f)=(d) + (e) | (g) Anghenion tai ychwanegol (g)= (c) + (f) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 163 | 100 | 263 | 17 | 30 | 47 | 310 |
| Gogledd Ynys Gybi | 48 | 32 | 80 | 8 | 11 | 19 | 99 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 4 | 4 | 8 | 0 | 1 | 1 | 9 |
| Canol Ynys Môn | 38 | 22 | 60 | 4 | 9 | 13 | 74 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 14 | 10 | 24 | 2 | 2 | 4 | 28 |
| De Orllewin Ynys Môn | 7 | 4 | 11 | 1 | 2 | 3 | 14 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 11 | 7 | 18 | 0 | 1 | 2 | 19 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 21 | 12 | 33 | 1 | 3 | 4 | 37 |
| De Ynys Gybi | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 3 |
| Dwyrain Ynys Môn | 18 | 9 | 27 | 0 | 0 | 0 | 28 |

Mae Tabl 2b uchod yn dangos cyfanswm yr amcangyfrifon anghenion tai blynyddol yn ôl deiliadaeth ar gyfer tai fforddiadwy a thai ar y farchnad dros 5 mlynedd gyntaf yr LHMA. Nid yw'r ffigyrau gros hyn yn cynnwys trosiant a'r cyflenwad arfaethedig, gan ragdybio y byddir yn mynd i'r afael â'r holl angen nas diwallwyd o fewn y cyfnod hwn. Mae'r tabl dilynol yn rhagweld anghenion newydd a fydd yn codi dros y 10 mlynedd sy'n dilyn, ond mewn realiti, mae'n annhebygol y bydd yr holl anghenion cyfredol yn cael eu diwallu o fewn 5 mlynedd. Caiff rhagfynegiadau o ran cyflenwad eu hepgor y tu hwnt i flwyddyn 5 oherwydd mwy o ansicrwydd.

## Tabl 3b, Adroddiad Amcanestyniadau Uwch LHMA

Tabl 3, Adroddiad LHMA: Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth dros y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA.

| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | Perchen feddiannydd | Sector rhent preifat | Tai'r Farchnad Agored (f)=(d) + (e) | Anghenion tai ychwanegol (g)= (c) + (f) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 19 | 8 | 28 | 17 | 30 | 47 | 74 |
| Gogledd Ynys Gybi | 8 | 4 | 12 | 8 | 11 | 19 | 30 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Canol Ynys Môn | 7 | 2 | 9 | 4 | 9 | 13 | 22 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 4 | 6 |
| De Orllewin Ynys Môn | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 | 2 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 2 | 1 | 2 | 1 | 3 | 4 | 6 |
| De Ynys Gybi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Dwyrain Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

## Tabl 4b, Adroddiad Amcanestyniadau Uwch LHMA

Yr angen amcangyfrifedig cyffredinol blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen net) dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA.

| | (a) | (b) | (c) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 39 | 38 | 78 | 592 | 577 | 1,169 |
| Gogledd Ynys Gybi | 12 | 13 | 25 | 177 | 200 | 377 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 1 | 1 | 2 | 16 | 15 | 31 |
| Canol Ynys Môn | 12 | 9 | 21 | 176 | 132 | 308 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 3 | 3 | 6 | 45 | 51 | 97 |
| De Orllewin Ynys Môn | 1 | 2 | 3 | 19 | 28 | 47 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 2 | 2 | 5 | 37 | 37 | 73 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 6 | 4 | 10 | 86 | 64 | 150 |
| De Ynys Gybi | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 | 6 |
| Dwyrain Ynys Môn | 2 | 3 | 5 | 34 | 45 | 79 |

Mae’r tabl uchod yn cyflwyno amcangyfrifon ar gyfer anghenion tai fforddiadwy ychwanegol yn ôl deiliadaeth, gan gynnwys ffigyrau blynyddol a chyfanswm yr angen a ragwelir dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA. Ceir yr amcangyfrifon hyn trwy gyfuno’r anghenion ychwanegol net o Dabl 1b a Thabl 3b.


### 4.3 Amrywiolion Is

Mae’r senario hwn yn cynnwys amcanestyniadau amrywiolion is Llywodraeth Cymru ac yn ymgorffori pob aelwyd ar y gofrestr dai a gynhwyswyd yn nhabl 8 y pecyn cymorth – angen cyfredol nas diwallwyd.

**Noder bod y cyfansymiau wedi’u talgrynnu ym mhob tabl **

<u>**Tabl 2, Amcanestyniad Aelwydydd Is LHMA**</u>

Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol cyfartalog yn defnyddio amcanestyniadau aelwydydd IS Llywodraeth Cymru ar gyfer 5 mlynedd gyntaf yr LHMA.




Mae Tabl 3, Adroddiad Amcanestyniad Is, uchod yn dangos mai’r angen amcangyfrifedig o ran aelwydydd ychwanegol blynyddol cyfartalog (yr angen gros am dai fforddiadwy cyn ystyried y cyflenwad arfaethedig a throsiant stoc gyfredol) yw 236, y mae 236 yn angen cyfredol nas diwallwyd, ac mae 0 yn angen newydd. Yr angen net blynyddol cyfartalog amcangyfrifedig am dai fforddiadwy yw 159. Mae hyn yn cynnwys 90 o eiddo rhent canolradd a pherchentyaeth cost isel, a 68 eiddo rhent cymdeithasol.

**Tabl 1c, Amcanestyniadau Is LHMA**

Amcangyfrifon cyfanswm yr anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen net, trosiant net stoc gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig).

| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | Un ystafell wely | Dwy ystafell wely | Tair ystafell wely | Pedair+ ystafell wely | Rhent cymdeithasol (a)+(b)+(c)+(d)=(e) | Rhent canolradd | LCHO | Tai Fforddiadwy (h)=(e)+(f)+(g) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 61 | 3 | - | 5 | 68 | 30 | 61 | 159 |
| Gogledd Ynys Gybi | 14 | - | - | 2 | 16 | 8 | 20 | 44 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 3 | - | - | - | 3 | 0 | 2 | 5 |
| Canol Ynys Môn | 17 | - | - | 1 | 18 | 8 | 12 | 38 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 5 | - | - | 0 | 5 | 3 | 6 | 14 |
| De Orllewin Ynys Môn | 1 | - | - | 0 | 2 | 1 | 3 | 5 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 4 | 13 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 9 | 3 | - | 1 | 13 | 3 | 8 | 24 |
| De Ynys Gybi | - | - | - | - | - | 0 | 1 | 1 |
| Dwyrain Ynys Môn | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |

Mae Tabl 1b yn amlinellu'r anghenion ychwanegol amcangyfrifedig am dai dros 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr LHMA, sy'n uwch na'r cyfartaledd blynyddol cyffredinol oherwydd y galw cyfredol sylweddol nas diwallwyd y mae'r model yn tybio y byddir yn mynd i'r afael ag ef yn gynnar yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r tabl yn darparu dadansoddiad yn ôl maint eiddo a deiliadaeth, sy'n ystyried tybiaethau o ran trosiant stoc tai fforddiadwy cyfredol a'r cyflenwad arfaethedig. Amcangyfrifir mai'r angen blynyddol net am yr holl dai fforddiadwy yw 159 uned, sy'n cynnwys 68 ar gyfer rhent cymdeithasol, 30 ar gyfer rhent canolradd, a 61 ar gyfer perchentyaeth cost isel. Mae'r galw mwyaf o fewn y categori rhent cymdeithasol am gartrefi ag 1 ystafell wely, sef 61 uned y flwyddyn.

**Tabl 2c, Amcanestyniadau Is LHMA**

Amcangyfrifon cyfanswm yr anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen gros, cyn trosiant a'r cyflenwad).

| HMA | (a) Rhent cymdeithasol | (b) Rhent canolradd a LCHO | (c) Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | (d) Perchen feddiannydd | (e) Sector rhent preifat | (f) Tai'r Farchnad Agored (f)=(d) + (e) | (g) Anghenion tai ychwanegol (g)= (c) + (f) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 144 | 92 | 236 | - | - | - | 236 |
| Gogledd Ynys Gybi | 41 | 28 | 69 | - | - | - | 69 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 4 | 3 | 8 | - | - | - | 8 |
| Canol Ynys Môn | 32 | 20 | 52 | - | - | - | 52 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 12 | 10 | 22 | - | - | - | 22 |
| De Orllewin Ynys Môn | 6 | 4 | 9 | - | - | - | 9 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 10 | 7 | 17 | - | - | - | 17 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 20 | 11 | 31 | - | - | - | 31 |
| De Ynys Gybi | 1 | 1 | 2 | - | - | - | 2 |
| Dwyrain Ynys Môn | 18 | 9 | 27 | - | - | - | 27 |

Mae Tabl 2c uchod yn dangos cyfanswm yr amcangyfrifon anghenion tai blynyddol yn ôl deiliadaeth ar gyfer tai fforddiadwy a thai ar y farchnad dros 5 mlynedd gyntaf yr LHMA. Nid yw'r ffigyrau gros hyn yn cynnwys trosiant a'r cyflenwad arfaethedig, gan ragdybio y byddir yn mynd i'r afael â'r holl angen nas diwallwyd o fewn y cyfnod hwn. Mae'r tabl dilynol yn rhagweld anghenion newydd a fydd yn codi dros y 10 mlynedd sy'n dilyn, ond mewn realiti, mae'n annhebygol y bydd yr holl anghenion cyfredol yn cael eu diwallu o fewn 5 mlynedd. Caiff rhagfynegiadau o ran cyflenwad eu hepgor y tu hwnt i flwyddyn 5 oherwydd mwy o ansicrwydd.

## Tabl 3c, Adroddiad Amcanestyniadau Is LHMA

Tabl 3, Adroddiad LHMA: Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol blynyddol amcangyfrifedig yn ôl yr ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth dros y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod yr LHMA.

| HMA | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | Perchen feddiannydd | Sector rhent preifat | Tai'r Farchnad Agored (f)=(d) + (e) | Anghenion tai ychwanegol (g)= (c) + (f) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | - | - | - | - | - | - | - |
| Gogledd Ynys Gybi | - | - | - | - | - | - | - |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | - | - | - | - | - | - | - |
| Canol Ynys Môn | - | - | - | - | - | - | - |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | - | - | - | - | - | - | - |
| De Orllewin Ynys Môn | - | - | - | - | - | - | - |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | - | - | - | - | - | - | - |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | - | - | - | - | - | - | - |
| De Ynys Gybi | - | - | - | - | - | - | - |
| Dwyrain Ynys Môn | - | - | - | - | - | - | - |

## Tabl 4c, Adroddiad Amcanestyniadau Is LHMA

Yr angen amcangyfrifedig cyffredinol blynyddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn ôl ardal o'r farchnad dai a deiliadaeth (angen net) dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA.

| | Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog | | | Amcangyfrifon 15 mlynedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (a) | (b) | (c) | | | |
| HMA | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) | Rhent cymdeithasol | Rhent canolradd a LCHO | Tai Fforddiadwy (c)=(a)+(b) |
| Amcangyfrifon anghenion tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth | 23 | 30 | 53 | 341 | 452 | 793 |
| Gogledd Ynys Gybi | 5 | 9 | 15 | 80 | 139 | 219 |
| Gogledd Orllewin Ynys Môn | 1 | 1 | 2 | 13 | 13 | 26 |
| Canol Ynys Môn | 6 | 7 | 13 | 90 | 100 | 190 |
| Gorllewin Canol Ynys Môn | 2 | 3 | 5 | 25 | 44 | 69 |
| De Orllewin Ynys Môn | 1 | 1 | 2 | 8 | 19 | 27 |
| Amlwch a'r Gogledd Gwledig | 2 | 2 | 4 | 31 | 33 | 64 |
| Dwyrain Canol Ynys Môn | 4 | 4 | 8 | 63 | 56 | 119 |
| De Ynys Gybi | - | 0 | 0 | - | 4 | 4 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dwyrain Ynys Môn | 2 | 3 | 5 | 32 | 44 | 76 |

Mae'r tabl uchod yn cyflwyno amcangyfrifon ar gyfer anghenion tai fforddiadwy ychwanegol yn ôl deiliadaeth, gan gynnwys ffigyrau blynyddol a chyfanswm yr angen a ragwelir dros gyfnod 15 mlynedd yr LHMA. Ceir yr amcangyfrifon hyn trwy gyfuno'r anghenion ychwanegol net o Dabl 1c a Thabl 3c.

# 5. Yr Amcangyfrifon o'r Angen am Dai Ychwanegol yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

Mae'r LHMA hwn wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion tai gan ddefnyddio ystod o amcanestyniadau aelwydydd ar sail amrywiolion. Cafodd pob amrywiolyn ei werthuso trwy'r adnodd LHMA, a'i ategu gan ddata helaeth o safbwynt economaidd-gymdeithasol, demograffeg a'r farchnad eiddo. Nod y broses ddadansoddol hon yw darparu mewnwelediadau manwl i ddynameg y farchnad dai leol, gan ddehongli anghenion tai yn ôl meintiau, mathau a deiliadaethau tai penodol. Mae'r canfyddiadau'n cefnogi datblygiad strategaethau hirdymor, yn llywio strategaethau cynllunio lleol, ac yn arwain penderfyniadau o ran cymysgeddau tai ar gyfer safleoedd newydd. O safbwynt gweithredol, mae'r LHMA yn gwasanaethu fel adnodd hanfodol i gyfiawnhau'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy mewn ceisiadau cynllunio, ynghyd â llywio'r dyraniad o'r Grant Tai Cymdeithasol, ac amlygu blaenoriaethau strategol o ran tai ar y lefel leol.

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer LHMA 2024 yn wahanol i fersiwn 2019 oherwydd newidiadau o ran y modd yr oedd data'n cael ei gasglu, ei ddadansoddi a'i adrodd. Mae'r gwahaniaethau allweddol yn cynnwys:

1. **Ardaloedd o'r Farchnad Dai (HMAs)**: Mae ffiniau a diffiniadau diweddaredig o Ardaloedd o'r Farchnad Dai yn effeithio'r gallu i gymharu rhwng y ddau adroddiad.
2. **Data a Chyfnodau Amser**: Roedd bob LHMA yn defnyddio gwahanol setiau data a chyfnodau amser, sy'n gwneud cymariaethau uniongyrchol yn her.
3. **Dull Dadansoddol**: Gall newidiadau mewn dulliau cyfrifo, meini prawf a modelau dadansoddol gynhyrchu gwahanol ganlyniadau, hyd yn oed ar gyfer amodau tebyg.

Oherwydd y gwahaniaethau o ran methodoleg, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau rhwng LHMAs 2019 a 2024.

## 5.1 Amcanestyniadau Aelwydydd

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn fewnbwn hanfodol ar gyfer yr adnodd LHMA, gan eu bod yn helpu i bennu'r angen newydd am dai dros gyfnod yr LHMA. Bydd CDLl ar y Cyd cyfredol Ynys Môn yn dod i ben yn 2026, ac mae gwaith yng nghyswllt paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer Ynys Môn yn ei gyfnod datblygu ar hyn o bryd, sy'n golygu nad oedd modd gwneud llawer o amcanestyniadau cadarn yn y cyfnod hwn. O ganlyniad i hyn, ni chafodd unrhyw Senario CDLl Newydd ei greu ar gyfer yr LHMA hwn, gan ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i wyro y tu hwnt i amcanestyniadau twf Llywodraeth Cymru. Bydd y LHMA diwygiedig yn craffu ar ystod o wahanol senarios twf, sy'n ystyried twf rhagamcanol o ran yr economi a'r boblogaeth.

Fel y cyfryw, yr amcanestyniad a ffefrir ar gyfer llywio'r LHMA hwn yw'r prif amrywiolyn. Yn ystod yr ymgynghoriad, dangoswyd cryn dipyn o ffafriaeth tuag ag yr amrywiolyn uwch. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y gostyngiad yn y boblogaeth, ym mhle cafwyd gostyngiad o 1.3%, o ychydig o dan 69,800 yn 2011 i tua 68,900 yn 2021, y prif amrywiolyn yw'r dewis mwy dichonadwy. Mae'r amrywiolyn hwn yn ystyried twf cyson o ran

aelwydydd ar yr ynys, a gan nad yw'r gwahaniaeth rhwng bob un o'r amrywiolion yn llawer mwy, ymddengys mai dewis yr amrywiolyn hwn yw'r peth mwyaf priodol. Caiff amcangyfrifon eraill o ran twf y boblogaeth a'r economi eu hailystyried yn y LHMA diwygiedig.

Mae'r galw am dai rhent cymdeithasol ag un ystafell wely'n eithriadol o uchel ar draws bob un o'r 3 amrywiolyn. Gallai hyn fod wedi'i ddylanwadu gan sawl ffactor, fel mwy o ddigartrefedd yn dilyn y pandemig COVID, blaenoriaethu achosion rhai sy'n 'ddigartref ac ar y stryd', a dull gweithredu 'neb heb help'. Ymhlith y pwysau ychwanegol y mae'r argyfwng costau byw a chyfraddau Lwfans Tai Lleol anghymesur, gyda diffyg cadarnhad o ran cynnydd mewn chwyddiant. Tra bo datblygwyr yn cael eu hannog i gynnwys cymysgedd o feintiau tai i adlewyrchu'r angen y cafwyd tystiolaeth ohono, nid oes fawr o ysgogiad i adeiladu eiddo ag un ystafell wely. Un ateb posibl yw ystyried dull hyblyg, fel cyfuno unedau sydd ag un ystafell wely a rhai sydd â dwy ystafell wely, a allai gyflawni dyheadau o ran lle ac anghenion tai.

Mae sicrhau cymysgedd priodol o opsiynau tai yn dal i fod yn flaenoriaeth, sy'n gofyn am ddarpariaeth gytbwys o dai, fflatiau a byngalos. Defnyddir yr LHMA i arwain penderfyniadau cynllunio i sicrhau bod y cyflenwad o dai yn bodloni'r galw cyfredol a hirdymor, er mwyn cyflawni nod y Cyngor o ran meithrin cymunedau cynaliadwy a chryf, trwy gynnal amrywiaeth eang o fathau o dai a deiliadaethau mewn datblygiadau at y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyflenwad o dai yn ymateb i'r gofynion penodol a nodir yn yr asesiad, gan ei wneud yn fan cyfeirio allweddol at ddibenion datblygwyr a chynllunio.

Ni ddylid ystyried y ffigyrau a gynhyrchwyd fel targed ar gyfer cyflenwi cartrefi fforddiadwy, gan mai dim ond un modd o fynd i'r afael ag anghenion tai ar yr ynys yw adeiladu rhai newydd. Gall dulliau eraill, fel ailddefnyddio eiddo gwag, prynu cartrefi cyfredol, a phartneru gyda landlordiaid preifat chwarae rôl allweddol hefyd o ran hybu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

## 5.2 Twf at y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod Caergybi yn Ardal Dwf Ranbarthol yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040[25] a bydd yn ganolbwynt ar gyfer twf a reolir, sy'n ategu Ardaloedd Twf Cenedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae Cynllun Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cydweddu'n agos â'r amcanion a amlinellir yn y cynllun, sy'n ceisio hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chryfhau cymunedau rhanbarthol ledled Cymru. Mae pwyslais y porthladd rhydd[26] ar ynni adnewyddadwy, gweithgynhyrchu uwch a chreu swyddi yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol, o ran hybu gweithgaredd economaidd a mynd i'r afael â heriau demograffig mewn ardaloedd strategol fel Ynys Môn.[27]

Elfen hanfodol o *Gynllun Cenedlaethol 2040* yw'r synergedd rhwng y porthladd rhydd a'r posibilrwydd o ailddatblygu safle niwclear Wylfa Newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r datblygiad arfaethedig mewn egwyddor, ac mae'r cynllun yn dynodi Wylfa fel ardal flaenoriaeth ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, gyda photensial am brosiectau niwclear newydd ochr yn ochr â ffynonellau adnewyddadwy eraill.

[25] gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf
[26] Datgelu Porthladdoedd Rhydd Newydd Cymru | LLYW.CYMRU
[27] Anglesey Freeport on Ynys Môn approved by both Welsh and UK Governments - Herald.Wales

Bydd sylw Porthladd Rhydd Ynys Môn ar ynni'r môr a thechnolegau gwyrdd yn ategu rôl strategol Wylfa, gan sefydlu hwb ynni cynhwysfawr.

Trwy'r posibilrwydd o greu rhwng 3,500 a 13,000 o swyddi erbyn 2030, gallai Porthladd Rhydd Ynys Môn fod yn hwb sylweddol i gyfleoedd o ran cyflogaeth leol a sbarduno twf y boblogaeth, gan helpu i wrthdroi tueddiadau o ran allfudo a chefnogi datblygiad cynaliadwy'r rhanbarth. Mae'n debygol y bydd y twf hwn a ragwelir yn cynyddu'r galw am dai, sy'n golygu ei fod yn hanfodol i gydweddu strategaethau tai gyda newidiadau demograffig disgwyliedig. Mae *Cymru'r Dyfodol* yn pwysleisio'r angen am ddatblygu tai a seilwaith mewn modd cydgysylltiedig i gefnogi cymunedau sy'n ehangu, gan osod y porthladd rhydd fel conglfaen ar gyfer y strategaeth ehangach i drawsnewid tirwedd economaidd y rhanbarth.

Mae gan y twf arfaethedig hwn o ran yr economi a'r boblogaeth oblygiadau arwyddocaol o ran tai lleol, y byddir yn mynd i'r afael â hwy yn y LHMA diwygiedig. O safbwynt y mewnlifiad posibl o weithwyr a theuluoedd a ddisgwylir o ganlyniad i brosiectau'r Porthladd Rhydd a Wylfa Newydd, bydd yr LHMA yn ganolog i'r gwaith o gynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl newydd a sicrhau bod digon o dai o ansawdd uchel ac sy'n fforddiadwy ar gyfer preswylwyr cyfredol a newydd-ddyfodiaid.

I reoli'r twf hwn yn effeithiol, bydd CDLl Newydd Ynys Môn yn chwarae rôl hanfodol, a bydd yn canolbwyntio ar gyflenwi cymysgedd cytbwys o fathau o dai—fel tai fforddiadwy a datblygiadau dwysedd uchel ger hybiau cyflogaeth fel Caergybi a pharthau'r Porthladd Rhydd. Bydd hyn yn sicrhau bod tai newydd yn cefnogi cymunedau lleol wrth gydweddu â'r amcanion a nodir yn y *Cynllun Cenedlaethol 2040*.

## 6. Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Datblygwyd yr LHMA hwn mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Tai a Chynllunio yn dilyn ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, a hynny'n gwbl unol â chanllawiau diweddaraf (2022) Llywodraeth Cymru. Cafodd yr holl ffynonellau data, ffiniau daearyddol, a thybiaethau eu diffinio a'u cyfiawnhau'n glir. Nodir yr holl ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn nhabl 1, yn adran 1.3 o'r adroddiad.

Cafodd data ei goladu a'i rannu gyda Data Cymru, a gomisiynwyd i gynorthwyo gyda'r broses o fewnbynnu a chynhyrchu data. Trwy gydol hyn, cynhaliodd Data Cymru ei broses sicrwydd ansawdd ei hun i wirio'r adnodd LHMA a'r data o ran cywirdeb. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru ar ôl rhedeg y data o'r adnodd i gadarnhau bod y tablau cryno a gynhyrchwyd oddi mewn iddo yn gywir.

Ymhlith y camau allweddol yr oedd:

- Diffinio Ardaloedd o'r Farchnad Dai (HMAs) gan ddefnyddio daearyddiaeth ystadegol yn ôl Canllawiau Llywodraeth Cymru a mewnbwn gan Grŵp Rhanddeiliaid yng nghyswllt Hyfywedd.
- Dadansoddi data Cyfrifiad 2021 ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is i sicrhau cysondeb ag Ardaloedd o'r Farchnad Dai.
- Defnyddio amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru i asesu anghenion tai.
- Egluro unrhyw wyriadau o dybiaethau diofyn yn yr Adnodd LHMA.
- Defnyddio prisiau cyfartalog canolrifol i liniaru effaith allanolynnau.
- Craffu ar ddata'r Gofrestr Tai Cyffredin i atal anghysondebau o ran cyfrif data.
- Sicrhau cadernid trwy samplau o feintiau digonol a chroesgyfeirio â data eilaidd.
- Dilysu cywirdeb rhifyddol allbynnau.
- Mynd ati'n gyson i dalgrynnu ffigyrau i'r rhif cyfan agosaf, gyda chafeatau priodol ym mhle mae talgrynnu'n effeithio cyfansymiau tablau.
- Labelu'r holl ffigyrau mewn modd cynhwysfawr a chyson.

Defnyddiwyd y mesurau hyn i gynhyrchu LHMA dibynadwy sy'n cefnogi penderfyniadau cytbwys o ran cynllunio a datblygu tai.

**Atodiad A – Tablau Materion Allweddol**

**Tabl Materion Allweddol 1 – Mewnbynnau data allweddol**

| Mewnbynnau data allweddol | Materion allweddol a nodwyd o ran y mewnbynnau data |
|---|---|
| 1. Ardaloedd o'r Farchnad Dai (HMAs) | 1. Cynghorau plwyf yw ardaloedd cofrestr tai Cyngor Ynys Môn. Un o'r prif faterion a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer dewis yr Ardaloedd o'r Farchnad Dai oedd bod nifer o ymatebwyr yn dymuno i ardaloedd mwy fel Caergybi gael eu rhannu oherwydd yr amrywiadau mawr mewn prisiau tai ledled yr ardal. O ganlyniad i'r ffaith nad oedd y data mewnol ond ar gael ar sail cynghorau plwyf, nid oedd y rhaniad hwn yn bosibl. |
| 2. Data aelwydydd | 1. Defnyddiwyd Data Llywodraeth Cymru. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau gyda Data Llywodraeth Cymru.<br><br>2. Amcanestyniadau Aelwydydd – Roedd yr arweiniad yn nodi y dylid defnyddio polisi dyrannu cymdeithasol yr awdurdod lleol i bennu gwahanol unedau aelwyd o fewn yr amcanestyniadau aelwydydd yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely. Nid oedd modd i ni gyfateb tabl 3 yn yr adnodd LHMA â'r polisi dyrannu, felly amcangyfrifon oedd y canrannau a ddefnyddiwyd. |
| 3. Data rhenti | 1. Darparwyd data gan Swyddogion Rhenti Cymru. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau. |
| 4. Data incwm | 1. Defnyddiwyd data CACI Paycheck. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau. |
| 5. Data prisiau a dalwyd am dai | 1. Defnyddiwyd Data'r Gofrestrfa Tir. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau. |
| 6. Angen cyfredol nas diwallwyd | 1. Darparwyd rhestr fyw y gofrestr tai cymdeithasol ym mis Ionawr 2024. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ddewis sawl ardal a ffefrir ar y gofrestr tai cymdeithasol, ac mae rhai hefyd yn dewis Ynys Môn yn ei chyfanrwydd, gan nad ydynt yn ffafrio'r un ardal yn fwy nag eraill. Trwy ddyrannu pobl i ardaloedd a ffefrir, efallai nad yw'r data yn yr LHMA hwn yn gywir.<br><br>• Mae ymgeiswyr yn newid yr ardaloedd a ffefrir ganddynt yn rheolaidd, a byddant yn ffonio'r gwasanaethau cwsmer yn aml i newid eu dewisiadau o ran ardaloedd ar sail ffactorau fel datblygiadau newydd, eiddo gwag, addasrwydd eiddo a newidiadau mewn amgylchiadau. |

| Mewnbynnau data allweddol | Materion allweddol a nodwyd o ran y mewnbynnau data |
|---|---|
| | • I helpu i leihau'r galw ar y gofrestr tai, bydd ymgeiswyr digartref yn cael eu hystyried ar gyfer ardal gyfan Ynys Môn ar ôl bod ar y rhestr aros am 6 mis. Mae eu neilltuo ar gyfer Ardal o'r Farchnad Dai penodol wedi bod yn anodd, ac mae'r broses yn mynd yn groes i'r pwrpas o agor eu hardaloedd anghenion tai i gynnwys Ynys Môn yn ei chyfanrwydd i helpu i leihau nifer yr ymgeiswyr digartref.<br>• Efallai bod ymgeiswyr wedi dewis ardaloedd lle nad oes unrhyw lety ar gael.<br>• Efallai bod ymgeiswyr wedi dewis ardaloedd lle nad oes unrhyw lety sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion.<br><br>2. Cafodd aelwydydd mewn llety dros dro eu croesgyfeirio â cheisiadau byw i sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygu. Er y cynghorir bod angen i bawb gyflwyno cais am dŷ, nid yw hyn yn digwydd bob amser. At ddibenion yr LHMA, fe'u cynhwyswyd i gyd yn nhabl 8 yr Adnodd gan y tybiwyd y bydd angen tai parhaol ar gyfer bob un ohonynt.<br><br>3. Darparodd Tai Teg restr ymgeiswyr byw yn ôl ardaloedd ar 31/01/2024. Cafodd y rhestr hon ei chroesgyfeirio wedyn gyda'r gofrestr tai cymdeithasol, ac at ddibenion yr LHMA, dilëwyd unrhyw ddyblygiadau i osgoi cyfrif ddwywaith. O ran unrhyw ymgeiswyr a chanddynt gais byw ar gyfer tai cymdeithasol ar y system, cawsant eu tynnu oddi ar y rhestr Tai Teg a ddarparwyd i osgoi eu cyfrif ddwywaith. Seiliwyd y data hwn felly ar dybiaethau.<br><br>4. Gall ymgeiswyr Tai Teg ddewis dewisiadau ar gyfer rhent canolradd, prynu a phrynu/rhentu, sef yr opsiwn ar gyfer perchentyaeth cost isel. Gan nad oedd opsiwn o fewn yr adnodd ar gyfer y rheiny a oedd wedi dewis prynu/rhentu, rydym wedi dewis rhannu'r data ar sail 50/50. Felly, neilltuwyd 50% ar gyfer rhentu a'r 50% sy'n weddill ar gyfer prynu.<br><br>5. Ceir risg o gyfrif ddwywaith ar lefel ranbarthol heb i Awdurdodau Lleol fod yn ymwybodol o hynny. Er enghraifft, byddai gan aelwyd a chanddi gysylltiad lleol ag Ynys Môn ac sydd angen tŷ yr hawl i fynd ar y gofrestr tai cymdeithasol yno. Fodd bynnag, os oes gan yr un aelwyd gysylltiad lleol â Gwynedd, gellid ei rhestru ar gofrestr tai cymdeithasol Gwynedd hefyd, a byddai'n bosibl i hyn arwain at ddyblygu asesiadau o'i hanghenion.<br><br>6. Ni ellir cael data cywir ar aelwydydd cudd o'r cofrestrau tai cymdeithasol a thai canolradd. Er y gall rhai aelwydydd a restrir fod |

| Mewnbynnau data allweddol | Materion allweddol a nodwyd o ran y mewnbynnau data |
|---|---|
| | yn rhai cudd, efallai y byddai'n well ganddynt barhau i fyw fel un aelwyd. Caiff hyn ei ystyried mewn LHMAs at y dyfodol, ac archwilir dulliau casglu data eraill. |
| 7. Y stoc gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig | 1. Tai Gofal Ychwanegol a datblygiadau Gofal Ychwanegol yn y brif raglen PDP. Ni chafodd llety gofal ychwanegol cyfredol, ynghyd â'r brif raglen PDP arfaethedig eu cyfrif yn y stoc gyfredol a'r cyflenwad arfaethedig gan nad yw ymgeiswyr yn mynd trwy'r gofrestr tai cymdeithasol neu Tai Teg i wneud ceisiadau ar gyfer yr eiddo hyn.<br><br>Yn yr un modd, ni chafodd y cynllun llety â chymorth i bobl ifanc digartref ei gynnwys yn y cyflenwad cyfredol neu arfaethedig am yr un rhesymau. Nid oes unrhyw le o fewn yr Adnodd LHMA i gyfrif am stoc gyfredol a chyflenwad arfaethedig o'r fath.<br><br>2. Eiddo Adran 106 a oedd wedi derbyn caniatâd cynllunio llawn a bod y gwaith datblygu wedi cychwyn. Nid oes unrhyw fodd o gadarnhau p'un a fydd y cynlluniau hyn wedi'u cwblhau o fewn y cylch LHMA hwn.<br><br>3. Ni ellir gwarantu lefelau trosiant stoc tai cymdeithasol, felly gallant fod yn wahanol yn y dyfodol. Mae'r data a ddefnyddir yn yr adnodd yn hanesyddol, ac er ei fod yn nodi bod trosiant o'r 3 blynedd diwethaf yn dal i fod yn gymaradwy, gall hyn newid. Bydd angen monitro hyn ymhellach yn ystod cyfnod yr LHMA. |

**Tabl Materion Allweddol 2 – Tybiaethau mewnbwn**

| Tybiaethau mewnbwn allweddol | Materion allweddol a nodwyd o ran y tybiaethau mewnbwn |
|---|---|
| 1. Meini prawf fforddiadwyedd | 1. Mae'r meini prawf fforddiadwyedd ar gyfer tai'r farchnad yn pennu'r isafswm incwm sydd ei angen ar aelwyd i gael ei hystyried ar gyfer y ddeiliadaeth farchnad dai hon. Mae'r dybiaeth fforddiadwyedd ddiofyn ar gyfer tai'r farchnad yn tybio nad yw'r rhent canolrifol yn cyfateb i fwy na 30% o incwm yr aelwyd. Defnyddiwyd hyn ar gyfer yr LHMA. |
| 2. Tybiaethau o ran prynwyr tro cyntaf | 1. Yn ôl pob Ardal o'r Farchnad Dai, dewiswyd gwerth canolraddol priodol a fydd yn berthnasol i brynwyr tro cyntaf wrth ymuno â'r farchnad dai. Roedd gweithgor technegol Llywodraeth Cymru'n awgrymu y byddai gwerth rhwng y 25ain ganradd a'r 40ain ganradd yn cael ei ystyried yn briodol. At ddibenion yr LHMA hwn, ystyriwyd mai'r 40ain ganradd oedd yr un fwyaf priodol. |
| 3. Canran yr aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer deiliadaeth perchen-feddiannydd sy'n penderfynu mynd yn eu blaen i brynu | 1. Cydnabyddir nad yw pob aelwyd a gaiff ei dyrannu i ddeiliadaeth perchen-feddiannydd yn bwriadu prynu cartref. Roedd gweithgor technegol Llywodraeth Cymru wedi canfod amcangyfrif rhesymol o fewn ystod o 40% i 60%. O ganlyniad i hyn, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) wedi dewis tybiaeth geidwadol o 50%, sy'n awgrymu y rhagwelir mai dim ond hanner yr aelwydydd hyn sydd am brynu eu cartref eu hunain. |
| 4. Rhagolwg ariannol pum mlynedd ar gyfer newidynnau allweddol – incwm, rhent a phrisiau tai | 1. Defnyddiwyd gosodiadau tybiaethau diofyn Llywodraeth Cymru. |
| 5. Cyfrifo tai canolradd (rhent canolradd a pherchentyaeth cost isel) | 1. Defnyddiwyd gosodiadau tybiaethau diofyn Llywodraeth Cymru. |

**Tabl Materion Allweddol 3 – Cyfrifiadau ac allbynnau**

| Cyfrifiadau/allbynnau | Materion allweddol a nodwyd o ran y cyfrifiadau/allbynnau |
|---|---|
| 1. Yr angen am dai'r farchnad, gan gynnwys tai perchen-feddiannydd a'r sector rhentu preifat | 1. Defnyddiwyd gosodiadau diofyn. |
| 2. Yr angen am dai fforddiadwy, gan gynnwys tai rhent cymdeithasol a thai canolradd | 1. Mae'r datganiad yn amlygu, er y gallai mynd i'r afael â'r ôl-groniad a'r anghenion tai cyfredol yn y pum mlynedd gyntaf fod yn ddigonol, efallai nad yw dibynnu ar drosiant cyfredol yn gynaliadwy. Mae ffigyrau'r gofrestr tai wedi codi'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar, ac mae ansicrwydd o ran p'un a fydd y duedd hon yn parhau, sy'n ei wneud yn anodd gwarantu na fydd anghenion yn codi yn y dyfodol.<br><br>2. Nid yw'n glir p'un a fydd ar aelwydydd sydd angen tai fforddiadwy angen tai newydd, gan fod posibilrwydd, yn lle hynny, o allu diwallu eu hanghenion trwy gyfrwng opsiynau tai eraill.<br><br>3. Nid yw'n glir sut y mae hyn yn cydweddu â'r gofynion o ran anheddau ar sail amcanestyniadau ar gyfer y boblogaeth ac aelwydydd. |
| 3. Tablau profi senarios | 1. Ni chafodd unrhyw broblemau eu nodi. |
| 4. Allbynnau pum mlynedd/Allbynnau 10 mlynedd | 1. Bydd angen ail-werthuso'r allbynnau yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd unwaith y bydd wedi'i gwblhau. |

# Cyfeiriadau


Deddf Tai 1985 (legislation.gov.uk)

Deddf Llywodraeth Leol 2003 (legislation.gov.uk)

adroddiad-adolygiad-annibynnol-o'r-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy_0.pdf (llyw.cymru)

Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/working-draft-national-development-framework-document-september-2020.pdf

Deddf Tai (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

Deddf Cydraddoldeb 2010 (legislation.gov.uk)

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Datganiad-Ysgrifenedig-Cynllun-Datblygu-Lleol-Ynys Môn-a-Gwynedd.pdf (llyw.cymru)

Microsoft Word - 11 Pennod 6.4 Polisïau Strategol a Manwl – Tai Newidiadau (ynysmon.gov.uk)

Strategaeth Dai Ynys Môn 2022 i 2027 (llyw.cymru)

Cynllun Ailgartrefu Cyflym (llyw.cymru)

Strategaeth-Rhaglen-Cymorth-Tai-2022-i-2026.pdf (llyw.cymru)

Llesiant Gwynedd a Môn | Asesiad Llesiant (llesiantgwyneddamon.org)

https://www.gov.uk/government/news/uk-house-price-index-for-january-2024#:~:text=Average%20house%20prices%20in%20the,in%20Northern%20Ireland%20(1.4%25)

Croeso i Rhentu Doeth Cymru – Rhentu Doeth Cymru (llyw.cymru)

Prisiau tai ar Ynys Môn (ons.gov.uk)

WG42058 (llyw.cymru)

Sut mae bywyd wedi newid ar Ynys Môn: Cyfrifiad 2021 (ons.gov.uk)

Asesiad-Anghenion-Llety-Sipsiwn-a-Theithwyr-Ynys-Môn-a-Gwynedd.pdf (llyw.cymru)

gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf

Datgelu porthladdoedd rhydd Cymru | LLYW.CYMRU

Anglesey Freeport on Ynys Môn approved by both Welsh and UK Governments - Herald.Wales

CACI Paycheck (2022)

# Tablau:

Tabl 1: Ymgynghori

Tabl 2: Ardaloedd HMA a Chodau LSOA

Tabl 3: Graddfeydd Deiliadaeth, Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021
Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 4: Cyfansoddiad Aelwydydd 2021
Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 5: Deiliadaeth Aelwydydd 2021
Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 6: Nifer y gwerthiannau a gofrestrwyd yn ôl math y llety (2022)
Ffynhonnell: Data'r Gofrestrfa Tir o ran y Pris a Dalwyd

Tabl 7: Data'r Gofrestrfa Tir o ran y Pris a Dalwyd

Tabl 8: Data CACI Paycheck (2022), data'r Gofrestrfa Tir (2020-2022), Mynegai Prisiau Tai (2020-2022)

Tabl 9: Ynys Môn – Canran a Nifer yr Aelwydydd sydd wedi'u Prisio Allan o'r Farchnad
Ffynhonnell – Uned Ymchwil Cyngor Gwynedd: 2023

Tabl 10: Stoc Tai Cymdeithasol Gyfredol yn ôl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Tabl 11: Lefelau Rhent Tai Cymdeithasol a godir gan Gyngor Ynys Môn

Tabl 12: Canran y preswylwyr arferol yn ôl grwpiau oedran ac ardaloedd, 2021
Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 13: Grwpiau Ethnig ym Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021
Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 14: Siaradwyr Cymraeg ym Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021
Ffynhonnell – Cyfrifiad 2021, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 15: Patrymau Cymudo ym Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021
Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 16: Ystadegau Anabledd ar gyfer Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru 2021
Ffynhonnell - Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Geirfa Termau a Thalfyriadau

- LHMA – Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- LSOA – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is
- MSOA – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol
- CDLl – Cynllun Datblygu Lleol
- GTC – Grant Tai Cymdeithasol
- HMA – Ardaloedd o'r Farchnad
- LHA – Lwfans Tai Lleol
- GCT – Grant Cymorth Tai
- RHSCG – Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol
- SPOA – Un Pwynt Mynediad
- TTWA – Ardaloedd Teithio i'r Gwaith
- GTAA – Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr
- DDA – Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- BAME – Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
- CC – Credyd Cynhwysol
- AD – Anabledd Dysgu
- IM – Iechyd Meddwl
- ESOL – Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
- PDP – Rhaglen Ddatblygu a Gynlluniwyd
- Gwybodaeth CACI Paycheck – Amcangyfrifon incwm aelwydydd gros cyson a dibynadwy ar gyfer holl ardaloedd cod post y DU
- A73 – Adran 73 – Dyletswydd i helpu i sicrhau llety ar gyfer ymgeiswyr digartref
- A68 – Adran 68 – Dyletswydd i sicrhau llety dros dro ar gyfer ymgeiswyr digartref ag anghenion sy'n flaenoriaeth
- A106 – Cytundeb Adran 106 – Cytundeb neu "rwymedigaeth gynllunio" sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith rhwng awdurdod cynllunio lleol a pherchennog eiddo

DRAFT

## Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Asesiad o'r Farchnad Dai Leol LHMA 2023 – 2028

Nod y cynllun cyfathrebu hwn yw rhestru rhanddeiliaid allweddol a chasglu adborth i lunio'r LHMA. Bydd yr amcanion strategol cyffredinol yn cael eu harwain drwy gyflawni nodau'r cynlluniau canlynol.

- Canllawiau LHMA Llywodraeth Cymru
- Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym
- Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-2026
- Strategaeth Dai Ynys Môn 2022-2027

Amlinellir rhanddeiliaid yn y cynllun canlynol, ynghyd â negeseuon allweddol i gyfathrebu, strwythur cyfathrebu, ac amserlen. Mae cynnydd a chanlyniadau'r cynllun cyfathrebu hwn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

| Rhanddeiliad/ Cynulleidfa a Dargedir | Pwy sy'n gyfrifol am gyfathrebu | Pwrpas a Gweithredu | Amserlen a Chynnydd |
|---|---|---|---|
| • **Llywodraeth Cymru** | 1) **Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai**<br>2) **Uned Ddata Gwynedd** | • **Pennu Gofynion Data**<br>Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gydag Uned Ddata Gwynedd i benderfynu pa ddata oedd ei angen ar gyfer adnodd Llywodraeth Cymru a lle y gellid dod o hyd i'r data. Dywedwyd y byddai gwybodaeth Paycheck CACI yn ofynnol a bod angen dod yn rhan o'r consortiwm i gael mynediad at y data. Cytunwyd ar hyn gan y gwasanaethau tai. | Ionawr 2023 – Awst 2023 Cwblhawyd |
| • **Llywodraeth Cymru** | 1) **Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai** | • **Gofynion Data Mewnol**<br>Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r swyddog cymorth busnes gwasanaethau tai o fis Rhagfyr 2023 i benderfynu sut y gellid cael y data cywir o'r gofrestr dai. Parhaodd y | Medi 2023 - Parhau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **2) Gwasanaethau Tai - Swyddog Cymorth Busnes** | cyfarfodydd hyn drwy gydol y broses o baratoi'r asesiad gan fod angen data drwy gydol y broses. | |
| • **Rhanddeiliaid allweddol – Mae'r rhestr ymgynghori wedi'i chynnwys isod.**<br>• **Llywodraeth Cymru** | **1) Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai**<br>**2) Uned Polisi Cynllunio**<br>**3) Uned Ddata Gwynedd** | • **Dewis HMA**<br>Trefnwyd sesiwn ymgynghori ryngweithiol i benderfynu pa ardaloedd fyddai'n rhan o HMA Môn. Cynhaliwyd y sesiwn yn neuadd y dref yn Llangefni a rhoddwyd pob un o'r tri opsiwn data a oedd yn cynnwys LSOA's, MSOA a Wardiau Etholiadol. Defnyddiwyd mapiau o bob ardal a thrafodwyd manteision ac anfanteision pob ffynhonnell ddata.<br><br>Casglwyd yr holl adborth ac yna cynhaliwyd trafodaethau gydag Uned Ddata Gwynedd fel y gellid trafod cwestiynau ynghylch yr HMA posibl a ddewisir.<br>Argymhellwyd lleihau'r HMA's o 20 gan fod llawer o HMA's bach.<br><br>Yna fe'u lleihawyd i 9 ac adroddwyd yn ôl i bawb a fynychodd yr ymarferiad dewis HMA cychwynnol. Cynigiwyd symud ymlaen gyda'r 9 ardal os nad oedd unrhyw un yn gwrthwynebu'r rheswm dros eu lleihau. | Gorffennaf 2023<br>Cwblhawyd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Rhanddeiliaid Allweddol Mae'r rhestr ymgynghori wedi'i chynnwys isod** | 1) **Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai** | • **Dewis terfynol o HMA**<br>Dewis terfynol o HMA – Yn dilyn cyngor gan Uned Ddata Gwynedd cwblhaodd y Tîm Strategaeth Tai yr Ardaloedd HMA arfaethedig. Ymgynghorwyd drwy e-bost â'r aelodau gwreiddiol o'r sesiwn wyneb yn wyneb a gwahoddwyd pobl i wneud sylwadau os nad oeddent yn cytuno â'r ardaloedd HMA arfaethedig terfynol. | Awst 2023 - Cwblhawyd |
| • **Llywodraeth Cymru** | 1) **Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai** | • **Cyfarfodydd Rheolwr Perthynas Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd PDP**<br>Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Rheolwr Perthynas Llywodraeth Cymru lle adroddir ar cynnydd ar yr LHMA, ynghyd â thrafod meysydd penodol.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd PDP hefyd gyda Phennaeth Cyllid Tai Llywodraeth Cymru lle trafodir y cynlluniau PDP, ynghyd â'r LHMA. | Parhau |
| • **Partneriaeth Tai Ynys Môn** | 1) **Gwasanaethau Tai – Swyddog Strategaeth Tai** | • **Y newyddion diweddaraf am ddewis HMA**<br>Rhoddwyd cyflwyniad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r bartneriaeth ynglŷn â dewis HMA, y cynnydd o ran casglu data a'r camau nesaf. | 19 Mawrth 2024 - Cwblhawyd |
| • **Aelodau Etholedig** | 1) **Pennaeth Gwasanaethau Tai** | • **Sesiwn Briffio Aelodau Etholedig**<br>Rhoddwyd Diweddariad Cynnydd i aelodau yn manylu ar y camau a gymerwyd i benderfynu pa HMA's oedd wedi'u dewis | Ebrill 2024 - Cwblhawyd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **2) Swyddog Strategaeth Tai** | ar gyfer yr LHMA. Roedd hwn hefyd yn gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am y broses LHMA, a chael atebion. | |
| • **Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru** | **1) Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai** | • **Cyfarfodydd Rhanbarthol Gogledd Cymru**<br>Mynychodd y swyddog strategaeth tai gyfres o gyfarfodydd rhanbarthol Gogledd Cymru lle trafodir cynnydd o ran yr LHMA, ynghyd â rhannu arfer gorau. | Parhau |
| • **Llywodraeth Cymru** | **1) Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai**<br>**2) Therapydd Galwedigaethol Gwasanaethau Tai** | • **Cyfarfod Therapydd Galwedigaethol Tai**<br>Cynhaliwyd cyfarfod mewnol gyda therapydd galwedigaethol y gwasanaeth tai i drafod anghenion tai ychwanegol mewn perthynas â llety hygyrch wedi'i addasu ac anghenion o ran lleoliad. Cofnodwyd adborth wedyn i'w ddefnyddio yn adran 3 yr adroddiad. | 11 Gorffennaf 2024 - Cwblhawyd |
| • **Llywodraeth Cymru** | **1) Polisi Cynllunio - Swyddog Her Tai Lleol**<br>**2) Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai** | • **Cyfarfodydd Data a Chynnydd LHMA**<br>Cefnogodd y Swyddog Her Tai Lleol y Swyddog Strategaeth Tai i ddehongli'r data LHMA. Gwnaed hyn drwy gyfres o gyfarfodydd, a chynhaliwyd rhai ohonynt gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl ddata a gynhyrchwyd gan yr adnodd LHMA yn gywir ac y gellid ei ddehongli'n gywir cyn y sesiynau ymgynghori. | 11 Gorffennaf 2024, 16 Gorffennaf 2024, 17 Gorffennaf 2024, 18 Gorffennaf 2024, 19 Gorffennaf |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2024, 23 Gorffenna 2024, 24 Gorffennaf 2024 - Cwblhawyd |
| • **Uwch Archwilydd Cyngor Sir Ynys Môn** | 1) **Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai** | • **Sesiwn Briffio Uwch Archwilydd**<br>Rhoddwyd cyflwyniad i'r Uwch Archwilydd ar yr LHMA, ei broses, casglu data a'r adnodd data. | 25 Gorffennaf 2024 |
| • **Llywodraeth Cymru** | 1) **Gwasanaethau Tai - Rheolwr Gwasanaeth Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi**<br>2) **Gwasanaethau Tai - Swyddog Strategaeth Tai** | • **Cyfarfodydd cynnydd**<br>Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi i olrhain cynnydd yr LHMA, ynghyd â'i amserlen. Byddai unrhyw faterion yn cael eu hamlygu ac unrhyw oedi posibl yn cael ei drafod fel y gellid cytuno ar welliannau i'r amserlen.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac mae'r broses hon yn parhau. | Parhau |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn** | **1) Rheolwr Gwasanaeth Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi**<br><br>**2) Swyddog Strategaeth Tai** | • **Cyflwyniad / Sesiwn Cwestiynau Cyffredin**<br>Cynhaliwyd sesiwn ar-lein gyda Phrif Weithredwr Cyngor Môn i drafod data'r LHMA a'r cynnydd hyd yma. Cafwyd trafodaeth fanwl a rhoddwyd adborth ar y sesiynau ymgynghori arfaethedig. | Gorffennaf 22 2024 - Cwblhawyd |
| • **Gwasanaethau Tai**<br>• **Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>• **Pwyllgor Polisi Cynllunio**<br>• **Uned Polisi Cynllunio**<br>• **Rheoleiddio ac Economaidd** | **1) Swyddog Strategaeth Tai**<br>**2) Uned Polisi Cynllunio** | • **Adnodd LHMA – Ymgynghoriad data**<br>Ar ôl cwblhau holl ddata adnodd LHMA, trefnwyd sesiynau ymgynghori gydag adrannau mewnol a sefydliadau partner i gyflwyno'r holl wahanol ddata ar yr angen am dai, gan egluro pob un o'r amcanestyniadau yn yr adnodd. Trafodwyd anghenion tai ychwanegol hefyd ar gyfer y 5 maes ychwanegol nad oedd yr adnodd yn eu cynnwys. Pwrpas hyn oedd casglu materion allweddol y mae pob adran/partneriaid allanol yn dod ar eu traws yn y meysydd hyn. | Gorffennaf 2024 - Cwblhawyd |
| • **Partneriaeth Tai Ynys Môn** | • **Gwasanaethau Tai** | • **Y Diweddariad Terfynol ar LHMA**<br>Rhoddir cyflwyniad ar yr adroddiad a'r data a gynhyrchir gan yr adnodd LHMA. | Hydref 2024 |
| • **Sesiwn Briffio Aelodau Etholedig** | • **Gwasanaethau Tai** | • **Y Diweddariad Terfynol ar LHMA** | Tachwedd 2024 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rhoddir cyflwyniad ar yr adroddiad a'r data a gynhyrchir gan yr adnodd LHMA. | |
| • **Trigolion Ynys Môn**<br>• **Rhanddeiliaid Allweddol** | • **Gwasanaethau Tai** | • **Ymgynghoriad Cyhoeddus a Rhanddeiliaid Allweddol**<br>Ymgynghoriad Cyhoeddus a Rhanddeiliaid Allweddol ar yr Asesiad drafft o'r Farchnad Dai Leol. Bydd adborth ar yr asesiad yn cael ei groesawu. Bydd y broses yn cymryd 5 wythnos. | Rhagfyr 2024 – Ionawr 2025 Dim cynnydd hyd yma. |



**Rhanddeiliaid Allweddol a Sefydliadau Partner**

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp Cynefin | Medrwn Môn | Gwasanaethau Plant |
| Partneriaeth Tai Ynys Môn | AMP Construction | Economaidd a Rheoleiddio |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cymorth Tai Cyngor Ynys Môn | Gwasanaethau Plant |
| Gwasanaethau Tai | Aelodau Lleol | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio |
| Hafan Cefni | Cymdeithas Landlordiaid Preifat | Aelodau Etholedig |
| Digartref Ynys Môn | Gwarchod y Cyhoedd | Prif Weithredwr |
| Uned Ddata Gwynedd | Polisi Cynllunio | Y Wallich |
| Data Cymru | Gwasanaethau Oedolion | Stori Cymru |
| Tai Gogledd Cymru | Shelter Cymru | Camddefnyddio Sylweddau |
| Clwyd Alyn | Penucheldre | Cartrefi Cymru |
| Gwasanaethau Oedolion | Williams & Goodwin | Beresford Adams |
| Peter Richardsons | Eiddo Cyf | Burnells |
| Gwerthwyr Tai Lucas | Purple Bricks | Ystadau Egerton |
| Cartrefi Owain Williams | DU Construction | Tyddyn Môn |
| GMC | Morgan Evans | |

DRAFT


DRAFT

## Atodiad 2 / Appendix 2

## Opsiynau Rhagamcan Aelwydydd

## Household Projection Options

### Rhagamcan Prif / Principal Variant





| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | one bedroom | two bedrooms | three bedrooms | four+ bedrooms | Social rent<br><br>(a)+(b)+(c)+(d)=(e) | Intermediate rent | LCHO | Affordable Housing<br><br>(h)=(e)+(f)+(g) |
| Additional housing need estimates by tenure | 65 | 3 | - | 5 | 73 | 31 | 63 | 167 |
| Holy Island North | 15 | - | - | 2 | 18 | 9 | 21 | 47 |
| North West Anglesey | 3 | - | - | - | 3 | 0 | 2 | 5 |
| Central Anglesey | 19 | - | - | 1 | 20 | 9 | 12 | 41 |
| West Central Anglesey | 5 | - | - | 0 | 5 | 3 | 6 | 14 |
| South West Anglesey | 2 | - | - | 0 | 2 | 1 | 3 | 6 |
| Amlwch & Rural North | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 4 | 13 |
| East Central Anglesey | 10 | 3 | - | 1 | 13 | 3 | 8 | 25 |
| Holy Island South | - | - | - | - | - | 0 | 1 | 1 |
| Anglesey East | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |

Amcangyfrifir mai'r angen blynyddol net am yr holl dai fforddiadwy yw 167 uned, sy'n cynnwys 73 ar gyfer rhent cymdeithasol, 31 ar gyfer rhent canolradd, a 63 ar gyfer perchentyaeth cost isel. Mae'r galw mwyaf o fewn y categori rhent cymdeithasol am gartrefi ag 1 ystafell wely, sef 65 uned y flwyddyn.

The net annual need for all affordable housing is estimated to be 167 units, consisting of 73 for social rent, 31 for intermediate rent, and 63 for low-cost home ownership. The highest demand within the social rent category is for 1-bedroom homes, at 65 units per year.

**Rhagamcan Uwch / Higher Variant**





| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | one bedroom | two bedrooms | three bedrooms | four+ bedrooms | Social rent<br>(a)+(b)+(c)+(d)=(e) | Intermediate rent | LCHO | Affordable Housing<br>(h)=(e)+(f)+(g) |
| Additional housing need estimates by tenure | 71 | 3 | - | 6 | 80 | 33 | 66 | 178 |
| Holy Island North | 18 | - | - | 3 | 20 | 9 | 22 | 52 |
| North West Anglesey | 3 | - | - | - | 3 | 0 | 2 | 5 |
| Central Anglesey | 21 | - | - | 1 | 22 | 9 | 13 | 44 |
| West Central Anglesey | 5 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |
| South West Anglesey | 2 | - | - | 0 | 2 | 1 | 3 | 6 |
| Amlwch & Rural North | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 4 | 13 |
| East Central Anglesey | 10 | 3 | - | 1 | 14 | 3 | 8 | 26 |
| Holy Island South | - | - | - | - | - | 0 | 1 | 1 |
| Anglesey East | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |

Amcangyfrifir mai'r angen blynyddol net am yr holl dai fforddiadwy yw 178 uned, sy'n cynnwys 80 ar gyfer rhent cymdeithasol, 33 ar gyfer rhent canolradd, a 66 ar gyfer perchentyaeth cost isel. Mae'r galw mwyaf o fewn y categori rhent cymdeithasol am gartrefi ag 1 ystafell wely, sef 71 uned y flwyddyn.

The net annual need for all affordable housing is estimated at 178 units, consisting of 80 for social rent, 33 for intermediate rent, and 66 for low-cost home ownership. The highest demand within the social rent category is for 1-bedroom homes, at 71 units per year.

## Rhagamcan Is/Lower Variant




| | (a) | (b) | (c) | (d) | (e) | (f) | (g) | (h) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HMA | one bedroom | two bedrooms | three bedrooms | four+ bedrooms | Social rent<br>(a)+(b)+(c)+(d)=(e) | Intermediate rent | LCHO | Affordable Housing<br>(h)=(e)+(f)+(g) |
| Additional housing need estimates by tenure | 61 | 3 | - | 5 | 68 | 30 | 61 | 159 |
| Holy Island North | 14 | - | - | 2 | 16 | 8 | 20 | 44 |
| North West Anglesey | 3 | - | - | - | 3 | 0 | 2 | 5 |
| Central Anglesey | 17 | - | - | 1 | 18 | 8 | 12 | 38 |
| West Central Anglesey | 5 | - | - | 0 | 5 | 3 | 6 | 14 |
| South West Anglesey | 1 | - | - | 0 | 2 | 1 | 3 | 5 |
| Amlwch & Rural North | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 4 | 13 |
| East Central Anglesey | 9 | 3 | - | 1 | 13 | 3 | 8 | 24 |
| Holy Island South | - | - | - | - | - | 0 | 1 | 1 |
| Anglesey East | 6 | - | - | 0 | 6 | 3 | 6 | 15 |

Amcangyfrifir mai'r angen blynyddol net am yr holl dai fforddiadwy yw 159 uned, sy'n cynnwys 68 ar gyfer rhent cymdeithasol, 30 ar gyfer rhent canolradd, a 61 ar gyfer perchentyaeth cost isel. Mae'r galw mwyaf o fewn y categori rhent cymdeithasol am gartrefi ag 1 ystafell wely, sef 61 uned y flwyddyn.

The net annual need for all affordable housing is estimated at 159 units, consisting of 68 for social rent, 30 for intermediate rent, and 61 for low-cost home ownership. The highest demand within the social rent category is for 1-bedroom homes, at 61 units per year.

**Templed Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| F.1 | Gorffennaf 2024 | Drafft cyntaf |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Cefndir** | |
|---|---|
| 1 - Beth ydych chi'n ei asesu? | Yr Asesiad o’r Farchnad Dai Leol 2023-2028 |
| 2 - A yw hwn yn gynnig newydd neu bresennol? | Mae’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol 2023-28 yn olynu’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol blaenorol. |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig hwn? | Mae’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol hwn yn darparu dadansoddiad eang o Farchnad Dai Ynys Môn ac mae’n ystyried y gofynion tymor hir am dai ar Ynys Môn. |

<table>
<tr><th colspan="3">Cam 1: Cefndir</th></tr>
<tr><td>4 - Pwy sy'n gyfrifol am y cynnig rydych chi'n ei asesu?</td><td colspan="2">Gwasanaethau Tai – Uned Strategaeth, Polisi a Chomisiynu.</td></tr>
<tr><td>5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer yr asesiad hwn?</td><td colspan="2">Swyddog Strategaeth Tai</td></tr>
<tr><td>6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan mewn cynnal yr asesiad hwn?</td><td colspan="2">• Uned Strategaeth, Polisi a Chomisiynu<br>• Uned Polisi Cynllunio</td></tr>
<tr><td>7 - A yw'r cynnig yn gysylltiedig â meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, a oes cynigion eraill o bolisïau y dylid eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn?</td><td colspan="2">Mae’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol yn alinio â’r strategaethau a’r cynlluniau isod:<br><br>• Strategaeth Dai 2022-27<br>• Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-2026<br>• Cynllun Strategol Cydraddoldeb<br>• Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym<br><br>Mae’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol yn cynorthwyo i gyflawni nodau’r Cynllun Corfforaethol.</td></tr>
<tr><td rowspan="4">8 - A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â phobl sydd wedi'u diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol gyffredinol, mae unrhyw bolisi sy'n effeithio ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp gwarchodedig.</td><td>Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu</td><td>ia</td></tr>
<tr><td>Hyrwyddo cyfle cyfartal</td><td>ia</td></tr>
<tr><td>Meithrin cysylltiadau da</td><td>ia</td></tr>
<tr><td>Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol</td><td>ia</td></tr>
</table>

| Cam 1: Cefndir | |
|---|---|
| 9 – Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os felly, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | |
| Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/cynigion (yn niweidiol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw hwn yn gynnig strategol**, sicrhewch eich bod yn rhoi ystyriaeth benodol i weld a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas (gweler atodiad 1) | Gallai effeithio ar holl drigolion Ynys Môn, ond yn arbennig pobl sy'n agored i niwed a/neu sy'n cael anhawster i ddiwallu eu hanghenion tai. Mae grwpiau sydd angen ystyriaeth arbennig yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl sy'n cael eu heffeithio gan amddifadedd cymdeithasol. |



| Cam 2.1: Casglu Gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw'r cynnig hwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor? | Nid yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Mae'n sicrhau bod yr angen am dai yn cael ei ddiwallu er mwyn i bobl aros yn eu cartrefi o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys. |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a/neu ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd? | Bydd yn sicrhau fod anghenion tai lleol yn cael eu diwallu fel y gall pobl fyw yn eu cymunedau lleol ar yr Ynys a chyfrannu atynt. |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn rhagweithiol yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | |

| **Cam 2.1: Casglu Gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| 14 - Ydy'r cynnig hwn yn debygol o ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymunedau? | Rydym yn credu y bydd. |
| Er mwyn eich helpu i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth asesu sut mae cynigion yn effeithio ar y Gymraeg yn gyffredinol. Bydd i ba raddau y mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:<br><br>• Os ydych yn edrych ar sut y byddai gweithredu polisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu<br>• Os bydd eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu y byddai'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;<br><br>**dylid cynnal asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg.** Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. **Mae dogfen cyngor arfer da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach. | |



| **Cam 2.2: Casglu Gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998** | |
|---|---|
| 15 - A oes unrhyw faterion hawliau dynol? Os felly, beth ydyn nhw? Er enghraifft, a allai'r cynnig hwn arwain at fethu â diogelu'r hawl i breifatrwydd? | (Rhestrir yr 16 hawl sylfaenol yn Atodiad 2).<br><br>Ni fydd y cynllun yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol.<br><br>Dylai gefnogi'r hawl o dan Erthygl 8 i barch at fywyd preifat a theuluol trwy sicrhau llety digonol a phriodol ar gyfer pob aelwyd. |

| **Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | | |
|---|---|---|
| 16 – A yw'r cynnig hwn yn bodloni unrhyw un o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Cymru lewyrchus | **ia** |
| | Cymru gydnerth | **ia** |
| | Cymru iachach | **ia** |

| | | |
|---|---|---|
| (Rhestrir disgrifiadau o'r nodau llesiant yn Atodiad 3) | Cymru fwy cyfartal | **ia** |
| | Cymru o gymunedau cydlynol | **ia** |
| | Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus | **ia** |
| | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | **ia** |

| | |
|---|---|
| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi bylchau mewn gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn-ymgynghori a chyn-ymgysylltu, sydd ar gael ar MonITor | |
| 17 - Beth sydd wedi'i wneud hyd yma o ran cyfranogiad ac ymgynghori ynglŷn â'r cynnig hwn? | |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi'i defnyddio i lywio'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau, dolenni a ddefnyddir ac ati yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol yn y tabl yng Ngham 3 isod | Data'r Cyfrifiad, data'r gofrestr dai, data'r gofrestrfa dir, data *CACI paycheck*. |
| 19 - A oes unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn?<br>Os felly, sut y bydd y rhain yn cael eu trafod? | Dim bylchau presennol. |

**Cam 3: Ystyried yr effaith bosibl a nodi camau lliniaru**

20 – Sylwch isod unrhyw effaith debygol ar gydraddoldeb ar gyfer pob grŵp unigol, a nodi pa gamau y gellid eu cymryd i leihau neu wella'r effaith. *Ar gyfer penderfynu ar effaith bosibl, dewiswch o'r canlynol: **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Grŵp gwarchodedig | *Effaith bosibl | **Manylion yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad 2021 ONS. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu |
| Anabledd | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad 2021 ONS. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu.<br><br>Bydd ein gwasanaethau, lleoliadau ac ymyraethau bob amser yn cynnwys hygyrchedd ar gyfer preswylwyr / tenantiaid sy'n byw gydag anableddau.<br><br>Rydym yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau Oedolion i fynd i'r afael ag anghenion tai pobl sydd ag anableddau a bydd y dull hwn o weithio'n parhau trwy gydol cyfnod y cynllun strategol hwn. |
| Rhyw | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad 2021 ONS.<br><br>Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu |
| Ailbennu rhywedd | **Positif** | Nid yw gwybodaeth sy'n benodol i'r grŵp hwn ar gyfer ardal Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd.<br>Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu<br><br>Anogir ein staff i fynychu a chymryd rhan mewn hyfforddiant ynghylch y mater pwysig hwn i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd cyfreithiol, cefnogol a chydlynol. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | **Positif** | Er nad oes unrhyw wybodaeth benodol ar gael ar gyfer y grŵp hwn | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu. |

| Grŵp gwarchodedig | *Effaith bosibl | Manylion yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | Mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Cydraddoldeb / Nodweddion Gwarchodedig. Nid yw'r cynllun hwn yn eithrio nac yn effeithio'n negyddol ar famau beichiog a/neu'r rhai ar absenoldeb mamolaeth. |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad 2021 ONS. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu<br><br>Os bydd angen addasiadau rhesymol i gefnogi tenantiaid BAME sy'n dymuno cyfranogi, bydd yr agweddau hynny'n cael eu cynnwys - gall hyn gynnwys gwasanaethau dehongli, gwybodaeth ysgrifenedig yn eu hieithoedd o ddewis.<br><br>Mae'r Tîm Cydlyniant Rhanbarthol wedi'i leoli yn ein hadran a gall ddarparu gwybodaeth / dogfennau defnyddiol a mynediad at hyfforddiant yn ôl yr angen. |
| Crefydd neu gred | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad 2021 ONS. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu.<br><br>Os bydd angen addasiadau rhesymol i gefnogi tenantiaid sydd â chrefydd neu gred benodol sy'n dymuno cymryd rhan, bydd yr agweddau hynny'n derbyn sylw. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu |

| **Grŵp gwarchodedig** | ***Effaith bosibl** | **Manylion yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | Adroddiad canfyddiadau data ONS Stonewall - Datganiad Stonewall ar Gyfrifiad 2021 \| Stonewall | Nod y cynllun hwn yw darparu eglurder ar y ffordd orau o gefnogi defnyddwyr a dinasyddion gwasanaeth traws a rhywedd amrywiol yn ogystal â sicrhau bod nodweddion eraill, gan gynnwys amddiffyniadau ar sail rhyw, yn derbyn ystyriaeth gywir a chyfreithlon pa bynnag ddull y byddwn yn ei ddefnyddio.<br><br>Mae'r Tîm Cydlyniant Rhanbarthol wedi'i leoli yn ein hadran sy'n golygu bod gennym fynediad at wybodaeth am droseddau casineb yn y gymuned, gan gynnwys troseddau yn erbyn cyfeiriadedd rhywiol, a gall hyn gael effaith gadarnhaol o ran codi mwy o ymwybyddiaeth ymysg staff, a darparu mwy hyfforddiant, er mwyn sicrhau llywodraethiant cyfreithiol llawn wrth i ni ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau mynediad cyfartal i bawb, ni waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol. |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad 2021 ONS. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu<br>Gall unrhyw un gael mynediad at ein gwasanaethau, beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol. |
| | | | |
| Cymraeg | **Positif** | Data Cofrestr Tai.<br>Data Cyfrifiad 2021 ONS. | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu |
| Hawliau Dynol | **Positif** | Gweler c15 | Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu hasesu |
| Unrhyw fater perthnasol arall. | Dim asesiad | Dim asesiad | Ni aseswyd unrhyw fater arall |

| Grŵp gwarchodedig | *Effaith bosibl | **Manylion yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| Mae cysylltiadau clir rhwng cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall gwahaniaethu yn erbyn grwpiau gwarchodedig fod yn achos uniongyrchol anfantais economaidd-gymdeithasol. Os daw unrhyw faterion o'r fath i'r amlwg wrth asesu materion anstrategol, dylid rhoi sylw dyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| Cwblhewch yr adran hon os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1) | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyletswydd economaidd-gymdeithasol** | **Effaith bosibl** | **Manylion yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi unrhyw anghydraddoldebau o ganlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? | Effaith isel | | |



**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posib - cadwch rhain mewn cof wrth gwblhau'r adran nesaf:

- **Dim newid mawr -** mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial ar gyfer gwahaniaethu neu effaith andwyol. Mae'r holl gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb wedi'u cymryd.
- **Addaswch y cynnig -** Mae'r asesiad yn nodi problemau posibl neu gyfleoedd a gollwyd. Addaswch y cynnig i gael gwared ar rwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn nodi'r potensial am effaith andwyol neu gyfleoedd a gollwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Nodi'n glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylid cynnwys y cyfiawnhad yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Mae'n rhaid ei atal, ei ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r canllawiau ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon.)

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 21 - Nodi'r effeithiau a nodwyd a sut y bwriedir lliniaru unrhyw effaith negyddol o ran cydraddoldeb, y Gymraeg ac, os yw'n berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol<br>(h.y. crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3) | Dim newid mawr. |
| 22 - Disgrifio unrhyw gamau a gymerir i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd) ac, os yw'n berthnasol, sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd. | Dim newid mawr. |
| 23 - A fyddai unrhyw agwedd ar y cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Dim newid mawr. |
| 24 - Oes angen edrych ar yr hyn y gellid ei wneud yn wahanol, neu ailystyried y cynnig cyfan o ganlyniad i gynnal yr asesiad hwn?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol olygu bod y cynnig neu'r penderfyniad yn anghyfreithlon. Os ydych wedi nodi effaith negyddol, dylech ystyried ar hyn o bryd a yw'n bosibl bwrw ymlaen â'r cynnig). | Dim newid mawr. |
| 25 - A oes strategaeth ar gyfer delio ag unrhyw effeithiau negyddol anochel ond nad ydynt yn anghyfreithlon na ellir eu lliniaru? | Na. |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / ei anfon ymlaen i'w gymeradwyo? Pwy fydd y penderfynwr? | Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. |
| 27 - A oes trefniadau monitro yn eu lle? Beth ydyn nhw? | Bydd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn cael ei ddiweddaru yn ystod blwyddyn 2 a 3 o gylch 5 mlynedd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. |

**Cam 5: Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion am unrhyw gamau sydd wedi'u cynllunio ar ôl cwblhau eich asesiad. Dylech gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effeithiau effaith negyddol bosibl neu wirioneddol, yn ogystal ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu i gynnal ymchwil pellach.

| Cyf | Camau gweithredu arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Atodiad 1 – Cymru Fwy Cyfartal – Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Dyddiad cychwyn y Ddyletswydd: 31 Mawrth 2021)**

**Beth yw'r ddyletswydd?**

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Pwy sy'n debygol o brofi anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau o ddiddordeb' a 'chymunedau lle', gan arwain at anghydraddoldeb canlyniad, y gellir ei gwylltio ymhellach wrth ystyried 'croestoriad':

**Cymunedau o ddiddordeb** – grwpiau sy'n rhannu profiad, e.e. digartrefedd; neu bobl sy'n rhannu hunaniaeth, e.e. unig rieni, gofalwyr. Hefyd y rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lle** – pobl sy'n cael eu cysylltu gyda'i gilydd oherwydd ble maen nhw'n byw, gweithio, ymweld neu dreulio cyfran sylweddol o'u hamser yno.

**Rhyngblethiad** - yn hanfodol, mae hyn yn ymwneud â deall y ffordd y gall cyfuniad o nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth, gynhyrchu profiadau unigryw ac amlddisgyblaethol o anfantais mewn sefyllfaoedd penodol yn aml. Ni ellir ac ni ddylid deall un math o wahaniaethu ar wahân i ffurfiau eraill. Mae ymagwedd wirioneddol ryngblethol yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

**Pryd fydd y ddyletswydd yn berthnasol?**

wrth wneud **penderfyniadau strategol**. **Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):**

- Cyfarwyddeb a bwriad strategol.
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella).
- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth Gymraeg).
- Newidiadau i wasanaethau cyhoeddus a'u datblygu.
- Cynllunio ariannol strategol.
- Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr.
- Datblygu polisi strategol

**Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn y canllawiau asesu effaith ar gydraddoldeb corfforaethol.**

**Atodiad 2 – Hawliau Dynol**

Hawliau dynol yw hawliau a rhyddid sy'n perthyn i bob unigolyn, waeth beth yw eu cenedligrwydd a'u dinasyddiaeth. Mae 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol – pob un wedi'i gymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At ddibenion y Ddeddf, fe'u gelwir yn 'Hawliau'r Confensiwn'. Maent wedi'u rhestru isod:

(Mae Erthygl 1 yn gyflwyniadol ac nid yw'n cael ei hymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Hawl i gael treial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu
Erthygl 12: Hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 Protocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 Protocol 1: Hawl i addysg
Erthygl 3 Protocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 Protocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu ynddi a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.

**Cymru fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

**Cymru o gymunedau cydlynol:**
Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a chysylltiadau da.

**Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud y fath beth wneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.

# Cyngor Sir Ynys Môn - Templed yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

**Materion i'w hystyried o ran y Gymraeg**

Mae'r templed asesu effaith cydraddoldeb corfforaethol yn cynnwys cwestiynau penodol am effaith penderfyniadau ar y Gymraeg (cwestiynau 11-14). Mae’r graddau y mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut y byddai gweithredu polisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os bydd eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu fod tystiolaeth yn awgrymu y byddai'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu y byddai'n cael effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;



**dylid cynnal asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg.** Cwblhewch y templed hwn a’i atodi i'ch asesiad effaith ar gydraddoldeb ar yr un cynnig.

**Mae dogfen cyngor arfer da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach.

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | **Asesiad o’r Farchnad Dai Leol 2023-28** |
| **Pwy sy'n cynnal yr asesiad hwn?** | **Gwasanaethau Tai – Cynllun Strategol, Comisiynu a Pholisi** |
| **Dyddiad cwblhau’r asesiad** | **Hydref 2024** |

# Cyngor Sir Ynys Môn - Templed yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| **1 - Cydymffurfio â Pholisi'r Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 1.1 Ydi'r cynnig yn ddylanwadol o ran ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• Fydd gweithgareddau fel gohebu trwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• Fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Nac ydi.<br><br>Mae'r Gwasanaethau Tai yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ac yn gweithio gyda phartneriaid sy'n cynnig gwasanaethau dwyieithog.<br><br>Bydd pob gohebiaeth yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| 1.2 Ydi'r cynnig yn debygol o gael effaith ar ddelwedd gyhoeddus y sefydliad?<br><br>• Fydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• Fydd cyhoeddiadau a ffurflenni'n cydymffurfio?<br>• Fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata'n cydymffurfio?<br>• Fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Ydi.<br><br>Bydd unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â'r LHMA hwn yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog. |
| 1.3 Ydi'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithredu'r polisi iaith??<br><br>• Fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br>• Fydd y trefniadau staffio'n hwyluso'r gwaith o weithredu'r polisi iaith? | Ydi, mae datblygu cartrefi yn arwain at gyfleoedd gwaith ar gyfer contractwyr lleol ar yr ynys. |

Tudalen 286

## Cyngor Sir Ynys Môn - Templed yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| **1 - Cydymffurfio â Pholisi'r Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • Fydd y cynnig yn cynnig hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg?<br>• Fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti'n cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• Fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion sy'n ymwneud â'r iaith?<br>• Sut caiff y perfformiad ei fonitro a'i fesur? | |

| **2 – Yr effaith ar ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg** | |
|---|---|
| 2.1 Fydd y cynnig yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• Fydd hi'n bosibl i ddefnyddwyr dderbyn unrhyw ran o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd, yn unol â pholisi'r Cyngor |
| 2.2 Oes risg y bydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith?<br><br>• A roddwyd ystyriaeth yn y cynnig i anghenion siaradwyr Cymraeg?<br>• Ydi siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn gwasanaeth o'r un safon ag a roddir yn Saesneg?<br>• Ydi trefniadau Cymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Nid oes unrhyw wasanaeth newydd yn cael ei greu drwy'r asesiad hwn. |

| 2 – Yr effaith ar ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg | |
|---|---|
| 2.3 Ydi'r cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy?<br><br>• Ydi o'n debygol o gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith trwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br>• Ydi o'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, er enghraifft busnesau?? | Nid oes unrhyw wasanaeth newydd yn cael ei greu drwy'r asesiad hwn.<br><br>Nac ydi. |
| 2.4 Fydd y gwasanaeth Cymraeg yn hygyrch mewn perthynas â'r cynnig?<br>• Fydd y gwasanaeth mor hygyrch yn Gymraeg ag yn Saesneg?<br>• Fydd y gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd, yn unol â pholisi'r Cyngor |

| 3 – Yr effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith | |
|---|---|
| 3.1 Ydi'r cynnig yn debygol o gyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• Ydi o'n debygol o gyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael â heriau demograffig newid a mudo - megis rhoi cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br>• Ydi o'n debygol o gyfrannu at yr economi leol mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwasanaethau gwarchod plant? | Mae'r LHMA yn ategu ein Strategaeth Dai a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg sy'n hyrwyddo'r cyfle i bobl aros yn eu cymunedau ac ar yr Ynys drwy sicrhau bod yna gartrefi digonol ar gyfer anghenion gwahanol aelwydydd.<br><br>Yn ôl y Cyfrifiad, bu gostyngiad o 27.1% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth rhwng 16-64 oed (oedran gweithio), gostyngiad o 8% mewn siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 oed; ond cynnydd o 16% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg dros 65 oed.<br><br>Mae hyn yn golygu ei bod yn hynod bwysig cadw teuluoedd ifanc yma, annog siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i ffwrdd |

| **3 – Yr effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith** | |
|---|---|
| | i ddychwelyd i'r ardal ac annog unigolion i ddysgu Cymraeg er mwyn cynnal yr iaith o leiaf. Mae darparu digon o dai sy'n ddigon fforddiadwy ac o'r math iawn i fynd i'r afael â'r angen yn yr ardal leol ac mewn Canolfan Gwasanaethau Lleol (sy'n lleoliad cynaliadwy i fyw ynddo) yn ffordd bwysig o wneud hyn. |
| 3.2 Ydi'r cynnig yn cymryd camau i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg?<br>• Ydi'r cynnig yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?<br>• Ydi o'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol?<br>• Ydi o'n cynnig gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn y Gymraeg - er enghraifft gweithgareddau a darpariaeth hamdden neu chwaraeon?<br>• Ydi o'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill sy'n ymwneud ag iaith, megis gwaith y fenter Gymraeg leol (Menter Iaith), yr Urdd ac ati | Nid oes unrhyw wasanaeth newydd yn cael ei greu gan ei fod yn asesiad o'r angen am dai. |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg** | |
|---|---|
| 4.1 Polisïau iaith sefydliadau sy'n bartneriaid neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br>• Ydi'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill y mae'r datblygiad yn debygol o gael effaith arnynt?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith Cymraeg? | Nid oes unrhyw wasanaeth newydd yn cael ei greu gan ei fod yn asesiad o'r angen am dai. |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg** | |
|---|---|
| • Ydi’r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? | |
| 4.2 Strategaethau iaith perthnasol:<br><br>• Fydd y cynnig yn cyfrannu at Strategaeth Iaith Fforwm Strategol y Gymraeg Ynys Môn 2016 - 2021 a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?<br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Bydd, bydd yn cynyddu cyfleoedd i bobl gael mynediad at dai yn eu cymunedau a'r Ynys. Gweler 3.1 uchod. |



| **5 – Yr effeithiau a nodwyd ac a aseswyd** | |
|---|---|
| 5.1 Pa effeithiau ydych chi wedi'u nodi (h.y. crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau uchod) ynghyd â'r tebygolrwydd a'r difrifoldeb/arwyddocâd tebygol o effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylwch ar y mesurau lliniaru / opsiynau eraill i leihau effeithiau niweidiol a chynyddu canlyniadau cadarnhaol: | |
| Effaith gadarnhaol | Mae'r LHMA yn rhoi cyfle i gynllunio ar gyfer digon o stoc dai ar gyfer anghenion gwahanol aelwydydd. Mae'r asesiad hefyd yn sicrhau cysondeb â strategaethau a chynlluniau eraill. |
| Effaith niweidiol | Ni nodwyd unrhyw effaith niweidiol. |

| **5 – Yr effeithiau a nodwyd ac a aseswyd** | |
|---|---|
| Cynyddu cyfleoedd i hybu'r Gymraeg e.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, Cymraeg yn y gwaith? | Bydd unrhyw wasanaeth a ddarperir mewn perthynas â'r LHMA yn cael ei ddarparu yn Gymraeg yn unol â safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor |
| Tystiolaeth / data a ddefnyddir i gefnogi eich asesiad: | Cyfrifiad 2011 data ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran |

| **6 – Ymgynghoriad** | |
|---|---|
| 6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi am eu gofyn am effeithiau'r Gymraeg?<br><br>Mae canllawiau wedi'u cynnwys yn y rhestr wirio cyn-ymgynghori a chyn-ymgysylltu, sydd ar gael ar MonITor | Rydym wedi cwblhau Asesiad Effaith ar yr effaith gadarnhaol a negyddol ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Yn eich barn chi, a ydym wedi methu unrhyw beth? |
| 6.2 Gyda phwy ydych chi'n ymgynghori? Sut mae grwpiau diddordeb Cymraeg yn debygol o ymateb? | Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd. |
| 6.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael â materion iaith a godwyd? | Dim newidiadau |

| **7 – Ar ôl ymgynghori, cynigion terfynol a monitro parhaus** | |
| --- | --- |
| 7.1 Crynhowch eich penderfyniadau terfynol, rhestrwch yr effeithiau tebygol ar y Gymraeg a sut y byddwch yn hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>Bydd angen i chi gyfeirio at y crynodeb hwn yn y templed asesu effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad) | Dim effaith negyddol wedi'i nodi |
| 7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi? | **Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y templed asesu effaith cydraddoldeb i nodi unrhyw gamau a gynlluniwyd ar ôl cwblhau'r asesiad.** |